# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

**Dydd Mawrth, 23 Hydref 2012**
**Tuesday, 23 October 2012**

**Cynnwys**
**Contents**


3 Ethol Dirprwy Lywydd Dros Dro
Election of Temporary Deputy Presiding Officer

3 Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

29 Cwestiwn Brys: Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan
Urgent Question: The All Wales Ethnic Minority Association

1 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

46 Datganiad: Canlyniadau Ymgynghoriad 'Cynnal Cymru Fyw'
Statement: The Outcomes of the 'Sustaining a Living Wales' Consultation

59 Datganiad: Ymateb Llywodraeth Cymru i 'Adolygu Ardrethi Busnes Cymru: Cymell Twf'
Statement: The Welsh Government's Response to 'Business Rates Wales Review: Incentivising Growth'

76 Datganiad: Ad-drefnu Addysg Uwch
Statement: Higher Education Reconfiguration

96 Penderfyniad Ariannol ynghylch Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)
Financial Resolution in relation to the Food Hygiene Rating (Wales) Bill

96 Cynnig i Gymeradwyo Egwyddorion Cyffredinol Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)
Motion to Approve the General Principles of the School Standards and Organisation (Wales) Bill

120 Penderfyniad Ariannol ynghylch Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)
Financial Resolution in relation to the School Standards and Organisation (Wales) Bill

120 Y Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol
The Historic Environment Strategy

142 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time


Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m.with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Prynhawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

**The Presiding Officer:** Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

## Ethol Dirprwy Lywydd Dros Dro
## Election of Temporary Deputy Presiding Officer

**The Presiding Officer:** In the absence of the Deputy Presiding Officer, I ask the Assembly to elect a temporary Deputy Presiding Officer for the duration of today's Plenary meeting. Therefore, I invite nominations.

**Y Llywydd:** Yn absenoldeb y Dirprwy Lywydd, gofynnaf i'r Cynulliad ethol Dirprwy Lywydd dros dro ar gyfer cyfnod cyfarfod Llawn heddiw. Felly, yr wyf yn gwahodd enwebiadau.

**Angela Burns:** I nominate Rhodri Glyn Thomas.

**Angela Burns:** Yr wyf yn enwebu Rhodri Glyn Thomas.

**The Presiding Officer:** I declare that Rhodri Glyn Thomas is elected temporary Deputy Presiding Officer for the duration of today's meeting.

**Y Llywydd:** Yr wyf yn datgan bod Rhodri Glyn Thomas wedi ei ethol yn Ddirprwy Lywydd dros dro ar gyfer cyfnod cyfarfod heddiw.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### Gwella Canlyniadau Iechyd

### Improving Health Outcomes

***1. Paul Davies:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella canlyniadau iechyd i bobl Cymru. OAQ(4)0724(FM)*

***1. Paul Davies:*** *Will the First Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to improve health outcomes for the people of Wales. OAQ(4)0724(FM)*

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Mae gwella ansawdd y gwasanaethau iechyd a chanlyniadau iechyd i gleifion yn flaenoriaeth allweddol.

**The First Minister (Carwyn Jones):** Improving the quality of health services and improving health outcomes for patients is a key priority.

**Paul Davies:** Rwy'n siŵr y bydd y Prif Weinidog yn cytuno â mi ei bod yn hollbwysig bod gwasanaethau craidd ar gael i bobl leol, er mwyn sicrhau bod canlyniadau iechyd yn gwella. Mae cynlluniau ad-drefnu Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn cynnwys cau yr uned gofal arbennig i fabanod yn Ysbyty Llwynhelyg. Gallai cau'r uned hon roi bywydau mewn perygl ac, yn ogystal, achosi i adrannau fel pediatreg fod yn anghynaliadwy yn Ysbyty Llwynhelyg yn y dyfodol. Sut y bydd cau'r uned gofal arbennig i fabanod yn Ysbyty Llwynhelyg yn gwella canlyniadau iechyd ar gyfer plant yn sir Benfro?

**Paul Davies:** I am sure that the First Minister will agree with me that it is vital for core services to be available to local people to ensure that health outcomes improve. The reconfiguration plans of the Hywel Dda Local Health Board include the closure of the special care baby unit at Withybush Hospital. Closing that unit could put lives at risk and, in addition, could result in the unsustainability of other departments at Withybush, such as paediatrics, for the future. How will the closure of the special care baby unit at Withybush Hospital improve health outcomes for children in Pembrokeshire?

**Y Prif Weinidog:** Mae cyfle i bobl roi eu barn drwy'r ymgynghoriad sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae'n bwysig dros ben bod pobl yn cael y cyfle i roi eu barn tra bo'r ymgynghoriad ar agor.

**The First Minister:** There is an opportunity for people to put their views forward to the consultation under way. It is very important that people have that opportunity to express their views while the consultation is open.

**Mark Drakeford:** The health impacts of the events in Cardiff on Friday afternoon will be profound and long lasting. Thank you for putting on record the immediate concerns of the Welsh Government for those who were caught up in them. Do you agree that, over the weeks and months to come, the contribution of core services in schools, social services, and housing will be vital in assisting individuals, families, and whole communities in Cardiff to deal with the health impacts of what has taken place?

**Mark Drakeford:** Bydd effeithiau iechyd y digwyddiadau yng Nghaerdydd brynhawn dydd Gwener yn dra sylweddol a hir barhaol. Diolch i chi am roi ar gof a chadw pryderon uniongyrchol Llywodraeth Cymru am y rhai a gafodd eu dal ynddynt. A ydych chi'n cytuno y bydd, dros yr wythnosau a'r misoedd i ddod, cyfraniad y gwasanaethau craidd yn yr ysgolion, gwasanaethau cymdeithasol, a thai yn hollbwysig wrth gynorthwyo unigolion, teuluoedd a chymunedau cyfan yng Nghaerdydd i ymdrin ag effeithiau iechyd yr hyn a ddigwyddodd?

**The First Minister:** I thank the Member for raising this issue. I am sure that we were all deeply shocked by the events that took place in Cardiff over the course of the end of last week, and, indeed, in Prestatyn. I know that Ann Jones, Julie Morgan, and Mark Drakeford have made their views known on these issues and have offered their condolences to the families involved. This was an exceptionally traumatic series of incidents, and, as a Government, we want to offer our deep condolences to those who have been affected, and of course to offer any help that we can for the future. There is a limit to what I can say, given that there are ongoing criminal proceedings. Nevertheless, I wish to put on record my thanks to all the emergency services that were involved for their response, and, indeed, to the wider community for its response and the support that it gave to the families who were affected.

**Y Prif Weinidog:** Diolch i'r Aelod am godi'r mater hwn. Rwyf yn siŵr ein bod i gyd wedi'n syfrdanu gan yr hyn a ddigwyddodd yng Nghaerdydd ddiwedd yr wythnos diwethaf, ac, yn wir, ym Mhrestatyn hefyd. Gwn fod Ann Jones, Julie Morgan, a Mark Drakeford wedi mynegi eu sylwadau ar y materion hyn ac wedi estyn eu cydymdeimlad i'r teuluoedd dan sylw. Roedd hon yn gyfres eithriadol o ddigwyddiadau trawmatig, ac, fel Llywodraeth, rydym yn awyddus i estyn ein cydymdeimlad dwfn i'r rhai yr effeithiwyd arnynt, ac wrth gwrs i gynnig unrhyw gymorth y gallwn ar gyfer y dyfodol. Mae cyfyngiadau ar yr hyn y gallaf ei ddweud, gan fod achos troseddol yn parhau. Serch hynny, yr wyf am nodi ar goedd fy niolch i'r holl wasanaethau brys a oedd yn gysylltiedig, am eu hymateb, ac, yn wir, i'r gymuned ehangach am ei hymateb a'r gefnogaeth a roddwyd i'r teuluoedd yr effeithiwyd arnynt.

**Simon Thomas:** First Minister, in the last year, according to South Wales Police's regional crime intelligence unit, there has been an increase of 165% in offences involving mephedrone in Wales. This drug is now having a real effect on some of our young people. That same report has identified Llanelli as being the hotspot in Wales for the use of mephedrone, and your own constituency is at No. 3. As responsibility for drug prevention rests between the Minister for Local Government and Communities and the Minister for Health and Social Services,

**Simon Thomas:** Brif Weinidog, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn ôl uned ranbarthol cudd-wybodaeth am droseddau Heddlu De Cymru, bu cynnydd o 165% mewn troseddau yn ymwneud â meffedron yng Nghymru. Mae'r cyffur hwn yn cael effaith wirioneddol erbyn hyn ar rai o'n pobl ifanc. Nodwyd yn yr un adroddiad mai yn Llanelli y ceir y mwyaf o broblemau yng Nghymru o ran y defnydd o feffedron, a'ch etholaeth chi eich hun yw Rhif 3. Gan fod y cyfrifoldeb dros atal cyffuriau yn gorwedd rhwng y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

will you lead work in Government to ensure that a taskforce looks at the issue of the abuse of mephedrone in particular, and will you support local campaigns, such as that of the *Llanelli Star*, to get rid of the use of this drug, and to educate young people about its real dangers?

a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a wnewch chi arwain gwaith yn y Llywodraeth i sicrhau y bydd tasglu yn edrych ar y mater o gam-ddefnyddio meffedron yn benodol, ac a wnewch chi gefnogi ymgyrchoedd lleol, fel yr un y *Llanelli Star*, i gael gwared ar y defnydd o'r cyffur hwn, ac i addysgu pobl ifanc am ei wir beryglon?

**The First Minister:** Indeed so. We work hard to ensure that people understand the dangers of all classes of drugs and to reduce their abuse. I visited a centre in the Glanymor ward of Llanelli, which provides help for those who wish to put drugs behind them, and I was exceptionally impressed with the work that is carried out there.

**Y Prif Weinidog:** Yn bendant. Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod pobl yn deall peryglon pob dosbarth o gyffuriau ac i leihau cam-ddefnydd ohonynt. Ymwelais â chanolfan yn ward Glanymor, Llanelli, sy'n darparu cymorth ar gyfer y rhai sy'n dymuno rhoi'r gorau i ddefnyddio cyffuriau, ac fe wnaeth y gwaith sy'n cael ei wneud yno argraff ddofn arnaf.

**Julie Morgan:** The day after the incident in Cardiff last week, to which Mark Drakeford referred, I was able to visit the accident and emergency unit in the Heath hospital in Cardiff North, where all the victims had been taken. Will the First Minister join me in congratulating all the staff at the unit, including the ambulance staff, on the way in which they responded to what was a very traumatic situation? They implemented, for the first time on such a large scale, an emergency protocol in which all the trauma equipment was brought to the A&E department, which was closed to any other admissions.

**Julie Morgan:** Y diwrnod ar ôl y digwyddiad yng Nghaerdydd yr wythnos diwethaf, y cyfeiriodd Mark Drakeford ato, cefais fynd i'r uned damweiniau ac achosion brys yn ysbyty'r Waun yng Ngogledd Caerdydd, lle yr aethpwyd â phawb a oedd wedi'u hanafu. A wnaiff y Prif Weinidog ymuno â mi i longyfarch yr holl staff yn yr uned, gan gynnwys y staff ambiwlans, ar y modd y gwnaethant ymateb i sefyllfa drawmatig iawn? Rhoesant ar waith, am y tro cyntaf ar y fath raddfa, brotocol argyfwng a oedd yn golygu y daethpwyd â'r holl offer trawma i'r adran damweiniau ac achosion brys, a oedd ar gau i unrhyw dderbyniadau eraill.

**The First Minister:** Yes, I will. I praise, once again, the fantastic efforts of all the emergency services that were involved not just in the incident in Cardiff, but also in Prestatyn. It is impossible to predict an incident such as this, although I seem to recall a similar incident in Cardiff in the late 1980s and early 1990s. It is very difficult to rationalise an incident such as this, but I have no doubt that the work that was carried out by all the emergency services helped to make a very difficult and dangerous position better, and to mitigate the effects of what happened that day. I am more than happy, as I am sure all Members are, to thank the emergency services for all the work that they have done.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf yn wir. Rwyf yn canmol, unwaith eto, ymdrechion gwych yr holl wasanaethau brys a oedd yn gysylltiedig, nid yn unig yn y digwyddiad yng Nghaerdydd, ond hefyd ym Mhrestatyn. Mae'n amhosibl rhagweld digwyddiad fel hwn, er fy mod fel petawn i'n cofio digwyddiad tebyg yng Nghaerdydd yn y 1980au hwyr a'r 1990au cynnar. Mae'n anodd iawn rhesymoli digwyddiad o'r fath, ond nid oes gennyf amheuaeth fod y gwaith a wnaed gan yr holl wasanaethau brys wedi helpu i wneud sefyllfa beryglus ac anodd iawn yn well, ac wedi lliniaru effeithiau'r hyn a ddigwyddodd y diwrnod hwnnw . Rwyf yn fwy na pharod, fel yr wyf yn siŵr y mae'r holl Aelodau, i ddiolch i'r gwasanaethau brys am yr holl waith y maent wedi'i wneud.

**Rebecca Evans:** A new UK-wide report from Young Minds published today states that many GPs do not know how to support young people who self-harm, and that 80% of them said that they had not had enough training specific to self-harm. How will the Welsh Government seek to remedy that?

**Rebecca Evans:** Mae adroddiad newydd DU-eang o Young Minds a gyhoeddwyd heddiw yn datgan bod llawer o feddygon teulu nad ydynt yn gwybod sut i gynorthwyo pobl ifanc sy'n hunan-niweidio, a bod 80% ohonynt yn dweud nad oeddent wedi cael digon o hyfforddiant penodol ar hunan-niweidio. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio unioni hynny?

**The First Minister:** In order to address self-harm and suicide, in 2009, we launched 'Talk to me: A National Action Plan to Reduce Suicide and Self Harm in Wales 2008-2013', and we are working closely with the Samaritans to co-ordinate suicide and self-harm prevention initiatives. In doing that, we believe that we can take a holistic approach to this very serious issue.

**Y Prif Weinidog:** Er mwyn mynd i'r afael â hunan-niwed a hunanladdiad, yn 2009, lansiwyd 'Siarad â Fi: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Leihau Hunanladdiad a Hunan-niwed yng Nghymru 2008-2013', ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r Samariaid i gydgysylltu mentrau atal hunanladdiad a hunan-niwed. Wrth wneud hynny, rydym yn credu y gallwn fabwysiadu ymagwedd gyfannol tuag at y mater difrifol iawn hwn.

**Argymhellion Holtham**

**Holtham Recommendations**

***2. Simon Thomas:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei drafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch argymhellion Holtham. OAQ(4)0732(FM)*

***2. Simon Thomas:*** *Will the First Minister make a statement on his discussions with the Secretary of State for Wales with regard to the Holtham recommendations. OAQ(4)0732(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Caiff cyd-ddatganiad ei wneud yfory gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig am y mater hwn.

**The First Minister:** A joint statement will be made tomorrow by the Welsh Government and the UK Government on this matter.

**Simon Thomas:** Diolch am yr ateb hwnnw. Mae'n amlwg na fyddwch yn datgelu i mi yr hyn a gaiff ei ddatgelu yn y cyd-ddatganiad yfory, felly ni ofynnaf beth fydd yn y datganiad hwnnw. Fodd bynnag, gan fod Sue Essex wedi ymddiswyddo o'r comisiwn Silk presennol, a bydd angen ichi fel Plaid Lafur ailbenodi rhywun newydd i'r comisiwn hwnnw, a wnewch chi fanteisio ar y cyfle hwn i danlinellu cefnogaeth eich Llywodraeth chi, a'r Blaid Lafur yng Nghymru, i holl broses y comisiwn Silk?

**Simon Thomas:** Thank you for that reply. It is obvious that you will not be revealing to me what is to be disclosed in that joint statement tomorrow, so I will not ask about its contents. However, given that Sue Essex has resigned from the current Silk commission, and that you as a Labour Party will have to reappoint someone new to that commission, will you take this opportunity to underscore your Government's support and that of the Labour Party in Wales for the whole Silk commission process?

**Y Prif Weinidog:** Gallaf wneud hynny'n gryf iawn. Proses Silk yw'r broses y mae arnom ni fel plaid, a phleidiau eraill, eisiau ei gweld. Rydym yn edrych ymlaen at weld casgliadau rhan 1 comisiwn Silk, ac yn y pen draw, at gasgliadau'r ail ran. Mae'r rhan fwyaf o'r Aelodau yn y Siambr hon eisiau

**The First Minister:** Yes, I can do that most strongly. The Silk process is the process that we, as a party, and that other parties wanted to see. We look forward to seeing the findings of part 1 of the Silk commission, and in due course, the findings of part 2. The majority of Members in this Chamber want to

gweld datganoli yn datblygu yn y dyfodol.

see devolution developing in the future.

**Nick Ramsay:** Simon Thomas has very much stolen my thunder, as that was the question that I was going to ask. Following on from the Member's question, I am sure that you would agree, First Minister, that it is very important that you reconfirm your support for the Silk commission, which to date has received cross-party support, given that there has been concern about the loss of one of the members of that commission. Will you tell us who the Labour Party's new representative on that commission will be?

**Nick Ramsay:** Mae Simon Thomas yn wir wedi achub blaen arnaf, gan mai dyna'r cwestiwn yr oeddwn i am ei ofyn. Yn dilyn ymlaen o gwestiwn yr Aelod, rwyf yn siŵr y byddech yn cytuno, Brif Weinidog, ei bod yn bwysig iawn eich bod yn ail-gadarnhau eich cefnogaeth i gomisiwn Silk sydd hyd yn hyn wedi derbyn cefnogaeth drawsbleidiol, o gofio y bu pryder ynghylch colli un o'r aelodau o'r comisiwn hwnnw. A wnewch chi ddweud wrthym pwy fydd cynrychiolydd newydd y Blaid Lafur ar y comisiwn hwnnw?

**The First Minister:** An announcement will be made on that very shortly, but I can say that it will be somebody very experienced indeed. We fully support the Silk process, and we look forward to the Silk recommendations' being implemented—part 1 as soon as possible, or certainly after the next general election, and part 2 in due course, with the passage of a new Government of Wales Bill at the appropriate time.

**Y Prif Weinidog:** Gwneir cyhoeddiad ar hynny yn fuan iawn, ond gallaf ddweud y bydd yn rhywun hynod brofiadol. Rydym yn llwyr gefnogi proses Silk, ac rydym yn edrych ymlaen at weld argymhellion Silk yn cael eu rhoi ar waith—rhan 1 cyn gynted ag y bo modd, neu yn sicr ar ôl yr etholiad cyffredinol nesaf, a rhan 2 yn ei dro, drwy gymeradwyo Bil Llywodraeth Cymru newydd ar yr adeg briodol.

### Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

### Questions Without Notice from the Party Leaders

**The Leader of Plaid Cymru (Leanne Wood):** I want, first, to place on record Plaid Cymru's condolences to all those families affected by the tragic events at the weekend in the north and the south of our country, and also to thank the emergency services. First Minister, your colleague, Chris Bryant, wrote an open letter to Cwm Taf Local Health Board expressing his concerns about the proposals to reduce A&E services in the south of Wales. He writes in the *Rhondda Leader,*

**Arweinydd Plaid Cymru (Leanne Wood):** Hoffwn, yn gyntaf, gofnodi cydymdeimlad Plaid Cymru â'r holl deuluoedd yr effeithiwyd arnynt gan y digwyddiadau trasig dros y penwythnos yng ngogledd a de ein gwlad, a hefyd ein diolch i'r gwasanaethau brys. Prif Weinidog, ysgrifennodd eich cydweithiwr, Chris Bryant, lythyr agored at Fwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf yn mynegi ei bryderon am y cynigion i gwtogi gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn ne Cymru. Mae'n ysgrifennu yn y *Rhondda Leader,*

'Those at the top end of either Rhondda Valley…could well be facing a one-way journey to hospital of significantly more than an hour from when an ambulance was requested, which I regard as excessive and unacceptable.'

'Gallai'r rhai ar ben uchaf Cwm Rhondda ... yn hawdd fod yn wynebu taith un-ffordd i'r ysbyty a fyddai'n cymryd yn sylweddol fwy nag awr o'r adeg pryd y galwyd am ambiwlans, ac rwyf yn ystyried hyn yn eithafol ac yn annerbyniol.'

Can you tell us, First Minister, what you would regard as excessive and unacceptable, please?

A allwch chi ddweud wrthym, Brif Weinidog, beth fyddech chi'n ei ystyried yn eithafol ac yn annerbyniol, os gwelwch yn dda?

**The First Minister:** He is a Member of Parliament representing his views in a consultation process, as he properly should.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n Aelod Seneddol sy'n dweud ei farn mewn proses ymgynghori, yn union fel y dylai.

**Leanne Wood:** First Minister, I asked what you think. He is a member of your party. Another of your colleagues, Peter Hain, said in last week's *Western Mail* that local ambulance services are under desperate pressure, in a story in which he claimed that emergency response times are being missed because many stations in south Wales either remain closed or are open with virtually no staff. Is there any truth to Peter Hain's accusations?

**Leanne Wood:** Brif Weinidog, gofyn am eich barn chi wnes i .Mae e'n aelod o'ch plaid. Dywedodd un arall o'ch cydweithwyr, Peter Hain, yn y *Western Mail* yr wythnos diwethaf bod gwasanaethau ambiwlans lleol o dan bwysau enbyd, mewn stori lle y mae ef yn honni nad yw amseroedd ymateb i argyfwng yn cael eu cyflawni oherwydd bod llawer o orsafoedd yn ne Cymru naill ai'n aros ar gau neu eu bod ar agor gyda bron dim staff. A oes unrhyw wirionedd i gyhuddiadau Peter Hain?

**The First Minister:** What we want to see—and we are talking about devolved issues and the Welsh Government here—is a health service that allows people access to services that are as local and as safe as possible.

**Y Prif Weinidog:** Yr hyn yr ydym yn dymuno ei weld—ac yr ydym yn sôn am faterion datganoledig a Llywodraeth Cymru yn hyn o beth—yw gwasanaeth iechyd sy'n caniatáu i bobl gael mynediad at wasanaethau sydd mor lleol ac mor ddiogel â phosibl.

**Leanne Wood:** First Minister, in an emergency situation, prompt treatment is the difference between life and death. Plaid Cymru wants to see our A&E network open and we would look to upgrade our ambulance services rather than keeping ambulance stations closed. The criticisms that I have outlined are very public criticisms of your Government policy from your own party, and show a clear gap between vision and delivery. How can you assure people that increased journey times to hospitals as a result of your Government's reconfiguration in the health service is not going to put people at risk?

**Leanne Wood:** Brif Weinidog, mewn sefyllfa o argyfwng, triniaeth brydlon yw'r gwahaniaeth rhwng bywyd a marwolaeth. Mae Plaid Cymru eisiau gweld ein rhwydwaith damweiniau ac achosion brys ar agor a byddem yn gobeithio uwchraddio ein gwasanaethau ambiwlans yn hytrach na chadw gorsafoedd ambiwlans ar gau. Mae'r feirniadaeth yr wyf wedi ei hamlinellu yn feirniadaeth gyhoeddus iawn o bolisi eich Llywodraeth gan eich plaid eich hun ac mae'n dangos bwlch eglur rhwng gweledigaeth a chyflawniad. Sut y gallwch chi sicrhau pobl nad yw'r amseroedd teithio i ysbytai o ganlyniad i'r ad-drefnu gan eich Llywodraeth yn y gwasanaeth iechyd yn mynd i roi pobl mewn perygl?

**The First Minister:** The leader of Plaid Cymru is confused about this, because we know that there are centres, in south Wales particularly, where people are taken if they have particular conditions. Or is she saying that if somebody has severe burns they should not be taken to Morriston Hospital, but to a local A&E unit? Prompt treatment is important, she is right, but prompt treatment by the right people is also important. Any doctor will tell you that.

**Y Prif Weinidog:** Mae arweinydd Plaid Cymru yn ddryslyd am hyn, gan ein bod yn gwybod bod canolfannau, yn ne Cymru yn arbennig, lle yr eir â phobl os oes ganddynt gyflyrau penodol. Neu a yw hi'n dweud, os oes rhywun wedi dioddef llosgiadau difrifol, na ddylid mynd â hwy i Ysbyty Treforys, ond i uned damweiniau ac achosion brys leol yn hytrach? Mae hi'n iawn yn dweud bod triniaeth brydlon yn bwysig, ond mae triniaeth brydlon gan y bobl iawn yn bwysig

hefyd. Bydd unrhyw feddyg yn dweud hynny wrthych.

**The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):** I, too, join in the sentiments expressed by many Members around the Chamber this afternoon about the pure evil that visited the streets of Cardiff on Friday and the consequences that it wrought on many innocent people as they went about their everyday lives, and also about the issue in north Wales over the tragic house fire that claimed four lives. I would like to take it a little further. Tragically, Wales has had a very bleak couple of weeks: we have had the abduction of April Jones, the abduction of the veterinary surgeon in north Wales, and these events over the weekend. Sadly, Wales was leading the headlines for all the wrong reasons on the weekend. We are a proud country and a country of communities that look after people, and I think it important that the message comes across from the Chamber today that, despite these horrors, we have much to be proud of in this country, we stand by people who fall on very difficult times, and these headlines are not a true picture of what Wales is about. I look forward to the First Minister joining in with those sentiments.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies):** Rwyf finnau, hefyd, yn ymuno yn y teimladau a fynegwyd gan Aelodau o gwmpas y Siambr y prynhawn yma am y drwg pur a ymwelodd â strydoedd Caerdydd ddydd Gwener a'r canlyniadau i lawer o bobl ddiniwed wrth iddynt ymwneud â'u bywydau bob dydd, a hefyd am y mater yng ngogledd Cymru ynglŷn â'r tân tŷ trasig a laddodd pedwar o bobl. Hoffwn fynd â hyn ychydig ymhellach. Yn drasig, mae Cymru wedi dioddef wythnos neu ddwy ddu iawn: rydym wedi gweld cipio April Jones, cipio'r milfeddyg yng ngogledd Cymru, a'r digwyddiadau hyn dros y penwythnos. Yn drist, roedd Cymru ar frig y penawdau am yr holl resymau anghywir ar y penwythnos. Rydym yn wlad falch a gwlad o gymunedau sy'n gofalu am bobl, ac rwyf yn credu ei bod yn bwysig fod y neges yn glir o'r Siambr heddiw, sef bod gennym lawer i ymfalchïo ynddo yn y wlad hon, er gwaethaf yr erchyllterau, rydym yn cefnogi pobl pan ddaw adfyd i'w rhan, ac nid yw'r penawdau hyn yn ddarlun cywir o'r hyn yw Cymru. Rwyf yn edrych ymlaen at glywed y Prif Weinidog yn ymuno â'r teimladau hynny.

**The First Minister:** I do not think that the leader of the opposition has said anything that I could disagree with.

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn credu bod arweinydd yr wrthblaid wedi dweud unrhyw beth y gallwn anghytuno ag ef.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you for that, First Minister. Yesterday, in Barry, we launched a proposal for high street regeneration. Many high streets across Wales are key civic pride indicators. If a high street is vibrant, people often form a view of what the community within that civic area feels about its high street and the businesses on it. What is your view, and what support is your Government giving to the many small businesses that are facing a very tough trading climate with declining footfalls and declining spending in their shops?

**Andrew R.T. Davies:** Diolch i chi am hynna Brif Weinidog. Ddoe, yn y Barri, lansiwyd cynnig gennym ar gyfer adfywio'r stryd fawr. Mae llawer i stryd fawr ar draws Cymru yn ddangosyddion allweddol o falchder dinesig. Os yw'r stryd fawr yn fywiog, mae pobl yn aml yn ffurfio barn ar yr hyn y mae'r gymuned yn yr ardal ddinesig honno yn ei deimlo am ei stryd fawr a'r busnesau sydd arni. Beth yw eich barn chi, a pha gymorth y mae eich Llywodraeth yn ei roi i'r busnesau bach niferus sy'n wynebu hinsawdd masnachu anodd iawn gyda llai o gwsmeriaid a llai o wario yn eu siopau?

**The First Minister:** As the leader of the opposition knows, following my questions, there will be a statement on business rates from the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science.

**Y Prif Weinidog:** Fel y mae arweinydd yr wrthblaid yn gwybod, yn dilyn fy nghwestiynau, bydd datganiad ar ardrethi busnes gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth.

**Andrew R.T. Davies:** I am a little disappointed with that answer, First Minister, because my question was not just about offering support for business rates. The document that we brought forward yesterday, 'A Vision for the Welsh High Street', touched on many examples of support, such as developing a night-time strategy, help with business rates, the planning process and general regeneration. A third of our council areas do not even have a high street manager to co-ordinate their approach to regeneration in their own areas. There is much in this document to be commended, and it has the backing of the Federation of Small Businesses and many other organisations. Could I commend it to you, First Minister, so that many of the easy hits that could be delivered, with key targets to help to regenerate our high streets and offer some respite from the current difficult financial trading conditions that many small businesses face, could be adopted by your Government? I would look forward to working with your Government to bring those into reality, so that we can help many of our small businesses, which make up 99% of the business community in Wales.

**Andrew R.T. Davies:** Yr wyf braidd yn siomedig â'r ateb yna, Brif Weinidog, oherwydd nid oedd fy nghwestiwn yn ymwneud yn unig â'r cymorth ar gyfer ardrethi busnes. Mae'r ddogfen a ddygwyd ymlaen gennym ddoe, 'Gweledigaeth ar gyfer Stryd Fawr Cymru', yn sôn am lawer o enghreifftiau o gymorth, megis datblygu strategaeth ar gyfer y nos, cymorth ag ardrethi busnes, y broses gynllunio ac adfywio cyffredinol. Nid oes gan draean o ardaloedd ein cynghorau reolwr stryd fawr, hyd yn oed, i gydgysylltu eu hymagwedd at adfywio yn eu hardaloedd eu hunain. Mae llawer yn y ddogfen hon i'w ganmol, ac mae wedi cael cefnogaeth y Ffederasiwn Busnesau Bach a llawer o sefydliadau eraill. A gaf i ei chymeradwyo i chi, Brif Weinidog, fel bod llawer o'r camau rhwydd y gellid eu cyflwyno, gyda thargedau allweddol i helpu i adfywio'n stryd fawr a chynnig rhywfaint o hoe rhag yr amodau ariannol anodd y mae llawer o fusnesau bach yn eu hwynebu wrth fasnachu ar hyn o bryd, yn cael eu mabwysiadu gan eich Llywodraeth? Byddwn yn edrych ymlaen at weithio gyda'ch Llywodraeth i'w gwireddu, fel y gallwn helpu llawer o'n busnesau bach, sy'n ffurfio 99% o'r gymuned fusnes yng Nghymru.

1.45 p.m.

**The First Minister:** We will study any proposal with interest. We need to understand that the major issue that faces the high street is the falling footfall, as the leader of the opposition says. Yes, business rates are an issue, I accept that, but we know that a lot of small shops are under pressure not just from supermarkets, but from the internet. Online sales are a serious issue for many small shops. There are some who have prospered because their online sales are far bigger than their high street sales and they are effectively able to use one in order to support the other. There are two issues that we need to understand. First, there are clearly some high streets that are doing better than others; Cowbridge, for example, is doing very well and its economic profile is higher than that of many other parts of Wales. Secondly, we are giving consideration to ensuring that the high street has a different mix of businesses in the future. We will never go back to the days

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn astudio unrhyw gynnig gyda diddordeb. Mae angen i ni ddeall mai'r brif broblem sy'n wynebu'r stryd fawr yw nifer y cwsmeriaid, fel y mae arweinydd yr wrthblaid yn ei ddweud. Ydynt, mae, ardrethi busnes yn broblem, rwyf yn derbyn hynny, ond rydym yn gwybod bod llawer o siopau bach dan bwysau nid yn unig gan archfarchnadoedd, ond gan y rhyngrwyd hefyd. Mae gwerthiannau ar-lein yn fater difrifol i lawer o siopau bach. Mae rhai wedi ffynnu oherwydd bod eu gwerthu ar-lein yn llawer mwy na'u harwerthiannau ar y stryd fawr ac maent yn gallu defnyddio'r naill er mwyn cefnogi'r eraill. Mae dau fater y mae angen i ni eu deall. Yn gyntaf, mae'n amlwg bod ambell i stryd fawr sy'n gwneud yn well nag eraill; mae'r Bont-faen, er enghraifft, yn gwneud yn dda iawn ac mae proffil economaidd y dref yn uwch nag a geir mewn nifer o rannau eraill o Gymru. Yn ail, rydym yn rhoi ystyriaeth i sicrhau y bydd y stryd

when the high streets were full of shops. It just will not happen in the future because shopping habits have changed. That means, of course, that we need to look at how we can create a mix of cafes and business and retail outlets in order to ensure the vibrancy of our town centres in the future.

fawr yn cynnwys gwahanol gymysgedd o fusnesau yn y dyfodol. Ni fyddwn fyth yn mynd yn ôl i'r dyddiau pan oedd y stryd fawr yn llawn siopau. Ni fydd hynny'n digwydd yn y dyfodol oherwydd bod arferion siopa wedi newid. Mae hynny'n golygu, wrth gwrs, bod angen i ni edrych ar sut y gallwn greu cymysgedd o gaffis a busnesau ac allfeydd manwerthu er mwyn sicrhau bywiogrwydd canol ein trefi yn y dyfodol.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** First Minister, last week there was a great deal of concern expressed by not just Peter Hain, but staff of the Welsh Ambulance Services NHS Trust about the huge pressure that that organisation was under. What budget has been set for the ambulance trust this year?

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Brif Weinidog, yr wythnos diwethaf, mynegwyd cryn dipyn o bryder, nid yn unig gan Peter Hain, ond hefyd gan staff Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru am y pwysau anferth sydd ar y sefydliad. Pa gyllideb sydd wedi ei phennu ar gyfer yr ymddiriedolaeth ambiwlans eleni?

**The First Minister:** As the leader of the Liberal Democrats knows, the draft budget statement has been put in place and there will be work done over the course of the next few months in terms of going through the budget in detail.

**Y Prif Weinidog:** Fel y mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn gwybod, mae datganiad drafft y gyllideb wedi ei sefydlu, a gwneir gwaith yn ystod y misoedd nesaf i fynd drwy'r gyllideb yn fanwl.

**Kirsty Williams:** As I am sure the First Minister knows, there is no distinct line in the Welsh budget for the Welsh ambulance trust. The reason why he cannot find the answer in his file is that, six months into this financial year, no budget has been set for the ambulance trust. The uncertainty as a result of that means that the Welsh ambulance trust is unable to meet the Government's own response time targets and people are being put at risk. First Minister, is that any way to run an emergency service in the twenty-first century?

**Kirsty Williams:** Fel yr wyf yn siŵr y gŵyr y Prif Weinidog, nid oes llinell benodol yng nghyllideb Cymru ar gyfer ymddiriedolaeth ambiwlans Cymru. Y rheswm na all ddod o hyd i'r ateb yn ei ffeil yw, chwe mis i mewn i'r flwyddyn ariannol hon, nid oes cyllideb wedi ei phennu ar gyfer yr ymddiriedolaeth ambiwlans. Mae'r ansicrwydd o ganlyniad i hynny yn golygu nad yw ymddiriedolaeth ambiwlans Cymru yn gallu cyflawni targedau amseroedd ymateb y Llywodraeth eu hunan ac mae pobl yn cael eu rhoi mewn perygl. Brif Weinidog, ai dyma'r ffordd i redeg gwasanaeth brys yn yr unfed ganrif ar hugain?

**The First Minister:** If the leader of the Liberal Democrats has any suggestion or any evidence that people are being put at risk, we, and the Welsh public, would like to see that. She also gives the impression that, somehow, no ambulances are running because there is no budget. The reality is that we have met our ambulance response times on most occasions during the course of the last year, and we continue to work to improve things where those targets, on occasion, fall short.

**Y Prif Weinidog:** Os oes gan arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol unrhyw awgrym neu unrhyw dystiolaeth fod pobl yn cael eu rhoi mewn perygl, byddem ni, a'r cyhoedd yng Nghymru, yn hoffi ei gweld. Mae hi hefyd yn rhoi'r argraff, rywsut, nad oes unrhyw ambiwlansiau yn rhedeg gan nad oes unrhyw gyllideb. Y gwir amdani yw ein bod wedi cyflawni ein hamseroedd ymateb ambiwlansiau ar y rhan fwyaf o achlysuron yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac rydym yn

parhau i weithio i wella pethau pan nad yw'r targedau hynny, yn achlysurol, yn cael eu cyflawni.

**Kirsty Williams:** The reality, First Minister, is that the Welsh ambulance trust missed your Government's 65% target in the summer. I think we can be assured that, when the results are published next, it will have missed it again. The ambulance trust set a deadline of June this year to finalise budget discussions. This has not happened and the chair of the trust stated publicly at its board meeting on Friday that this was because of the intransigence of health boards and the unhelpfulness of your Minister. Will you now personally intervene to set a budget so that when the people of Wales ring 999, they get the response they deserve?

**Kirsty Williams:** Y gwir amdani, Brif Weinidog, yw bod ymddiriedolaeth ambiwlans Cymru wedi methu â chyflawni targed eich Llywodraeth o 65% yn ystod yr haf. Rwyf yn meddwl y gallwn ni fod yn sicr, pan gyhoeddir y canlyniadau nesaf, y bydd wedi methu eto. Gosododd yr ymddiriedolaeth ambiwlans derfyn amser, sef mis Mehefin eleni i gwblhau trafodaethau ar y gyllideb. Nid yw hyn wedi digwydd a dywedodd cadeirydd yr ymddiriedolaeth yn gyhoeddus yng nghyfarfod y bwrdd ddydd Gwener mai'r rhesymau am hyn oedd anhyblygrwydd y byrddau iechyd ac amharodrwydd eich Gweinidog i fod o gymorth. A wnewch chi ymyrryd yn bersonol yn awr i bennu cyllideb fel bod pobl Cymru yn cael yr ymateb y maent yn ei haeddu pan eu bod yn ffonio 999.

**The First Minister:** First, I do not accept that the response is a bad response. Secondly, if the person that you mention felt like saying that publicly, perhaps they would like to say that to Ministers personally, rather than saying it in a forum where Ministers are not present. Then we will test the rigorousness of that argument.

**Y Prif Weinidog:** Yn gyntaf, nid wyf yn derbyn bod yr ymateb yn ymateb gwael. Yn ail, os oedd y person yr ydych yn sôn amdano yn teimlo fel dweud hynny yn gyhoeddus, efallai y byddai'n hoffi ei ddweud wrth Weinidogion yn bersonol, yn hytrach na'i ddweud mewn fforwm lle nad yw Gweinidogion yn bresennol. Yna byddwn yn gallu profi cywirdeb y ddadl honno.

### Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Health and Social Services

***3. Jenny Rathbone:*** *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella'r rhyngwyneb rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. OAQ(4)0729(FM)*

***3. Jenny Rathbone:*** *What is the Welsh Government doing to improve the interface between health and social services. OAQ(4)0729(FM)*

**The First Minister:** It will be reflected in the forthcoming social services Bill and will be an important part of our reform plans set out in our White Paper 'Sustainable Social Services'.

**Y Prif Weinidog:** Bydd yn cael ei adlewyrchu yn y Bil gwasanaethau cymdeithasol sydd ar ddod a bydd yn rhan bwysig o'n cynlluniau diwygio a nodir yn ein Papur Gwyn 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy'.

**Jenny Rathbone:** In my short debate last week on dementia, I outlined the problems faced by people with dementia and their families after a hospital stay. Many people stay in hospital long after their medical needs have been met because of the services that may or may not be available in the

**Jenny Rathbone:** Yn fy nadl fer yr wythnos diwethaf ar ddementia, amlinellais y problemau a wynebir gan bobl â dementia a'u teuluoedd ar ôl arhosiad yn yr ysbyty. Mae llawer o bobl yn aros yn yr ysbyty am gyfnod hir ar ôl i'w hanghenion meddygol gael eu bodloni oherwydd y gwasanaethau sydd ar

community. Will the First Minister tell us how health and social services are being encouraged to work together more seamlessly so that people can get the service they need, particularly at home, which is where they almost always want to be?

gael, neu nad ydynt ar gael yn y gymuned. A wnaiff y Prif Weinidog ddweud wrthym sut y mae maes iechyd a’r gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu hannog i weithio gyda’i gilydd yn fwy di-dor fel y gall pobl gael y gwasanaeth y mae ei angen arnynt, yn enwedig gartref, lle y maent bron bob amser yn dymuno bod?

**The First Minister:** The social services Bill will contain proposed powers to help to promote the development of more integrated services in Wales. This will include powers relating to the creation of formal partnerships, pooled budgets and other flexibilities.

**Y Prif Weinidog:** Bydd y Bil gwasanaethau cymdeithasol yn cynnwys pwerau arfaethedig i helpu i hyrwyddo datblygu gwasanaethau mwy integredig yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys pwerau sy’n ymwneud â chreu partneriaethau ffurfiol, cyllidebau cyfun a dulliau hyblyg eraill.

**William Graham:** First Minister, will you outline your Government’s strategy to better co-ordinate the transition from child to adult services and remark on whether this is a priority for your Government?

**William Graham:** Brif Weinidog, a wnewch chi amlinellu strategaeth eich Llywodraeth i wella cydgysylltu’r trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion a datgan pa un a yw hyn yn flaenoriaeth i’ch Llywodraeth?

**The First Minister:** We know that it is important that there is seamlessness between child and adult social services, and the social services Bill, as already outlined, will help to create that seamlessness. We also have the integrated services framework, which sets out our expectations on progress as to the future.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn gwybod ei bod yn bwysig bod trosglwyddo o’r gwasanaethau cymdeithasol plant i’r gwasanaethau oedolion yn digwydd yn ddi-dor, a bydd y Bil gwasanaethau cymdeithasol, fel yr amlinellwyd eisoes, yn helpu i greu hynny. Mae gennym hefyd y fframwaith gwasanaethau integredig, sy’n nodi ein disgwyliadau ar y cynnydd ar gyfer y dyfodol.

**Lindsay Whittle:** How will the new initiative Lles Cymru contribute to a national strategy for health improvement and, in particular, mental health?

**Lindsay Whittle:** Sut y bydd y fenter Lles Cymru newydd yn cyfrannu at strategaeth genedlaethol ar gyfer gwella iechyd ac, yn enwedig, iechyd meddwl?

**The First Minister:** It is intended to supplement the work that is being done already in order to improve social services in Wales. With this, as with other things, the intention is to create a seamless link between different parts of social services and between social services and health.

**Y Prif Weinidog:** Bwriedir ategu’r gwaith sy’n cael ei wneud eisoes er mwyn gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Gyda hyn, fel gyda phethau eraill, y bwriad yw creu cysylltiad di-dor rhwng gwahanol rannau o’r gwasanaethau cymdeithasol a rhwng gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd.

### Twf Economaidd yn Islwyn

### Economic Growth in Islwyn

***4. Gwyn R. Price:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu twf economaidd yn Islwyn. OAQ(4)0727(FM)*

***4. Gwyn R. Price:*** *Will the First Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to encourage economic growth in Islwyn. OAQ(4)0727(FM)*

**The First Minister:** Yes, it is set out in the programme for government.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf, mae wedi ei nodi yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu.

**Gwyn R. Price:** Thank you for that answer. First Minister, the emphasis that you place on growth and jobs is in stark contrast to the no-growth strategy that we see from the United Kingdom Government. Do you share my view that investment in education and training is the best route to sustainable growth and that that should be reflected in any budget for growth?

**Gwyn R. Price:** Diolch i chi am yr ateb yna. Brif Weinidog, mae'r pwyslais a roddwch ar dwf a swyddi mewn gwrthgyferbyniad llwyr â'r strategaeth dim twf a welwn gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. A ydych yn rhannu fy marn mai buddsoddi mewn addysg a hyfforddiant yw'r llwybr gorau i dwf cynaliadwy ac y dylai hynny gael ei adlewyrchu mewn unrhyw gyllideb ar gyfer twf?

**The First Minister:** We know that investment in skills and training is vital for sustainable economic growth. That is why we have the Young Recruits programme, Jobs Growth Wales and the Pathways to Apprenticeships programme. If we look at the economic statistics for the last quarter—although I understand that it is one quarter and not enough to establish a trend—we see encouraging signs that the Welsh Government's policies are having an effect.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn gwybod bod buddsoddi mewn sgiliau a hyfforddiant yn hanfodol ar gyfer twf economaidd cynaliadwy. Dyna pam mae gennym y rhaglen Recriwtiaid Ifanc, Twf Swyddi Cymru a'r rhaglen Llwybrau at Brentisiaethau. Os ydym yn edrych ar yr ystadegau economaidd ar gyfer y chwarter diweddaraf—er fy mod yn deall mai un chwarter yw hwn ac nad yw'n ddigon i sefydlu tuedd—rydym yn gweld arwyddion calonogol bod polisïau Llywodraeth Cymru yn cael effaith.

**Mohammad Asghar:** Access to a fast internet connection is essential to the growth of businesses in Islwyn and other economically deprived areas of Wales. In a recent report, the House of Commons Welsh Affairs Committee said that the Welsh economy is being damaged by poor broadband provision and that

'latest figures show that the gap between Wales and the UK has widened'.

Given that the Welsh Government has a target to provide all Welsh businesses with access to next generation broadband by the middle of 2016, will the First Minister confirm that he is on track to meet that target, which will benefit the economy of areas such as Islwyn and south-east Wales?

**Mohammad Asghar:** Mae mynediad at gysylltiad rhyngrwyd cyflym yn hanfodol i dwf busnesau yn Islwyn ac mewn ardaloedd economaidd ddifreintiedig eraill yng Nghymru. Mewn adroddiad diweddar, dywedodd Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin fod economi Cymru yn cael ei difrodi gan ddarpariaeth band eang gwael, a bod

'y ffigurau diweddaraf yn dangos bod y bwlch rhwng Cymru a'r DU wedi ehangu'.

O gofio bod gan Lywodraeth Cymru darged i ddarparu band eang y genhedlaeth nesaf ar gyfer holl fusnesau Cymru erbyn canol 2016, a wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau ei fod ar y trywydd iawn i gyflawni'r targed hwnnw, a fydd o fantais i economi ardaloedd megis Islwyn a de-ddwyrain Cymru?

**The First Minister:** Yes.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf.

**Jocelyn Davies:** First Minister, I understand that Welsh Government officials have been in contact with the Real Crisps owners, and I

**Jocelyn Davies:** Brif Weinidog, deallaf fod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad gyda pherchnogion Real

know that their efforts are much appreciated. If redundancies result from the destruction of its Crumlin factory in Islwyn by arson, will you endeavour to put a retraining package in place for those workers who are affected?

Crisps, a gwn fod eu hymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Os bydd diswyddiadau yn deillio o ddinistrio eu ffatri yng Nghrymlyn yn Islwyn drwy losgi bwriadol a wnewch chi ymdrechu i roi pecyn ailhyfforddi ar waith ar gyfer y gweithwyr hynny yr effeithir arnynt?

**The First Minister:** The first objective is to make sure that people return to work at Real Crisps at the earliest possible opportunity. As you said, officials have been looking to support the staff affected by the incident. I know that officials continue to liaise with Careers Wales and Jobcentre Plus. Work is taking place at the moment between the company, us and the two aforementioned organisations to provide assistance to those who were working at the factory. However, our immediate priority is to make sure that the facility reopens at some point in the future. In the meantime, we will look to put in place as much support as we can in order to help people to bridge that gap.

**Y Prif Weinidog:** Yr amcan cyntaf yw gwneud yn siŵr fod pobl yn dychwelyd i weithio yn Real Crisps ar y cyfle cyntaf posibl. Fel y dywedasoch, mae swyddogion wedi bod yn chwilio am ffyrdd o gefnogi staff yr effeithiwyd arnynt gan y digwyddiad. Gwn fod swyddogion yn parhau i drafod gyda Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd rhwng y cwmni, ni a'r ddau sefydliad uchod i roi cymorth i'r rhai a oedd yn gweithio yn y ffatri. Fodd bynnag, ein blaenoriaeth gyntaf yw sicrhau bod y cyfleuster yn ailagor ar ryw adeg yn y dyfodol. Yn y cyfamser, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o gefnogaeth â phosibl ar waith er mwyn helpu pobl i bontio'r bwlch hwnnw.

**Cyllid Llywodraeth Lleol**

**Local Government Finances**

***5. Janet Finch-Saunders:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru. OAQ(4)0721(FM)*

***5. Janet Finch-Saunders:*** *Will the First Minister make a statement on Local Government finances in Wales. OAQ(4)0721(FM)*

**The First Minister:** Yes, a written statement was issued on 16 October.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf, cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig ar 16 Hydref.

**Janet Finch-Saunders:** It was reported by the BBC last week that local authorities are increasingly being put under strain due to the costs associated with the processing of freedom of information requests. Will the First Minister join me in saying that local authorities should be encouraged to do more to increase transparency, for example by publishing a great deal more online and publishing more of their expenditure, in order to minimise the effects of the burdens placed by freedom of information requests?

**Janet Finch-Saunders:** Adroddwyd gan y BBC yr wythnos diwethaf bod awdurdodau lleol yn cael eu rhoi o dan bwysau cynyddol oherwydd y costau sy'n gysylltiedig â phrosesu ceisiadau rhyddid gwybodaeth. A wnaiff y Prif Weinidog ymuno â mi i ddweud y dylai awdurdodau lleol gael eu hannog i wneud mwy i gynyddu tryloywder, er enghraifft, drwy gyhoeddi llawer iawn mwy ar-lein a chyhoeddi mwy o'u gwariant, er mwyn lleihau effaith y beichiau a osodir gan geisiadau rhyddid gwybodaeth?

**The First Minister:** Of course, local authorities are able, as are all levels of government, to refuse freedom of information requests where it is assessed that the resources that would have to be devoted to satisfying those requests are excessive. That

**Y Prif Weinidog:** Wrth gwrs, caiff awdurdodau lleol, fel y caiff pob lefel o lywodraeth, wrthod ceisiadau rhyddid gwybodaeth pryd yr asesir bod yr adnoddau y byddai'n rhaid eu neilltuo i fodloni'r ceisiadau hynny yn ormodol. Mae hynny'n

is something that this Government has to put in place from time to time, and local authorities are able to do that if they can justify doing so.

rhywbeth y mae'r Llywodraeth hon yn gorfod ei roi ar waith o bryd i'w gilydd, a chaiff awdurdodau lleol wneud hynny os gallant ei gyfiawnhau.

**Ieuan Wyn Jones:** Brif Weinidog, fel y gwyddom, mae cynghorau sir yn wynebu toriadau llym yn eu cyllidebau. Mae angen rhoi mwy o gyngor i bobl oherwydd y newidiadau i'r wladwriaeth les ac oherwydd eu bod yn wynebu'r wasgfa economaidd fwyaf ers cenhedlaeth. Pam, felly, y mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi brigdorri £10 miliwn o gyllidebau cynghorau sir ar gyfer rhoi grantiau ar gyfer cydweithio? Mewn gwirionedd, onid yw hynny'n cosbi cynghorau sydd eisoes yn cydweithio, ac felly onid ydyw'n annheg?

**Ieuan Wyn Jones:** First Minister, county councils, as we know, are facing harsh cuts in their budgets. We need to give more advice to people because of changes to the welfare system and because they are facing the greatest economic pressures for a generation. Why, then, has the Minister for Local Government and Communities top-sliced £10 jkmillion from the budgets of county councils in order to give grants for collaboration? Does that not actually penalise those councils that are already collaborating, and therefore is it not unfair?

**Y Prif Weinidog:** Mae'n bwysig dros ben bod *incentive* ar gael i sicrhau bod cynghorau'n gweithio gyda'i gilydd. O gofio hynny, mae twf o 1.5% yng nghyllideb llywodraeth leol, a chredaf fod hynny'n fwy na theg o ystyried sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru.

**The First Minister:** It is incredibly important that there should be an incentive available in order to ensure collaboration between councils. Bearing that in mind, local government has seen an increase of 1.5% in its budget, and I believe that that is more than fair given the financial position of the Welsh Government.

### Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu

### Police Community Support Officer

***6. Mike Hedges:*** *A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ariannu ac i hwyluso cyflogi 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu newydd yng Nghymru. OAQ(4)0731(FM)*

***6. Mike Hedges:*** *Will the First Minister provide an update on the Welsh Government's commitment to fund and facilitate the employment of 500 new PCSOs in Wales. OAQ(4)0731(FM)*

**The First Minister:** Yes. More than 350 CSOs were deployed or in training by the end of last month, well ahead of schedule. All CSOs are expected to be deployed by September next year.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Roedd mwy na 350 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael eu defnyddio, neu mewn hyfforddiant erbyn diwedd y mis diwethaf, ymhell o flaen yr amserlen. Disgwylir y bydd yr holl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael eu defnyddio erbyn mis Medi y flwyddyn nesaf.

**Mike Hedges:** I would like to say how welcome that has been in my constituency. Morriston Hospital now has a PCSO who is there constantly, which brings an awful lot of support to patients and medical staff. Is there a difference between the Labour Government here, which is increasing the number of

**Mike Hedges:** Hoffwn ddweud cymaint o groeso sydd wedi bod yn fy etholaeth i hynny. Erbyn hyn, mae gan ysbyty Treforys Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu sydd yno yn gyson, ac sy'n dod â llawer iawn o gefnogaeth i gleifion a staff meddygol. A oes gwahaniaeth rhwng y Llywodraeth Lafur

PCSOs, and the Government of the Conservatives and Liberals in London, which is cutting police numbers?

yma, sy'n cynyddu nifer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, a Llywodraeth y Ceidwadwyr a'r Rhyddfrydwyr yn Llundain, sy'n torri ar niferoedd yr heddlu?

**The First Minister:** One of the main deterrents to crime is the presence of police officers in local communities, so that people can see them. They are an effective deterrent. We have done our bit in ensuring that we are financing CSOs. Experience teaches us that they are very popular in their local communities. It is a shame that police funding has been cut, and this will inevitably have an effect on front-line policing.

**Y Prif Weinidog:** Un o'r prif ataliadau i drosedd yw presenoldeb swyddogion yr heddlu mewn cymunedau lleol, fel y gall pobl eu gweld. Maent yn ataliad effeithiol. Rydym wedi gwneud ein rhan i sicrhau ein bod yn ariannu swyddogion cymorth cymunedol. Mae profiad yn ein dysgu eu bod yn boblogaidd iawn yn eu cymunedau lleol. Mae'n drueni bod cyllid yr heddlu wedi ei dorri, a bydd hyn yn anochel yn cael effaith ar blismona rheng flaen.

**Byron Davies:** First Minister, while I support your Government's willingness to assist our police services where necessary, could you outline the consultation that you had with our four police forces in Wales in allocating PCSOs? For example, did any of the forces request any alternative funding options, rather than investing directly in PCSOs? There may be a danger of construing that the Government is dictating the operational needs of the police.

**Byron Davies:** Brif Weinidog, er fy mod yn cefnogi parodrwydd eich Llywodraeth i gynorthwyo ein gwasanaethau heddlu lle bo angen, a allwch chi amlinellu'r ymgynghoriad a gawsoch gyda'n pedwar heddlu yng Nghymru wrth neilltuo Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu? Er enghraifft, a ofynnodd unrhyw un o'r Heddluoedd am unrhyw ddewisiadau ariannu amgen, yn hytrach na buddsoddi yn uniongyrchol mewn Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu? Efallai bod perygl o ddehongli mai'r Llywodraeth sy'n penderfynu ar anghenion gweithredol yr heddlu.

**The First Minister:** There are no difficulties with the police forces. This is a Government manifesto commitment that is being implemented. I know that all police forces in Wales would prefer to have a better settlement, particularly—[*Inaudible.*]

**Y Prif Weinidog:** Nid oes unrhyw anawsterau gyda'r heddluoedd. Mae hwn yn ymrwymiad ym maniffesto'r Llywodraeth sy'n cael ei weithredu. Gwn y byddai'n well gan bob heddlu yng Nghymru gael gwell setliad, yn enwedig—*[Anghlywadwy.]*

**Rhodri Glyn Thomas:** Brif Weinidog, mae Plaid Cymru, wrth reswm, yn cefnogi'r swyddogion newydd hyn ac yn croesawu'r cyhoeddiad amdanynt. Serch hynny, mae'n rhaid ystyried y datblygiad hwn ochr yn ochr â'r lleihad yn nifer yr heddweision. Felly, nid yw hwn yn ychwanegiad pur o ran niferoedd. Hoffwn ofyn cwestiwn ichi am ardreth yr heddlu. O ystyried y sylwadau a wnaed am y pwysau sydd ar gyllidebau llywodraeth leol a'r ffaith nad yw eich Llywodraeth chi yn mynd i wneud i fyny am y golled pan fydd y cyfrifoldeb am fudd-daliadau'r dreth gyngor

**Rhodri Glyn Thomas:** First Minister, Plaid Cymru, quite naturally, supports the introduction of these new officers and welcomes the announcement. However, the development has to be viewed in parallel with the reduction taking place in the number of police officers. Therefore, it is not a real increase in numbers. I would like to ask you a question about the police precept. Considering the comments made about the pressures on local government budgets and the fact that your Government will not make up the deficit when responsibility for council

yn cael ei ddatganoli i Gymru, a ydych chi wedi gwneud asesiad o sut bydd hyn yn effeithio ar ardreth yr heddlu ac o ba symiau ychwanegol y bydd yn rhaid eu codi yn sgîl hynny?

tax benefits is devolved to Wales, have you carried out an assessment of how that will impact upon the police precept and of the additional sums that will have to be raised as a result?

**Y Prif Weinidog:** Mae cwestiwn datganoli'r heddlu yn un diddorol iawn, ac rwyf yn siŵr y bydd y pleidiau'n ystyried y mater hwn dros y misoedd nesaf. Fel Llywodraeth, byddwn yn ystyried y sefyllfa ariannol o ran datganoli'r heddlu, ac mae'n rhaid inni osgoi unrhyw sefyllfa lle byddai datganoli'n digwydd mewn unrhyw ran o Lywodraeth heb fod y gyllideb lawn yn dod yn sgîl hynny. Nid ydym wedi gweld hynny'n digwydd mewn perthynas â budd-daliadau'r dreth gyngor.

**The First Minister:** The issue of the devolution of the police is an interesting one, and one I am sure that parties will consider over the next few months. As a Government, we will consider the financial position in relation to the devolution of the police, and we must avoid any situation where devolution should take place in any part of Government without the full budget to accompany it. We have not seen that happening in the case of council tax benefits.

### Lefel y Ddyled Dŵr

### Level of Water Debt

***7. Mark Drakeford:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am lefel y ddyled dŵr yng Nghymru. OAQ(4)0728(FM)*

***7. Mark Drakeford:*** *Will the First Minister make a statement on the level of water debt in Wales. OAQ(4)0728(FM)*

**The First Minister:** Yes, water debt is the result of customers not paying their water bills, the cost of which has to be covered by all customers. Currently the cost of water debt adds approximately £15 to £20 to every customer's bill.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf, mae dyled dŵr yn deillio o gwsmeriaid yn peidio â thalu eu biliau dŵr, ac mae'n rhaid i'r holl gwsmeriaid dalu'r gost am hyn. Ar hyn o bryd, mae cost y ddyled dŵr yn ychwanegu tua £15 i £20 i fil bob cwsmer.

**Mark Drakeford:** The level of water debt in Wales and across England has risen steadily as rises in prices have exceeded rises in wages and in benefits. Companies waste vast amounts of money every year in pursuing debt among customers who have no chance at all of paying their bills, and then writing it off. An affordable social tariff would be good for companies and customers. Are these ideas that you will be keeping in mind in the Welsh Government as a social tariff for water is being developed in Wales?

**Mark Drakeford:** Mae lefel y ddyled dŵr yng Nghymru ac ar draws Lloegr wedi codi'n gyson wrth i godiadau mewn prisiau fod yn fwy na chodiadau mewn cyflogau a budd-daliadau. Mae cwmnïau'n gwastraffu symiau enfawr o arian bob blwyddyn wrth fynd ar drywydd dyledion ymhlith cwsmeriaid nad oes ganddynt obaith o gwbl o dalu eu biliau, ac yna maent yn dileu'r ddyled. Byddai tariff cymdeithasol fforddiadwy yn dda ar gyfer cwmnïau a chwsmeriaid. A yw'r rhain yn syniadau y byddwch yn eu cadw mewn cof yn Llywodraeth Cymru wrth i dariff cymdeithasol ar gyfer dŵr gael ei ddatblygu yng Nghymru?

2.00 p.m.

**The First Minister:** Yes, indeed. We are currently finalising our social tariff guidance, which we intend to publish in November. The guidance aims to reduce charges for water customers who have difficulties paying their

**Y Prif Weinidog:** Ydynt, yn sicr. Rydym ar hyn o bryd yn cwblhau ein canllawiau tariff cymdeithasol, yr ydym yn bwriadu ei gyhoeddi ym mis Tachwedd. Nod y canllawiau yw lleihau costau ar gyfer

bills. In addition, we are developing a consultation on bad debt regulations, which we intend to publish by the end of the year.

cwsmeriaid dŵr sy'n cael anhawster i dalu eu biliau. Yn ogystal, rydym yn datblygu ymgynghoriad ar reoliadau drwgddyledion, yr ydym yn bwriadu ei gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn.

**Andrew R.T. Davies:** Debt comes in many forms, First Minister, whether it is in the public or private sector. One issue that all health boards are dealing with is the potential overspend that they might have in their budgets. Are you confident that those health boards will come in on budget and will not have a debt to carry over into the next financial year?

**Andrew R.T. Davies:** Ceir llawer math o ddyled, Brif Weinidog, boed yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat. Un mater y mae pob bwrdd iechyd yn ymdrin ag ef yw'r gorwariant posibl a allai fod yn eu cyllidebau. A ydych chi'n ffyddiog y bydd y byrddau iechyd hynny yn gweithredu o fewn eu cyllidebau ac na fydd ganddynt ddyled i'w chario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf?

**The Presiding Officer:** Order. We are talking about water debt.

**Y Llywydd:** Trefn. Am ddyled ddŵr yr ydym yn sôn.

**Andrew R.T. Davies:** Yes; but this is debt.

**Andrew RT Davies:** Ie, ond mae hyn yn ddyled.

**The First Minister:** I am not aware that any local health board has failed to pay its water bills.

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn ymwybodol bod unrhyw fwrdd iechyd lleol wedi methu â thalu ei filiau dŵr.

**Llyr Huws Gruffydd:** Mae ystadegau diweddar yn dangos bod pob person yng Nghymru yn defnyddio, ar gyfartaledd, 149 litr o ddŵr bob dydd. Mae hynny'n cyfateb i bron 55,000 litr o ddŵr y flwyddyn. Yn y cyd-destun hwnnw, ac yng nghyd-destun y cwestiwn, beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod lefelau defnydd dŵr yn gostwng yng Nghymru?

**Llyr Huws Gruffydd:** The latest statistics show that every individual in Wales uses, on average, 149 litres of water per day. That equates to almost 55,000 litres of water per annum. In that context, and in the context of the question, what is the Government doing to ensure that water usage levels are reduced in Wales?

**Y Prif Weinidog:** Mae strategaeth ddŵr i Gymru yn cael ei datblygu ar hyn o bryd, a fydd yn mynd allan i ymgynghoriad yng ngwanwyn y flwyddyn nesaf.

**The First Minister:** A water strategy for Wales is currently being developed, which will be published for consultation next spring.

### Trafnidiaeth Cyhoeddus Integredig

### Integrated Public Transport

***8. Rhodri Glyn Thomas:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol trafnidiaeth gyhoeddus integredig. OAQ(4)0725(FM)*

***8. Rhodri Glyn Thomas:*** *Will the First Minister make a statement on the future of integrated public transport. OAQ(4)0725(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi symiau sylweddol ym maes trafnidiaeth gyhoeddus integredig er mwyn cyflawni'r ymrwymiadau yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol.

**The First Minister:** The Welsh Government continues to invest substantially in integrated public transport in order to deliver the commitments set out in the national transport plan.

**Rhodri Glyn Thomas:** Fel y gŵyr y Prif Weinidog, er mwyn sicrhau bod gennym system o drafnidiaeth gyhoeddus integredig, mae'n rhaid i nifer o bethau ddigwydd: cydweithio rhwng gwahanol gwmnïau sy'n darparu trafnidiaeth gyhoeddus, hysbysebu ac yn y blaen. A ydych yn derbyn bod Deddf Trafnidiaeth 1985 yn rhwystro Llywodraeth Cymru rhag gwneud hynny, ond yn caniatáu i hynny ddigwydd yn Llundain? Beth a wnewch i sicrhau diwygio Deddf Trafnidiaeth 1985 er mwyn eich galluogi i gyflwyno system drafnidiaeth gyhoeddus sy'n wirioneddol integredig yng Nghymru?

**Rhodri Glyn Thomas:** As the First Minister is aware, in order to ensure that we have an integrated public transport system, a number of things must happen: collaboration between the various companies running these services, advertising and so on. Do you accept that the Transport Act 1985 prevents the Welsh Government from doing this in Wales, while allowing it to happen in Westminster? What will you do to reform the Transport Act 1985 in order to allow you to introduce a fully integrated public transport system in Wales?

**Y Prif Weinidog:** Mae hyn yn rhywbeth y gallwn ei ystyried fel rhan o ran 2 comisiwn Silk. Mae'n wir dweud bod rhwystrau wedi bod yn y gorffennol ynglŷn â beth y byddem am ei wneud fel Llywodraeth i ddatblygu system drafnidiaeth sy'n wir integredig yng Nghymru.

**The First Minister:** This is something that we can consider under part 2 of the Silk commission. It is true to say that there have been barriers in the past in terms of what we may want to do as a Government to develop a fully integrated transport system in Wales.

**David Rees:** Transportation is an important factor in supporting people to access our changing health services in Wales, and the integration of transport systems will become a major part of that. Will the Welsh Government prioritise such systems that provide better services to improve access to health facilities?

**David Rees:** Mae cludiant yn ffactor pwysig o ran cefnogi pobl i gael mynediad at ein gwasanaethau iechyd sy'n newid yng Nghymru, a bydd integreiddio systemau trafnidiaeth yn dod yn rhan bwysig o hynny. A fydd Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu systemau o'r fath sy'n darparu gwell gwasanaethau i wella mynediad at gyfleusterau iechyd?

**The First Minister:** Yes; as we seek to build a Welsh health service that has a number of centres of excellence, it is important that consideration is given to people's ability to travel to them. That is very much in the minds of the Minister for Health and Social Services and the Minister for Local Government and Communities, who is responsible for transport.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn, wrth i ni geisio adeiladu gwasanaeth iechyd yng Nghymru sydd â nifer o ganolfannau rhagoriaeth, mae'n bwysig rhoi ystyriaeth i allu pobl i deithio iddynt. Mae hynny'n flaenaf ym meddyliau'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, sy'n gyfrifol am drafnidiaeth.

**Suzy Davies:** The work on Swansea University's new campus begins next year. What discussions has your Government had with the university and the City and County of Swansea Council about improving bus, rail and road links to the new campus in a way that will improve integrated transport in the South Wales West area generally?

**Suzy Davies:** Mae'r gwaith ar gampws newydd Prifysgol Abertawe yn dechrau y flwyddyn nesaf. Pa drafodaethau y mae eich Llywodraeth wedi'u cael gyda'r brifysgol a Chyngor Dinas a Sir Abertawe ynghylch gwella cysylltiadau bws, rheilffordd a ffyrdd i'r campws newydd mewn modd a fydd yn gwella trafnidiaeth integredig yn ardal De-orllewin Cymru yn gyffredinol?

**The First Minister:** I had informal discussions on this and a number of other

**Y Prif Weinidog:** Cefais drafodaethau anffurfiol ar hyn a nifer o faterion eraill pan

matters when I visited the site to launch the new campus. These are things that will be discussed, no doubt, between the university and the local authority. Of course, the Swansea metro system already exists, which connects the university with the rest of the city, and indeed as far north as Morriston Hospital.

ymwelais â'r safle i lansio'r campws newydd. Mae'r rhain yn bethau a fydd yn cael eu trafod, yn ddiamheuaeth, rhwng y brifysgol a'r awdurdod lleol. Wrth gwrs, mae'r system metro Abertawe eisoes yn bodoli, sy'n cysylltu'r brifysgol gyda gweddill y ddinas, ac yn wir cyn belled i'r gogledd ag Ysbyty Treforys.

**Eluned Parrott:** According to the programme for government, active travel is a key part of your Government's approach to integrated transport. However, your Government's revenue budget for walking and cycling falls from £238,000 this year to £215,000 next year, and to zero the following year. How do you expect to deliver an active travel Bill with a zero revenue budget?

**Eluned Parrott:** Yn ôl y rhaglen ar gyfer llywodraethu, mae teithio llesol yn rhan allweddol o agwedd eich Llywodraeth at drafnidiaeth integredig. Fodd bynnag, mae cyllideb refeniw eich Llywodraeth ar gyfer cerdded a beicio yn gostwng o £238,000 eleni i £215,000 y flwyddyn nesaf, ac i sero y flwyddyn ganlynol. Sut ydych chi'n disgwyl cyflwyno Bil teithio llesol gyda chyllideb refeniw sero?

**The First Minister:** The active travel Bill is there to enable and encourage more people to walk and cycle in Wales. The Bill is due for introduction early next year. If there are any financial implications for the implementation of that Bill, they will be considered at the appropriate time.

**Y Prif Weinidog:** Pwrpas y Bil teithio llesol yw galluogi ac annog mwy o bobl i gerdded a beicio yng Nghymru. Mae'r Bil i fod i gael ei gyflwyno yn gynnar y flwyddyn nesaf. Os bydd unrhyw oblygiadau ariannol ar gyfer gweithredu'r Bil hwnnw, byddant yn cael eu hystyried ar yr adeg briodol.

**Vaughan Gething:** First Minister, I welcome your stated commitment to the concept of a south Wales metro, post electrification, particularly given the potential for passenger rail improvements in my constituency through east Cardiff—through St Mellons, Rumney and Splott. However, we know that rail infrastructure matters are not currently devolved. Have you discussed further investment, post electrification, in an integrated transport system with the Secretary of State for Wales? If so, does he support the case for more investment in a metro?

**Vaughan Gething:** Brif Weinidog, rwyf yn croesawu eich ymrwymiad a ddatganwyd i'r cysyniad o fetro yn ne Cymru, yn dilyn trydaneiddio, yn enwedig o ystyried y potensial ar gyfer gwelliannau i'r rheilffordd teithwyr yn fy etholaeth i trwy ddwyrain Caerdydd—drwy Laneirwg, Tredelerch a Sblot. Fodd bynnag, gwyddom nad yw materion seilwaith rheilffyrdd wedi eu datganoli ar hyn o bryd. A ydych chi wedi trafod buddsoddiad pellach, yn dilyn trydaneiddio, mewn system drafnidiaeth integredig gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru? Os felly, a yw'n cefnogi'r achos dros fwy o fuddsoddiad mewn metro?

**The First Minister:** I have not discussed the issue of the metro with the Secretary of State for Wales. We want to see that delivered first of all. There have been discussions with the Secretary of State for Wales regarding Wrexham-Bidston and the north Wales main coastal line. He has expressed his preference, of course, and wishes to see those electrified, and we would seek to work with him in order for that to happen.

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf wedi trafod mater y metro gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Rydym yn awyddus i weld hynny'n cael ei ddarparu yn gyntaf. Cafwyd trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch Wrecsam-Bidston a phrif reilffordd arfordir gogledd Cymru. Mae wedi mynegi ei ddewis, wrth gwrs, ac mae'n dymuno gweld trydaneiddio'r rheini, a byddem yn ceisio gweithio gydag ef er mwyn i hynny ddigwydd.

**Ailstrwythuro Gwasanaethau Iechyd**

*9.* ***Alun Ffred Jones:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ailstrwythuro gwasanaethau iechyd yng ngogledd Cymru. OAQ(4)0722(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae'r bwrdd iechyd yn ymgynghori ar ei gynigion i wella gwasanaethau yn yr ardal ar hyn o bryd.

**Alun Ffred Jones:** Rydych wedi dweud sawl gwaith mai diogelwch cleifion sydd wrth wraidd ad-drefnu gwasanaethau ysbytai, a bod creu canolfannau rhagoriaeth yn ganolog i'r newidiadau hyn—rydych wedi datgan hynny'r prynhawn yma. Yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, y penderfyniad yw cadw tri ysbyty cyffredinol fel ag y maent, er bod rhai gwasanaethau'n cael eu cyflwyno o Loegr. Pa drafodaethau rydych wedi eu cael ag aelodau neu swyddogion y bwrdd am y newidiadau hyn, sydd fel pe baent yn mynd yn groes i'r syniadau rydych wedi bod yn sôn amdanynt?

**Y Prif Weinidog:** Dim o gwbl. Ein nod yw sicrhau bod gwasanaethau mor lleol ag y bo modd, mor ddiogel ag y bo modd ac mor dda ag y bo modd. Ar hyn o bryd, mae ymgynghoriadau yn digwydd, ac unwaith y bydd y broses honno'n dod i ben, bydd rôl i'r Llywodraeth wrth ystyried y sefyllfa.

**Antoinette Sandbach:** First Minister, you declined to answer my question last week on the proposals to transfer all level 3 neonatal services in north Wales to England. Unlike the Minister for health, however, you do not have any appeal functions in this matter. Will you at least recognise the fact that, given that Anglesey and Denbighshire have the highest infant mortality rates of any local authorities in Wales, closing existing neonatal services can only increase the risk to mothers and their babies in north Wales?

**The First Minister:** Does the Member not see that, by saying that, she makes the case for change? If it is, as she says, the case that the mortality rates are so high, keeping things

**Restructuring of Health Services**

*9.* ***Alun Ffred Jones:*** *Will the First Minister make a statement on the restructuring of health services in north Wales. OAQ(4)0722(FM)*

**The First Minister:** The health board is currently consulting on its proposals for service improvement in the area.

**Alun Ffred Jones:** You have said many times that it is patient safety that is at the root of the reconfiguration of hospital services, and that the creation of centres of excellence is central to these changes—you have said that this afternoon. In the Betsi Cadwaladr University Local Health Board area, the decision is to retain the three district general hospitals as they are, although some services will be provided in England. What discussions have you had with members or officials of the board with regard to these changes, which seem to be going against the ideas that you have been talking about?

**The First Minister:** Not at all. Our aim is to ensure that the services are as local as possible, as safe as possible and as good as possible. Consultations are currently ongoing, and once that process comes to an end, there will be a role for Government in considering the situation.

**Antoinette Sandbach:** Brif Weinidog, fe wnaethoch wrthod ateb fy nghwestiwn yr wythnos diwethaf ynghylch y cynigion i drosglwyddo pob un o'r gwasanaethau newyddenedigol lefel 3 yng ngogledd Cymru i Loegr. Yn wahanol i'r Gweinidog Iechyd, fodd bynnag, nid oes gennych unrhyw swyddogaethau apêl yn y mater hwn. A wnewch chi o leiaf gydnabod y ffaith, gan ystyried mai yn Ynys Môn a Sir Ddinbych y mae'r cyfraddau uchaf o farwolaethau babanod o unrhyw awdurdodau lleol yng Nghymru, y byddai cau'r gwasanaethau newyddenedigol presennol yn cynyddu'r risg ymhellach i famau a'u babanod yn y gogledd?

**Y Prif Weinidog:** Onid yw'r Aelod yn gweld, drwy ddweud hynny, ei bod hi'n dadlau dros newid? Os mai'r achos yw, fel y dywed, bod y cyfraddau marwolaeth mor

exactly as they are is clearly not an option. That is blindingly obvious, I would suggest. However, I come back to the point that a consultation is taking place at the moment, and keeping things exactly as they are is unsatisfactory—it is a case that she herself has made so clearly.

uchel, nid yw gadael pethau yn union fel ag y maent yn opsiwn. Awgrymaf fod hynny'n gwbl amlwg. Fodd bynnag, rwyf yn dod yn ôl at y pwynt bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd, ac nid yw gadael pethau'n union fel y maent yn foddhaol—mae'n achos y mae hi ei hun wedi dadlau drosto mewn modd mor eglur.

**Aled Roberts:** Brif Weinidog, dywedodd yr Athro Powell ar y BBC neithiwr ei fod yn poeni nad oes neb yn gwybod yn union beth fydd cost yr ad-drefnu hwn a bod cwestiwn mawr yn codi ynghylch a yw'r ad-drefnu'n fforddiadwy. Mae cynllun Betsi Cadwaladr ar hyn o bryd yn dibynnu ar £34 miliwn i ad-drefnu mewn pedair ardal leol yn y gogledd—nid ar draws y gogledd. A oes gan y Llywodraeth strategaeth i ymdrin â'r holl gostau hyn os yw'r cynlluniau'n cael eu derbyn?

**Aled Roberts:** First Minister, Professor Powell said on the BBC last night that he is concerned that no-one knows exactly how much this reconfiguration will cost and that there is a huge question mark over its affordability. The current Betsi Cadwaladr plan is dependent upon £34 million being available for reconfiguration in four local areas in north Wales—not right across the region. Does the Government have a strategy for dealing with all these costs if the plans are approved?

**Y Prif Weinidog:** Oes. Deallwn y bydd buddsoddiadau yn gorfod cael eu gwneud. Er enghraifft, ym Mwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, mae sôn am adeiladau newydd yn Aberaeron, Cross Hands ac ardaloedd eraill yn y gorllewin. Felly, mae'r Llywodraeth yn deall, er mwyn gwella'r gwasanaeth iechyd, y bydd rhaid buddsoddi yn y dyfodol.

**The First Minister:** Yes. We understand that investments will have to be made. For example, the Hywel Dda Local Health Board is talking about new builds in Aberaeron, Cross Hands and other parts of west Wales. Therefore, the Government does understand that there will have to be invesment in the future in order to improve the health service.

### Materion Cydraddoldeb

### Equality Issues

***10. Peter Black:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb wrth lunio'r gyllideb ddrafft. OAQ(4)0723(FM)*

***10. Peter Black:*** *Will the First Minister make a statement on the way the Welsh Government has taken equality issues into account when formulating the draft budget. OAQ(4)0723(FM)*

**The First Minister:** Yes. The equality impact assessment of the draft budget was published on 8 October.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Cyhoeddwyd yr asesiad o effaith ar gydraddoldeb y gyllideb ddrafft ar 8 Hydref.

**Peter Black:** Thank you for that answer, First Minister. I welcome the equality impact assessment as a very important start in dealing with this. However, you will know that there are a number of weaknesses around that document; in particular, if you go through it, you will not find a single criticism of anything in the budget or any negative statement about the budget, despite, for example, the huge problems with disabled facility grants around the country, which I

**Peter Black:** Diolch am yr ateb yna, Brif Weinidog. Rwyf yn croesawu'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb fel man cychwyn pwysig iawn wrth ymdrin â hyn. Fodd bynnag, byddwch yn gwybod bod nifer o wendidau yn ymwneud â'r ddogfen; yn arbennig, os byddwch yn mynd drwyddi, ni fyddwch yn dod o hyd i unrhyw feirniadaeth o unrhyw beth yn y gyllideb nac unrhyw ddatganiad negyddol am y gyllideb, er gwaethaf, er enghraifft, y problemau enfawr

would have expected to see addressed.

ynglŷn â grantiau cyfleusterau i bobl anabl o amgylch y wlad, y byddwn wedi disgwyl iddynt gael sylw.

I know that this is just the start, but those in the third sector in particular have given a clear indication that, whereas they want to see this equality impact assessment continue, there needs to be a more independent means of assessing it. In particular, it needs to look at what has changed in the budget as a result. Will you address those views and try to do better next time?

Rwyf yn gwybod nad yw hyn ond y dechrau, ond mae'r rhai hynny yn y trydydd sector yn benodol wedi rhoi awgrym clir, er eu bod am weld yr asesiad hwn o effaith cydraddoldeb yn parhau, bod angen dull mwy annibynnol o asesu. Yn arbennig, mae angen iddo edrych ar beth sydd wedi newid yn y gyllideb o ganlyniad. A fyddwch yn mynd i'r afael â'r farn honno a cheisio gwneud yn well y tro nesaf?

**The First Minister:** The Minister for Finance has announced the establishment of the budgetary advisory group for equality, and that group will seek to encourage and strengthen the focus on identifying and understanding the nature of inequalities in Wales.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Gweinidog Cyllid wedi cyhoeddi sefydlu grŵp ymgynghorol cyllidebol ar gyfer cydraddoldeb, a bydd y grŵp yn ceisio annog a chryfhau'r canolbwyntio ar nodi a deall natur anghydraddoldebau yng Nghymru.

**Janet Finch-Saunders:** First Minister, the Welsh Government's Inclusive Design Note aims to put people at the heart of the design process in a way that ensures that our public buildings accommodate all users of all abilities. I understand that, as part of the 'Framework for Action on Independent Living', the Inclusive Design Note will be promoted across all departments of the Welsh Government as an example of good practice, and I applaud that. What plans does the Welsh Government have to promote the Inclusive Design Note in other areas of the public sector, such as at the local authority level?

**Janet Finch-Saunders:** Brif Weinidog, amcan Nodyn Dylunio Cynhwysol Llywodraeth Cymru yw rhoi pobl wrth wraidd y broses ddylunio mewn ffordd sy'n sicrhau bod ein hadeiladau cyhoeddus yn darparu ar gyfer pob defnyddiwr o bob gallu. Rwyf yn deall, fel rhan o'r 'Fframwaith ar gyfer Gweithredu ar Fyw'n Annibynnol', y bydd y Nodyn Dylunio Cynhwysol yn cael ei hyrwyddo ar draws holl adrannau Llywodraeth Cymru fel enghraifft o arfer da, ac rwyf yn cymeradwyo hynny. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo'r Nodyn Dylunio Cynhwysol mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus, megis ar lefel awdurdodau lleol?

**The First Minister:** We will seek to promote it as widely as possible in order for it to be as effective as possible.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn ceisio ei hyrwyddo mor eang ag y bo modd er mwyn iddo fod mor effeithiol â phosibl.

**Jocelyn Davies:** You will no doubt recall voting in January 2002 for Pauline Jarman's legislation for children to have a free second pair of glasses as a measure to mitigate their visual impairment. Is it your policy to continue with this excellent scheme? Can you explain why Mrs Jones in Hengoed has now been refused the second pair of glasses for her severely visually impaired little boy due to budget restrictions?

**Jocelyn Davies:** Byddwch yn sicr yn cofio pleidleisio ym mis Ionawr 2002 dros ddeddfwriaeth Pauline Jarman i blant gael ail sbectol yn rhad ac am ddim fel mesur i liniaru eu nam ar y golwg. A yw'n rhan o'ch polisi i barhau â'r cynllun ardderchog hwn? A allwch chi esbonio pam y gwrthodwyd yr ail sbectol i Mrs Jones yn Hengoed ar gyfer ei bachgen bach sydd â nam difrifol ar ei olwg, oherwydd cyfyngiadau cyllidebol?

**The First Minister:** The Member would have to provide me with more details about Mrs Jones in Hengoed in order for me to investigate her concerns fully and properly.

**Y Prif Weinidog:** Byddai'n rhaid i'r Aelod ddarparu mwy o fanylion i mi am Mrs Jones yn Hengoed er mwyn i mi allu ymchwilio i'w phryderon yn llawn ac yn briodol.

**Blaenoriaethau**

**Priorities**

***11. William Graham:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd yn Nwyrain De Cymru. OAQ(4)0733(FM)*

***11. William Graham:*** *Will the First Minister outline the Welsh Government's priorities for the provision of health services within South Wales East. OAQ(4)0733(FM)*

**The First Minister:** Yes, they are in our programme for government and 'Together for Health'.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf, maent yn ein rhaglen ar gyfer llywodraethu ac yn 'Law yn Llaw at Iechyd'.

**William Graham:** I am grateful for the First Minister's answer. Could I ask him to comment on a story that appeared in the *South Wales Argus* that a Welsh ambulance service worker claims that five ambulances covered the whole of Gwent one day last week? The source said:

**William Graham:** Yr wyf yn ddiolchgar am ateb y Prif Weinidog. A gaf i ofyn iddo roi sylwadau ar stori a ymddangosodd yn y *South Wales Argus* bod gweithiwr gwasanaeth ambiwlans Cymru yn honni mai pum ambiwlans oedd yn gwasanaethu Gwent gyfan ar un diwrnod yr wythnos diwethaf? Meddai'r ffynhonnell:

'Paramedics are always offering to do overtime, but were told that there isn't enough money… Rapid response crews are being put at risk when they arrive one or two hours before an ambulance, and family members get irate when the ambulances don't arrive'.

'Mae parafeddygon bob amser yn cynnig gweithio goramser, ond dywedwyd wrthym nad oes digon o arian ... mae criwiau ymateb cyflym yn cael eu rhoi mewn perygl pan fyddant yn cyrraedd un neu ddwy awr cyn yr ambiwlans, ac aelodau'r teulu yn gwylltio pan nad yw'r ambiwlansys yn cyrraedd'.

This is a story that appears all too often. What does the First Minister propose to improve the ambulance service in Wales?

Mae hon yn stori sy'n ymddangos yn rhy aml o lawer. Beth y mae'r Prif Weinidog yn ei gynnig i wella'r gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru?

**The First Minister:** The Member is asking me to comment on an unnamed source being reported in a newspaper. Without any further, solid evidence it is impossible to give a response. If there is evidence that backs up that claim, and somebody willing to come forward to provide it—and they can provide it in an anonymous fashion, if they wish—we would, of course, be pleased to investigate that.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Aelod yn gofyn i mi i roi sylwadau ar ffynhonnell ddienw yn cael ei dyfynnu mewn papur newydd. Heb unrhyw dystiolaeth gadarn ychwanegol, mae'n amhosibl rhoi ymateb. Os oes tystiolaeth sy'n cefnogi'r honiad hwnnw, a rhywun sy'n barod i ddod ymlaen i roi'r dystiolaeth honno—a chânt ei rhoi mewn modd dienw, os ydynt yn dymuno—byddem, wrth gwrs, yn falch o ymchwilio i hynny.

**Lindsay Whittle:** Following the recent mixed report on services in the Royal Gwent Hospital, how will the Welsh Government ensure that the health board takes action to

**Lindsay Whittle:** Yn dilyn yr adroddiad cymysg diweddar ar wasanaethau yn Ysbyty Brenhinol Gwent, sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y bwrdd iechyd yn

improve those services identified as requiring improvement?

gweithredu i wella'r gwasanaethau hynny y nodwyd bod angen eu gwella?

**The First Minister:** Of course, this is dealt with in the south Wales reconfiguration plans, which are presently being consulted upon. The aim for the Royal Gwent, as indeed for all hospitals, is to ensure a better, safer health service that is as local as possible.

**Y Prif Weinidog:** Wrth gwrs, ymdrinnir â hyn yng nghynlluniau ad-drefnu de Cymru, yr ydym yn ymgynghori arnynt ar hyn o bryd. Y nod ar gyfer Ysbyty Brenhinol Gwent, fel yn wir ar gyfer pob ysbyty, yw sicrhau gwasanaeth iechyd gwell, mwy diogel sydd mor lleol â phosibl.

**The Presiding Officer:** Question 12, OAQ(4)0726(FM), is withdrawn.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 12, OAQ (4) 0726 (FM), yn ôl.

**Cefnogi Pobl Ifanc**

**Support Young People**

***13. David Rees:*** *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg. OAQ(4)0734(FM)*

***13. David Rees:*** *What action is the Welsh Government taking to support young people not in work or education. OAQ(4)0734(FM)*

**The First Minister:** We have a range of employability and skills provision such as Jobs Growth Wales and the schemes that I referred to earlier, such as the Young Recruits programme.

**Y Prif Weinidog:** Mae gennym ystod o ddarpariaeth ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau, fel Twf Swyddi Cymru a'r cynlluniau y cyfeiriais atynt yn gynharach, megis y rhaglen Recriwtiaid Ifanc.

**David Rees:** As a result of the drastic and disastrous economic policies of the UK Government, recent employment statistics show a rise in long-term unemployment for young people, even after some may have returned to education in order to improve their opportunities. However, in contrast, over the last six months we have seen over 1,700 young people here in Wales gain employment through the Jobs Growth Wales scheme. Do you agree that this is the right approach to help our young people find employment, and that we also need to encourage more businesses to take on young people who are following Pathway to Apprenticeship programmes in our colleges?

**David Rees:** O ganlyniad i bolisïau economaidd llym a thrychinebus Llywodraeth y DU, mae ystadegau cyflogaeth diweddar yn dangos cynnydd mewn diweithdra hirdymor ar gyfer pobl ifanc, hyd yn oed ar ôl i rai ohonynt ddychwelyd i addysg er mwyn gwella eu cyfleoedd o bosib. Fodd bynnag, mewn gwrthgyferbyniad, yn ystod y chwe mis diwethaf, rydym wedi gweld dros 1,700 o bobl ifanc yma yng Nghymru yn sicrhau cyflogaeth drwy'r cynllun Twf Swyddi Cymru. A ydych chi'n cytuno mai dyma'r dull cywir o helpu ein pobl ifanc i ddod o hyd i gyflogaeth, a bod yn rhaid i ni hefyd annog mwy o fusnesau i dderbyn pobl ifanc sy'n dilyn rhaglenni Llwybr at Brentisiaethau yn ein colegau?

**The First Minister:** Yes, we do, but we are pleased with the progress that has been made with Pathways to Apprenticeships and Jobs Growth Wales. We are well on target to deliver what we said we would deliver, and to give our young people hope.

**Y Prif Weinidog:** Ydym, rydym yn cytuno, ond rydym yn falch o'r cynnydd a wnaed gyda Llwybrau at Brentisiaethau a Thwf Swyddi Cymru. Rydym yn rhagori ar ein nod o gyflawni'r hyn y dywedasom y byddem yn ei gyflawni, ac i roi gobaith i'n pobl ifanc.

**Mohammad Asghar:** First Minister, I recently met with a local business leader

**Mohammad Asghar:** Brif Weinidog, yn ddiweddar, cyfarfûm ag arweinydd busnes

from A4e, which acts as a prime contractor delivering the work programme on behalf of the UK Government. One of the issues raised as a barrier to young people in South Wales East getting off benefits and getting jobs in Newport was the difficulty in accessing convenient and direct transport links, which would enable people to get to work in a reasonable time. Will the First Minister commit his Government to addressing this issue with the aim of improving rail and bus services to Newport from deprived areas of South Wales East so that more of our young people can transfer from welfare to work?

lleol o A4e, sy'n gweithredu fel prif gontractwr i gyflawni'r rhaglen waith ar ran Llywodraeth y DU. Un o'r materion a godwyd fel rhwystr i bobl ifanc yn Ne-ddwyrain Cymru ddod oddi ar fudd-daliadau a chael swyddi yng Nghasnewydd oedd yr anhawster i gael gafael ar gysylltiadau cludiant cyfleus ac uniongyrchol, a fyddai'n galluogi pobl i gyrraedd y gwaith mewn amser rhesymol. A wnaiff y Prif Weinidog ymrwymo ei Lywodraeth i fynd i'r afael â'r mater hwn gyda'r nod o wella gwasanaethau rheilffyrdd a bws i Gasnewydd o ardaloedd difreintiedig yn Ne-ddwyrain Cymru fel y gall mwy o'n pobl ifanc drosglwyddo o fudd-dal i waith?

**The First Minister:** We have a strong and historic commitment to improving public transport in Wales, as shown by the reopening of railway lines and the support given to bus services, not just across Wales but in different parts of Wales as well. I draw the Member's attention back to Jobs Growth Wales, a scheme introduced to give young people hope and a scheme that his party failed to introduce in Government at a UK level. The difference is that his party talks and we deliver.

**Y Prif Weinidog:** Mae gennym ymrwymiad cryf a hanesyddol i wella cludiant cyhoeddus yng Nghymru, fel y dangoswyd drwy ailagor rheilffyrdd a'r gefnogaeth a roddir i wasanaethau bws, nid yn unig ar draws Cymru ond mewn rhannau gwahanol o Gymru yn ogystal. Tynnaf sylw'r Aelod yn ôl at Dwf Swyddi Cymru, cynllun a gyflwynwyd i roi gobaith i bobl ifanc a chynllun y methodd ei blaid â'i gyflwyno mewn Llywodraeth ar lefel y DU. Y gwahaniaeth yw bod ei blaid ef yn siarad a ninnau'n cyflawni.

2.15 p.m.

**Simon Thomas:** Mae adroddiad gan y Joseph Rowntree Foundation y mis hwn yn tanlinellu pa mor anodd ydyw i bobl ifanc gael mynediad at y farchnad swyddi os na allant fforddio teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae hynny'n broblem ar draws Cymru a dros Brydain i gyd. A oes rhywbeth penodol y gallwch chi ei wneud mewn Llywodraeth i helpu ein pobl ifanc i o leiaf gael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus ac i'w galluogi i fforddio teithio ar fysus ac ati er mwyn mynychu cyfweliadau a hyfforddiant? A oes rhywbeth pellach y gallwch ei wneud dros ein pobl ifanc yn y cyd-destun hwnnw?

**Simon Thomas:** The report published this month by the Joseph Rowntree Foundation underlines how difficult it is for young people to access the labour market if they cannot afford to use public transport. That is a problem the length and breadth of Wales and indeed across the UK. Is there anything specific that you could do in Government to assist our young people to at least be able to access public transport and to be able to afford to use buses and so on in order to attend interviews and training? Is there anything further that you could provide to our young people in that context?

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn edrych i gefnogi pobl ifanc fel y gallant deithio er mwyn mynychu cyfweliadau ac yn y blaen. Rhaid imi bwysleisio—nid i'r Aelod ar ochr honno'r Siambr—os bydd pobl ifainc yn colli budd-daliadau ac unrhyw incwm, sut fyddant

**The First Minister:** We seek to support young people so that they can travel in order to attend interviews and so forth. I must point out—not to the Member on that side of the Chamber—that if young people lose their benefits and any income, how will they be

yn gallu teithio i gyfweliadau? Dyna yw cynlluniau'r Ceidwadwyr a'r Rhyddfrydwyr hefyd, sydd eisiau sicrhau nad oes gan bobl ifanc unrhyw arian o gwbl. Sut fyddant yn gallu dod o hyd i swyddi os nad oes arian ganddynt i deithio?

able to travel to interviews? Those are the plans of the Conservatives and also the Liberal Democrats, who want to ensure that young people have no money at all. How will they be able to find jobs if they do not have any money to travel?

**The Presiding Officer:** Question 14, OAQ(4)0720(FM), is withdrawn.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 14, OAQ (4) 0720 (FM), yn ôl.

### Polisi Ynni

### Energy Policy

***15. Yr Arglwydd Elis-Thomas:*** *Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael â Phrif Weinidog y DU ynglŷn â pholisi ynni. OAQ(4)0735(FM)*

***15. Lord Elis-Thomas:*** *What discussions has the First Minister had with the UK Prime Minister in relation to energy policy. OAQ(4)0735(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Rwy wedi cael trafodaethau rheolaidd â'r Prif Weinidog am amrywiaeth eang o faterion polisi, ac yn enwedig am bolisi ynni.

**The First Minister:** I hold regular discussions with the Prime Minister on a wide range of policy matters, and particularly on energy policy.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** A yw'n gwrando arnoch? Rwy'n ddiolchgar iawn i chi fel Llywodraeth am dderbyn argymhelliad 8 yn adroddiad ein pwyllgor a drafodwyd yr wythnos diwethaf, ac yn ddiolchgar am eich datganiad eich bod chi am ddarparu gwybodaeth am yr achos dros ddatganoli pwerau cydsynio a chymhellion ariannol ar wefan y Llywodraeth. A wnewch chi adrodd i'r Cynulliad hwn am ymateb Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r materion hyn? Hoffwn ddweud yn hollol glir nad wyf i, beth bynnag, yn barod i aros am adroddiad Silk i'r materion hyn gael eu datrys.

**Lord Elis-Thomas:** Is he listening to you? I am very grateful to you as a Government for accepting recommendation 8 in our committee report, which was discussed last week, and grateful for your statement that you are to provide information on the case for further devolution of energy consenting and financial incentive powers on the Government's website. Will you report to this Assembly on the response of the UK Government to these issues? May I make it entirely clear that I am not ready to wait for the Silk commission's report for these issues to be resolved?

**Y Prif Weinidog:** Yr ateb o hyd yw, 'Sefwch i ni gael rhan 2 o adroddiad Silk'. Fy marn i yw y dylai pobl Cymru gael rheolaeth dros eu hadnoddau, yn yr un ffordd â phobl yr Alban, Gogledd Iwerddon a hyd yn oed pobl Lloegr. Nid oes rheswm pam ddylai Cymru gael ei thrin fel rhyw is-wlad o ran trafodaethau yn ymwneud â pholisi ynni. Dylem gael rheolaeth dros bolisi ynni yng Nghymru er mwyn sicrhau'r lles economaidd mwyaf i'n pobl.

**The First Minister:** The answer, as always, is 'Await part 2 of the Silk report'. My view is that the people of Wales should have control over their resources, in the same way as the people of Scotland, Northern Ireland and even England. There is no reason why Wales should be treated as some kind of annexe as regards discussions on energy policy. We should have control over energy policy in Wales in order to ensure the greatest economic benefit for our people.

**Antoinette Sandbach:** First Minister, Welsh land is being used to import Scottish and Irish electricity, meaning land blight for people in Wales, who will have to have enormous pylons across their land, which will impact

**Antoinette Sandbach:** Brif Weinidog, mae tir Cymru yn cael ei ddefnyddio i fewnforio trydan o'r Alban a'r Iwerddon, sy'n golygu malltod tir ar gyfer pobl yng Nghymru, y bydd yn rhaid iddynt gael peilonau enfawr ar

on local tourism. Given that you, or at least your officials, were present at energy network strategy group meetings, how can you justify the fact that your officials at those meetings did not speak up for Wales and defend those Welsh interests?

draws eu tir, a fydd yn effeithio ar dwristiaeth leol. O gofio eich bod chi, neu o leiaf eich swyddogion, yn bresennol yng nghyfarfodydd grŵp strategaeth y rhwydwaith ynni, sut y gallwch chi gyfiawnhau'r ffaith na wnaeth eich swyddogion siarad dros Gymru yn y cyfarfodydd hynny, ac amddiffyn buddiannau Cymru?

**The First Minister:** I cannot take lectures from the party opposite. The Member knows full well that this is a matter for the UK Government; it has nothing to do with the Welsh Government. If she says that there are blights, then it is up to her to explain to the public in her constituency why she feels there is such a blight and explain who is to blame for it. We hear it said many times—[*Interruption.*] I understand that she is not present at meetings with the Prime Minister, the Deputy Prime Minister or indeed with any other UK Cabinet Minister. We have said many times that we want the people of Wales to have control over their own resources. That is the position that she and her party is resisting.

**Y Prif Weinidog:** Ni allaf dderbyn darlithoedd gan y blaid gyferbyn. Mae'r Aelod yn gwybod yn iawn bod hwn yn fater i Lywodraeth y DU; nid oes ganddo ddim i'w wneud â Llywodraeth Cymru. Os yw hi'n dweud y bydd malltod, yna mae'n fater iddi hi egluro i'r cyhoedd yn ei hetholaeth pam mae hi'n teimlo bod malltod o'r fath yn bodoli ac esbonio pwy sydd ar fai am hynny. Rydym wedi ei glywed yn cael ei ddweud lawer gwaith—*[Torri ar draws.]* Rwyf yn deall nad yw hi yn bresennol mewn cyfarfodydd gyda'r Prif Weinidog, y Dirprwy Brif Weinidog nac yn wir unrhyw Weinidog arall o Gabinet y DU. Rydym wedi dweud sawl gwaith ein bod eisiau i bobl Cymru gael rheolaeth dros eu hadnoddau eu hunain. Dyna'r sefyllfa y mae hi a'i phlaid yn ei gwrthwynebu.

## Cwestiwn Brys
## Urgent Question

### Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan
### The All Wales Ethnic Minority Association

**The Presiding Officer:** The next item of business is an urgent question on the action that the Welsh Government is taking following the findings of the Wales Audit Office report on the All Wales Ethnic Minority Association. I have received several requests for an urgent question on this subject today and also a request for an urgent debate on the matter. Members will be familiar with the urgent question procedure, but applications to request an urgent debate are much rarer. In fact, this is the first time ever that requests for both have been received on the same topic on the same day and so I should like to explain the approach that I have taken.

**Y Llywydd:** Yr eitem nesaf o fusnes yw cwestiwn brys ar y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn dilyn canfyddiadau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ynglŷn â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan. Rwyf wedi derbyn sawl cais am gwestiwn brys ar y pwnc hwn heddiw ac hefyd cais am ddadl frys ar y mater. Bydd yr Aelodau'n gyfarwydd â'r weithdrefn cwestiwn brys, ond mae ceisiadau i ofyn am ddadl frys yn llawer mwy anaml. Yn wir, dyma'r tro cyntaf erioed i geisiadau ar gyfer y ddau gael eu derbyn ar yr un pwnc ar yr un diwrnod, ac felly hoffwn egluro'r ymdriniaeth a ddefnyddiais.

In both cases, the test that Standing Orders

Yn y ddau achos, mae'r prawf y mae'n

require me to apply is the same—that the matter is of urgent public importance. I am satisfied that this matter meets that test. In my view, though, it is not appropriate to allow both requests to cover much of the same ground in two different formats on the same day. I have, therefore, decided to allow the urgent question, but not the application to request an urgent debate. I want to make it clear to all Members that in doing so I am in no way seeking to constrain the Assembly's ability to consider this important matter and to hold the Government to account. When taking the urgent question, I will ensure that all Members are called and that the Assembly will be able to put all the questions that it wishes to the Government.

ofynnol i mi ei gymhwyso dan y Rheolau Sefydlog yr un fath—bod y mater o bwys cyhoeddus brys. Rwyf yn fodlon bod y mater hwn yn bodloni'r prawf hwnnw. Yn fy marn i, fodd bynnag, nid yw'n briodol i ganiatáu i'r ddau gais fynd dros yr un tir i raddau helaeth mewn dau fformat gwahanol ar yr un diwrnod. Felly, rwyf wedi penderfynu caniatáu y cwestiwn brys, ond nid y cais i ofyn am ddadl frys. Rwyf am ei gwneud yn glir i'r holl Aelodau, wrth wneud hynny, nad wyf mewn unrhyw ffordd yn ceisio cyfyngu ar allu'r Cynulliad i ystyried y mater pwysig hwn ac i ddal y Llywodraeth i gyfrif. Wrth gymryd y cwestiwn brys, byddaf yn sicrhau bod yr holl Aelodau yn cael eu galw ac y bydd y Cynulliad yn cael gofyn yr holl gwestiynau y mae'n dymuno eu gofyn i'r Llywodraeth.

***Peter Black:*** *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn dilyn canfyddiadau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru: Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan. EAQ(4)0170(FIN)*

***Peter Black:*** *What action is the Welsh Government taking following the findings of the Wales Audit Office Report: The Welsh Government's relationship with the All Wales Ethnic Minority Association. EAQ(4)0170(FIN)*

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** The Welsh Government commissioned this report and accepted the recommendations. Work is already under way, led by the Permanent Secretary, to improve Welsh Goverment grants management. The report confirmed that there is no evidence that Ministers exerted inappropriate political influence over funding decisions. We look forward to receiving the Public Accounts Committee's report.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Llywodraeth Cymru gomisiynodd yr adroddiad hwn ac fe dderbyniwyd yr argymhellion a wnaed ynddo. Mae gwaith eisoes wedi'i ddechrau, a arweinir gan yr Ysgrifennydd Parhaol, er mwyn gwella rheoli grantiau Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad yn cadarnhau nad oes unrhyw dystiolaeth fod Gweinidogion wedi dylanwadu yn amhriodol wleidyddol ar benderfyniadau ariannu. Rydym yn edrych ymlaen at dderbyn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

**Peter Black:** Thank you for that answer, Minister. You will know that the Wales Audit Office has made it clear that this is now the nineteenth report in six years that has identified weaknesses in terms of the way that the Welsh Government is handling and managing grants to external organisations such as AWEMA. What confidence can we have that the Welsh Government is going to be able to address the issues raised by this current report, given the fact that you have failed to do anything to address the particular matters raised in the previous 18 reports? Can

**Peter Black:** Diolch i chi am yr ateb yna, Weinidog. Byddwch yn gwybod bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi gwneud yn glir mai hwn yw'r pedwerydd adroddiad ar bymtheg mewn chwe blynedd sydd wedi nodi gwendidau o ran y modd y mae Llywodraeth Cymru yn trin a rheoli grantiau i sefydliadau allanol fel AWEMA. Pa mor ffyddiog y gallwn fod, bod Llywodraeth Cymru yn mynd i allu mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan yr adroddiad cyfredol hwn, o ystyried y ffaith eich bod wedi methu â gwneud unrhyw beth i fynd i'r afael â'r

you give us an assurance and some detail as to how exactly the Welsh Government will be putting in place measures to deal with the issues raised by the new report, which will assure us that the lessons have been learnt this time?

materion penodol a godwyd yn y 18 adroddiad blaenorol? A allwch chi roi sicrwydd i ni ynghyd a rhai manylion ynglŷn â sut yn union y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi mesurau ar waith i ymdrin â'r materion a godwyd gan yr adroddiad newydd, a fydd yn ein sicrhau bod y gwersi wedi'u dysgu y tro hwn?

**Jane Hutt:** When the report was published by the Wales Audit Office on Thursday, 18 October, it was received by the Public Accounts Committee. I understand that this report will follow the due process for Wales Audit Office value for money studies reports. As the Welsh Government respects that process, I would not want to pre-empt the work of the Public Accounts Committee or the outcomes of that work. However, I point to the action that we had already taken—the Permanent Secretary made this clear last week—prior to the publication of the WAO report, namely a grants management project that was established in 2010 and a centre of excellence that was created in order to develop corporate processes, procedures, tools and guidance for non-procured funding to ensure that we respond effectively to reports of this kind.

**Jane Hutt:** Pan gyhoeddwyd yr adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru ddydd Iau, 18 Hydref, fe'i derbyniwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Deallaf y bydd yr adroddiad hwn yn dilyn trefn briodol gwerth am arian Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer adroddiadau astudiaethau ariannol. Gan fod Llywodraeth Cymru yn parchu'r broses honno, ni fyddwn am achub y blaen ar waith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus na chanlyniadau'r gwaith hwnnw. Fodd bynnag, cyfeiriaf at y camau yr oeddem eisoes wedi eu cymryd— gwnaed hyn yn glir gan yr Ysgrifennydd Parhaol yr wythnos diwethaf—cyn cyhoeddi adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, sef y prosiect rheoli grantiau a sefydlwyd yn 2010 a chanolfan rhagoriaeth a grëwyd er mwyn datblygu prosesau, gweithdrefnau, offer a chanllawiau corfforaethol ar gyfer cyllid nad yw wedi ei gaffael, er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb yn effeithiol i adroddiadau o'r math hwn.

**Paul Davies:** Minister, while your Government has been cleared of political influence, the report has still charged you with political negligence. With regard to critical issues of funding, it is now time for more accountability and responsibility, and it is certainly time for due diligence. I notice that in last week's press, a Government spokesperson said that the Government is acting on lessons learnt and is building on work to improve the future management of its grants management programme. Can you confirm on record that a fiasco like this will never happen again while you are the Minister for Finance? Do you take full responsibility for this public-funding disaster and shambles?

**Paul Davies:** Weinidog, er bod eich Llywodraeth wedi ei chael yn ddieuog o ddylanwadu gwleidyddol, mae'r adroddiad yn dal i'ch cyhuddo o esgeulustod gwleidyddol. O ran materion hollbwysig cyllid, mae bellach yn amser am fwy o atebolrwydd a chyfrifoldeb, ac mae'n sicr yn amser am ddiwydrwydd dyladwy. Sylwais yn y wasg yr wythnos diwethaf, bod llefarydd ar ran y Llywodraeth wedi dweud bod y Llywodraeth yn gweithredu ar wersi a ddysgwyd ac yn adeiladu ar waith i wella rheoli ei rhaglen rheoli grantiau yn y dyfodol. A allwch chi gadarnhau ar gof a chadw na fydd methiant fel hyn yn digwydd eto tra mai chi fydd y Gweinidog Cyllid? A ydych chi'n cymryd cyfrifoldeb llawn am y drychineb a'r llanast hwn mewn ariannu cyhoeddus?

**Jane Hutt:** The report highlights some serious concerns. In relation to the Welsh Government's relationship with organisations

**Jane Hutt:** Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai pryderon difrifol. O ran perthynas Llywodraeth Cymru â sefydliadau fel

like AWEMA, we have, quite rightly, looked at the Wales Audit Office's report; we have welcomed it and we have said that we would co-operate and implement the recommendations. We co-operated fully with the Wales Audit Office in the preparation of this report. Let me make this quite clear: it is the responsibility of the Permanent Secretary, as we see from the results of the Wales Audit Office report, to ensure that our grants management project is implemented fully. Also, as you will have seen, we undertook a due diligence exercise to check the health of the corporate governance and financial management of the organisations that we fund. We have taken responsibility to ensure that. I have answered all questions on this matter to ensure that the Welsh Government and the Permanent Secretary, who is leading on this, have delivered in terms of due diligence for this sector.

AWEMA, rydym, yn gwbl briodol, wedi edrych ar adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru; rydym wedi ei groesawu ac rydym wedi dweud y byddem yn cydweithio ac yn gweithredu'r argymhellion. Fe wnaethom gydweithio'n llawn gyda Swyddfa Archwilio Cymru wrth baratoi'r adroddiad hwn. Gadewch imi wneud hyn yn hollol glir: cyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Parhaol, fel y gwelwn o ganlyniadau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, yw sicrhau bod ein prosiect rheoli grantiau yn cael ei weithredu'n llawn. Hefyd, fel y byddwch wedi gweld, aethom ati i gynnal ymarfer diwydrwydd dyladwy i wirio iechyd llywodraethu corfforaethol a rheoli ariannol y sefydliadau yr ydym yn eu hariannu. Rydym wedi cymryd cyfrifoldeb i sicrhau hynny. Rwyf wedi ateb pob cwestiwn ar y mater hwn i sicrhau bod Llywodraeth Cymru a'r Ysgrifennydd Parhaol, sy'n arwain ar hyn, wedi cyflawni o ran diwydrwydd dyladwy ar gyfer y sector hwn.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, mae'r fath beth â chyfrifoldeb gweinidogol, ac mae'r mater hwn yn gyfrifoldeb i'r Cabinet cyfan, ac ni ddylech geisio cuddio rhag y cyfrifoldeb hwnnw.

Rwy'n credu bod Llywodraeth Cymru wedi dangos diffyg parch tuag at Swyddfa Archwilio Cymru drwy wrthod gwneud datganiad mewn ymateb i'r adroddiad hwn. Cawsoch yr adroddiad mewn digon o bryd i chi ei ystyried ac i wneud datganiad cyhoeddus ar eich ymateb chi iddo. Rydych wedi gadael nifer o fudiadau yn y sector gwirfoddol ac elusennol i lawr, a oedd eisiau clywed oddi wrth Lywodraeth Cymru na fyddai adwaith ar y berthynas rhyngddyn nhw â chi, fel Llywodraeth, o ganlyniad i'r adroddiad hwn. Bu i chi fethu â gwneud hynny hefyd.

Rydych wedi cael eich gorfodi i ateb cwestiynau y prynhawn yma, oherwydd bod cwestiynau brys wedi eu gosod oherwydd nad ydych chi wedi bod yn barod i roi datganiad. Pryd gawn ni ddatganiad oddi wrthych, Weinidog, am adroddiad sy'n ymwneud â methiant Llywodraeth Cymru a'ch methiant chi? Pryd gawn ni'r datganiad hwnnw? Pryd gawn ni ddadl lawn yn y lle hwn ar y mater hwn, fel y gallwn gael y cyfle

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, there is such a thing as ministerial responsibility, and this matter is the responsibility of the whole Cabinet, and you should not try to evade that responsibility.

I believe that the Welsh Government has demonstrated a lack of respect towards the Wales Audit Office by refusing to make a statement in response to this report. You received the report in sufficient time for you to consider it and make a public statement on your response to it. You have let down a number of organisations in the voluntary and charity sector that wanted to hear from the Welsh Government that there would be no impact on the relationship between them and you, as a Government, as a result of this report. You failed to do that too.

You have been forced to answer questions this afternoon, because urgent questions have been tabled because you were not willing to come forward with a statement. When will we receive a full statement from you, Minister, on a report that appertains to a failure of the Welsh Government and a failure on your part? When will we have that statement? When will we have a full debate in this place on this matter so that we will

i graffu ar eich perfformiad chi, fel Llywodraeth, yn llawn?

have an opportunity to scrutinise your performance as a Government fully?

**Jane Hutt:** I have made it very clear, Rhodri Glyn Thomas, that when the report was published by the Wales Audit Office last week, it was received by the Public Accounts Committee and that we followed due process for Wales Audit Office value for money studies reports. We respect that process. I do not want to pre-empt the work of the Public Accounts Committee, and when it will issue a report with recommendations, the Welsh Government will respond to it.

**Jane Hutt:** Yr wyf wedi ei gwneud yn glir iawn, Rhodri Glyn Thomas, pan gyhoeddwyd yr adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru yr wythnos diwethaf, ei fod wedi'i dderbyn gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'n bod wedi dilyn y broses briodol ar gyfer adroddiadau astudiaethau gwerth am arian. Swyddfa Archwilio Cymru. Rydym yn parchu'r broses honno. Nid wyf yn dymuno achub y blaen ar waith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a phan y bydd yn cyhoeddi adroddiad gydag argymhellion, bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb iddo.

However, I will make an important point about the way in which we have protected the beneficiaries of those EU-funded AWEMA projects. We have met the commitment to continue their activities that previously received support from AWEMA-led projects. I have responded to many questions, and, indeed, have corresponded with Members who have raised legitimate questions about this, in terms of the funding. I remind Members here that the young people's project and the employment project, which are led by other partner organisations, including YMCA, Supporting Others through Volunteer Action Wales and the Valleys Regional Equality Council, have helped 1,000 young people to raise their skills and aspirations, 580 unemployed and economically inactive people to secure employment and 1,400 employees to progress in work. Is the Member suggesting that that diligence that we have taken to ensure that those beneficiaries are protected is inappropriate?

Fodd bynnag, fe wnaf bwynt pwysig am y ffordd yr ydym wedi diogelu buddiolwyr y prosiectau AWEMA hynny a ariennir gan yr UE. Rydym wedi cyflawni'r ymrwymiad i barhau eu gweithgareddau a oedd yn derbyn cefnogaeth gan brosiectau a arweiniwyd gan AWEMA yn flaenorol. Rwyf wedi ymateb i nifer o gwestiynau, ac, yn wir, wedi gohebu ag Aelodau sydd wedi codi cwestiynau dilys ynglŷn â hyn, o ran y cyllid. Atgoffaf yr Aelodau sydd yma, bod y prosiect pobl ifanc a'r prosiect cyflogaeth, sy'n cael eu harwain gan sefydliadau partner eraill, gan gynnwys y YMCA, Cefnogi Eraill trwy Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a Chyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol y Cymoedd, wedi helpu 1,000 o bobl ifanc i wella eu sgiliau a chynyddu eu dyheadau, 580 o bobl ddi-waith ac economaidd anweithgar i gael gwaith a 1,400 o weithwyr i symud ymlaen yn y gwaith. A yw'r Aelod yn awgrymu bod y diwydrwydd a ddangoswyd gennym i sicrhau bod y buddiolwyr hynny yn cael eu hamddiffyn, yn amhriodol?

**Vaughan Gething:** Minister, in all of the sorry affair of AWEMA, nothing can take away from the fact that the people with the ultimate responsibility for the collapse of AWEMA were the people who were running it as an organisation: the people who authorised payments for parking fines, who dismissed staff by text message and increased the chief executive's salary. It has been especially disappointing to see the chief executive give a long interview when he accepted no responsibility whatsoever.

**Vaughan Gething:** Weinidog, er bod AWEMA yn fater truenus, ni all unrhyw beth newid y ffaith mai'r bobl a oedd yn gyfrifol am fethiant AWEMA yn y pen draw oedd y bobl a oedd yn ei redeg fel sefydliad: y bobl a awdurdododd taliadau ar gyfer dirwyon parcio, a ddiswyddodd staff drwy neges destun ac a gododd gyflog y prif weithredwr. Mae wedi bod yn arbennig o siomedig gweld y prif weithredwr yn rhoi cyfweliad hir pryd y gwrthododd dderbyn unrhyw gyfrifoldeb o gwbl.

I welcome the fact that the Permanent Secretary is reviewing the governance of grant management schemes, and I welcome what you say about the money that is being spent effectively on the programmes that it was meant for. However, the report highlighted a number of fractious personal relationships, and the concern of Welsh Government officials about being accused of discrimination if they were to handle matters more robustly.

Croesawaf y ffaith fod yr Ysgrifennydd Parhaol yn adolygu'r broses o lywodraethu cynlluniau rheoli grantiau, ac yr wyf yn croesawu'r hyn a ddywedwch am yr arian sy'n cael ei wario'n effeithiol ar y rhaglenni y bwriedid ei wario arnynt. Fodd bynnag, amlygodd yr adroddiad nifer o berthnasoedd personol croes, a phryder swyddogion Llywodraeth Cymru am gael eu cyhuddo o wahaniaethu pe byddent yn ymdrin â materion yn fwy cadarn.

Can you confirm whether the race forum that you have set up is now successfully bringing together representatives from the black and Asian voluntary sector in a way that is useful and constructive, and delivering on those objectives? Can you also confirm whether Welsh Government staff are now in a position where concerns over discrimination, and accusations of discrimination, will not prevent robust and fair oversight of Welsh Government grant programmes?

A allwch chi gadarnhau a yw'r fforwm hil yr ydych wedi'i sefydlu bellach yn llwyddo i ddwyn ynghyd cynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol du ac Asiaidd mewn ffordd sy'n ddefnyddiol ac yn adeiladol, ac yn gwireddu'r amcanion hynny? A allwch chi hefyd gadarnhau a yw staff Llywodraeth Cymru yn awr mewn sefyllfa lle na fydd pryderon ynghylch gwahaniaethu, na chyhuddiadau o wahaniaethu, yn atal goruchwylio cadarn a theg o raglenni grant Llywodraeth Cymru?

2.30 p.m.

**Jane Hutt:** I am grateful to the Member for that very considered question. I will repeat again that the report makes clear that Ministers always acted in accordance with the advice they received from officials. Once the Welsh Government became aware of allegations of financial irregularities in AWEMA, in December 2011, it acted swiftly and decisively, and that is recognised in the Wales Audit Office report. I urge Members to read the whole report. I am very interested, for example, that the report states that:

**Jane Hutt:** Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod am y cwestiwn ystyriol iawn yna. Ailadroddaf unwaith eto bod yr adroddiad yn ei gwneud yn glir bod Gweinidogion bob amser wedi gweithredu yn unol â'r cyngor a gawsant gan swyddogion. Pan ddaeth Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o honiadau o afreoleidd-dra ariannol yn AWEMA, ym mis Rhagfyr 2011, gweithredodd yn gyflym ac yn bendant, ac mae hynny wedi ei gydnabod yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Anogaf yr Aelodau i ddarllen yr adroddiad cyfan. Mae gennyf ddiddordeb mawr, er enghraifft, bod yr adroddiad yn datgan bod:

'Media coverage and public commentary about AWEMA has contained unclear and misleading references to AWEMA's public funding.'

'Sylw yn y cyfryngau a sylwebaeth gyhoeddus am AWEMA wedi cynnwys cyfeiriadau aneglur a chamarweiniol at gyllid cyhoeddus AWEMA.'

This is a point that should be brought to people's attention in response to this urgent question today. It is clear that any media coverage should be accurate, and we can put to rest any accusations against Ministers and the way in which they have dealt with this matter. It is a sensitive matter in terms of

Mae hwn yn bwynt y dylid ei ddwyn i sylw pobl mewn ymateb i'r cwestiwn brys hwn heddiw. Mae'n amlwg y dylai unrhyw sylw yn y cyfryngau fod yn gywir, a'n bod yn gallu gwrthbrofi unrhyw gyhuddiadau yn erbyn Gweinidogion a'r ffordd y maent wedi ymdrin â'r mater hwn. Mae'n fater sensitif o

acknowledging the importance that we accord to the new Welsh Race Forum, and I am glad that Vaughan Gething asked me a question about that. The forum held its first meeting in February of this year. Some 22 organisations are represented on it, and it meets biannually. It will take a more strategic, co-ordinated and effective approach to ensuring that we successfully include people from different races, their families and communities, in all aspects of Welsh society. Indeed, at its first meeting, the new race forum welcomed the action that had been taken by the Welsh Government in setting it up. It is clear that we must now move forward, deliver on the recommendations of the WAO report, but, fundamentally, and as is the process for all other WAO reports, we must await the Public Accounts Committee's review and recommendations for the Welsh Government.

ran cydnabod y pwysigrwydd yr ydym yn ei roi ar y Fforwm Hil Cymru newydd, ac yr wyf yn falch bod Vaughan Gething wedi gofyn cwestiwn i mi am hynny. Cynhaliodd y fforwm ei gyfarfod cyntaf ym mis Chwefror eleni. Cynrhychiolir rhyw 22 o sefydliadau arno, ac mae'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Bydd yn golygu ymagwedd fwy strategol, cydgysylltiol ac effeithiol i sicrhau ein bod yn llwyddo i gynnwys pobl o wahanol hil, eu teuluoedd a'u cymunedau, ym mhob agwedd ar gymdeithas Cymru. Yn wir, yn ei gyfarfod cyntaf, croesawodd y fforwm hil newydd y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i'w sefydlu. Mae'n amlwg bod yn rhaid i ni symud ymlaen yn awr, cyflawni argymhellion adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, ond, yn sylfaenol, ac felly hefyd yw'r broses ar gyfer pob adroddiad arall Swyddfa Archwilio Cymru, mae'n rhaid i ni aros am adolygiad ac argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar gyfer Llywodraeth Cymru.

**Andrew R.T. Davies:** Minister, you talk about accurate information. One thing that the report points out is the inaccurate information that the Welsh Government was providing at certain junctures throughout this whole sad episode. One part of the report features a flow chart of different ministerial responsibilities over the 10 years that this matter has been investigated; it includes all the great and the good of the Welsh Labour Party and the Welsh Labour Government. Can you honestly say that you have acted in the best interests of the Welsh taxpayer, as the Minister now with ultimate responsibility, given that over £0.5 million has been lost in this particular instance? The report clearly identifies failings in the systems of the Welsh Government and in the information that the Welsh Government has provided. Are you honestly saying that you, as the Minister with ultimate responsibility here and now, can enjoy confidence going forward to ensure that this mess never happens again?

**Andrew R.T. Davies:** Weinidog, rydych yn siarad am wybodaeth gywir. Un peth y mae'r adroddiad yn tynnu sylw ato yw'r wybodaeth anghywir yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei darparu ar adegau penodol drwy gydol y digwyddiad trist hwn. Mae un rhan o'r adroddiad yn dangos siart llif o wahanol gyfrifoldebau gweinidogol yn ystod y 10 mlynedd yr ymchwiliwyd i'r mater hwn; mae'n cynnwys holl fawrion Plaid Lafur Cymru a Llywodraeth Lafur Cymru. A allwch chi yn onest ddweud eich bod wedi gweithredu er budd gorau trethdalwyr Cymru, fel y Gweinidog sydd â'r cyfrifoldeb terfynol erbyn hyn, o gofio bod dros £0.5 miliwn wedi ei golli yn yr achos penodol hwn? Mae'r adroddiad yn nodi'n glir methiannau yn systemau Llywodraeth Cymru ac yn y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi ei darparu. A ydych chi'n dweud o ddifrif y gallwch chi, fel y Gweinidog sydd â'r cyfrifoldeb terfynol yn y fan a'r lle, fod yn ffyddiog wrth fynd ymlaen y gallwch sicrhau na fydd llanast fel hyn fyth yn digwydd eto?

**Jane Hutt:** I took the swift and decisive action to cease funding to AWEMA when we saw the outcome of the report that the Welsh Government instigated to look into this, as a result of allegations. The action that I took at

**Jane Hutt:** Cymerais y camau cyflym a phendant i roi'r gorau i ddarparu cyllid i AWEMA pan welsom ganlyniad yr adroddiad a anogwyd gan Lywodraeth Cymru i ymchwilio i hyn, o ganlyniad i

that time, in terms of ceasing funding and then calling on—as the First Minister and the Permanent Secretary did—the WAO to undertake this value for money report, demonstrates our commitment then and now to ensuring that this should not happen again. However, there are, clearly, lessons to be learned, there are recommendations that we have accepted in full, and I think that there is a responsibility on this whole Chamber—led by the Public Accounts Committee—to ensure that we respond to this report appropriately. Referring back to Rhodri Glyn's question, we have a responsibility to the third sector and to our equalities organisations in Wales to ensure that the due diligence health check—which I have taken forward in terms of the organisations that are funded under the advancing equality fund and the inclusion grant—has been undertaken, and that we are satisfied with the outcome of that.

honiadau. Mae'r camau a gymerais ar y pryd, o ran rhoi'r gorau i ariannu ac yna galw ar—fel y gwnaeth y Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Parhaol —Swyddfa Archwilio Cymru i ymgymryd â'r adroddiad gwerth am arian hwn, gan ddangos ein hymrwymiad yr adeg honno ac yn awr i sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto. Fodd bynnag, mae, yn amlwg, wersi i'w dysgu, mae argymhellion yr ydym wedi'u derbyn yn llawn, a chredaf fod cyfrifoldeb ar y Siambr gyfan hon—wedi'i harwain gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus—i sicrhau ein bod yn ymateb i'r adroddiad hwn yn briodol. Gan gyfeirio'n ôl at gwestiwn Rhodri Glyn, mae gennym gyfrifoldeb i'r trydydd sector ac i'n sefydliadau cydraddoldeb yng Nghymru i sicrhau bod y gwiriad iechyd diwydrwydd dyladwy—yr wyf wedi ei ddatblygu o ran y sefydliadau sy'n cael eu hariannu o dan y gronfa hyrwyddo cydraddoldeb a'r grant cynhwysiant—wedi ei gynnal, a'n bod yn fodlon ar ganlyniad hwnnw.

**Simon Thomas:** Minister, it is a great pity that you did not take swift and decisive action to come to this Chamber and explain how the Government is responding to this audit report. I have read the report. It states that your Government misled Members in written questions during that period. It states that a meeting between Carl Sargeant and Dai Lloyd, discussing these various issues, was not acted upon. It states that public money has been misspent by AWEMA officials and trustees. Therefore, I have a simple question for you, Minister. Will you take civil legal action to reclaim that public money from those, as Vaughan Gething said, who misspent public money, on behalf of everyone in Wales?

**Simon Thomas:** Weinidog, mae'n drueni mawr na wnaethoch gymryd camau cyflym a phendant i ddod i'r Siambr hon ac esbonio sut y mae'r Llywodraeth yn ymateb i'r adroddiad archwilio hwn. Rwyf wedi darllen yr adroddiad. Mae'n datgan bod eich Llywodraeth wedi camarwain Aelodau mewn cwestiynau ysgrifenedig yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'n datgan na weithredwyd yn dilyn cyfarfod rhwng Carl Sargeant a Dai Lloyd, i drafod y gwahanol faterion hyn. Mae'n datgan bod arian cyhoeddus wedi ei gamwario gan swyddogion ac ymddiriedolwyr AWEMA. Felly, mae gennyf gwestiwn syml i chi, Weinidog. A fyddwch chi'n cymryd camau cyfreithiol sifil i adennill yr arian cyhoeddus hwnnw gan y bobl hynny, fel y dywedodd Vaughan Gething, a gamwariodd arian cyhoeddus, ar ran pawb yng Nghymru?

**Jane Hutt:** The Welsh Government is still aiming to recover at least some of the money that is owed from the funds that remain in the hands of the liquidators. That is our clear intention. As you know, we also await not only police investigations, but investigations by the Charity Commission, in terms of the governance of AWEMA. That is the critical part for which we are not responsible, but on

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth Cymru yn dal i amcanu at adennill o leiaf peth o'r arian sy'n ddyledus o'r cronfeydd sy'n parhau i fod yn nwylo'r diddymwyr. Dyna yw ein bwriad eglur. Fel y gwyddoch, rydym hefyd yn aros nid yn unig am ymchwiliadau'r heddlu, ond am ymchwiliadau gan y Comisiwn Elusennau, o ran llywodraethu AWEMA. Dyna'r rhan hollbwysig nad ydym yn gyfrifol

which where there are lessons to be learned in terms of how we can appropriately support organisations such as AWEMA to ensure that they have robust diligence with regard to their governance.

amdani, ond lle y mae gwersi i'w dysgu o ran sut y gallwn gefnogi sefydliadau fel AWEMA yn briodol er mwyn sicrhau bod ganddynt ddiwydrwydd cadarn o ran eu llywodraethu.

**Mohammad Asghar:** The more scrutiny we do of certain people involved in AWEMA's affairs, the more questions that arise. The total failure of the Government in certain areas for so long is unbelievable. AWEMA squandered the money, misused the funds—£7 million and £3 million in the pipeline before the plug was pulled. Why did the Welsh Government turn a blind eye to AWEMA's obvious failings and continue to allow public money to be squandered for so long by an organisation that was not fit for purpose? Secondly, why were the resignations of the chairman and two trustees, and their allegations of financial mismanagement, ignored in 2007? Finally—and this is a very important question, Minister—was it because of close links between the Malik family and the Labour Party?

**Mohammad Asghar:** Po fwyaf o graffu yr ydym yn ei gynnal ar bobl benodol a oedd yn ymwneud a materion AWEMA, mwya'n y byd o gwestiynau sy'n codi. Mae methiant llwyr y Llywodraeth mewn meysydd penodol am gymaint o amser yn anhygoel. Gwastraffodd AWEMA yr arian, a chamddefnyddio'r cyllid—£7 miliwn a £3 miliwn yn yr arfaeth cyn yr ataliwyd y cymorth. Pam y gwnaeth Llywodraeth Cymru anwybyddu methiannau amlwg AWEMA a pharhau i ganiatáu i arian cyhoeddus gael ei wastraffu am gymaint o amser gan sefydliad nad oedd yn addas i'w ddiben? Yn ail, pam yr anwybyddwyd ymddiswyddiadau'r cadeirydd a dau ymddiriedolwr, a'u honiadau o gamreoli ariannol, yn 2007? Yn olaf—ac mae hyn yn gwestiwn pwysig iawn, Weinidog—a oedd hyn oherwydd y cysylltiadau agos rhwng y teulu Malik a'r Blaid Lafur?

**Jane Hutt:** I am astounded by that question; I do not think it warrants a response, other than to suggest that Mohammad Asghar reads the Wales Audit Office report. The report has confirmed—and I repeat this again for the record—that there is no evidence that Ministers exerted any inappropriate political influence over funding decisions, and that they always acted in accordance with advice from officials. Not only has the WAO made that comment and assertion as a result of its investigation as its key finding in terms of the role of Ministers, it also highlights that we took swift and robust action to suspend funding to AWEMA and protect those who are delivering programmes through AWEMA. On that point, I rest my case, Presiding Officer.

**Jane Hutt:** Yr wyf wedi fy syfrdanu gan y cwestiwn yna, nid wyf yn credu ei fod yn deilwng o ymateb, ar wahân i awgrymu bod Mohammad Asghar yn darllen adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r adroddiad wedi cadarnhau—ac rwyf yn ailadrodd hyn eto, er mwyn iddo fod ar gof a chadw—nad oes unrhyw dystiolaeth fod Gweinidogion wedi arfer unrhyw ddylanwad gwleidyddol amhriodol dros benderfyniadau ariannu, a'u bod bob amser wedi gweithredu yn unol â'r cyngor a gafwyd gan swyddogion. Nid yn unig y mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi'r sylw a'r arddeliad hwnnw fel canfyddiad allweddol o ran rôl Gweinidogion, o ganlyniad i'w hymchwiliad, ond mae hefyd yn amlygu'r ffaith ein bod wedi cymryd camau cyflym a chadarn i atal cyllid i AWEMA a diogelu'r rhai sy'n cyflwyno rhaglenni drwy AWEMA. Ar y pwynt hwnnw, rwyf yn cloi fy nadl, Lywydd.

**Jenny Rathbone:** Unfortunately, in the AWEMA report, as indeed in the River Lodge report, there are well-documented examples of inaccurate information being

**Jenny Rathbone:** Yn anffodus, yn adroddiad AWEMA, fel yn wir yn adroddiad River Lodge, mae enghreifftiau wedi'u dogfennu'n dda o wybodaeth anghywir yn cael ei rhoi i

given to local Assembly Members, who were aware of what was going in their own area, and of briefings to Ministers that were either inaccurate or biased in what they chose not to highlight. Will you tell us what is being done by the Government to ensure that Assembly Members are getting accurate responses to any queries and that Ministers are getting a full picture so that they are able to make decisions based on a full knowledge of the situation?

Aelodau Cynulliad lleol, a oedd yn ymwybodol o'r hyn a oedd yn mynd ymlaen yn eu hardal eu hunain, ac o sesiynau briffio i Weinidogion a oedd naill ai'n anghywir neu'n rhagfarnllyd yn yr hyn yr oeddynt yn dewis peidio â thynnu sylw ato. A wnewch chi ddweud wrthym beth sy'n cael ei wneud gan y Llywodraeth i sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn cael ymateb cywir i unrhyw ymholiadau a bod Gweinidogion yn cael darlun llawn fel eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar wybodaeth lawn am y sefyllfa?

**Jane Hutt:** The WAO report highlights a number of recommendations, which we are going to act upon and respond to, but I would ask the Member to look again at the statement made by the Permanent Secretary. I am sure that he will come before the Public Accounts Committee to remind Members that we established a grants management project in 2010—a centre of excellence—to develop those corporate processes and procedures that I have described. I remind the Member again that the Permanent Secretary made it clear that:

**Jane Hutt:** Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn amlygu nifer o argymhellion, yr ydym yn mynd i weithredu arnynt ac ymateb iddynt, ond byddwn yn gofyn i'r Aelod edrych eto ar y datganiad a wnaed gan yr Ysgrifennydd Parhaol. Rwyf yn siŵr y bydd yn dod gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i atgoffa Aelodau ein bod wedi sefydlu prosiect rheoli grantiau yn 2010—canolfan rhagoriaeth—i ddatblygu'r prosesau a'r gweithdrefnau corfforaethol hynny yr wyf wedi'u disgrifio. Rwyf yn atgoffa'r Aelod unwaith eto fod yr Ysgrifennydd Parhaol wedi ei gwneud yn glir bod:

'Grants form one of the Welsh Government's most important mechanisms for delivering Ministerial priorities and are making a real difference to the lives of people in Wales.'

'Grantiau yn ffurfio un o fecanweithiau pwysicaf Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni blaenoriaethau Gweinidogol a'u bod yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl yng Nghymru.'

As a new Permanent Secretary, Derek Jones is determined to build on the work of the grants centre for excellence and improve capacity and capability in grants management. That, as well as implementing the recommendations of the report, will safeguard not only organisations, but this Government, in terms of its future implementation of the grants regime.

Fel Ysgrifennydd Parhaol newydd, mae Derek Jones yn benderfynol o adeiladu ar waith y ganolfan rhagoriaeth ar gyfer grantiau a gwella gallu a medr mewn rheoli grantiau. Bydd hynny, yn ogystal â gweithredu argymhellion yr adroddiad, nid yn unig yn diogelu sefydliadau, ond y Llywodraeth hon, o ran ei gweithrediad o'r gyfundrefn grantiau yn y dyfodol.

**Mark Isherwood:** Although, as the Minister notes, the report concludes that there is no evidence that Labour Ministers interfered to protect AWEMA, surely that is damning by faint praise. The report does say that the Welsh Government failed to heed a number of warnings about the way that Swansea-based AWEMA was run. Given that the same

**Mark Isherwood:** Er bod yr adroddiad wedi dod i'r casgliad, fel y mae'r Gweinidog yn nodi, nad oes unrhyw dystiolaeth bod Gweinidogion Llafur wedi ymyrryd i amddiffyn AWEMA, mae canmoliaeth wan felly yn sicr yn ddamniol ynddi'i hun. Mae'r adroddiad yn dweud bod Llywodraeth Cymru wedi methu â thalu sylw i nifer o rybuddion

Government department was involved in these matters as was involved in some of the matters in Plas Madoc Communities First and Higher Shotton Communities First, among others, why have the previous failings of corporate governance identified in successive reports in finance, audit and human resources not been acted upon and why, in each case, were the whistleblowers penalised rather than protected?

am sut yr oedd AWEMA yn cael ei redeg yn Abertawe. O gofio bod yr un adran o’r Llywodraeth yn ymwneud â’r materion hyn ag a oedd yn ymwneud â rhai o’r materion yng Nghymunedau yn Gyntaf Plas Madoc, Cymunedau yn Gyntaf Higher Shotton, ymhlith eraill, pam na weithredwyd ar fethiannau blaenorol llywodraethu corfforaethol a nodwyd mewn adroddiadau olynol ar gyfer cyllid, archwilio ac adnoddau dynol, a pham, ym mhob achos, y cosbwyd y chwythwyr chwiban yn hytrach na’u diogelu?

**Jane Hutt:** I respect the Public Accounts Committee in terms of its role and responsibility to receive the report from the Wales Audit Office and I await its report.

**Jane Hutt:** Yr wyf yn parchu’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus o ran ei rôl a’i gyfrifoldeb i dderbyn yr adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru ac yr wyf yn disgwyl am ei adroddiad.

**The Presiding Officer:** I have no other speakers. Thank you, Minister.

**Y Llywydd:** Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill. Diolch, Weinidog.

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
## Business Statement and Announcement

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I have several changes to report to this week’s planned business, which affect business for tomorrow. I have reduced the time allocated for questions to the Counsel General in proportion to the number of questions tabled, and I will be making a statement to the Assembly on a joint statement with the UK Government on funding reform. The Business Committee has scheduled a motion to elect Members to committees, and business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Mae gennyf nifer o newidiadau i’w hadrodd i’r busnes a gynlluniwyd yr wythnos hon, ac maent yn effeithio ar y busnes ar gyfer yfory. Rwyf wedi lleihau’r amser a neilltuwyd ar gyfer cwestiynau i’r Cwnsler Cyffredinol yn gymesur â nifer y cwestiynau a gyflwynwyd, a byddaf yn gwneud datganiad i’r Cynulliad ar ddatganiad ar y cyd gyda Llywodraeth y DU ar ddiwygio’r trefniadau cyllido. Mae’r Pwyllgor Busnes wedi cynnwys cynnig i ethol Aelodau i bwyllgorau, a bydd busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y’i dangosir ar y cyhoeddiad a’r datganiad busnes, sydd i’w gweld ymysg papurau’r agenda sydd ar gael i Aelodau’n electronig.

**William Graham:** I thank the Leader of the House for her statement today. I would like to raise with her once again, and impress upon her colleague, the Minister with responsibility for transport, the troubles regarding the M4 motorway. Yesterday, during the morning rush hour, an accident between junctions 24 and 23a caused a massive tailback. As soon as that congestion had cleared, there was another accident, a vehicle fire, between the same two junctions.

**William Graham:** Diolch i Arweinydd y Tŷ am ei datganiad heddiw. Hoffwn godi gyda hi unwaith eto, a thynnu sylw ei chydweithiwr, y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros drafnidiaeth, at y trafferthion ynghylch traffordd yr M4. Ddoe, yn ystod cyfnod prysur y bore, achoswyd tagfeydd enfawr gan ddamwain rhwng cyffyrdd 24 a 23a. Cyn gynted ag y cliriodd y tagfeydd hynny, cafwyd damwain arall, sef cerbyd ar dân, rhwng yr un dwy gyffordd. Achosodd hynny

This caused travellers travelling in the opposite direction to slow down because of the smoke billowing across the motorway. During the evening rush hour, a lorry carrying a crane hit the bridge near junction 28, which required one lane to be closed, resulting in further tailbacks in the evening rush hour. Minister, you will be well aware how important the M4 is not only to Newport but south Wales generally, as the major avenue of economic progress, and interest in our economic development will wane unless we are able to assure people that the M4 motorway is open for business.

i deithwyr a oedd yn teithio i'r cyfeiriad arall arafu oherwydd y mwg a oedd yn llifo ar draws y draffordd. Yn ystod y cyfnod prysur gyda'r nos, trawodd lori a oedd yn cario craen yn erbyn y bont ger cyffordd 28, gan arwain at gau un lôn, ac achosi rhagor o dagfeydd yn ystod y cyfnod prysur gyda'r nos. Weinidog, byddwch yn gwybod yn iawn pa mor bwysig yw'r M4 nid yn unig i Gasnewydd ond i dde Cymru yn gyffredinol, fel prif lwybr cynnydd economaidd, a bydd diddordeb yn ein datblygiad economaidd yn pylu oni bai ein bod yn gallu sicrhau pobl bod traffordd yr M4 ar agor i'w defnyddio.

**Jane Hutt:** I am grateful to William Graham for raising this during the business statement once again, because it is key. Delivering strategic enhancements to the M4 around Newport is a key long-term priority for the Welsh Government and for the Minister with responsibility for transport. Now that the consultation on the M4 corridor enhancement measures has closed, detailed responses to that consultation are being considered, and the Minister will report back to the Assembly to provide an update on progress in due course.

**Jane Hutt:** Rwyf yn ddiolchgar i William Graham am godi'r mater hwn yn ystod y datganiad busnes unwaith eto, oherwydd y mae'n allweddol. Mae'n un o flaenoriaethau allweddol hir-dymor Llywodraeth Cymru, a'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros drafnidiaeth, i gyflawni gwelliannau strategol i'r M4 yng nghyffiniau Casnewydd. Nawr bod yr ymgynghoriad ar y mesurau i wella coridor yr M4 wedi dod i ben, mae'r ymatebion manwl i'r ymgynghoriad hwnnw yn cael eu hystyried, a bydd y Gweinidog yn rhoi adroddiad i'r Cynulliad maes o law, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, mae'n rhaid i mi ddweud unwaith yn rhagor nad wyf yn deall pam nad yw Llywodraeth Cymru yn barod i wneud datganiad neu gynnal dadl ar adroddiad sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch perfformiad chi fel Llywodraeth. Dylai fod yn gyfrifoldeb i chi wneud hynny o ran cwrteisi i Aelodau Cynulliad ac i'r bobl yng Nghymru sydd wedi bod yn dangos diddordeb yn y mater hwn ac sydd wedi codi pryderon ynghylch y mater hwn dros gyfnod hir o amser.

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, I must once again state that I do not understand why the Welsh Government is not willing to make a statement or hold a debate on a report that directly appertains to your performance as a Government. It should be your responsibility to do so from the point of view of courtesy to Assembly Members and to the people of Wales who have been showing an interest in this matter and who have raised concerns about this matter over a long time.

Hoffwn hefyd ofyn i chi, Weinidog, yn wyneb y dystiolaeth gynyddol fod ail gartrefi—tai gwyliau—yn creu problemau economaidd gwirioneddol mewn nifer o ardaloedd yng Nghymru, yn enwedig ar yr arfordir, a chan fod gennym y cymhwysedd i ddeddfu yn y mater hwn o ran y dreth cyngor y gellir ei osod ar dai gwyliau, a ydych wedi rhoi ystyriaeth i ddechrau'r broses deddfwriaethol honno er mwyn inni fynd i'r afael â'r broblem hwn?

I would also like to ask you, Minister, whether, in light of the increasing evidence that second homes—holiday homes—are creating real economic problems in a number of areas in Wales, particularly coastal areas, and given that we have the competence to legislate on this matter in relation to the council tax that can be levied on holiday homes, you have given consideration to initiating the legislative process to get to grips with that problem?

**Jane Hutt:** I have nothing to add to the response that I gave to the urgent question earlier this afternoon. On the second matter, that is a matter for the Minister for Housing, Regeneration and Heritage. I know that he will have noted that you have raised this in the Chamber this afternoon, Rhodri Glyn Thomas, and I am sure that he will want to respond to this in due course.

**Jane Hutt:** Nid oes gennyf ddim i'w ychwanegu at yr ymateb a roddais i'r cwestiwn brys yn gynharach brynhawn heddiw. Ar yr ail fater, mae hynny'n fater i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth. Gwn y bydd wedi nodi eich bod wedi codi'r mater hwn yn y Siambr brynhawn heddiw, Rhodri Glyn Thomas, ac rwy'n siŵr y bydd yn awyddus i ymateb i hyn maes o law.

**Paul Davies:** Leader of the House, I would like to request two statements. First, I would like echo the comments of the Member for Carmarthen East and Dinefwr and, once again, press you on bringing forward a statement telling us what specific action the Welsh Government will be taking following the Wales Audit Office report into AWEMA. The way in which public money is spent should be a priority for any Government and should be at the top of its agenda. It is therefore only right and proper that the Welsh Government respond to this latest report, so that we can scrutinise these failings. Therefore, I once again urge the Minister, as the Minister responsible, to bring forward a statement as soon as possible.

**Paul Davies:** Arweinydd y Tŷ, hoffwn ofyn am ddau ddatganiad. Yn gyntaf, hoffwn adleisio sylwadau'r Aelod dros Ddwyrain Caerfyrddin a Dinefwr a phwyso arnoch, unwaith eto, i gyflwyno datganiad i ddweud wrthym pa gamau penodol y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn dilyn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar AWEMA. Dylai'r ffordd y caiff arian cyhoeddus ei wario fod yn flaenoriaeth i unrhyw Lywodraeth a dylai fod ar frig ei hagenda. Felly, mae'n iawn ac yn briodol i Lywodraeth Cymru ymateb i'r adroddiad diweddaraf, er mwyn i ni allu craffu ar y methiannau hyn. Felly, rwyf unwaith eto yn annog y Gweinidog, fel y Gweinidog cyfrifol, i gyflwyno datganiad cyn gynted ag y bo modd.

2.45 p.m.

Secondly, leader of the House, I would be grateful if the Welsh Government could bring forward a debate, or if the Minister for Health and Social Services could at least bring forward a statement, on health service reconfiguration. I appreciate that the Government is not prepared to discuss these issues or to express its views during a consultation period, but I presume that you, as a Government, will be prepared to discuss these matters once the consultation period ends. As leader of the House, I would be grateful if you could please ensure that this place is able to debate the proposals once local health boards have dealt with the consultation responses and made their final decisions. These eventual changes could have a huge effect on the people of Wales and on our health service, and it is only right and proper that we as elected representatives have an opportunity to debate these issues and represent our constituents' views. Therefore, I would be grateful if the leader of the House

Yn ail, arweinydd y Tŷ, byddwn yn ddiolchgar pe gallai Llywodraeth Cymru gyflwyno dadl, neu pe gallai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o leiaf gyflwyno datganiad, ar ad-drefnu'r gwasanaeth iechyd. Sylweddolaf nad yw'r Llywodraeth yn barod i drafod y materion hyn nac i fynegi ei barn yn ystod cyfnod ymgynghori, ond cymeraf y byddwch chi, fel Llywodraeth, yn barod i drafod y materion hyn ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Fel arweinydd y Tŷ, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn sicrhau bod y lle hwn yn gallu trafod y cynigion pan fydd byrddau iechyd lleol wedi ymdrin â'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gwneud eu penderfyniadau terfynol. Gallai'r newidiadau hyn yn y pen draw gael effaith enfawr ar bobl Cymru ac ar ein gwasanaeth iechyd, ac mae'n iawn ac yn briodol ein bod ni, fel cynrychiolwyr etholedig, yn cael cyfle i drafod y materion hyn a chynrychioli barn ein hetholwyr. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallai arweinydd y

could confirm that time will be made available for a debate on health reconfiguration, or, at the very least, for a statement by the Minister for health so that we can fully scrutinise the final proposals.

Tŷ gadarnhau y bydd amser yn cael ei neilltuo ar gyfer dadl ar ad-drefnu'r gwasanaeth iechyd, neu, o leiaf, ar gyfer datganiad gan y Gweinidog iechyd fel y gallwn graffu'n llawn ar y cynigion terfynol.

**Jane Hutt:** While thanking Paul Davies for those questions, I would make the point that I also respect due process in the handling of not only the report that the Public Accounts Committee is currently considering but also the current and ongoing consultation on health reconfiguration. Up to this point, Members have taken the opportunity to raise questions with the Minister about the consultation, which is only right and proper, but it is clearly the time for us to focus on that, and, as part of due process, the Welsh Government's response.

**Jane Hutt:** Er fy mod yn diolch i Paul Davies am y cwestiynau hynny, byddwn yn gwneud y pwynt fy mod hefyd yn parchu'r drefn briodol wrth ymdrin â'r adroddiad y mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ei ystyried ar hyn o bryd, yn ogystal â'r ymgynghoriad sydd ar y gweill ar hyn o bryd ar ad-drefnu'r gwasanaeth iechyd. Hyd at y pwynt hwn, mae Aelodau wedi manteisio ar y cyfle i godi cwestiynau gyda'r Gweinidog am yr ymgynghoriad, sy'n iawn ac yn briodol, ond dyma'r amser yn amlwg i ni ganolbwyntio ar hynny, ac, fel rhan o'r drefn briodol, ar ymateb Llywodraeth Cymru.

**Eluned Parrott:** Please could we have an indication from the Minister of whether any time could be set aside to discuss the Welsh ministerial code, and particularly the fact that this is the only legislature in the United Kingdom in which the head of the Government decides whether one of his Ministers has broken that code? I think that you will agree, Minister, that this is an important issue that speaks to the people of Wales's fundamental ability to have confidence in this institution, and I would be very grateful if the Government were to set aside time to discuss it fully.

**Eluned Parrott:** A allwn gael syniad gan y Gweinidog, os gwelwch yn dda, ynghylch y posibilrwydd o neilltuo amser i drafod cod Gweinidogion Cymru, ac yn enwedig y ffaith mai hon yw'r unig ddeddfwrfa yn y Deyrnas Unedig lle y mae pennaeth y Llywodraeth yn penderfynu p'un a oes un o'i Weinidogion wedi torri'r cod hwnnw? Credaf y byddwch yn cytuno, Weinidog, bod hwn yn fater pwysig sy'n ymwneud â gallu sylfaenol pobl Cymru i fod yn hyderus yn y sefydliad hwn, a byddwn yn ddiolchgar iawn pe bai'r Llywodraeth yn neilltuo amser i'w drafod yn llawn.

**Jane Hutt:** That is a matter for the First Minister.

**Jane Hutt:** Mae hynny'n fater i'r Prif Weinidog.

**Mark Isherwood:** I call for a single statement, Minister. Earlier this month, on 8 October, Planning Inspectorate Wales announced its decision in respect of an appeal against a recent planning ruling made by officials in Flintshire. I call for a statement in the context of the Welsh Government's approach to the Wales health impact assessment unit, because, while declining the proposed development, it expressed concerns that the impact on the wellbeing of people who might eventually live on the site, from the effects of noise and traffic pollution, had not been taken into account. It stated that a principal concern was the fact that no-one had properly appraised hazards that were

**Mark Isherwood:** Galwaf am un datganiad, Weinidog. Yn gynharach y mis hwn, ar 8 Hydref, cyhoeddodd Arolygiaeth Gynllunio Cymru ei phenderfyniad mewn cysylltiad ag apêl yn erbyn dyfarniad cynllunio diweddar a wnaed gan swyddogion yn Sir y Fflint. Galwaf am ddatganiad yng nghyd-destun agwedd Llywodraeth Cymru at yr uned asesu effaith ar iechyd Cymru. Er y gwrthodwyd y datblygiad arfaethedig, mynegwyd pryderon nad oedd ystyriaeth wedi cael ei rhoi i'r effaith ar les y bobl a allai yn y pen draw fod yn byw ar y safle, yn sgil effeithiau sŵn a llygredd traffig. Nododd yr Arolygiaeth mai un o'r prif bryderon oedd y ffaith nad oedd neb wedi arfarnu'n briodol y peryglon y

acknowledged to be a concern for human health, and which were material to the case and its deliberations. Given that the Welsh Government's development programme for the use of health impact assessments included the establishment of a Wales health impact assessment unit, we need a Welsh Government statement outlining when and how we can expect to see this process being made a requirement for all planning considerations that might have an impact on health and wellbeing.

cydnabuwyd eu bod yn bryder i iechyd dynol, ac a oedd yn berthnasol i'r achos a'i drafodaethau. O gofio bod rhaglen ddatblygu Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio asesiadau effaith ar iechyd yn cynnwys sefydlu uned asesu effaith ar iechyd Cymru, mae arnom angen datganiad gan Lywodraeth Cymru yn amlinellu pryd a sut y gallwn ddisgwyl gweld y broses hon yn cael ei gwneud yn ofynnol ar gyfer yr holl ystyriaethau cynllunio a allai gael effaith ar iechyd a lles.

**Jane Hutt:** I am sure that this is a matter that the Minister for Environment and Sustainable Development is taking on board, in collaboration and partnership with the Minister for Health and Social Services. I am sure that they will want to look at this matter.

**Jane Hutt:** Rwyf yn siŵr bod hwn yn fater y mae Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn ei ystyried, mewn cydweithrediad a phartneriaeth â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Rwyf yn siŵr y byddant yn awyddus i edrych ar y mater hwn.

**Peter Black:** Minister, you have made much of due process and protocols this afternoon in relation to the AWEMA report, and yet when previous Wales Audit Office reports have come out, Ministers have made written statements or statements to the press about their content almost immediately. Examples include the River Lodge Hotel in Llangollen report, the Plas Madoc Communities First partnership report, and the Caldicot and Wentlooge levels report. Given that that precedent has been set, could you be more clear about which protocol you are referring to when you hide behind the skirts of civil servants on this particular issue? Will you now agree to bring forward a statement so that we can hold you and your Government to account on the contents of this report?

**Peter Black:** Weinidog, rydych wedi sôn llawer am y drefn briodol a phrotocolau brynhawn heddiw mewn cysylltiad ag adroddiad AWEMA, ac eto pan gyhoeddwyd adroddiadau gan Swyddfa Archwilio Cymru yn y gorffennol, mae Gweinidogion wedi gwneud datganiadau ysgrifenedig neu ddatganiadau i'r wasg am eu cynnwys bron ar unwaith. Mae enghreifftiau yn cynnwys adroddiad Gwesty'r River Lodge yn Llangollen, adroddiad partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Plas Madoc, ac adroddiad Morfa Gwent a Gwynllŵg. O gofio bod y cynsail wedi ei osod, a allech chi fod yn fwy eglur ynglŷn â pha brotocol yr ydych yn cyfeirio ato wrth guddio y tu ôl i'r gweision sifil ar y mater penodol hwn? A wnewch chi gytuno yn awr i gyflwyno datganiad fel y gallwn eich dwyn chi a'ch Llywodraeth i gyfrif ar gynnwys yr adroddiad hwn?

**Jane Hutt:** I have answered an urgent question on this matter this afternoon. I have nothing to add.

**Jane Hutt:** Rwyf wedi ateb cwestiwn brys ar y mater hwn brynhawn heddiw. Nid oes gennyf ddim i'w ychwanegu.

**Darren Millar:** Can we have a statement from the Minister for Health and Social Services on capacity issues within A&E departments in south Wales and particularly in the capital city? We talked earlier during questions to the First Minister about the problems experienced in Cardiff and the tragedies that happened over the weekend,

**Darren Millar:** A allwn gael datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar allu adrannau damweiniau ac achosion brys i ymdopi â llwyth gwaith yn ne Cymru ac yn enwedig yn y brifddinas? Buom yn siarad yn gynharach yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog am y problemau a gafwyd yng Nghaerdydd a'r trychinebau a

and we know that the A&E department at the University Hospital of Wales was initially shut to anyone not involved in the incidents and the carnage that took place. To me, Minister, it sounds very worrying that the department did not seem able to cope with the volume of people coming in. One has to worry about the potential impact of an incident in future such as a train accident or serious traffic accident.

ddigwyddodd dros y penwythnos, ac rydym yn gwybod bod yr adran damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Athrofaol Cymru ar gau i ddechrau i unrhyw un nad oedd yn rhan o’r digwyddiadau a’r gyflafan. I mi, Weinidog, mae’n swnio’n destun pryder mawr nad oedd yr adran yn ymddangos fel pe bai’n gallu ymdopi â nifer y bobl a oedd yn dod i mewn. Mae’n rhaid poeni am effaith bosibl digwyddiad yn y dyfodol megis damwain trên neu ddamwain traffig ddifrifol.

May I also ask for a statement from the Minister for Housing, Regeneration and Heritage on the future of Pisgah chapel in Loughor? Members will be aware that the chapel there is under threat of demolition as a result of dwindling funds from the Welsh Presbyterian church to maintain it and the fact that the lease is coming to an end. It is an important part of this country’s religious heritage given the association of the chapel with Evan Roberts, the leader of the 1904 religious revival in Wales, and I would be very grateful if the Minister could make a statement on that.

A gaf fi hefyd ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth ar ddyfodol capel Pisgah yng Nghasllwchwr? Bydd yr Aelodau’n ymwybodol bod bygythiad y gallai’r capel yno gael ei ddymchwel oherwydd bod yr arian sydd ar gael gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru i’w gynnal yn prinhau, ac oherwydd bod y brydles yn dod i ben. Mae’n rhan bwysig o dreftadaeth grefyddol y wlad hon o ystyried cysylltiad y capel ag Evan Roberts, arweinydd Diwygiad Crefyddol 1904 yng Nghymru, a byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallai’r Gweinidog wneud datganiad ar hynny.

**Jane Hutt:** I am sure that Darren Millar did not wish to detract from the very important statements made by his leader and, indeed, across the Chamber about the way in which the emergency services responded on Friday. Indeed, the Member for Cardiff North visited the University Hospital of Wales and recognised the impact that the incident had on many public services, not only on those who were responding to it. I am sure that that is what the Chamber would want to recognise this afternoon as the key point.

**Jane Hutt:** Rwyf yn siŵr nad oedd Darren Millar yn dymuno bychanu’r datganiadau pwysig iawn a wnaed gan ei arweinydd ac, yn wir, ar draws y Siambr ynglŷn â’r ffordd yr ymatebodd y gwasanaethau brys ddydd Gwener. Yn wir, bu’r Aelod dros Ogledd Caerdydd i ymweld ag Ysbyty Athrofaol Cymru a chydnabu’r effaith a gafodd y digwyddiad ar nifer o wasanaethau cyhoeddus, nid yn unig ar y rhai a oedd yn ymateb iddo. Rwyf yn siŵr mai dyna’r prif bwynt y byddai’r Siambr am ei gydnabod brynhawn heddiw.

On the second point, I think that it would be appropriate for you to write to the Minister for Housing, Regeneration and Heritage to explore any avenues that might be open, for the protection and preservation of that chapel.

Ar yr ail bwynt, rwyf yn meddwl y byddai’n briodol i chi ysgrifennu at y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth i archwilio unrhyw bosibiliadau ar gyfer diogelu a chadw’r capel hwnnw.

**Andrew R.T. Davies:** Leader of the House, could we have two statements from the First Minister in relation to two commitments that he made some time ago now? One was to establish an air link to China. That got considerable press coverage at the time, following his visit to China. It would be very

**Andrew R.T. Davies:** Arweinydd y Tŷ, a allem gael dau ddatganiad gan y Prif Weinidog mewn cysylltuiad â dau ymrwymiad a wnaeth beth amser yn ôl erbyn hyn? Un oedd sefydlu cyswllt awyr â Tsieina. Cafodd hynny gryn sylw yn y wasg ar y pryd, yn dilyn ei ymweliad â Tsieina. Byddai’n

interesting to know what action the Welsh Government has undertaken to take that proposal forward. The second was his commitment to lobby to get Trident located here in Wales. It would be interesting to know what actions he has committed his Government to undertaking to keep Wales in the frame should Trident be relocated. Some six to eight months have now passed since that commitment was made, so it will be interesting to know how his Ministers are working to support it.

ddiddorol iawn cael gwybod pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cymryd i fwrw ymlaen â'r cynnig hwnnw. Yr ail oedd ei ymrwymiad i lobïo i gael lleoli Trident yma yng Nghymru. Byddai'n ddiddorol gwybod pa gamau y mae wedi ymrwymo ei Lywodraeth i'w cymryd i gadw Cymru mewn ystyriaeth pe byddai Trident yn cael ei symud. Mae tua chwech i wyth mis wedi mynd heibio bellach ers i'r ymrwymiad hwnnw gael ei wneud, felly bydd yn ddiddorol gwybod sut mae ei Weinidogion yn gweithio i'w gefnogi.

**Jane Hutt:** The Cardiff Airport taskforce, which the First Minister is leading and chairing, is already having an impact, with new routes starting, operated by the airlines that are already engaging. The airport taskforce is already making progress. This is the most appropriate way for the Welsh Government to work alongside, liaise with and challenge what is, of course, a privately owned facility that is a key part of the economic development and future of Wales.

**Jane Hutt:** Mae tasglu Maes Awyr Caerdydd, dan arweiniad a chadeiryddiaeth y Prif Weinidog, eisoes yn cael effaith. Mae'r cwmnïau awyrennau sydd eisoes yn ymgysylltu yn dechrau gweithredu llwybrau newydd. Mae tasglu'r maes awyr eisoes yn symud pethau yn eu blaenau. Dyma'r ffordd fwyaf priodol i Lywodraeth Cymru herio, gweithio ochr yn ochr a chydlynu â chyfleuster sydd, wrth gwrs, mewn dwylo preifat ac sy'n rhan allweddol o ddatblygiad economaidd a dyfodol Cymru.

I am not inclined to respond to the second question that the leader of the Welsh Conservatives asked, except to say that this is clearly not within our powers or within our intentions.

Nid wyf yn awyddus i ymateb i'r ail gwestiwn a ofynnodd arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig, heblaw i ddweud nad yw hyn yn amlwg o fewn ein pwerau nac yn fwriad gennym.

**Nick Ramsay:** Leader of the House, last week, we had urgent questions on the issue of asbestos in schools and specifically the temporary closure of Cwmcarn High School because asbestos was causing a problem there. It is very important that we have an update from your Government as soon as possible on how policy is being developed to deal with this unfolding problem of asbestos in our school stock. There are growing concerns among parents. Those fears need to be allayed as soon as possible. Shortly, I will be launching the Parents' Right to Know campaign, which we hope will see a database being brought into being that will allow people to get information on asbestos in schools. I would be grateful for your views on that and I would like the Welsh Government to make a statement on it as soon as possible.

**Nick Ramsay:** Arweinydd y Tŷ, cawsom gwestiynau brys yr wythnos diwethaf ynglŷn ag asbestos mewn ysgolion ac yn benodol ynglŷn â chau Ysgol Uwchradd Cwmcarn dros dro oherwydd bod asbestos yn achosi problem yno. Mae'n bwysig iawn ein bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf gan eich Llywodraeth cyn gynted ag y bo modd ynglŷn â sut y mae polisi yn cael ei ddatblygu i ymdrin â'r broblem hon o asbestos yn ein stoc ysgolion. Ceir pryderon cynyddol ymysg rhieni. Mae'r angen lleddfu'r ofnau hynny cyn gynted ag y bo modd. Yn fuan, byddaf yn lansio ymgyrch Hawl Rhieni i Gwybod, a gobeithiwn sefydlu cronfa ddata a fydd yn caniatáu i bobl gael gwybodaeth am asbestos mewn ysgolion. Byddwn yn ddiolchgar am eich barn ynglŷn â hynny a hoffwn i Lywodraeth Cymru wneud datganiad yn ei gylch cyn gynted ag y bo modd.

**Jane Hutt:** The Minister for Education and

**Jane Hutt:** Dywedodd y Gweinidog Addysg

Skills told the Chamber last week that his department has written to all local authorities in Wales to confirm that they are undertaking their statutory duties in accordance with current legislation, and asking for their existing plans for the management of asbestos in schools to be reviewed accordingly. It also asked authorities to ensure that there are appropriate contingency plans in place for the continuing education of pupils affected by emergency school closures, such as that experienced by Cwmcarn school. Therefore, the Minister has taken action accordingly, as he indicated last week.

a Sgiliau yn y Siambr yr wythnos ddiwethaf fod ei adran wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol yng Nghymru i gadarnhau eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau statudol yn unol â deddfwriaeth bresennol, ac i ofyn iddynt adolygu eu cynlluniau presennol ar gyfer rheoli asbestos mewn ysgolion yn unol â hynny. Gofynnodd hefyd i awdurdodau sicrhau bod cynlluniau wrth gefn priodol ar waith ar gyfer parhau ag addysg disgyblion yr effeithir arnynt yn sgil cau ysgolion mewn argyfwng, fel a brofwyd yn ysgol Cwmcarn. Felly, mae’r Gweinidog wedi cymryd camau yn unol â hynny, fel y nododd yr wythnos ddiwethaf.

## Datganiad: Canlyniadau Ymgynghoriad ‘Cynnal Cymru Fyw’
## Statement: The Outcomes of the ‘Sustaining a Living Wales’ Consultation

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** Earlier this year, I launched the Green Paper consultation, ‘Sustaining a Living Wales’, on our proposals for ensuring that Wales has increasingly resilient and diverse ecosystems, while delivering economic and social wellbeing, now and for the longer term. Wales’s land, water, air and biodiversity are the resources on which we and everything else depend. Ecosystems provide us with the natural resources upon which we all rely. Our long-term aspiration is for natural resource management at each level to demonstrate our focus on sustainable development. By enhancing and managing our natural environment more holistically and by putting in place the structures, tools and evidence to support better decisions, we will not only secure our environmental wellbeing but maximise the economic and social benefits for the long term. That is what we mean by the ecosystem approach. An example of that can be seen in the Dovey valley, where the community has recognised the diversity of its natural beauty, heritage and wildlife and is using it to benefit local people, bringing jobs and safeguarding wildlife, with a new visitor centre in place.

**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):** Yn gynharach eleni, lansiais ymgynghoriad y Papur Gwyrdd, ‘Cynnal Cymru Fyw’, ar ein cynigion ar gyfer sicrhau bod gan Gymru ecosystemau cynyddol cadarn ac amrywiol, tra’n darparu lles economaidd a chymdeithasol, yn awr ac ar gyfer y tymor hwy. Mae tir, dŵr, aer a bioamrywiaeth Cymru yn adnoddau yr ydym ni a phopeth arall yn dibynnu arnynt. Mae ecosystemau’n ein darparu gyda’r adnoddau naturiol yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt. Ein dyhead hirdymor yw gweld rheoli adnoddau naturiol ar bob lefel i ddangos ein ffocws ar ddatblygu cynaliadwy. Drwy wella a rheoli ein hamgylchedd naturiol yn fwy cyfannol a thrwy roi’r strwythurau, yr offer a’r dystiolaeth ar waith i gefnogi penderfyniadau gwell, byddwn nid yn unig yn sicrhau ein lles amgylcheddol ond yn gwneud y gorau o fanteision economaidd a chymdeithasol ar gyfer y tymor hir. Dyna beth yr ydym yn ei olygu gan y dull ecosystem. Gellir gweld un enghraifft o hynny yn nyffryn Dyfi, lle mae’r gymuned wedi cydnabod amrywiaeth ei harddwch naturiol, ei threftadaeth a’i bywyd gwyllt ac yn ei defnyddio er budd pobl leol, gan ddod â swyddi a diogelu bywyd gwyllt, gyda chanolfan ymwelwyr newydd wedi’i sefydlu.

The priority for the Welsh Government continues to be the creation of sustainable jobs and growth in these tough times, and our

Y flaenoriaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru o hyd yw creu swyddi cynaliadwy a thwf yn y cyfnod anodd hwn, ac mae ein lles

environmental wellbeing is clearly crucial to this aim. This is demonstrated by the 40,000 jobs that already employ people in the environment, low-carbon and renewable sectors in Wales and, crucially, by the growth in these areas. It also shows that, as a Government, our commitment to sustainable development—acting in the long-term interests of the people of Wales and ensuring that everything that we do supports economic, social and environmental wellbeing—means that we are well placed to deliver. Within my portfolio, the progress through investments in areas such as energy efficiency, waste, water and flood management, and in our approach to energy policy further highlight the strength of the connection between the economy and the environment.

amgylcheddol yn amlwg yn hanfodol i'r nod hwn. Dangosir hyn gan y 40,000 o swyddi sydd eisoes yn cyflogi pobl yn y sectorau amgylchedd, carbon isel ac ynni adnewyddadwy yng Nghymru ac, yn hollbwysig, gan y twf yn y meysydd hyn. Mae hefyd yn dangos bod ein hymrwymiad, fel Llywodraeth, i ddatblygu cynaliadwy—gweithredu er budd tymor hir pobl Cymru a sicrhau bod popeth a wnawn yn cefnogi lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol—yn golygu ein bod mewn sefyllfa dda i gyflawni. O fewn fy mhortffolio, mae'r cynnydd drwy fuddsoddiadau mewn meysydd megis effeithlonrwydd ynni, gwastraff, dŵr a rheoli llifogydd, ac yn ein dull polisi ynni yn amlygu cryfder y cysylltiad rhwng yr economi a'r amgylchedd ymhellach.

The 'Sustaining a Living Wales' Green Paper sought views from a broad range of sectors. We received nearly 300 responses and a detailed report summarising them was published in September. They reflected the huge public interest in this area and broad support for what we are trying to achieve. They were overwhelmingly positive about the direction that we are proposing to take. Consultees acknowledged that this is a complex and challenging agenda, but a significant number acknowledged that a piecemeal approach to the decision making affecting natural resources will not help us to deliver the economic, social and environmental gains that we need. Respondents called on the Welsh Government to develop an integrated and more holistic approach, and that is precisely our aim.

Roedd y Papur Gwyrdd 'Cynnal Cymru Fyw' yn ceisio barn gan ystod eang o sectorau. Cawsom bron i 300 o ymatebion a chyhoeddwyd adroddiad manwl yn eu crynhoi ym mis Medi. Roeddent yn adlewyrchu diddordeb mawr y cyhoedd yn y maes hwn a chefnogaeth eang ar gyfer yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni. Roeddent yn hynod gadarnhaol am y cyfeiriad yr ydym yn bwriadu ei gymryd. Roedd ymgyngoreion yn cydnabod bod hon yn agenda gymhleth a heriol, ond mae nifer sylweddol yn cydnabod na fydd ymagwedd dameidiog tuag at y broses o wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar adnoddau naturiol yn ein helpu i gyflawni'r enillion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y mae eu hangen arnom. Roedd ymatebwyr yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu dull integredig a mwy cyfannol, a dyna'n union yw ein nod.

In that respect, it is very pleasing that such a wide range of individuals and organisations in Wales positively support and want to help us to achieve our aspirations. The good range of responses from business showed significant support for our approach, recognising the opportunities that streamlining regulatory regimes could bring.

Yn hynny o beth, mae'n braf iawn bod y fath amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau yng Nghymru yn gadarnhaol yn cefnogi ac eisiau ein helpu i gyflawni ein dyheadau. Mae ystod dda o ymatebion oddi wrth fusnesau yn dangos cefnogaeth sylweddol i'n dull gweithredu, gan gydnabod y cyfleoedd a allai ddod drwy symleiddio cyfundrefnau rheoleiddio.

3.00 p.m.

There is a good deal of support to show that

Mae llawer iawn o gymorth i ddangos ein

we are on the right path, particularly in relation to natural resource management and putting the ecosystem approach at its heart. We will ensure that all of our policies, legislation and plans, along with the bodies responsible for delivering them, integrate in their approach and join up. By building on what currently works well, and only changing those elements which do not, we will go with the grain for business and communities, and for what our natural resources can and cannot sustain. I believe that by coming together in this way we can solve multiple problems in much more effective ways. My department has already begun to use this approach. Our actions to date in taking this forward have already captured the interest of the rest of the UK and Europe, as to how these concepts are made a reality of day-to-day decisions.

bod ar y llwybr cywir, yn enwedig mewn perthynas â rheoli adnoddau naturiol a rhoi'r dull ecosystem yn ei chalon. Byddwn yn sicrhau bod ein holl bolisïau, deddfwriaeth a chynlluniau, ynghyd â'r cyrff sy'n gyfrifol am eu cyflawni, yn integreiddio yn eu hymagwedd ac yn cydgysylltu. Trwy adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd, a dim ond newid yr elfennau hynny nad ydynt, byddwn yn mynd gyda'r graen ar gyfer busnes a chymunedau, ac ar gyfer beth y gall ac na all ein hadnoddau naturiol eu cynnal. Drwy ddod at ein gilydd yn y ffordd hon credaf y gallwn ddatrys problemau lluosog mewn ffyrdd mwy effeithiol o lawer. Mae fy adran eisoes wedi dechrau defnyddio'r dull hwn. Mae ein gweithredoedd hyd yma o ran gweithredu hyn eisoes wedi ennyn diddordeb gweddill y DU ac Ewrop, ynghylch sut y mae'r cysyniadau hyn yn cael eu gwneud yn realiti o ran penderfyniadau o ddydd-i-ddydd.

Our programme for government sets out a commitment to develop a water strategy for Wales, and we aim to consult on this in early 2013. The strategy will focus on the sustainable management of our water and infrastructure for the benefit of Wales, its people, our economy and the environment. The establishment of the new natural resources body for Wales is central to the Welsh Government's strategic vision for the environment and the management of Wales's natural resources. The need for this new, integrated approach is a key part of our thinking about the new body, and it informs development of the second order to bring together the functions of the three legacy bodies. We are also adopting a co-production approach in the development of the new body's performance framework, which will provide the basis for successful delivery in partnership with the Welsh Government.

Mae ein rhaglen ar gyfer llywodraeth yn nodi ymrwymiad i ddatblygu strategaeth dŵr i Gymru, ac rydym yn anelu at ymgynghori ar hyn ar ddechrau 2013. Bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar reoli cynaliadwy ar ein dŵr a seilwaith er lles Cymru, ei phobl, ein heconomi a'r amgylchedd. Mae sefydlu'r corff adnoddau naturiol newydd ar gyfer Cymru yn ganolog i weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd a rheoli adnoddau naturiol Cymru. Mae'r angen am y dull newydd, integredig hwn yn rhan allweddol o'n meddwl am y corff newydd, ac mae'n llywio datblygiad yr ail orchymyn i ddwyn ynghyd swyddogaethau'r tri chorff etifeddiaeth. Rydym hefyd yn mabwysiadu dull cyd-gynhyrchu o ddatblygu fframwaith perfformiad y corff newydd, a fydd yn darparu'r sail ar gyfer cyflwyno llwyddiannus mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.

The next phase of the natural resource management planning work is to put in place the legislative framework for the environment by delivering the environment Bill, and my intention is to issue a White Paper next year. In doing so, we will focus on engagement with the full range of partners and sectors so that we are clear about the challenges and potential conflicts and making the most of the synergies and opportunities.

Cam nesaf y gwaith cynllunio rheoli adnoddau naturiol yw sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer yr amgylchedd drwy gyflwyno'r Bil amgylchedd, ac fy mwriad yw cyhoeddi Papur Gwyn y flwyddyn nesaf. Wrth wneud hynny, byddwn yn canolbwyntio ar ymgysylltu â'r ystod lawn o bartneriaid a sectorau fel ein bod yn glir am yr heriau a'r gwrthdaro posibl a gwneud y gorau o'r synergeddau a chyfleoedd. Ar yr un pryd,

At the same time, we will ensure that the development of our approach to natural resource planning goes hand in hand with our wider strategic objectives, including our focus on the improvement of the planning system.

byddwn yn sicrhau bod y gwaith o ddatblygu ein dull o gynllunio adnoddau naturiol yn mynd law yn llaw â'n amcanion strategol ehangach, gan gynnwys ein ffocws ar wella'r system gynllunio.

To conclude, in parallel, I want to make sure that we begin to see the benefits of this approach on the ground. We will be working on developing a series of demonstration projects that will exemplify the ecosystem approach and showcase the benefits it can bring. There are lessons that we want to draw upon from a broad range of activities across Wales and further afield. Through this, we can continue to lead the way in terms of integrating the ecosystem approach, and most importantly, putting the needs of future generations at the heart of our decision making, delivering truly sustainable development.

I gloi, yn gyfochrog, rwyf am wneud yn siŵr ein bod yn dechrau gweld manteision yr ymagwedd yma ar lawr gwlad. Byddwn yn gweithio ar ddatblygu cyfres o brosiectau arddangos a fydd yn enghreifftio'r dull ecosystem ac arddangos y manteision a all ddod yn ei sgil. Mae gwersi yr ydym am dynnu o ystod eang o weithgareddau ar draws Cymru a thu hwnt. Drwy hyn, gallwn barhau i arwain y ffordd o ran integreiddio'r dull ecosystem, ac yn bwysicaf oll, roi anghenion cenedlaethau'r dyfodol wrth wraidd ein penderfyniadau, gan sicrhau datblygu gwirioneddol gynaliadwy.

**Russell George:** I thank the Minister for bringing forward this statement. Setting a sound platform for the natural environment framework is vitally important if the Government is to succeed in achieving the wide range of outcomes that it has set for itself. I think that the responses to the consultation show that wider Welsh society is prepared to buy into your aspiration, but it wants more detail, and it specifically wants a clear understanding of the approach, which goes beyond mere technical definitions, and how the core principles of that approach are practically delivered on the ground. A key aspect of future work will be to engage with the widest possible range of stakeholders. The responses suggest a lack of clarity on the approach and what it means practically, in delivery terms. Therefore, Minister, how do you intend to tackle this issue? Will it be purely by demonstration projects alone, or will we see more detailed projects? Also, is it a process that you will take forward as a Government, or do you intend to leave it to the leadership of the new body to shape?

**Russell George:** Diolch i'r Gweinidog am gyflwyno'r datganiad hwn. Mae gosod llwyfan cadarn ar gyfer y fframwaith amgylchedd naturiol yn hanfodol bwysig os yw'r Llywodraeth am lwyddo i gyflawni'r ystod eang o ganlyniadau y mae wedi'i gosod iddi hi ei hun. Credaf fod yr ymatebion i'r ymgynghori yn dangos bod cymdeithas ehangach Cymru yn barod i dderbyn eich dyhead, ond mae am gael mwy o fanylion, ac yn benodol mae am gael dealltwriaeth glir o'r dull hwn, sy'n mynd y tu hwnt i ddiffiniadau technegol yn unig, a sut mae egwyddorion craidd y dull yn cael eu darparu yn ymarferol ar lawr gwlad. Un agwedd allweddol o'r gwaith yn y dyfodol fydd ymgysylltu â'r ystod ehangaf bosibl o randdeiliaid. Mae'r ymatebion yn awgrymu diffyg eglurder o ran y dull gweithredu a'r hyn y mae'n ei olygu yn ymarferol, o safbwynt darparu. Felly, Weinidog, sut ydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â'r mater hwn? Ai drwy brosiectau arddangos yn unig, neu fyddwn ni'n gweld prosiectau mwy manwl? Hefyd, a yw'n broses y byddwch yn ei gweithredu fel Llywodraeth, neu a ydych chi'n bwriadu ei gadael i arweinyddiaeth y corff newydd ei llunio?

The spur for this new approach were the missed 2010 targets, and the Government now has its sights on the medium-term

Y sbardun ar gyfer y dull newydd oedd y targedau 2010 a fethwyd, ac mae'r Llywodraeth bellach â'i bryd ar y targedau

international targets for 2020 and the long-term targets for 2050. However, there are concerns that this new approach still does not give appropriate regard to halting and reversing biodiversity loss. Given that your predecessor told the previous environment committee's inquiry into biodiversity loss that the new NEF would be the driver for this change, how do you intend to demonstrate that this remains a high priority? Will the enhancement or possible extension of protected sites be worked up in a natural resources management plan or will it come in the environment Bill?

tymor canolig rhyngwladol ar gyfer 2020, a'r targedau tymor hir ar gyfer 2050. Fodd bynnag, mae pryderon nad yw'r dull newydd yn dal i roi sylw priodol i atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth. O ystyried bod eich rhagflaenydd wedi dweud wrth ymchwiliad y pwyllgor amgylchedd blaenorol i golli bioamrywiaeth mai Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol newydd fyddai'r ysgogwr ar gyfer y newid, sut ydych chi'n bwriadu dangos bod hyn yn parhau'n flaenoriaeth uchel? A fydd gwelliant neu estyniad posibl y safleoedd a warchodir yn cael ei gynnwys mewn cynllun rheoli adnoddau naturiol, neu a fydd yn dod yn y Bil amgylchedd?

While we eagerly anticipate the Government bringing forward its legislation, there is a recurring theme in the responses that the implementation of existing legislation and regulation must be improved and made to work better both in terms of the environment and in terms of business. How are you and your officials dealing with this specific issue of improving enforcement and compliance?

Er ein bod yn edrych ymlaen yn eiddgar at weld y Llywodraeth yn cyflwyno ei deddfwriaeth, mae thema gyson yn yr ymatebion bod yn rhaid gwella gweithredu deddfwriaeth a rheoliad presennol a gwneud iddynt weithio'n well o ran yr amgylchedd ac o ran busnes. Sut ydych chi a'ch swyddogion yn ymdrin â'r mater penodol o orfodi gwella a chydymffurfio?

Some responses are right to point out that we must not reduce ecosystems to a series of marketable goods and services. It is important to have economic outcomes and benefits as a high priority in the new approach. Therefore, can the Minister tell me what role he envisages for the private sector in delivering ecosystem services, and can he tell me, where the private sector is delivering ecosystem services, that it will be properly recompensed for that delivery?

Mae rhai ymatebion yn iawn i nodi bod yn rhaid inni beidio â gostwng ecosystemau yn gyfres o nwyddau a gwasanaethau gwerthadwy. Mae'n bwysig cael canlyniadau a manteision economaidd yn flaenoriaeth uchel yn y dull newydd. Felly, a all y Gweinidog ddweud wrthyf pa rôl y mae'n rhagweld ar gyfer y sector preifat o ran darparu gwasanaethau ecosystem, ac a all ddweud wrthyf, lle mae'r sector preifat yn darparu gwasanaethau ecosystem, y bydd yn cael ei ad-dalu'n briodol am y darparu hwnnw?

Finally, the role of natural sciences will be crucial in allowing us to have a proper understanding of how ecosystems are functioning in Wales. Given the complexity of ecosystems, the current gaps in scientific understanding and the links between ecosystems and the services that they provide, it will understandably take a considerable amount of time to identify and collate the necessary local and national indicators and datasets required to measure and, ultimately, to understand the long-term health and resilience of our ecosystems. Therefore, does the Minister have any

Yn olaf, bydd rôl y gwyddorau naturiol yn hanfodol o ran caniatáu i ni gael dealltwriaeth briodol o sut mae ecosystemau yn gweithredu yng Nghymru. O ystyried cymhlethdod ecosystemau, y bylchau presennol mewn dealltwriaeth wyddonol a'r cysylltiadau rhwng ecosystemau a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu, bydd yn naturiol yn cymryd cryn dipyn o amser i nodi a choladu dangosyddion angenrheidiol lleol a chenedlaethol a setiau data sy'n ofynnol i fesur a, yn y pen draw, deall iechyd a gwydnwch tymor hir ein hecosystemau. Felly, oes gan y Gweinidog unrhyw arwydd o

indication of how long he believes that it will take to get all the necessary data in place to give us a clear picture of the current health of ecosystems in Wales?

faint o amser mae'n credu y bydd yn ei gymryd i gael yr holl ddata angenrheidiol ar waith i roi darlun clir i ni o iechyd presennol ecosystemau yng Nghymru?

**John Griffiths:** I thank Russell George for his recognition that there is widespread buy-in to the new ecosystems approach, which is shown by the responses to our consultation. I would like to assure him that we will have the widest possible engagement with stakeholders on an ongoing basis as we develop our approach and take policy and practice forward. The projects that will help demonstrate what we mean by our new approach to the natural resources management systems that we are developing in Wales are important, but they are at the start of demonstrating in practice what we mean. They will be rolled out across Wales as we go forward.

**John Griffiths:** Diolch i Russell George am ei gydnabyddiaeth bod derbyn cyffredin ar y dull ecosystemau newydd, sy'n cael ei ddangos gan yr ymatebion i'n hymgynghoriad. Hoffwn ei sicrhau y bydd gennym yr ymgysylltu ehangaf posibl â rhanddeiliaid ar sail barhaus wrth i ni ddatblygu ein dull gweithredu a mynd â pholisi ac arfer yn ei flaen. Mae'r prosiectau a fydd yn helpu i ddangos beth a olygwn wrth ein hymagwedd newydd tuag at y systemau rheoli adnoddau naturiol yr ydym yn eu datblygu yng Nghymru yn bwysig, ond dechrau dangos yn ymarferol yr hyn a olygwn y maen nhw. Byddant yn cael eu cyflwyno ar draws Cymru wrth inni fynd ymlaen.

It is also important that we establish the right sort of framework, and much work is ongoing to achieve that at the moment. Again, we are looking to continue working with key stakeholders to further demonstrate what we mean and further develop that approach. It is clear that we have come a long way, working with our partners. The consultation has been extremely instructive in demonstrating the amount of support that exists in Wales for what we have set out, but we understand some of the requests for further detail, as the Member mentioned. There is a deal of impatience, and much of this of this is new and emerging thinking, so I can understand that. However, it is quite clear that we will take forward the new single body and 'Sustaining a Living Wales' in tandem because they are both about joining up, integration, sustainable development, long-termism and greater effectiveness and efficiency. Therefore, they go together very well and that is why, in terms of the questions about the role of the Welsh Government and the single body, the Welsh Government sets policy, but the single body will be extremely important in term of delivering on that policy and further developing that new approach.

Mae hefyd yn bwysig ein bod yn sefydlu'r math iawn o fframwaith, ac mae llawer o waith yn mynd rhagddo i gyflawni hynny ar hyn o bryd. Unwaith eto, rydym yn edrych i barhau i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddangos ymhellach yr hyn yr ydym yn ei olygu a datblygu'r dull hwnnw ymhellach. Mae'n amlwg ein bod wedi dod yn bell, gan weithio gyda'n partneriaid. Mae'r ymgynghoriad wedi bod yn hynod addysgiadol mewn dangos faint o gymorth sy'n bodoli yng Nghymru am yr hyn yr ydym wedi ei fanylu, ond rydym yn deall rhai o'r ceisiadau am fanylion pellach, fel y soniodd yr Aelod. Mae llawer o ddiffyg amynedd, ac mae llawer o hyn yn feddwl newydd ac yn feddwl sy'n dod i'r amlwg, felly gallaf ddeall hynny. Fodd bynnag, mae'n eithaf amlwg y byddwn yn bwrw ymlaen â'r corff unigol newydd a 'Cynnal Cymru Fyw' ar y cyd oherwydd bod yn ddau yn ymwneud ag ymgysylltu, integreiddio, datblygu cynaliadwy, hir-feddylfryd a gwell effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Felly, maent yn mynd gyda'i gilydd yn dda iawn a dyna pam, o ran y cwestiynau am rôl Llywodraeth Cymru a'r corff unigol, mae Llywodraeth Cymru yn gosod polisi, ond bydd y corff unigol yn hynod o bwysig o ran cyflawni ar y polisi hwnnw a datblygu'r dull newydd ymhellach.

As for the questions on biodiversity, that will be a crucial test as to whether we can make the progress that we need to make; we recognise that. Regulation must be intelligent and proportionate and that is the approach that the single body will seek to take and that businesses in Wales very much expect, and rightly so. There is yet more to be done in terms of payment for ecosystem services and the benefit that that might bring to the private sector, so we will have to develop this and thrash it out as we go forward. Finally, I very much agree that the science—the evidence base—for this work and further work that we will see in Wales is absolutely crucial; we must continue to build that evidence base, because we rightly state, as a Government, that all our policy making and implementation must be firmly based on evidence.

Fel ar gyfer y cwestiynau ar fioamrywiaeth, bydd hynny'n brawf hollbwysig o ran a allwn wneud y cynnydd y mae angen i ni wneud; rydym yn cydnabod hynny. Rhaid i reoliad fod yn ddeallus ac yn gymesur a dyna'r dull y bydd y corff unigol yn ceisio ei gymryd ac y mae busnesau yng Nghymru yn ei ddisgwyl yn fawr, ac mae hynny'n briodol. Mae hyd yn oed mwy i'w wneud o ran talu am wasanaethau ecosystem a'r budd y gallai hynny ei gynnig i'r sector preifat, felly bydd rhaid i ni ddatblygu hyn a'i ddatrys wrth inni symud ymlaen. Yn olaf, rwyf yn cytuno bod y wyddoniaeth—y sylfaen dystiolaeth—ar gyfer y gwaith hwn a gwaith pellach y byddwn yn ei weld yng Nghymru yn gwbl hanfodol, rhaid i ni barhau i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth, oherwydd ein bod yn datgan yn gywir, fel Llywodraeth, fod rhaid i'n holl lunio polisi a gweithredu gael ei seilio'n gadarn ar dystiolaeth.

**Llyr Huws Gruffydd:** Diolch, Weinidog, am eich datganiad heddiw. Mae'n glir, yn ôl yr ymatebion, fod sêl bendith i greu fframwaith newydd ac uchelgeisiol i amddiffyn amgylchedd naturiol Cymru ac i sicrhau rheolaeth yr adnoddau naturiol, yn seiliedig ar y dull ecosystemau.

**Llyr Huws Gruffydd:** Thank you, Minister, for your statement today. It is clear from the responses that there is support for the creation of a new and ambitious framework to protect the natural environment of Wales and to ensure the proper management of natural resources, based on the ecosystems approach.

Dyma fydd y newid mwyaf mewn cenhedlaeth i'r ffordd y mae'r amgylchedd yn cael ei reoli. Gyda'r cyfle hwnnw daw cyfrifoldeb a hoffwn danlinellu bod hwnnw'n gyfrifoldeb y bydd yn rhaid ei ysgwyddo ar draws Llywodraeth Cymru, heb ei adael i'ch adran chi yn unig i'w yrru ymlaen. Y tu hwnt i hynny, mae rôl i'r sector gyhoeddus ehangach ac i'r sector breifat, ac mae cyfleoedd i gyfrannu at y gwaith hwnnw, gan gynnwys cymunedau yn ehangach. Yr hyn yr ydym yn sôn amdano yw newid mewn gwerthoedd, ac mae hynny'n heriol iawn, yn enwedig pan fo llywodraeth yn gorfod arwain ar y newid hwnnw mewn gwerthoedd. Rwyf i'n un sydd yn edrych ymlaen at eich cefnogi chi ar y siwrnai honno.

This will be the most significant change in a generation to the way in which the environment is managed. With that opportunity comes a responsibility and I would like to highlight the fact that that is a responsibility that must be shared across the Welsh Government and not left to your department alone to drive forward. Beyond that, there is a role for the wider public sector and the private sector, and there are opportunities to contribute to that work, as there are for communities more generally. What we are talking about is a shift in values, which is extremely challenging, particularly when a government has to lead on that shift. I, for one, look forward to supporting you on that journey.

Mae'r ymgynghoriad wedi dangos bod pobl yn deall yr angen a'r manteision o roi gwerth ariannol i wasanaethau ecosystemau, ond fe fyddwn i'n adleisio rhai o'r gofidiau sydd wedi cael eu mynegi ynglŷn â rhoi pris ar bopeth. Yn sgîl hynny, beth fydd

The consultation has demonstrated that people understand the needs and benefits of placing a financial value on ecosystem services, but I would echo some of the concerns that have been expressed in relation to putting a price on everything. In the light

Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau ein bod yn hyrwyddo, ac yn parhau i hyrwyddo, gwerth cynhenid natur a hawl foesol rhywogaethau i gydfodoli â ni, pa un a ydynt yn cyfrannu at wasanaethau ecosystemau ai peidio. Mae defnyddio prosiectau arddangos yn gyfrwng effeithiol i gael y neges drosodd. Mae ystadegau fel yr un a ddyfynnwyd y noson o'r blaen mewn cyfarfod y gwnaeth y ddau ohonom ei fynychu, ynglŷn â thwyni tywod Cymru—sydd yn werth hyd at £200 miliwn, mae'n debyg, pan ddaw hi'n fater o amddiffyn rhag llifogydd ar hyd arfordiroedd Cymru—yn helpu i ffocysu ac agor meddyliau pobl i'r gwerth cynhenid hwnnw. Hefyd, gallai Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Drefaldwyn a'r gwaith sy'n digwydd ym Mhumlumon fod yn brosiect arddangos arbennig iawn, petaech yn barod i ystyried hynny.

of that, what will the Welsh Government do to ensure that we promote, and continue to promote, the inherent value of nature and the moral right of species to co-exist with us, whether they contribute to ecosystem services or not. Using identifier projects is an effective way of getting that message across. Statistics such as the one quoted the other evening in a meeting that we both attended on Welsh sand dunes—which are worth up to £200 million per annum when it comes to flood protection in Welsh coastal areas—are a help in focusing people's minds and in opening their minds to the inherent value that we are talking about. Also, the Montgomeryshire Wildlife Trust and the work taking place in Plynlimon could be an exemplar project, if you were willing to consider that.

Rydych wedi cyfeirio at y ffocws ar y system gynllunio. Rwy'n siŵr nad oes angen pwysleisio y bydd y Bil cynllunio a'r newidiadau arfaethedig i'r drefn honno yn gwbl ganolog a chwbl allweddol. Rydych yn ymwybodol o fy nheimladau i ynglŷn â'r angen i edrych yn radical ar y newidiadau o fewn y drefn honno. Mae lefel anghynaliadwy datblygu, sydd, yn fy marn i, yn gwbl anorganig, yn cael ei gyrru gan broses y cynlluniau datblygu lleol.

You have referred to the focus that will be given to the planning system. I am sure that I do not need to emphasise how entirely central and how crucial the planning Bill and the proposed changes to the planning system will be. You are aware of my feelings in terms of the need to take a radical view of the changes within that regime. The unsustainable level of development, which, in my view, is entirely inorganic, is driven by the local development plan process.

Cyfeirioch chi hefyd at y fframwaith perfformiad wrth sôn am y corff newydd a fydd yn rheoli adnoddau naturiol Cymru. Efallai y gallech chi ymhelaethu ychydig ar ba ffyn mesur y byddwch yn eu defnyddio i fesur llwyddiant y corff hwnnw, yn enwedig o safbwynt atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth, sy'n destun gofid i nifer, fel rydym wedi clywed yn barod.

You also referred to the performance framework in talking about the new body that will manage the natural resources of Wales. Perhaps you could provide further details on the yardsticks you will use in assessing the success of that body, particularly in terms of the prevention and reversal of biodiversity loss, which is a cause of concern for many, as we have already heard.

3.15 p.m.

Yn olaf, trof at un pwynt a godwyd eisoes. Cyfeiriasoch at ddyletswyddau'r tri chorff a fydd yn cael eu huno, a'r ffaith y bydd y dyletswyddau hynny'n cael eu crynhoi. Mae gofid y bydd dyletswyddau Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn cael eu gwanhau a'u cyfyngu yn yr ail Orchymyn arfaethedig, gyda golwg ar y ffaith nad yw Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn caniatáu gwanhau'r

Finally, I turn to one point that has already been raised. You referred to the duties of the three bodies that are to be merged. There is concern that the duties of the Countryside Council for Wales will be diluted and limited by the second proposed Order, with a view to the fact that the Public Bodies Act 2011 does not allow the dilution of current duties. Will you make it clear today that all the current

dyletswyddau presennol. A wnewch chi ei gwneud yn glir heddiw y bydd holl ddyletswyddau presennol Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn cael eu cynnwys yn nyletswyddau'r corff newydd?

duties of the Countryside Council for Wales will be included in the duties of the new body?

**John Griffiths:** Again, it is very encouraging to hear a Member express his support for this very important set of policy developments, and recognise that the response to the consultation demonstrated widespread support across Wales for the approach that the Welsh Government is taking to these matters. I very much agree that, as far as the Welsh Government is concerned, if we are to make a success of this direction of travel, it has to be a matter of all Government departments buying into that direction of travel and supporting it. Obviously, sustainable development is the central organising principle of the Welsh Government, under our sustainable development scheme. The sustainable development Bill that we are taking forward will seek to give the Welsh Government and the devolved public sector in Wales a duty to have sustainable development as the central organising principle. There will be systems involved that will ensure that that is observed right across the organisations that are subject to that duty. That will be very significant and important indeed.

**John Griffiths:** Unwaith eto, mae'n galonogol iawn clywed Aelod yn mynegi ei gefnogaeth i'r set bwysig iawn hon o ddatblygiadau polisi, ac yn cydnabod bod yr ymateb i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth eang ar draws Cymru ar gyfer y dull y mae Llywodraeth Cymru yn ei gymryd o ran y materion hyn. Rwy'n cytuno, cyn belled ag y mae Llywodraeth Cymru yn y cwestiwn, os ydym i lwyddo wrth deithio yn y cyfeiriad hwn, mae'n rhaid iddo fod yn fater i holl adrannau'r Llywodraeth dderbyn y cyfeiriad teithio a'i gefnogi. Yn amlwg, datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol Llywodraeth Cymru, o dan ein cynllun datblygu cynaliadwy. Bydd y Bil datblygu cynaliadwy yr ydym yn ei ddatblygu yn ceisio rhoi i Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru ddyletswydd i gael datblygu cynaliadwy fel y brif egwyddor drefniadol. Bydd systemau ar gael fydd yn sicrhau y gwelir hyn ar draws y sefydliadau sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd honno. Bydd hynny'n arwyddocaol iawn ac yn bwysig dros ben

However, it is very much a matter of shifting values. We recognise that that is always difficult for Government to achieve, in terms of communities and people. It takes time. We understand that we will have to work at these policies over a sustained period of time, but the consultation and responses were again very encouraging, in terms of the number of partners that will be aiding that effort. I also very much agree that there is an inherent value in nature and biodiversity. We should never overlook that, and we should not seek to talk about nature in terms of monetary values that can be assigned to different aspects of it. In recognising that ecosystems services and nature can have monetary value, if it is right to express it in that way, we should also recognise that it has inherent value. Plynlimon is a good example of the success of the ecosystems approach, and it is a clear example that we can use. Planning is crucial, but it is very useful that sustainable

Fodd bynnag, mae'n sicr yn fater o symud gwerthoedd. Rydym yn cydnabod bod hynny bob amser yn anodd i'r Llywodraeth i'w gyflawni, o ran cymunedau a phobl. Mae'n cymryd amser. Rydym yn deall y bydd rhaid i ni weithio ar y polisïau hyn dros gyfnod estynedig o amser, ond unwaith eto roedd yr ymgynghoriad a'r ymatebion yn galonogol iawn, o ran y nifer o bartneriaid fydd yn cynorthwyo'r ymdrech honno. Rwyf hefyd yn cytuno bod gwerth cynhenid mewn natur a bioamrywiaeth. Ni ddylem fyth anghofio hynny, ac ni ddylem geisio siarad am natur yn nhermau gwerthoedd ariannol y gellir eu neilltuo i wahanol agweddau arni. Wrth gydnabod y gall gwasanaethau ecosystemau a natur gael gwerth ariannol, os yw'n iawn i fynegi hynny fel yna, dylem hefyd gydnabod bod ganddynt werth cynhenid. Mae Pumlumon yn enghraifft dda o lwyddiant y dull ecosystemau, ac mae'n enghraifft glir y gallwn ei defnyddio. Mae cynllunio yn

development is at the very heart of our planning system, including local development plans. Therefore, there is much on which we can build.

hanfodol, ond mae'n ddefnyddiol iawn bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd ein system gynllunio, gan gynnwys cynlluniau datblygu lleol. Felly, mae llawer y gallwn adeiladu arnynt.

Finally, we will work through the best ways of monitoring, supervising and assessing the success of the single body, including on the matter of biodiversity. I assure the Member that the duties of the Countryside Council for Wales and the two other legacy bodies will be transferred to the new body by way of the second Order.

Yn olaf, byddwn yn gweithio trwy'r ffyrdd gorau o fonitro, goruchwylio ac asesu llwyddiant y corff unigol, gan gynnwys ar y mater o fioamrywiaeth. Gallaf sicrhau'r Aelod y bydd dyletswyddau Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r ddau gorff etifeddiaeth arall yn cael eu trosglwyddo i'r corff newydd drwy gyfrwng yr ail Orchymyn.

**Aled Roberts:** On behalf of my colleague William Powell, I thank the Minister for his statement. I will try not to show my ignorance on this subject too blatantly.

**Aled Roberts:** Ar ran fy nghydweithiwr William Powell, hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad. Byddaf yn ceisio peidio â dangos fy anwybodaeth ar y pwnc hwn yn rhy amlwg.

I will not repeat the comments that have already been made. Russell George and Llyr Huws Gruffydd have indicated that, while the consultation responses were positive overall, some of them indicated that there was confusion or a lack of understanding with regard to the practical application of this policy. I note the fact that you have indicated that there will be demonstrator projects, which I welcome. Given the fact that it has been a main plank of Welsh Government policy for some years now, how do you expect the consultation and this wider framework to relate to the ongoing work with regard to the new planning Bill? More importantly, considering the assurances given, particularly by your predecessor, and the fact that we have not moved as quickly as we might have hoped at the outset, how will your department make a stronger case within Government over the coming years to ensure that we see real progress on this issue?

Nid wyf am ailadrodd y sylwadau sydd eisoes wedi'u gwneud. Mae Russell George a Llyr Huws Gruffydd wedi nodi, er bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gadarnhaol ar y cyfan, bod rhai ohonynt yn dangos bod dryswch neu ddiffyg dealltwriaeth o ran y defnydd ymarferol o'r polisi hwn. Nodaf y ffaith eich bod wedi nodi y bydd prosiectau arddangos, a chroesawaf hynny. O ystyried y ffaith ei fod wedi bod yn brif agwedd ar bolisi Llywodraeth Cymru ers rhai blynyddoedd bellach, sut ydych chi'n disgwyl i'r ymgynghoriad a'r fframwaith ehangach hwn ymwneud â'r gwaith sy'n mynd rhagddo o ran y Bil cynllunio newydd? Yn bwysicach fyth, o ystyried y sicrwydd a roddwyd, yn enwedig gan eich rhagflaenydd, a'r ffaith nad ydym wedi symud mor gyflym ag y gallem fod wedi gobeithio ar y dechrau, sut fydd eich adran yn gwneud achos cryfach o fewn y Llywodraeth dros y blynyddoedd nesaf i sicrhau ein bod yn gweld cynnydd go iawn ar y mater hwn?

There is obviously a widely held view emerging from the consultation that much of the ecosystem and landscape hold a value beyond the purely economic. What role do you therefore see for bodies such as Cadw and local authorities in the practical application of the ecosystems approach, and what discussions have you had with your colleagues, the Minister for Housing, Regeneration and Heritage and the Minister

Mae'n amlwg bod barn gyffredin sy'n dod i'r amlwg o'r ymgynghoriad bod llawer o'r ecosystem a thirwedd yn cynnal gwerth y tu hwnt i'r economaidd yn unig. Pa rôl felly, ydych chi'n ei gweld ar gyfer cyrff fel awdurdodau lleol a Cadw mewn defnydd ymarferol o'r dull ecosystemau, a pha drafodaethau ydych chi wedi'u cael gyda'ch cydweithwyr, y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth a'r Gweinidog Llywodraeth

for Local Government and Communities, to facilitate this?

Leol a Chymunedau, i hwyluso hyn?

Finally, the wording of the initial consultation appeared to create an element of doubt about the role that protected sites will play over the longer term. Can you take this opportunity today to confirm that protected sites will survive and continue to receive the backing of Welsh Government in the important role that they currently play?

Yn olaf, roedd geiriad yr ymgynghoriad cychwynnol yn ymddangos fel petai'n creu elfen o amheuaeth ynghylch y rôl y bydd safleoedd gwarchodedig yn eu chwarae dros y tymor hirach. Allwch chi gymryd y cyfle hwn heddiw i gadarnhau y bydd safleoedd gwarchodedig yn goroesi ac yn parhau i dderbyn cefnogaeth Llywodraeth Cymru yn y rôl bwysig y maent yn ei chwarae ar hyn o bryd?

**John Griffiths:** I thank Aled Roberts for that contribution and for those questions. I do recognise that it is important that we have projects in place to demonstrate what we mean by this new approach. Indeed, we can point to existing work to demonstrate the approach that we seek to take forward. One example of that, as I mentioned in my statement, is that of the Dyfi valley biosphere, which I have visited. It is a clear example of a community looking at an area of land that was quite barren, and rather than seeking to conserve it, which I guess many people would think is often the approach to areas of community land, local people wanted to develop it, in terms of ecosystem services and sustainable development. They did that as a local community. They created much greater biodiversity and a much more attractive area of land by diverting a watercourse so that the land was partly flooded. At the same time, they attracted many more visitors, which brought economic benefits and created jobs. Of course, they were also able to enjoy that area of land, as a community, much more than had been the case hitherto. So, I think that it clearly hit the social, economic and environmental benefits required for sustainable development. So, there are examples in Wales that we can point to and spread.

**John Griffiths:** Diolch i Aled Roberts am y cyfraniad hwnnw ac am y cwestiynau hynny. Rwyf yn cydnabod ei bod yn bwysig bod gennym brosiectau ar waith i ddangos beth a olygwn wrth yr ymagwedd newydd hon. Yn wir, gallwn dynnu sylw at waith presennol i ddangos y dull yr ydym yn ceisio ei ddatblygu. Un enghraifft o hynny, fel y soniais yn fy natganiad, yw biosffer dyffryn Dyfi, yr wyf wedi ymweld ag o. Mae'n enghraifft glir o gymuned yn edrych ar ardal o dir a oedd yn eithaf moel, ac yn hytrach na cheisio ei gwarchod, rwy'n tybio fyddai llawer o bobl yn ystyried yw'r ymagwedd yn aml at ardaloedd o dir cymunedol, roedd y bobl leol eisiau ei datblygu, o ran gwasanaethau ecosystem a datblygu cynaliadwy. Gwnaethant hynny fel cymuned leol. Gwnaethant greu llawer mwy o fioamrywiaeth ac ardal llawer mwy deniadol o dir drwy ddargyfeirio cwrs dŵr fel bod y tir dan ddŵr yn rhannol. Ar yr un pryd, roeddent yn denu llawer mwy o ymwelwyr, a oedd yn dod â manteision economaidd a chreu swyddi. Wrth gwrs, roeddent hefyd yn gallu mwynhau'r ardal honno o dir, fel cymuned, llawer mwy nag a oedd wedi digwydd hyd hynny. Felly, credaf ei fod yn amlwg wedi taro'r manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n ofynnol ar gyfer datblygu cynaliadwy. Felly, ceir enghreifftiau yng Nghymru y gallwn dynnu sylw atynt a'u lledaenu.

As I said earlier, planning is extremely important, and that has been recognised in some of the recommendations made by the independent advisory group in terms of taking forward a framework for planning in Wales with a strong spatial element. So, we clearly look at areas of land and decide what

Fel y dywedais yn gynharach, mae cynllunio yn hynod o bwysig, ac mae hynny wedi cael ei gydnabod yn rhai o'r argymhellion a wnaed gan y grŵp cynghori annibynnol o ran bwrw ymlaen â fframwaith ar gyfer cynllunio yng Nghymru gydag elfen ofodol gref. Felly, rydym yn amlwg yn edrych ar ardaloedd o dir

is best placed where and where appropriate infrastructure can be sited, for example. There is clearly a strong relationship between the work that we are doing under 'Sustaining a Living Wales' and our planning developments.

a phenderfynu beth ellir ei leoli yno orau a lle y gall seilwaith priodol gael ei leoli, er enghraifft. Mae'n amlwg bod perthynas gref rhwng y gwaith yr ydym yn ei wneud o dan 'Cynnal Cymru Fyw' a'n datblygiadau cynllunio.

Yes, landscapes do have an inherent value, but they are also important in sustainable development terms. For example, there is an obvious economic benefit to landscape in terms of the visitors that it attracts to Wales, and there is an obvious quality of life for local people who can enjoy looking at, walking in and using that landscape.

Oes, mae gan dirweddau werth cynhenid, ond maent hefyd yn bwysig o ran datblygu cynaliadwy. Er enghraifft, mae budd economaidd amlwg i dirwedd o ran yr ymwelwyr y mae'n eu denu i Gymru, ac mae ansawdd amlwg o fywyd i bobl leol sy'n gallu mwynhau edrych ar y dirwedd, cerdded ynddi a'i defnyddio.

I accept that Cadw and other bodies are very much part of this agenda, and we will continue to work closely with them, as we have up to now. Clearly, I work with Ministers right across the Welsh Government so that we make the necessary connections.

Derbyniaf fod Cadw a chyrff eraill yn rhan bwysig iawn o'r agenda hon, a byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda nhw, fel yr ydym wedi ei wneud hyd yn hyn. Yn amlwg, rwyf yn gweithio gyda Gweinidogion ar draws Llywodraeth Cymru fel ein bod yn gwneud y cysylltiadau angenrheidiol.

Finally, it has always been important that we look at designations and protection for particular parts of Wales, and that will continue to be our approach as we go forward with this work.

Yn olaf, mae wedi bod bob amser yn bwysig ein bod yn edrych ar ddynodiadau a diogelwch ar gyfer rhannau penodol o Gymru, a dyna fydd ein dull o hyd wrth inni symud ymlaen gyda'r gwaith hwn.

**Antoinette Sandbach:** Thank you, Minister, for the statement. The ecosystems approach being pursued by the Welsh Government has much to commend it, although I know that some of the consultation responses highlighted large areas of concern about the interpretation and how that was going to be applied and delivered.

**Antoinette Sandbach:** Diolch ichi, Weinidog, am y datganiad. Mae llawer i'w gymeradwyo yn y dull ecosystemau sy'n cael ei ddilyn gan Lywodraeth Cymru, er fy mod yn gwybod bod rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn amlygu meysydd sylweddol o bryder ynghylch y dehongliad a sut oedd yn mynd i gael ei ddefnyddio a'i ddarparu.

I wonder if I could raise a few questions with you. You referred to 40,000 working people in your statement; can you confirm whether that figure, which seems a bit low to me, includes those in the farming and forestry sector? It seems that, if you are looking at an ecosystems approach, you should be looking at all of the working people who deliver environmental goods and services. Given that, what prominence will you be giving to the role of forestry in terms of locking up carbon? In terms of Glastir and the agri-environment scheme, responses to the consultation warned about over-reliance on Glastir to achieve the desired outcomes, so

Tybed a gaf i godi rhai cwestiynau gyda chi. Roeddech yn cyfeirio at 40,000 o bobl sy'n gweithio yn eich datganiad; allwch chi gadarnhau a yw'r ffigur hwnnw, sy'n ymddangos braidd yn isel i mi, yn cynnwys y rhai yn y sector ffermio a choedwigaeth? Mae'n ymddangos, os ydych yn edrych ar ymagwedd ecosystemau, y dylech fod yn edrych ar yr holl bobl sy'n gweithio sy'n darparu nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol. O gofio hynny, pa amlygrwydd fyddwch chi'n ei roi i rôl coedwigaeth o ran cloi carbon? O ran Glastir a'r cynllun amaeth-amgylchedd, roedd ymatebion i'r ymgynghoriad yn rhybuddio

can you confirm what assurances you have received from the Deputy Minister that, following the many changes to the scheme, you will be able to deliver the level of participation needed from landowners? Is it your intention to transfer the oversight of Glastir to the natural resources body? The business case mentioned that. If so, when? Finally, I know that, if my colleague Julie Morgan was here, she would be raising the marine environment with you, because that is a particular interest of hers. [*Interruption.*] Sorry—I mean Julie James. I apologise to Julie Morgan, who is of course here. It was Julie James that I was thinking of.

am orddibyniaeth ar Glastir i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir, felly a allwch chi gadarnhau pa sicrwydd a gawsoch gan y Dirprwy Weinidog y byddwch, yn dilyn y newidiadau niferus i'r cynllun, yn gallu cyflwyno'r lefel o gyfranogiad sydd ei hangen gan berchnogion tir? Ai eich bwriad yw trosglwyddo goruchwylio Glastir i'r corff adnoddau naturiol? Roedd yr achos busnes yn sôn am hynny. Os felly, pryd? Yn olaf, rwyf yn gwybod, pe byddai fy nghydweithiwr Julie Morgan yma, byddai'n codi amgylchedd morol gyda chi, gan fod hynny o ddiddordeb arbennig iddi. [Torri ar draws.]Mae'n ddrwg gennyf—rwy'n golygu Julie James. Ymddiheuraf i Julie Morgan, sydd wrth gwrs yma. Am Julie James yr oeddwn i'n meddwl.

I heard evidence recently that your nine civil servants in the marine department do not sit with the fisheries department. Given your new, integrated approach, will you be ensuring that there is a merging, so that marine and fisheries staff sit and work together? The marine conservation zone consultation demonstrated clearly the consequences of civil servants not talking to each other. Finally, in terms of stakeholders, I heard what you said earlier, but will you confirm that you will listen as well as engage?

Clywais dystiolaeth yn ddiweddar nad yw eich naw o weision sifil yn yr adran forol yn eistedd gyda'r adran bysgodfeydd. O ystyried eich dull newydd, integredig, a fyddwch yn sicrhau bod uno, fel bod staff morol a physgodfeydd yn eistedd ac yn gweithio gyda'i gilydd? Dangosodd yr ymgynghoriad parth cadwraeth forol yn glir y canlyniadau o gael gweision sifil nad ydynt yn siarad â'i gilydd. Yn olaf, o ran rhanddeiliaid, clywais yr hyn a ddywedasoch yn gynharach, ond a wnewch chi gadarnhau y byddwch yn gwrando yn ogystal ag ymgysylltu?

**John Griffiths:** I begin by assuring Antoinette Sandbach that I am always in listening and engagement mode, and will continue to be so, around these issues and everything else within my portfolio. I also assure her that we are very much joined up across Welsh Government on these matters, and that applies to fisheries and marine environment policy. I recently discussed these matters with the Deputy Minister, for example. That also applies to Glastir. It is clear that Glastir is a big step in helping us take forward ecosystem services, and we are very pleased that we have those opportunities.

**John Griffiths:** Dechreuaf drwy sicrhau Antoinette Sandbach fy mod bob amser yn gwrando ac yn ymgysylltu, a byddaf yn parhau i fod felly, ynghylch y materion hyn a phopeth arall o fewn fy mhortffolio. Rwyf hefyd yn ei sicrhau ein bod yn gydlynol iawn ar draws Llywodraeth Cymru ar y materion hyn, ac mae hynny'n berthnasol i bysgodfeydd a pholisi amgylchedd morol. Yn ddiweddar, trafodais y materion hyn gyda'r Dirprwy Weinidog, er enghraifft. Mae hynny hefyd yn berthnasol i Glastir. Mae'n amlwg bod Glastir yn gam mawr i'n helpu i ddatblygu gwasanaethau ecosystem, ac rydym yn falch iawn ein bod yn cael y cyfleoedd hynny.

The role of forestry is important and has been the subject of much discussion. Forestry provides a great deal for us in Wales in terms of private industry, carbon capture, health and community use, tourism—it is very much

Mae rôl coedwigaeth yn bwysig ac mae wedi bod yn destun llawer o drafodaeth. Mae coedwigaeth yn darparu llawer iawn i ni yng Nghymru o ran diwydiant preifat, dal carbon, iechyd a defnydd cymunedol, twristiaeth—

a deliverer of cross-cutting benefits and it will have a prominent place as we go forward with the single body and policy.

mae'n ddarparwr gwirioneddol ar fuddion cyffredinol a fydd yn cael lle amlwg wrth i ni fynd ymlaen gyda'r corff unigol a'r polisi.

When it comes to the jobs that are involved in the green economy, it is possible to define it in all sorts of ways. However, what is very clear is that the great natural environment that we have in Wales is the base for everything that we have of value, and everything that we hope for in terms of our policies for the future. Sustaining jobs in general is a big part of those benefits, but we also know that the only growth that we have seen recently is around the green economy, so it is absolutely vital that we drive the green economy forward, however you define it.

Pan ddaw at y swyddi sy'n cael eu cynnwys yn yr economi werdd, mae'n bosibl ei diffinio mewn pob math o ffyrdd. Fodd bynnag, yr hyn sy'n glir iawn yw mai'r amgylchedd naturiol gwych sydd gennym yng Nghymru yw'r sylfaen ar gyfer popeth sydd gennym o werth, a phopeth yr ydym yn gobeithio amdano o ran ein polisïau ar gyfer y dyfodol. Mae cynnal swyddi yn gyffredinol yn rhan fawr o'r buddion hynny, ond rydym hefyd yn gwybod bod yr unig dwf yr ydym wedi ei weld yn ddiweddar o gwmpas yr economi werdd, felly mae'n gwbl hanfodol ein bod yn gyrru'r economi werdd ymlaen, sut bynnag yr ydych yn ei ddiffinio.

## Datganiad: Ymateb Llywodraeth Cymru i 'Adolygu Ardrethi Busnes Cymru: Cymell Twf'
## Statement: The Welsh Government's Response to 'Business Rates Wales Review: Incentivising Growth'

**The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart):** I am delighted to have this opportunity to respond to the business rates review. I gave the task and finish group a very clear remit to find out whether the business rates regime could be used as a lever for economic growth. The group has produced a comprehensive picture of the business rates landscape in Wales, and I am pleased today to be responding positively to the recommendations within the report.

**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart):** Rwyf yn falch o gael y cyfle hwn i ymateb i'r adolygiad ardrethi busnes. Rhoddais gylch gorchwyl clir iawn i'r grŵp gorchwyl a gorffen i ganfod a ellid defnyddio'r gyfundrefn ardrethi busnes fel cyfrwng ar gyfer twf economaidd. Mae'r grŵp wedi cynhyrchu darlun cynhwysfawr o'r dirwedd ardrethi busnes yng Nghymru, ac rwyf yn falch heddiw o gael ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion yn yr adroddiad.

3.30 p.m.

However, we must remind ourselves at the outset that business rates are not a cure-all for the current economic difficulties that we face; they are just one lever. I will therefore seek to link this with cross-cutting Government work on several areas. Professor Brian Morgan's engagement over the summer has generated an interesting debate, and I welcome Members' input into this process. Your contributions to me and the group have been important and timely. I want businesses to feel the benefits on the ground, and we will take action now, and over the next year, to respond positively.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni ein hatgoffa ein hunain ar y cychwyn nad yw ardrethi busnes yn ffordd o wella popeth am yr anawsterau economaidd presennol sy'n ein hwynebu, un cyfrwng sbarduno yn unig ydynt. Felly, byddaf yn ceisio cysylltu hyn gyda gwaith cyffredinol y Llywodraeth ar sawl maes. Mae ymgysylltiad yr Athro Brian Morgan dros yr haf wedi creu dadl ddiddorol, ac rwy'n croesawu mewnbwn yr Aelodau i'r broses hon. Mae eich cyfraniadau i mi ac i'r grŵp wedi bod yn bwysig ac yn amserol. Rwyf am i fusnesau deimlo'r buddion ar lawr gwlad, a byddwn yn cymryd camau yn awr, a

thros y flwyddyn nesaf, i ymateb yn gadarnhaol.

There are 19 recommendations, and our response is overwhelmingly positive. I will focus on the headlines in this statement, but I am also publishing a supporting written document, which I believe Members have received, and I hope that that will be useful for the tone of the discussion on today's statement.

Mae 19 o argymhellion, ac mae ein hymateb yn gadarnhaol dros ben. Byddaf yn canolbwyntio ar y penawdau yn y datganiad hwn, ond rwyf hefyd yn cyhoeddi dogfen ategol ysgrifenedig, yr wyf yn credu y mae Aelodau wedi'i derbyn, a gobeithiaf y bydd honno'n ddefnyddiol ar gyfer naws y drafodaeth ar ddatganiad heddiw.

I wish to turn to the main recommendation of the report, namely the devolution of business rates and the local retention of business rates. Devolving business rates would provide the policy flexibility to enable business rates to support economic development and growth. The Silk commission needs to consider business rates as part of the whole funding settlement. Our aim is to secure a comprehensive set of financial reforms for Wales that would include fairer funding and effective borrowing arrangements.

Hoffwn droi at brif argymhelliad yr adroddiad, sef datganoli ardrethi busnes a chadw ardrethi busnes yn lleol. Byddai datganoli ardrethi busnes yn darparu'r hyblygrwydd polisi i alluogi ardrethi busnes i gefnogi datblygiad a thwf economaidd. Mae angen i gomisiwn Silk ystyried ardrethi busnes fel rhan o'r setliad cyllid cyfan. Ein nod yw sicrhau set gynhwysfawr o ddiwygiadau ariannol ar gyfer Cymru a fyddai'n cynnwys cyllid tecach a threfniadau benthyca effeithiol.

Other key recommendations that we are moving forward on include pressing the UK Government for the continuation of the small business rate relief scheme, and proposing innovative changes to the empty property rates regime, based on the recommendations of the report. A significant recommendation was for a targeted scheme for business rate relief in enterprise zones. The consequential allocation from the UK Government for Wales for business rate incentives in enterprise zones limited our ability to have an attractive incentive. I have therefore decided to match the UK Government consequential with £10 million from the Welsh Government so that we can deliver effectively for the people and businesses of Wales.

Mae argymhellion allweddol eraill yr ydym yn eu gweithredu yn cynnwys pwyso ar Lywodraeth y DU ynghylch parhad y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, a chynnig newidiadau arloesol i'r gyfundrefn ardrethi eiddo gwag, yn seiliedig ar argymhellion yr adroddiad. Un argymhelliad arwyddocaol oedd ar gyfer cynllun wedi'i dargedu ar gyfer rhyddhad ardrethi busnes mewn ardaloedd menter. Roedd y dyraniad canlyniadol gan Lywodraeth y DU i Gymru ar gyfer cymhellion ardrethi busnes mewn ardaloedd menter yn cyfyngu ar ein gallu i gael cymhelliant deniadol. Rwyf felly wedi penderfynu cyfateb dyraniad canlyniadol Llywodraeth y DU gyda £10 miliwn gan Lywodraeth Cymru fel y gallwn gyflawni'n effeithiol ar gyfer pobl a busnesau Cymru.

This scheme will become available in all seven Welsh enterprise zones. Even though I am doubling the amount, resources remain limited, and targeting is essential to ensure that we achieve best value and impact. The scheme will focus on small and medium-sized enterprises, with priority placed on those businesses that are new-starts or are expanding and increasing the size of their permanent workforce. Our business rates incentive in our enterprise zones will

Bydd y cynllun hwn ar gael yn y saith ardal fenter yng Nghymru. Er fy mod i'n dyblu'r swm, mae adnoddau'n dal yn gyfyngedig, ac mae targedu'n hanfodol i sicrhau ein bod yn cyflawni gwerth gorau ac effaith. Bydd y cynllun yn canolbwyntio ar fentrau bach a chanolig eu maint, gyda blaenoriaeth wedi'i rhoi i'r busnesau hynny sydd newydd ddechrau neu sy'n ehangu ac yn cynyddu maint eu gweithlu parhaol. Bydd ein cymhelliant ardrethi busnes yn ein

compare favourably with those on offer in England and Scotland, offering relief in all of our zones, supporting a wide range of SMEs, and targeted at incentivising jobs and growth. It will be operational from January. Between now and opening for applications, we will fine-tune the targeting of the scheme with each enterprise zone board. Details of the criteria, and the operation of the scheme, will be available prior to the launch on our website and through the usual business channels.

hardaloedd menter yn cymharu'n ffafriol â'r rhai a gynigir yn Lloegr a'r Alban, gan gynnig rhyddhad yn ein holl barthau, gan gefnogi amrywiaeth eang o fusnesau bach a chanolig, ac wedi'u targedu at gymell swyddi a thwf. Bydd yn weithredol o fis Ionawr. Rhwng nawr ac agor ar gyfer ceisiadau, byddwn yn mireinio targedu'r cynllun gyda phob bwrdd ardal fenter. Bydd manylion y meini prawf, a gweithrediad y cynllun, ar gael cyn y lansiad ar ein gwefan a thrwy'r sianeli busnes arferol.

Another important recommendation was for renewable energy. I am pleased to announce a scheme today that is aimed at renewable energy producers. As a Government, we are committed to pursuing an ambitious sustainability and low-carbon agenda, and a vibrant energy and environment sector in Wales. Businesses that are solely concerned with the generation of heat and/or power from renewable sources, and are new-starts or are increasing the size of their permanent workforce, could qualify for a share of the £1.5 million per annum funding under the scheme. By supporting new investment from renewable energy producers, the scheme will be supporting the expansion of the sector and Wales's renewable capacity. It sends an important message that Wales is a good place to invest. Applications for the scheme will open in January 2013, and details of the criteria will be available through our normal business channels prior to the launch. In addition, the Minister for Environment and Sustainable Development has written to the UK Government to propose improving the relief that is available for businesses that invest in renewable energy.

Argymhelliad pwysig arall oedd ar gyfer ynni adnewyddadwy. Rwyf yn falch o gyhoeddi cynllun heddiw sydd wedi ei anelu at gynhyrchwyr ynni adnewyddadwy. Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i fwrw ymlaen ag agenda cynaliadwyedd a charbon isel uchelgeisiol, a sector ynni ac amgylchedd bywiog yng Nghymru. Gallai busnesau sydd yn ymwneud yn unig â chynhyrchu gwres a / neu bŵer o ffynonellau adnewyddadwy, ac sy'n fusnesau sydd newydd ddechrau neu'n cynyddu maint eu gweithlu parhaol, fod yn gymwys am gyfran o'r £1.5 miliwn y flwyddyn o gyllid o dan y cynllun. Drwy gefnogi buddsoddiad newydd gan gynhyrchwyr ynni adnewyddadwy, bydd y cynllun yn cefnogi ehangiad y sector a gallu adnewyddadwy Cymru. Mae'n anfon neges bwysig bod Cymru yn lle da i fuddsoddi ynddo. Bydd ceisiadau ar gyfer y cynllun yn dechrau ym mis Ionawr 2013, a bydd manylion y meini prawf ar gael drwy ein sianelau busnes arferol cyn y lansiad. Yn ogystal, mae'r Gweinidog Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i gynnig gwella'r rhyddhad sydd ar gael i fusnesau sy'n buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy.

I am also pleased to support the recommendation on regenerating town centres, by announcing start-up funding for business improvement districts. These will encourage businesses to come together and support themselves to improve their offer. The Minister for Housing, Regeneration and Heritage and I will jointly fund a £200,000 fund to encourage the development of business improvement districts in Wales over the next three years.

Rwyf hefyd yn falch o gefnogi'r argymhelliad ar adfywio canol trefi, drwy gyhoeddi cyllid cychwynnol ar gyfer ardaloedd gwella busnes. Bydd y rhain yn annog busnesau i ddod at ei gilydd a chynnal eu hunain i wella eu cynnig. Bydd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth a finnau'n cyd ariannu cronfa o £200,000 i annog datblygiad ardaloedd gwella busnes yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf.

Turning to other recommendations, I will

Gan droi at argymhellion eraill, byddaf yn

ensure that our revamped websites will improve the accessibility of information on key business rates issues. We have been discussing local discretionary powers to issue rate relief with the Welsh Local Government Association, and we intend to write to local authorities to remind them of their powers in this regard. The Valuation Office Agency is being asked to review its guidance on material changes in circumstances. We will also undertake a number of actions in relation to other recommendations over the next year.

sicrhau y bydd ein gwefannau a ailwampiwyd yn gwella hygyrchedd gwybodaeth ar faterion ardrethi busnes allweddol. Rydym wedi bod yn trafod pwerau disgresiwn lleol i roi rhyddhad ardrethi gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac rydym yn bwriadu ysgrifennu at awdurdodau lleol i'w hatgoffa am eu pwerau yn hyn o beth. Gofynnir i Asiantaeth y Swyddfa Brisio i adolygu ei chanllawiau ar newidiadau perthnasol mewn amgylchiadau. Byddwn hefyd yn cynnal nifer o gamau gweithredu mewn perthynas ag argymhellion eraill dros y flwyddyn nesaf.

If the UK Government fails to examine ways to improve the current empty property rates regime, we will examine what we can do in this regard. If business rates are devolved, we will consider the model of the local retention of rates. We will monitor the effectiveness of tax incremental financing across the UK, and I have asked the Minister for Environment and Sustainable Development to look at how the playing field between out-of-town and town-centre parking could be levelled. Additionally, although not raised in the report, the First Minister and I are concerned about the rising costs for energy-intensive industries. We will look to see if there are any ways of supporting these with the costs that they face.

Os yw Llywodraeth y DU yn methu ag edrych ar ffyrdd i wella trefn bresennol ardrethi eiddo gwag, byddwn yn edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud yn hyn o beth. Os bydd ardrethi busnes yn cael eu datganoli, byddwn yn ystyried y model o gadw ardrethi'n lleol. Byddwn yn monitro effeithiolrwydd ariannu treth gynyddraddol ar draws y DU, ac rwyf wedi gofyn i'r Gweinidog Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy edrych ar sut y gellid trin parcio y tu allan i'r dref a chanol y dref yn yr un modd. Yn ogystal, er na chafodd ei godi yn yr adroddiad, mae'r Prif Weinidog a minnau yn bryderus ynghylch y costau cynyddol ar gyfer diwydiannau ynni-ddwys. Byddwn yn edrych i weld a oes unrhyw ffyrdd o gefnogi'r rhain gyda'r costau y maent yn eu hwynebu.

Finally, the recommendation to examine charity relief has generated, as you will understand as AMs, a lot of debate and I recognise the concerns raised by the charities and the retail sector. This is a very sensitive issue, and we need to consider the concerns. Therefore, I have asked Professor Brian Morgan, supported by Juliet Luporini, to lead on this work and I have extended the remit to consider reliefs for social enterprises and credit unions, as there have been representations from those sectors as well.

Yn olaf, mae'r argymhelliad i archwilio cymorth elusen wedi cynhyrchu, fel y byddwch yn deall fel ACau, lawer o ddadlau ac rwy'n cydnabod y pryderon a godwyd gan yr elusennau a'r sector manwerthu. Mae hwn yn fater sensitif iawn, ac mae angen i ni ystyried y pryderon. Felly, rwyf wedi gofyn i'r Athro Brian Morgan, gyda chymorth gan Juliet Luporini, i arwain ar y gwaith hwn ac rwyf wedi ymestyn y cylch gwaith i ystyried gostyngiadau ar gyfer mentrau cymdeithasol ac undebau credyd, gan y bu sylwadau gan y sectorau hynny yn ogystal.

I am sure that Members will be pleased that we have been able to respond in such a positive and comprehensive way to the recommendations in the review, but much has happened since the review was published. Last week, I met Professor Morgan to discuss

Rwy'n siŵr y bydd Aelodau'n falch ein bod wedi gallu ymateb mewn ffordd mor gadarnhaol a chynhwysfawr i'r argymhellion yn yr adolygiad, ond mae llawer wedi digwydd ers cyhoeddi'r adolygiad. Yr wythnos diwethaf, cyfarfûm â'r Athro

a range of issues. As a result, I have asked the task and finish group to undertake a number of other important actions, including coming up with innovative proposals to encourage new development through rate relief, following the response from the construction sector panel, and examining the effectiveness of recently introduced schemes in Northern Ireland and Scotland to bring empty properties back into use. I have also asked the task and finish group to look at these approaches and whether they would work in Wales. Also, last week, the UK Government postponed the revaluation exercise due to come into force in England in 2015 until 2017. I have asked Professor Morgan and the group to look at the issues and provide me with advice on this particular issue.

Morgan i drafod ystod o faterion. O ganlyniad, rwyf wedi gofyn i'r grŵp gorchwyl a gorffen ymgymryd â nifer o gamau pwysig eraill, gan gynnwys dod o hyd i gynigion arloesol i annog datblygiad newydd drwy ryddhad ardrethi, yn dilyn yr ymateb gan banel y sector adeiladu, ac archwilio effeithiolrwydd cynlluniau a gyflwynwyd yn ddiweddar yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Rwyf hefyd wedi gofyn i'r grŵp gorchwyl a gorffen edrych ar y dulliau hyn a p'un a fyddent yn gweithio yng Nghymru. Hefyd, yr wythnos diwethaf, gohiriodd Llywodraeth y DU yr ymarfer ailbrisio oedd i fod i ddod i rym yn Lloegr yn 2015 tan 2017. Rwyf wedi gofyn i'r Athro Morgan a'r grŵp i edrych ar y materion a rhoi cyngor i mi ar y mater penodol hwn.

I want to do what is right for Wales. This response offers a sound basis upon which to develop business rates policy to make some immediate improvements within existing constraints and looks longer term to creating a business rate system in Wales that gives real policy flexibility.

Rwyf am wneud yr hyn sy'n iawn i Gymru. Mae'r ymateb hwn yn cynnig sylfaen cadarn ar gyfer datblygu polisi ardrethi busnes i wneud rhai gwelliannau ar unwaith o fewn cyfyngiadau presennol ac mae'n edrych ar y tymor hwy i greu system ardrethi busnes yng Nghymru sy'n rhoi hyblygrwydd polisi go iawn.

**Nick Ramsay:** I thank the Minister for her statement, which has been a long time coming; we were originally promised this statement before the summer. Notwithstanding that, I am pleased that we have it now. Also, I appreciate your initial comment that while business rates may not be a cure for all ills, you do now recognise that they are a lever. The Welsh Conservatives believe that they are a very important lever, and one which my party has been saying the Government should have been using for some time, certainly in terms of providing rate relief for small businesses.

**Nick Ramsay:** Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad, yr ydym wedi aros yn hir amdano; addawyd y datganiad hwn i ni cyn yr haf yn wreiddiol. Er gwaethaf hynny, rwyf yn falch ein bod wedi ei gael yn awr. Hefyd, rwyf yn gwerthfawrogi eich sylwadau cychwynnol, er efallai nad yw ardrethi busnes yn iachâd ar gyfer bob problem, rydych yn awr yn cydnabod eu bod yn gyfrwng sbarduno. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu eu bod yn gyfrwng sbarduno pwysig iawn, ac yn un y mae fy mhlaid wedi bod yn dweud y dylai'r Llywodraeth fod wedi bod yn ei ddefnyddio ers peth amser, yn sicr o ran darparu rhyddhad ardrethi i fusnesau bach.

There is a mixture of positive and negative in this statement. On the positive side, I am pleased that you say that devolving business rates would provide policy flexibility; that is certainly in line with the recommendations in the report and I agree with that. I was not entirely sure whether you did: you seemed to be saying that that will now be passed on to the Silk commission. I appreciate that it has a role to play, but local authorities and the

Mae cymysgedd o gadarnhaol a negyddol yn y datganiad hwn. Ar yr ochr gadarnhaol, rwy'n falch eich bod yn dweud y byddai datganoli ardrethi busnes yn darparu hyblygrwydd polisi, mae hynny'n sicr yn unol â'r argymhellion yn yr adroddiad ac rwy'n cytuno â hynny. Nid oeddwn yn hollol siŵr eich bod chi: roedd yn ymddangos eich bod yn dweud y bydd hwn yn awr yn cael ei basio ymlaen i gomisiwn Silk. Rwy'n

Assembly would benefit from a little more clarity on whether you think that the devolution of business rates would provide the benefits that I think it would.

gwerthfawrogi bod ganddo rôl i'w chwarae, ond byddai awdurdodau lleol a'r Cynulliad yn elwa o gael eglurder ychydig yn fwy ar p'un a ydych yn credu y byddai datganoli ardrethi busnes yn darparu'r manteision yr wyf i'n meddwl y byddai.

On the issue of business rate incentives in enterprise zones, that again is something for which we have been calling for a long time; it is obvious that that has to happen. As you said, we have to have competitiveness between the Welsh enterprise zone model and the Scottish and the English zone model. Clearly, rate relief within those areas is essential and I welcome the £10 million match funding, which I suppose is what it would be called, that the Welsh Government is putting into that. It is obvious that without business rate incentivisation here, we will lose out compared with England and Scotland.

Ar fater cymhellion ardrethi busnes mewn ardaloedd menter, mae hynny eto yn rhywbeth yr ydym wedi bod yn galw amdano ers amser hir; mae'n amlwg bod rhaid i hynny ddigwydd. Fel y dywedasoch, mae'n rhaid i ni gael gallu cystadleuol rhwng model ardal fenter Cymru a model ardal yr Alban a Lloegr. Yn amlwg, mae rhyddhad ardrethi o fewn yr ardaloedd hynny yn hanfodol ac rwyf yn croesawu'r £10 miliwn, o arian cyfatebol, mae'n debyg y byddai'n cael ei alw, y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi at hynny. Heb gymhelliant ardrethi busnes yma, mae'n amlwg byddwn ar ein colled o gymharu â Lloegr a'r Alban.

I am disappointed with the downgrading—and I use that word carefully—of the issue of the local retention of rates. I say 'downgrading' because this was one of the key recommendations of Professor Morgan's report—the idea that local authorities should be able to keep a proportion of the business rates that they raise in order to increase accountability, support businesses and encourage local authorities to provide more support for businesses so that money is generated in their areas. That was key to Professor Morgan's report, but it seemed to be somewhere low down in your statement; in fact, where it did appear, you said that you will consider it. I do not think that is clear enough; I would like far greater clarity on whether we believe in the local retention of rates or not. I certainly do, and I believe that it was an interesting and necessary aspect of Professor Morgan's report, notwithstanding the fact that you would have to alter the revenue support grant funding mechanism for local government to ensure that local authorities did not lose out. I think that more work needs to be done on that and perhaps you could liaise with the Minister for Local Government and Communities to see that it is implemented. When are you considering telling us in the Chamber exactly what your views are on the local retention of rates?

Rwyf yn siomedig gydag israddio—a defnyddiaf y gair yn ofalus—y mater o gadw ardrethi'n lleol. Rwy'n dweud 'israddio' gan fod hwn yn un o brif argymhellion adroddiad yr Athro Morgan—y syniad y dylai awdurdodau lleol fod yn gallu cadw cyfran o'r ardrethi busnes y maent yn eu codi er mwyn cynyddu atebolrwydd, cefnogi busnesau ac annog awdurdodau lleol i ddarparu mwy o gefnogaeth i fusnesau fel bod arian yn cael ei gynhyrchu yn eu hardaloedd. Roedd hynna'n allweddol i adroddiad yr Athro Morgan, ond roedd yn ymddangos i fod yn rhywle yn isel i lawr yn eich datganiad, mewn gwirionedd, lle'r oedd yn ymddangos, dywedasoch y byddwch yn ei ystyried. Nid wyf yn credu bod hynny'n ddigon clir; hoffwn lawer mwy o eglurder ynghylch a ydym yn credu mewn cadw ardrethi'n lleol ai peidio. Rwyf i'n sicr yn credu hynny, a chredaf ei fod yn agwedd ddiddorol ac angenrheidiol o adroddiad yr Athro Morgan, er gwaetha'r ffaith y byddai'n rhaid i chi newid y mecanwaith cyllid grant cynnal refeniw ar gyfer llywodraeth leol i sicrhau nad yw awdurdodau lleol yn colli allan. Credaf fod angen gwneud mwy o waith ar hynny ac efallai y gallech gysylltu â'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau i weld ei fod yn cael ei weithredu. Pryd ydych chi'n ystyried dweud wrthym yn y Siambr yn union beth yw eich barn chi ar

gadw ardrethi'n lleol?

You mentioned the monitoring of tax increment financing across the UK. I am not as concerned about that as I am about the local retention of rates. Monitoring is an interesting word—a bit like 'consultation' or 'commissioners'; perhaps it is a new buzz word that has popped up, dare I say it, if there is going to be a delay in coming to a decision on that. I would be interested to know how long you think that this monitoring will take. I see that the Minister is smiling at that comment. I am not sure how the word 'monitoring' crept in there; perhaps it was discussed before. I would be grateful if you could tell us when that monitoring will come to an end and when a decision will be taken.

Soniasoch am y gwaith o fonitro ariannu cynyddiad treth ar draws y DU. Nid wyf yn poeni cymaint am hynny ag yr wyf am gadw ardrethi'n lleol. Mae monitro yn air diddorol—ychydig fel 'ymgynghori' neu 'comisiynwyr'; efallai ei fod yn air hud newydd sydd wedi ymddangos, os caf ddweud, os oes oedi i fod wrth ddod i benderfyniad ar hynny. Byddai gennyf ddiddordeb i wybod pa mor hir yr ydych yn credu y bydd y monitro hwn yn ei gymryd. Gwelaf fod y Gweinidog yn gwenu ar y sylw hwnnw. Nid wyf yn siŵr sut y sleifiodd y gair 'monitro' i mewn: efallai iddo gael ei drafod o'r blaen. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddweud wrthym pryd y bydd y monitro yn dod i ben a phryd fydd penderfyniad yn cael ei wneud.

Finally, Presiding Officer, because I know you have indulged me with time, the Minister mentioned the important matter of charity shops. It is a difficult one, and I think that we all recognise that. It is easy to say that there need to be changes, but there has been a discussion by all parties about how those changes may operate. It is a sensitive issue, but something needs to change and my party has made that clear over the last couple of days. You have now passed it back to Professor Morgan for his consideration. Therefore, it has come from Professor Morgan to you and it has now gone back to the task and finish group. I assume that it will come back to you. Can you tell us when that will happen, when you will make a decision and when you will put a new framework in place so that we have a much fairer playing field for charity shops and other shops in our town centres?

Yn olaf, Lywydd, oherwydd gwn eich bod wedi rhoi amser i mi, crybwyllodd y Gweinidog y mater pwysig o siopau elusen. Mae'n un anodd, ac rwyf yn meddwl ein bod i gyd yn cydnabod hynny. Mae'n hawdd dweud bod angen newidiadau, ond bu trafodaeth gan yr holl bleidiau ynghylch sut y gall y newidiadau hynny weithredu. Mae'n fater sensitif, ond mae angen i rywbeth newid ac mae fy mhlaid wedi gwneud hynny'n glir yn ystod yr ychydig ddiwrnodau diwethaf. Rydych wedi ei basio'n ôl erbyn hyn i'r Athro Morgan i'w ystyried. Felly, mae wedi dod oddi wrth yr Athro Morgan i chi a bellach mae wedi mynd yn ôl at y grŵp gorchwyl a gorffen. Rwyf yn tybio y bydd yn dod yn ôl atoch. A allwch ddweud wrthym pryd y bydd hynny'n digwydd, pryd y byddwch yn gwneud penderfyniad a phryd y byddwch yn rhoi fframwaith newydd ar waith fel bod siopau elusen a siopau eraill yng nghanol ein trefi yn cael eu trin yn yr un moddr?

**Edwina Hart:** I thank Nick Ramsay for his contribution. There is common ground in relation to the need to look at business rates and how they can be utilised to help and assist businesses in Wales. I have always recognised the importance of business rates, which is why I decided that there should be a review. The independently minded chair and panel, who would not necessarily give you the answers that you wanted, have consulted

**Edwina Hart:** Diolch i Nick Ramsay am ei gyfraniad. Mae tir cyffredin mewn perthynas â'r angen i edrych ar ardrethi busnes a sut y gellir eu defnyddio i helpu a chynorthwyo busnesau yng Nghymru. Rwyf bob amser wedi cydnabod pwysigrwydd ardrethi busnes, a dyna pam y penderfynais y dylai fod adolygiad. Mae'r cadeirydd a'r panel annibynnol eu meddwl, na fyddent o reidrwydd yn rhoi'r atebion yr ydych am eu

widely to ensure that we have the information required to make the decisions. I thank you for your positive comments.

cael i chi, wedi ymgynghori'n eang er mwyn sicrhau bod gennym y wybodaeth sydd ei hangen i wneud y penderfyniadau. Diolch i chi am eich sylwadau cadarnhaol.

I am keen on certain areas, but we have the mechanism of the Silk commission now to look at issues. We are all content about what Silk is doing across parties, therefore, I looked at it in that particular context. In terms of the enterprise zones, yes, it is now a £20 million pot, which is a good start in terms of the cash needed to develop things.

Rwyf yn frwd dros feysydd penodol, ond mae gennym fecanwaith y comisiwn Silk yn awr i edrych ar faterion. Rydym i gyd yn fodlon ynglŷn â beth y mae Silk yn ei wneud ar draws y pleidiau, felly, edrychais arno yn y cyd-destun penodol. O ran yr ardaloedd menter, ydi, y mae yn awr yn gronfa o £20 miliwn, sy'n ddechrau da o ran yr arian sydd ei angen i ddatblygu pethau.

The local retention issue, based on the English model, is one of the areas that we will look at further, and that is quite important for us. You have listed some other areas that we are continuing to monitor, so that we can look to see how things will pan out. There are different things going on in the UK and people might prefer what the Scots are doing or what is going on in Northern Ireland, so we have to keep abreast of all that.

Mae'r mater cadw lleol, yn seiliedig ar fodel Lloegr, yn un o'r meysydd y byddwn yn edrych arno ymhellach, ac mae hynny'n eithaf pwysig i ni. Rydych wedi rhestru rhai meysydd eraill yr ydym yn parhau i'w monitro, fel y gallwn edrych i weld sut yr aiff pethau Mae pethau gwahanol yn digwydd yn y DU ac fe allai fod yn well gan bobl yr hyn y mae'r Albanwyr yn ei wneud neu beth sy'n digwydd yng Ngogledd Iwerddon, felly mae'n rhaid i ni gadw llygad ar hynny i gyd.

You are quite right about the charity shops issue, which has engendered an awful lot of correspondence. Many retail outlets started off by asking, 'What's going on? I'm only next door and I am employing people and paying national insurance contributions, so why is the benefit there?' Therefore, a discussion has begun, and I am conscious that, within the overall business rates issue, there needs to be a more specific look at some of the charity shop stuff. I want to give a commitment to the voluntary sector that this will be looked at. I very much hope that the work that Professor Brian Morgan will be undertaking will be done quite quickly. I will speak to him and update Members. However, I want to say to Members that, while this is my response, there are other issues that will emerge from business rates, and I would be delighted if Members wanted to participate in any further discussions with Professor Morgan as the policy develops across the UK, if it would be of help and of interest to them.

Rydych yn llygad eich lle ynghylch mater siopau elusen, sydd wedi ennyn llawer iawn o ohebiaeth. Mae llawer o siopau yn dechrau drwy ofyn, 'Beth sy'n digwydd? Dim ond drws nesaf yr ydw i ac rwy'n cyflogi pobl ac yn talu cyfraniadau yswiriant gwladol, felly pam fod y budd-dal yno?' Felly, mae trafodaeth wedi dechrau, ac rwy'n ymwybodol, o fewn y mater ardrethi busnes yn gyffredinol, bod angen edrych yn fwy penodol ar rai o'r materion siopau elusen. Rwyf am roi ymrwymiad i'r sector gwirfoddol y bydd hyn yn cael ei ystyried. Gobeithiaf yn fawr y bydd y gwaith y bydd yr Athro Brian Morgan yn ymgymryd ag o yn cael ei wneud yn gymharol gyflym. Byddaf yn siarad ag ef ac yn rhoi'r newyddion diweddaraf i Aelodau. Fodd bynnag, hoffwn i ddweud wrth yr Aelodau, er mai dyma yw fy ymateb, mae materion eraill a fydd yn deillio o ardrethi busnes, a byddwn yn falch iawn pe byddai Aelodau yn dymuno cymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau pellach gyda'r Athro Morgan wrth i'r polisi ddatblygu ar draws y DU, os byddai o gymorth ac o ddiddordeb iddynt.

**Mike Hedges:** First, I want to mention

**Mike Hedges:** Yn gyntaf, rwyf am sôn am

business improvement districts and, as the Minister is aware, there is a very successful one in Swansea. Will any of the additional £200,000 that you have or that will be made available be available for business improvement districts that are currently in existence, such as the one in Swansea, or will it only be available for new business improvement districts?

ardaloedd gwella busnes, ac fel y gŵyr y Gweinidog, mae un llwyddiannus iawn yn Abertawe. A fydd rhywfaint o'r £200,000 ychwanegol sydd gennych neu a fydd ar gael ar gael ar gyfer ardaloedd gwella busnes sy'n bodoli ar hyn o bryd, megis yr un yn Abertawe, neu dim ond ar gael ar gyfer ardaloedd gwella busnes newydd?

Secondly, rate relief is wonderful, but a number of companies are on rate-rent payments, and when they get their rates reduced to zero, all that happens is that the people who are renting them the buildings make additional profits. What can be done to ensure that any rate relief given is passed on to the companies or businesses concerned?

Yn ail, mae rhyddhad ardrethi yn wych, ond mae nifer o gwmnïau ar daliadau ardreth-rhent, a phan fydd eu hardrethi'n cael eu gostwng i sero, y cyfan sy'n digwydd yw bod y bobl sy'n rhentu'r adeiladau iddynt yn gwneud elw ychwanegol. Beth ellir ei wneud i sicrhau bod unrhyw ryddhad ardrethi a roddir yn cael ei drosglwyddo i'r cwmnïau neu'r busnesau dan sylw?

My third question is on empty property rates, which I have always felt to be massively unfair. I hold the same view on this as I do on empty properties. It is a 'can't rent, won't rent' or a 'can't sell, won't sell' scenario. What can be done to help those who have, through no fault of their own, found their businesses to be incapable of carrying on but who still have to pay the rates on the buildings that they have vacated? It seems incredibly unfair that people who have tried to run a business and failed face a financial penalty.

Mae fy nhrydydd cwestiwn yn ymwneud ag ardrethi eiddo gwag, yr wyf wedi teimlo bob amser i fod yn annheg iawn. Rwyf o'r un farn ar hyn ag yr wyf ar eiddo gwag. Mae'n senario 'Ni allaf rentu, ni fyddaf yn rhentu' neu 'ni allaf werthu, ni fyddaf yn gwerthu'. Beth ellir ei wneud i helpu'r rhai sydd, heb fod unrhyw fai arnynt, wedi gweld eu busnesau'n analluog i barhau ond sy'n dal i orfod talu'r ardrethi ar yr adeiladau y maent wedi'u gadael? Mae'n ymddangos yn hynod annheg bod pobl sydd wedi ceisio rhedeg busnes ac wedi methu yn wynebu cosb ariannol.

3.45 p.m.

Finally, I urge caution on the local retention of rates. The increase in business rates over the last 10 years has varied dramatically, from 6.3% in Ynys Môn to 79.9% in Wrexham, and from £14 million in Merthyr to £169 million in Cardiff. If local retention had happened and the respective areas had been able to keep 10%, that would have moved money away from north-west Wales to south-east Wales. Unless additional moneys can be made available to local authorities to allow them to balance that out, I cannot see how we can stop this movement of money from one part of Wales to another; perhaps the Minister can explain.

Yn olaf, rwy'n annog gofal ynghylch cadw ardrethi'n lleol. Mae'r cynnydd mewn ardrethi busnes dros y 10 mlynedd diwethaf wedi amrywio yn ddramatig, o 6.3% yn Ynys Môn i 79.9% yn Wrecsam, ac o £14 miliwn ym Merthyr i £169 miliwn yng Nghaerdydd. Pe byddai cadw lleol wedi digwydd a phe byddai'r ardaloedd priodol wedi gallu cadw 10%, byddai hynny wedi symud arian o ogledd-orllewin Cymru i dde-ddwyrain Cymru. Oni ellir sicrhau bod arian ychwanegol ar gael i awdurdodau lleol i'w galluogi i gydbwyso hynny, ni allaf weld sut y gallwn atal y symud arian hwn o un rhan o Gymru i un arall, efallai y gall y Gweinidog egluro.

**Edwina Hart:** I thank the Member for

**Edwina Hart:** Diolch i'r Aelod dros

Swansea East for his contribution. In his last few points, he illustrated the difficulty of dealing with the whole issue of business rates. The Member has an excellent understanding, with his background in local government, of the realities of how a change in one area impacts on the rest of Wales with regard to how we deal with the business rates issue. That applies to local retention in particular; there will be issues with regard to the impact on the rest of Wales, and these are matters that have been raised with me.

Ddwyrain Abertawe am ei gyfraniad. Yn ei ychydig bwyntiau diwethaf, dangosodd yr anhawster o ddelio â holl fater ardrethi busnes. Mae gan yr Aelod ddealltwriaeth ardderchog, gyda'i gefndir mewn llywodraeth leol, o realiti sut mae newid mewn un ardal yn effeithio ar weddill Cymru o ran sut yr ydym yn delio â'r mater ardrethi busnes. Mae hynny'n berthnasol i gadw lleol yn benodol; bydd materion o ran yr effaith ar weddill Cymru, ac mae'r rhain yn faterion sydd wedi'u codi gyda mi.

There is concern about empty properties and how to deal with them. There are obviously issues with which the UK Government can help. However, as I indicated in my statement, if not, we will be looking at how we can deal with some of the empty property issues here. If we have to do so, Brian Morgan's group can carry on looking at those issues.

Mae pryder ynghylch eiddo gwag a sut i ddelio â nhw. Mae materion yn amlwg y gall Llywodraeth y DU helpu gyda nhw. Fodd bynnag, fel y nodais yn fy natganiad, os nad ydynt, byddwn yn edrych ar sut y gallwn ddelio â rhai o'r materion eiddo gwag yma. Os oes rhaid i ni wneud hynny, gall grŵp Brian Morgan barhau i edrych ar y materion hynny.

With regard to business improvement districts, it was envisaged that these would be for new people, because we have had a tremendous amount of interest, as a result of the Swansea district, in what we can do in those particular areas. With regard to rate relief, we are back to the usual issues. However, I assure the Member that all of these issues are still up for discussion if they have not been resolved in my statement, because I recognise that this is a very large and complex issue for us to deal with.

O ran ardaloedd gwella busnes, rhagwelwyd y byddai'r rhain ar gyfer pobl newydd, oherwydd ein bod wedi cael llawer iawn o ddiddordeb, o ganlyniad i ardal Abertawe, yn yr hyn y gallwn ei wneud yn yr ardaloedd penodol hynny. O ran rhyddhad ardrethi, rydym yn ôl at y materion arferol. Fodd bynnag, gallaf sicrhau'r Aelod bod yr holl faterion hyn yn dal i'w trafod os nad ydynt wedi cael eu datrys yn fy natganiad, oherwydd fy mod yn cydnabod bod hwn yn fater mawr a chymhleth iawn i ni ddelio ag o.

**Alun Ffred Jones:** Diolch am y datganiad. Yn fyr iawn, roeddwn yn rhannu ansicrwydd Nick Ramsay ynglŷn â datganoli ardrethi busnes. Nid yw'n eglur o'r datganiad a ydych o blaid hynny yn gyfan gwbl ai peidio, felly byddwn yn gofyn i chi eto: a fyddwch yn dadlau o blaid datganoli ardrethi busnes i Gymru a sut fyddwch yn gwneud hynny?

**Alun Ffred Jones:** Thank you for the statement. Briefly, I shared Nick Ramsay's uncertainty about the devolution of business rates. It is not clear from the statement whether you are entirely in favour of that or not, therefore I would ask you again: would you argue for the devolution of business rates to Wales and how would you go about that?

O ran yr argymhellion am y parthau menter, lle mae £20 miliwn yn mynd i fod ar gael i roi goddefiad ardrethi i fusnesau, sut fyddwch yn sicrhau na fydd yr ardaloedd hynny'n sugno busnesau i mewn o lefydd eraill yng Nghymru, sef yr hyn ddigwyddodd y tro diwethaf i hyn gael ei drio? A oes unrhyw anawsterau o ran pwerau ynglŷn â hyn? A fydd angen caniatâd o San Steffan, er enghraifft, ac a fydd unrhyw effaith ar y grant

With regard to recommendations on the enterprise zones, where £20 million will be available to give rate relief to businesses, how will you ensure that those zones will not draw in businesses from other parts of Wales, which is what happened the last time that this was tried? Are there any difficulties in terms of powers in this regard? Will we need permission from Westminster, for example, and will there be any effect on the block

bloc yn hynny o beth?

grant in that regard?

Mae'r cynllun a'r cyhoeddiadau ynglŷn â helpu cynlluniau ynni adnewyddadwy i'w croesawu'n fawr. Edrychaf ymlaen at ddarllen y manylion am y rheiny. Yn anffodus, ni fyddant yn cael llawer o effaith oni bai ein bod yn gwneud newidiadau i'r broses gynllunio i'w chael yn eglur a thryloyw, a hefyd yn gwneud gwelliannau sylweddol i'r rhwydwaith dosbarthu sy'n gallu delio gyda chynlluniau fel hyn mewn ardaloedd gwledig.

The scheme and the announcements regarding assisting renewable energy schemes are to be greatly welcomed. I look forward to reading the detail about those. Unfortunately, they will not have much effect unless we make changes to the planning process to make it clear and transparent, and also make substantial improvements to the distribution network that can deal with such schemes in rural areas.

Mae cyfeiriadau yn y datganiad at faes llafur y flwyddyn sydd i ddod.

There are references in the statement to the field of work for the year to come.

In your statement, you mention a level playing field between out-of-town and town-centre parking. However, the real issue is that Wales is the cheapest place in the UK in which to build and operate a supermarket. I do not know how we ended up here, with pressures on our in-town private businesses while the multinational chains have it easy on the periphery. Fundamentally, will you undertake a review of the revaluation process? There is mention of revaluation here, but will you review its process rather than its timing? How can it be right that potential profits can be part of the valuation of some sectors while there is no figure at all in the valuation for big companies and multinationals? That is simply unfair, especially for businesses in the tourism industry. However, I thank you for the statement. There are plenty of things to be commended in that statement.

Yn eich datganiad, rydych yn sôn am drin parcio y tu allan i'r dref yn yr un modd ag yng nghanol y dref. Fodd bynnag, y broblem go iawn yw mai Cymru yw'r lle rhataf yn y DU i adeiladu a gweithredu archfarchnad. Nid wyf yn gwybod sut y daethom i'r fan yma, gyda phwysau ar ein busnesau preifat yn y dref tra bod y cadwyni rhyngwladol yn ei chael yn hawdd ar y cyrion. Yn y bôn, a fyddwch chi'n cynnal adolygiad o'r broses ailbrisio? Mae sôn am ailbrisio yma, ond fyddwch chi'n adolygu ei broses yn hytrach na'i amseru? Sut y gall fod yn iawn y gall elw posibl fod yn rhan o brisiad rhai sectorau tra nad oes unrhyw ffigur o gwbl yn y prisiad ar gyfer cwmnïau mawr a chwmnïau rhyngwladol? Mae hynny'n gwbl annheg, yn enwedig ar gyfer busnesau yn y diwydiant twristiaeth. Fodd bynnag, diolch ichi am y datganiad. Mae digon o bethau i'w canmol yn y datganiad hwnnw.

**Edwina Hart:** Thank you for your contribution, Alun Ffred Jones. I very much welcome your welcome with regard to renewable energy schemes. You alluded to some of the planning processes, and my colleague, the Minister responsible, is sitting in the Chamber at this time. He and I have had several discussions on that particular issue, and he has been particularly supportive of the innovation of the renewable energy scheme that we are introducing under business rates. The point about supermarkets was well made. We understand and we have been discussing that issue, because it is clear that there are concerns about the impact certain things have on town centres in

**Edwina Hart:** Diolch i chi am eich cyfraniad, Alun Ffred Jones. Rwy'n croesawu eich croeso mewn perthynas â chynlluniau ynni adnewyddadwy. Cyfeiriasoch at rai o'r prosesau cynllunio, ac mae fy nghydweithiwr, y Gweinidog sy'n gyfrifol, yn eistedd yn y Siambr ar hyn o bryd. Mae ef a minnau wedi cael nifer o drafodaethau am y mater penodol hwnnw, ac mae wedi bod yn arbennig o gefnogol i arloesedd y cynllun ynni adnewyddadwy yr ydym yn ei gyflwyno o dan ardrethi busnes. Mae'r pwynt am archfarchnadoedd wedi ei wneud yn dda. Rydym yn deall ac rydym wedi bod yn trafod y mater hwnnw, oherwydd mae'n amlwg bod pryderon am yr

particular. I think that there is consensus across the Chamber on the importance of maintaining our town centres. Even if they are not necessarily full of shops, it is important that they are a hub for people to go into and to be able to do some of their business in.

effaith y mae rhai pethau yn ei chael ar ganol trefi yn arbennig. Credaf fod consensws ar draws y Siambr ar bwysigrwydd cynnal canol ein trefi. Hyd yn oed os nad ydynt o anghenraid yn llawn o siopau, mae'n bwysig eu bod yn ganolbwynt i bobl fynd i mewn iddynt ac i fod yn gallu gwneud rhywfaint o'u busnes yno.

In terms of enterprise zones, it will be a targeted scheme, ensuring the best use of resources. The scheme will be focused on SMEs, which I think is good, and will target those businesses that are starting up, which is also important, or which are increasing the number of their personnel. So, we are going to target in that regard, and it is entirely within our ability and powers to do so.

O ran ardaloedd menter, bydd yn gynllun sydd wedi'i dargedu, gan sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau. Bydd y cynllun yn canolbwyntio ar fusnesau bach a chanolig, sydd yn dda yn fy marn i, a bydd yn targedu'r busnesau hynny sy'n dechrau, sydd hefyd yn bwysig, neu sy'n cynyddu nifer eu staff. Felly, rydym yn mynd i dargedu yn hynny o beth, ac mae'n gyfan gwbl o fewn ein gallu a'n pwerau i wneud hynny.

In terms of the revaluation process, I have indicated that I will look in detail at the UK Government's decision last week. I hear what you are telling me about how the scheme currently works, and I am more than happy for Professor Morgan to pick up on those points, because I think that somewhere along line we will have another report from Professor Morgan on which I can then report to Plenary.

O ran y broses ailbrisio, rwyf wedi nodi y byddaf yn edrych yn fanwl ar benderfyniad Llywodraeth y DU yr wythnos diwethaf. Clywaf yr hyn yr ydych yn ei ddweud wrthyf am sut mae'r cynllun ar hyn o bryd yn gweithio, ac rwyf yn fwy na pharod i'r Athro Morgan i ystyried y pwyntiau hynny, oherwydd credaf yn rhywle ar hyd y ffordd y bydd gennym adroddiad arall gan yr Athro Morgan y gallaf wedyn adrodd arno i'r Cyfarfod Llawn.

In terms of the devolution of business rates, I am very content with the proposition contained in Professor Morgan's report. I am simply outlining the way that that needs to be taken forward. We will be leaving it, as a Government, to the Silk commission proposals.

O ran datganoli ardrethi busnes, rwyf yn fodlon ar y cynnig a gynhwysir yn adroddiad yr Athro Morgan. Rwyf yn amlinellu'r ffordd y mae angen i ni fynd ymlaen â hynny. Byddwn yn ei adael, fel Llywodraeth, i gynigion comisiwn Silk.

**Julie Morgan:** I welcome what the Minister has told us today. I particularly welcome further consultation with the charity-shop sector, bringing in the credit unions and social enterprises, but will she ensure that the working group that looks at the issues related to charity shops takes into account the good causes they support, often on behalf of the statutory sector, and the fact that they provide a place in which to recycle clothes and goods and provide a cheap sales outlet for the public? Could she ensure that there is someone who can work on these issues to ensure that the wider good that is done by the charity sector is taken into account?

**Julie Morgan:** Croesawaf yr hyn y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud wrthym heddiw. Croesawaf yn arbennig ymgynghori pellach gyda'r sector siopau elusen, gan gynnwys undebau credyd a mentrau cymdeithasol, ond a fydd hi'n sicrhau bod y gweithgor sy'n edrych ar y materion sy'n ymwneud â siopau elusennol yn ystyried yr achosion da y maent yn eu cefnogi, yn aml ar ran y sector statudol, a'r ffaith eu bod yn darparu lle i ailgylchu dillad a nwyddau ac yn darparu man gwerthu rhad ar gyfer y cyhoedd? A allai hi sicrhau bod yna rywun sy'n gallu gweithio ar y materion hyn i sicrhau bod y lles ehangach sy'n cael ei wneud gan y sector elusennol yn

cael ei ystyried?

**Edwina Hart:** I do not think that anyone disputes the wider good that is done by the charity sector, but we also have to recognise that there have been concerns expressed to us about how small retailers regard the fact that they are in a high street surrounded by charity shops. They have to pay full business rates, and charity shops do not. When you look at some of the charity shops, the point has been made to me that they look really good and like any other retail outlet. It is not that there is anything wrong with that, but, as it has been drawn to our attention, we have to discuss it.

**Edwina Hart:** Nid wyf yn meddwl bod neb yn amau'r lles ehangach sy'n cael ei wneud gan y sector elusennol, ond rhaid i ni hefyd gydnabod bod pryderon wedi'u mynegi i ni ynghylch sut y mae manwerthwyr bach yn ystyried y ffaith eu bod mewn stryd fawr wedi'i hamgylchynu gan siopau elusen. Rhaid iddynt dalu ardrethi busnes llawn, ac nid yw siopau elusen yn gwneud hynny. Pan fyddwch yn edrych ar rai o'r siopau elusen, tynnwyd fy sylw at y ffaith eu bod yn edrych yn dda iawn ac yn debyg i unrhyw fusnes adwerthu arall. Nid bod dim o'i le ar hynny, ond, gan fod ein sylw wedi cael ei dynnu ato, mae'n rhaid i ni ei drafod.

In terms of charity shops, the point has been made to me that, when you have very localised charities that are raising money, say, for a local hospice, and they have a handful of shops, those are perhaps different from some of the very big charities that operate across the country. We will make sure that we get a good group in to talk to the members of the group that are taking this forward. We will make it a very transparent process, and I will bring the report that comes from Professor Morgan here, for discussion in a statement, if that would be helpful, before I make any further decisions or recommendations on this matter.

O ran siopau elusen, tynnwyd fy sylw at y ffaith pan fydd gennych elusennau lleol iawn sy'n codi arian, dyweder, ar gyfer hosbis leol, ac mae ganddynt lond llaw o siopau, mae'r rheini o bosibl yn wahanol i rai o'r elusennau mawr iawn sy'n gweithredu ar draws y wlad. Byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn cael grŵp da i mewn i siarad ag aelodau'r grŵp sy'n gweithredu hyn. Byddwn yn ei gwneud yn broses dryloyw iawn, a byddaf yn dod â'r adroddiad a ddaw gan yr Athro Morgan yma, ar gyfer trafodaeth mewn datganiad, pe bai hynny o gymorth, cyn i mi wneud unrhyw benderfyniadau neu argymhellion pellach ar y mater hwn.

**Eluned Parrott:** I, too, would like to thank the Minister for the statement today and for publishing the responses to the headline recommendations. I am very glad that you feel positively disposed towards this very helpful report. I am also grateful for your expressed intention to approach this policy area in a collaborative spirit.

**Eluned Parrott:** Hoffwn innau, hefyd, ddiolch i'r Gweinidog am y datganiad heddiw ac am gyhoeddi'r ymatebion i'r prif argymhellion. Rwyf yn falch eich bod yn teimlo yn gadarnhaol tuag at yr adroddiad defnyddiol iawn hwn. Rwyf hefyd yn ddiolchgar am y bwriad a fynegwyd gennych i drin y maes polisi hwn mewn ysbryd cydweithredol.

I very much welcome the seedcorn funding for business improvement districts announced today. I think that that was an issue that was raised in the Enterprise and Business Committee's report into town-centre regeneration last year. I think that it will be a helpful opportunity in many cases. I am also glad to see that there will be rate relief in enterprise zones, although I would welcome more detail on how the targeting criteria will be developed. For example, how will you

Rwy'n croesawu'n fawr y cyllid sbarduno ar gyfer gwella ardaloedd busnes, a gyhoeddwyd heddiw. Rwy'n meddwl bod hwn yn fater a godwyd yn adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes i adfywio canol trefi y llynedd. Credaf y bydd yn gyfle defnyddiol mewn llawer achos. Rwyf hefyd yn falch o weld y bydd rhyddhad ardrethi mewn ardaloedd menter, er y byddwn yn croesawu mwy o fanylion ar sut y bydd y meini prawf targedu yn cael eu datblygu. Er

assess a company's potential for growth other than just its expressed intention and wish to grow?

enghraifft, sut fyddwch chi'n asesu potensial cwmni ar gyfer twf ar wahân i fwriad penodol ganddo a dymuniad i dyfu?

I also welcome your commitment to improve access to information on business rates through the Welsh Government's website. I get quite a lot of case work about support with business rates, and I would be keen to hear whether there are other ways in which you will be promoting existing hardship schemes and assistance programmes that are within your power.

Rwyf hefyd yn croesawu eich ymrwymiad i wella mynediad at wybodaeth am ardrethi busnes drwy wefan Llywodraeth Cymru. Rwy'n cael cryn dipyn o waith achos ynghylch cymorth gydag ardrethi busnes, a byddwn yn awyddus i glywed a oes ffyrdd eraill y byddwch yn hyrwyddo cynlluniau caledi a rhaglenni cymorth presennol sydd o fewn eich pŵer.

Nick Ramsay has already mentioned the local retention of rates and tax increment financing, and I, too, would like to emphasise the importance of these as an opportunity. I note the great complexity of the situation, as raised by Mike Hedges a little earlier, but that does not mean that it is an opportunity that we should not pursue fully.

Mae Nick Ramsay eisoes wedi sôn am gadw ardrethi'n lleol ac ariannu cynyddiad treth, a hoffwn innau, hefyd, bwysleisio pwysigrwydd y rhain fel cyfle. Nodaf gymhlethdod mawr y sefyllfa, a godwyd gan Mike Hedges ychydig yn gynharach, ond nid yw hynny'n golygu nad yw'n gyfle na ddylem ei ddilyn yn llawn.

With regard to some specific issues on the responses document, you tie together recommendations 4, 5, 6 and 7 under the heading 'empty property rates', but recommendation 7 was more to do with the problem that arises when a business improves its existing premises and then is hit with huge rate increases. We saw cases of rate increases of some 200% when we visited Narberth as a committee last year. Therefore, I also ask you to comment on that as a separate issue.

O ran rhai materion penodol ar y ddogfen ymatebion, rydych chi'n clymu ynghyd argymhellion 4, 5, 6 a 7 o dan y pennawd 'ardrethi eiddo gwag', ond roedd argymhelliad 7 yn fwy i'w wneud â'r broblem sy'n codi pan fydd busnes yn gwella ei safle presennol ac yna'n cael ei daro gyda chynnydd anferth yn eu hardrethi. Gwelsom achosion o gynnydd ardreth o ryw 200% pan ymwelon ni ag Arberth fel pwyllgor y llynedd. Felly, rwyf hefyd yn gofyn i chi roi sylwadau ar hynny fel mater ar wahân.

You also mentioned a response from the construction sector panel in both your statement and your responses document. Given the weight that you have given to that, perhaps you would be prepared to share it with Members.

Soniasoch hefyd am ymateb gan banel y sector adeiladu yn eich datganiad a'ch dogfen ymateb. O ystyried y pwysau yr ydych wedi ei roi i hynny, efallai y byddech yn barod i'w rhannu gyda'r Aelodau.

I note that, as Nick Ramsay has already mentioned, you say in your statement that business rates are not a panacea, but it is the No.1 issue that small businesses raise, certainly when I meet them. I think they would be a little disappointed that it has taken so long to produce this response today and that so many of the actions outlined in it are still for the future. I recognise that many of these issues are tied to responses from Westminster and from the Silk commission, but I would welcome more clarity on what it

Rwyf yn sylwi, fel y mae Nick Ramsay wedi'i grybwyll eisoes, eich bod yn dweud yn eich datganiad nad yw ardrethi busnes yn ateb i bob problem, ond dyma'r prif fater y mae busnesau bach yn ei godi, yn sicr pan fyddaf yn cwrdd â nhw. Rwy'n credu y byddent braidd yn siomedig ei fod wedi cymryd cyhyd i gynhyrchu'r ymateb hwn heddiw a bod cynifer o'r camau gweithredu a amlinellir ynddo yn dal i fod ar gyfer y dyfodol. Rwy'n cydnabod bod llawer o'r materion hyn yn cael eu clymu i ymatebion

is that the Welsh Government is asking for from both of those places.

gan San Steffan a chan gomisiwn Silk, ond byddwn yn croesawu mwy o eglurder o ran beth y mae Llywodraeth Cymru yn gofyn amdano gan y ddau le hynny.

**Edwina Hart:** Thank you very much for your contribution and for a number of the points that you have made. I will certainly take another look at recommendation 7 in light of your comments about how those recommendations have been tied together. It is certainly not my intention to obfuscate on these matters; it is just a way of trying to take these matters forward in a logical manner with the Silk commission and things on which I have to write to the UK Government. Therefore, I would be delighted to pick up all of those points in a further statement. Whether I will be able to report to the Chamber before Christmas depends on when Brian Morgan will be able to complete his report on charities, but I hope that he will be able to do so quite quickly.

**Edwina Hart:** Diolch yn fawr iawn am eich cyfraniad ac am nifer o'r pwyntiau yr ydych wedi'u gwneud. Byddaf yn sicr yn cymryd golwg arall ar argymhelliad 7 yng ngoleuni eich sylwadau ynghylch sut y mae'r argymhellion wedi cael eu clymu ynghyd. Yn sicr, nid yw'n fwriad gennyf i ddrysu'r materion hyn; dim ond ffordd o geisio datblygu'r materion hyn ydyw mewn ffordd resymegol gyda chomisiwn Silk a phethau y mae'n rhaid i mi eu hysgrifennu at Lywodraeth y DU. Felly, byddwn yn falch iawn i godi pob un o'r pwyntiau hynny mewn datganiad pellach. Mae p'un a fyddaf yn gallu adrodd yn ôl i'r Siambr cyn y Nadolig yn dibynnu ar pryd y bydd Brian Morgan yn gallu cwblhau ei adroddiad ar elusennau, ond gobeithiaf y bydd yn gallu gwneud hynny yn eithaf cyflym.

We are often accused in Government of not giving sufficient weight to the views of committees, but I think that we have done so in terms of the seedcorn funding that we have given for business improvement districts. Both the Minister next to me and I feel very strongly that they are an exceptionally useful vehicle for dealing with the regeneration of towns, because it is a bottom-up approach and is about people joining together. The fact is that we are not implementing it—they want to do it, which is very important.

Rydym yn cael ein cyhuddo yn aml yn y Llywodraeth o beidio â rhoi digon o bwys ar farn y pwyllgorau, ond rwy'n meddwl ein bod wedi gwneud hynny o ran y cyllid sbarduno yr ydym wedi ei roi ar gyfer ardaloedd gwella busnes. Mae'r Gweinidog nesaf ataf a finnau'n teimlo'n gryf eu bod yn gyfrwng eithriadol o ddefnyddiol ar gyfer ymdrin ag adfywio trefi, oherwydd ei fod yn ddull o'r gwaelod i fyny ac yn ymwneud ag ymuno pobl â'i gilydd. Y ffaith yw nad ydym yn ei weithredu—maen nhw'n dymuno ei wneud, sy'n bwysig iawn.

With regard to the enterprise zones, I will certainly share with Members the detail of all of the schemes that I have announced today. I will do that as early as possible and ask you for any comments that you think might be helpful before I publish them fully for business and they go live. There might be a small window of opportunity to enable me to do that, and I am more than happy to share that information.

O ran yr ardaloedd menter, byddaf yn sicr yn rhannu manylion yr holl gynlluniau yr wyf wedi'u cyhoeddi heddiw gyda'r Aelodau. Byddaf yn gwneud hynny cyn gynted ag y bo modd ac yn gofyn i chi am unrhyw sylwadau yr ydych yn meddwl y gallai fod yn ddefnyddiol cyn i mi eu cyhoeddi yn llawn ar gyfer busnes ac maent yn mynd yn fyw. Efallai y bydd cyfle bach i fy ngalluogi i wneud hynny, ac rwy'n fwy na pharod i rannu'r wybodaeth honno.

You are quite right to ask, when there are queries, what the websites are like. We certainly have to do some improvements to the Welsh Government website, but, as I

Rydych yn berffaith iawn i ofyn, pan fo ymholiadau, sut beth yw'r gwefannau. Yn sicr, rhaid i ni wneud rhai gwelliannau i wefan Llywodraeth Cymru, ond, fel y nodais

indicated previously, we will also have to do some work with the WLGA on how it deals with these issues on a practical level in local authorities, what is on its website, and also with regard to the importance of having the right person to speak to within the organisation who understands business rates. There is nothing worse than being pushed from pillar to post in terms of your understanding as a business. However, you are absolutely right about some of the other points, such as incremental retention. We will return to those, and I will be more than happy to provide updates in any way that I can to keep the broad consensus that we have on business rates in the Chamber.

o’r blaen, bydd yn rhaid i ni wneud rhywfaint o waith hefyd gyda CLlLC ar sut y mae’n delio â’r materion hyn ar lefel ymarferol mewn awdurdodau lleol, yr hyn sydd ar ei gwefan, a hefyd o ran y pwysigrwydd o gael y person iawn i siarad ag ef o fewn y sefydliad sy’n deall ardrethi busnes. Nid oes dim yn waeth na chael eich gwthio o bared i bost o ran eich dealltwriaeth fel busnes. Fodd bynnag, rydych yn llygad eich lle ynglŷn â rhai o’r pwyntiau eraill, megis cadw cynyddraddol. Byddwn yn dychwelyd at rheini, a byddaf yn fwy na pharod i ddarparu’r wybodaeth ddiweddaraf mewn unrhyw ffordd y gallaf i gadw’r consensws eang sydd gennym ar ardrethi busnes yn y Siambr.

**Antoinette Sandbach:** In the spirit of that broad consensus, Minister, I would like to highlight to you that rural communities are particularly dependent on their high streets. I am sure that you are aware of many market towns not only in north Wales but across the whole of Wales. Your response does not specifically mention rural communities; there were recommendations and, in particular, Professor Morgan referred to the value of targeted support for business rate relief in rural communities. So, will you commit to looking at that and will you also consider splitting the multiplier between larger and smaller businesses in terms of distinguishing those who are more able to pay, as it were?

**Antoinette Sandbach:** Yn ysbryd y consensws eang hwnnw, Weinidog, hoffwn bwysleisio i chi fod cymunedau gwledig yn arbennig o ddibynnol ar eu stryd fawr. Rwyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol o drefi marchnad lawer, nid yn unig yng ngogledd Cymru ond ar draws Cymru gyfan. Nid yw eich ymateb yn sôn yn benodol am gymunedau gwledig; roedd argymhellion ac, yn benodol, cyfeiriodd yr Athro Morgan at werth cymorth wedi’i dargedu ar gyfer rhyddhad ardrethi busnes mewn cymunedau gwledig. Felly, a wnewch chi ymrwymo i edrych ar hynny a byddwch hefyd yn ystyried rhannu’r lluosydd rhwng busnesau mwy o faint ac yn llai o ran gwahaniaethu’r rhai sy’n fwy abl i dalu, fel petai?

**Edwina Hart:** I am certainly more than happy to take on board the Member’s comments about doing further work. I am particularly aware that high streets are very important to rural communities. I was very pleased to pick up the points of Kirsty Williams, I think, on the local growth zone issues that emerged from Powys. I am currently giving them consideration in the broadest sense of the word, looking at my business rates report and other initiatives in Wales, on which I will be reporting to the Assembly. Hopefully, that will give an illustration of what we might do elsewhere within rural Wales. However, I would certainly be pleased to pick up the points that you have raised with me for further discussion with Professor Morgan.

**Edwina Hart:** Rwyf yn sicr yn fwy na pharod i dderbyn sylwadau’r Aelod ynghylch gwneud gwaith pellach. Rwy’n arbennig o ymwybodol bod y stryd fawr yn bwysig iawn i gymunedau gwledig. Roeddwn yn falch iawn i ystyried pwyntiau Kirsty Williams, rwy’n meddwl, ar y materion ardal twf lleol a ddaeth i’r amlwg o Bowys. Ar hyn o bryd rwy’n rhoi pob ystyriaeth iddynt yn ystyr ehangaf y gair, gan edrych ar fy adroddiad ardrethi busnes a mentrau eraill yng Nghymru, a byddaf yn adrodd arnynt i’r Cynulliad. Gobeithio y bydd hynny’n rhoi darlun o’r hyn y gallem ei wneud mewn mannau eraill yng nghefn gwlad Cymru. Fodd bynnag, byddwn yn sicr yn falch o ystyried y pwyntiau yr ydych wedi’u codi gyda mi ar gyfer trafodaeth bellach gyda’r Athro Morgan.

4.00 p.m.

**Mick Antoniw:** First, I thank Professor Morgan and his team for the considerable efforts that they made, particularly in coming to my constituency of Pontypridd to meet with businesses. I think that the response from businesses has shown that they regard Government as listening carefully on something that is important to them.

**Mick Antoniw:** Yn gyntaf, diolch i'r Athro Morgan a'i dîm am yr ymdrechion sylweddol a wnaethant, yn enwedig dod i fy etholaeth sef Pontypridd i gyfarfod â busnesau. Credaf fod yr ymateb oddi wrth fusnesau wedi dangos eu bod yn ystyried bod y Llywodraeth yn gwrando'n ofalus ar unrhyw beth sy'n bwysig iddyn nhw.

You have covered most of my points. Just one area to expand upon a little, perhaps, is the imbalance between out-of-town developments and town centres, particularly the big retail parks. There are two aspects to this, the first being the difference between them in rateable charges, compared with turnover. The second aspect, which is the big issue and is commented on in the report, is the differential that is created by the capacity of the big retail parks to offer free parking, as opposed to town centres where there are often contractual arrangements already in place for paid parking, often with private developers. I wonder whether that is a matter that will be given some serious consideration.

Rydych wedi cynnwys y rhan fwyaf o'r pwyntiau sydd gennyf. Un maes i ymhelaethu arno ychydig, efallai, yw'r anghydbwysedd rhwng datblygiadau y tu allan i drefi a chanol trefi, yn enwedig y parciau manwerthu mawr. Mae dwy agwedd ar hyn, y gyntaf yw'r gwahaniaeth rhyngddynt mewn taliadau ardrethol, o'u cymharu â throsiant. Yr ail agwedd, sef y broblem fawr y ceir sylwadau arni yn yr adroddiad, yw'r gwahaniaeth sy'n cael ei greu gan allu'r parciau manwerthu mawr i gynnig parcio am ddim, yn hytrach na chanol trefi lle mae trefniadau cytundebol yn aml ar waith eisoes ar gyfer talu am barcio, yn aml gyda datblygwyr preifat. Tybed a yw hynny'n fater fydd yn cael rhywfaint o ystyriaeth ddifrifol.

**Edwina Hart:** I thank the Member for Pontypridd for his comments on this. They are matters that will be given serious consideration, and I have already raised them with my colleague who has responsibility for planning. These are among the key issues that are raised with me when I am out and about, given the perceived unfairness—and perhaps the reality of the unfairness.

**Edwina Hart:** Diolch i'r Aelod dros Bontypridd am ei sylwadau ar hyn. Maent yn faterion a fydd yn cael ystyriaeth ddifrifol, ac rwyf eisoes wedi'i godi gyda fy nghydweithiwr sydd â chyfrifoldeb am gynllunio. Mae'r rhain ymhlith y materion allweddol a godir gyda mi pan fyddaf yn mynd o gwmpas, o ystyried yr annhegwch canfyddedig—ac efallai realiti annhegwch.

**Russell George:** Sorry if I have missed your answer on this, Minister, but I was not clear on how Powys local growth zones fit into your proposals today. Could you just clarify that, please?

**Russell George:** Mae'n ddrwg gennyf os wyf wedi colli eich ateb ar hyn, Weinidog, ond nid wyf yn glir ynghylch sut y mae ardaloedd twf lleol Powys yn cyd-fynd â'ch cynigion chi heddiw. Allech chi egluro hynny, os gwelwch yn dda?

**Edwina Hart:** I was giving an illustration of the Powys local growth zones in the discussion about how you revitalise such communities within rural areas. Following on from Antoinette Sandbach's contribution, I indicated that I had looked at Powys local growth zones and at what I am doing in that respect. Some of the issues that have been

**Edwina Hart:** Roeddwn yn rhoi enghraifft o ardaloedd twf lleol Powys yn y drafodaeth am sut yr ydych yn adfywio cymunedau o'r fath o fewn ardaloedd gwledig. Yn dilyn ymlaen o gyfraniad Antoinette Sandbach, nodais fy mod wedi edrych ar ardaloedd twf lleol Powys ac ar yr hyn yr wyf yn ei wneud o ran hynny. Bydd rhai o'r materion a

raised in the business rates report, on help and wider issues, will also help to formulate and develop that policy. It might also be useful in the discussion about how we can help small and medium-sized enterprises in those areas.

godwyd yn yr adroddiad ardrethi busnes, ar gymorth a materion ehangach, hefyd yn helpu i lunio a datblygu'r polisi hwnnw. Gallai hefyd fod yn ddefnyddiol yn y drafodaeth am sut y gallwn helpu busnesau bach a chanolig eu maint yn yr ardaloedd hynny.

*Daeth y Dirprwy Lywydd Dros Dro (Rhodri Glyn Thomas) i'r Gadair am 4.02 p.m.*
*The Temporary Deputy Presiding Officer (Rhodri Glyn Thomas) took the Chair at 4.02 p.m.*

## Datganiad: Ad-drefnu Addysg Uwch
## Statement: Higher Education Reconfiguration

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** On 6 August, I announced the start of a statutory consultation on the dissolution of the University of Wales, Newport HE Corporation and Cardiff Metropolitan University HE Corporation. I allowed 16 weeks for responses, rather than the statutory 12 weeks, in recognition that we were beginning the process before the beginning of a new academic year. On 1 October, I wrote to all consultees, noting that the consultation would be paused until additional information had been made available, following a request from lawyers representing Cardiff Metropolitan University. I now wish to update Members on the next steps and to clarify any misconceptions about the consultation process, following a series of misleading statements made in media interviews.

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Ar 6 Awst, cyhoeddais ddechrau ymgynghoriad statudol ar ddiddymu Corfforaeth AU Prifysgol Cymru, Casnewydd a Chorfforaeth AU Prifysgol Fetropolitan Caerdydd. Penderfynais ganiatáu 16 wythnos ar gyfer ymatebion, yn hytrach na'r 12 wythnos statudol, i gydnabod ein bod yn dechrau'r broses cyn dechrau blwyddyn academaidd newydd. Ar 1 Hydref, ysgrifennais at yr holl ymgyngoreion, gan nodi y byddai saib yn yr ymgynghoriad nes bod gwybodaeth ychwanegol ar gael, yn dilyn cais gan gyfreithwyr sy'n cynrychioli Prifysgol Fetropolitan Caerdydd. Rwyf yn awr yn dymuno rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y camau nesaf ac egluro unrhyw gamddealltwriaeth ynglŷn â'r broses ymgynghori, yn dilyn cyfres o ddatganiadau camarweiniol a wnaed mewn cyfweliadau â'r cyfryngau.

We will provide to all consultees as soon as possible answers to questions, which Cardiff Metropolitan University's lawyers have requested. The information will be made available on the Welsh Government website. I have not yet made a decision on either of the two options on which the Government is consulting. I will not be doing so until after the consultation, when all responses, information and evidence that I receive have been given full consideration.

Byddwn yn darparu atebion i'r holl ymgynghoreion, cyn gynted ag y bo modd, i gwestiynau y mae cyfreithwyr Prifysgol Fetropolitan Caerdydd wedi gofyn amdanynt. Bydd y wybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Nid wyf wedi gwneud penderfyniad eto ar yr un o'r ddau opsiwn y mae'r Llywodraeth yn ymgynghori yn eu cylch. Ni fyddaf yn gwneud hynny tan ar ôl yr ymgynghoriad, pan fydd yr ymatebion, y wybodaeth a'r dystiolaeth a dderbyniaf i gyd wedi cael eu hystyried yn llawn.

In the meantime, I am disappointed that I have to correct a number of recent misleading statements made by representatives of Cardiff Metropolitan University. The chair of Cardiff Metropolitan University said that she had

Yn y cyfamser, rwyf yn siomedig bod rhaid i mi gywiro nifer o ddatganiadau camarweiniol diweddar a wnaed gan gynrychiolwyr Prifysgol Fetropolitan Caerdydd. Dywedodd cadeirydd Prifysgol Fetropolitan Caerdydd

only had the opportunity to meet me on one occasion. In fact, the most recent planned meeting, scheduled for 1 October, was cancelled on 21 September at the request of the university. The chair of Cardiff Metropolitan University also claimed that the director of skills, higher education and lifelong learning and Professor Sir Steve Smith had threatened Cardiff Metropolitan University that, if they did not merge by 2014, they would suffer 'a thousand cuts' from the funding body. I am afraid that that statement is quite untrue.

mai dim ond ar un achlysur y mae wedi cael cyfle i gwrdd â mi. Mewn gwirionedd, cafodd y cyfarfod mwyaf diweddar, a drefnwyd ar gyfer 1 Hydref, ei ganslo ar 21 Medi ar gais y brifysgol. Honnodd cadeirydd Prifysgol Fetropolitan Caerdydd hefyd fod y cyfarwyddwr sgiliau, addysg uwch a dysgu gydol oes a'r Athro Syr Steve Smith wedi bygwth Prifysgol Fetropolitan Caerdydd y byddent yn dioddef o 'mil o doriadau' gan y corff ariannu, os nad oeddent yn uno erbyn 2014. Rwyf yn ofni bod y datganiad hwnnw yn gwbl anghywir.

Professor Sir Steve Smith, current vice-chancellor of the University of Exeter and a previous chair of Universities UK has written to me to clarify the content of the meeting referred to by the chair of Cardiff Metropolitan University. I published Professor Smith's letter yesterday. In addition, Cardiff Metropolitan University claims to have supplied the Welsh Government with a business case of its own. The university has submitted a presentation setting out ideas for the future, but in no sense does that document represent a business case.

Mae'r Athro Syr Steve Smith, sef is-ganghellor Prifysgol Caerwysg ar hyn o bryd a chyn-gadeirydd Universities UK, wedi ysgrifennu ataf i egluro cynnwys y cyfarfod y cyfeirir ato gan gadeirydd Prifysgol Fetropolitan Caerdydd. Cyhoeddais lythyr yr Athro Smith ddoe. Yn ogystal, mae Prifysgol Fetropolitan Caerdydd yn honni ei bod wedi darparu ei achos busnes ei hun i Lywodraeth Cymru. Mae'r brifysgol wedi darparu cyflwyniad sy'n nodi syniadau ar gyfer y dyfodol, ond nid yw'r ddogfen hon yn achos busnes mewn unrhyw ystyr.

I have also heard reference to the Wales Audit Office and the Public Accounts Committee. For the benefit of Members who were not here during the third Assembly, I should like to remind the Chamber that the Wales Audit Office said in 2009 that previous discussions between the University of Glamorgan and UWIC

Rwyf hefyd wedi clywed cyfeirio at Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Er budd yr Aelodau nad oeddent yma yn ystod y trydydd Cynulliad, hoffwn atgoffa'r Siambr bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi dweud yn 2009 bod trafodaethau blaenorol rhwng Prifysgol Morgannwg ac UWIC wedi dod

'broke down in an atmosphere of some rancour'.

'i ben mewn awyrgylch o gryn ddrwgdeimlad'.

The Audit Committee, the predecessor of the current Public Accounts Committee, in reviewing the WAO report, said:

Dywedodd y Pwyllgor Archwilio, rhagflaenydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus presennol, wrth adolygu adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru:

'We were struck by the difficulty that the Assembly Government and HEFCW had in terms of bending institutions' minds to the Assembly Government's ways of thinking; we likened it to herding cats'.

'Fe'n trawyd gan yr anawsterau a gafodd Llywodraeth y Cynulliad a CCAUC o ran dylanwadu ar syniadau sefydliadau a dwyn perswâd arnynt i gytuno â safbwynt Llywodraeth y Cynulliad; roedd yn debyg i gorlannu cathod'.

There is form here. We cannot allow HE policy to be determined by the personal

Mae hanes yma. Ni allwn ganiatáu i bolisi AU gael ei benderfynu gan gystadleuaeth

rivalries and animosities of senior executives and governors.

bersonol a gelyniaeth rhwng uwch swyddogion a llywodraethwyr.

There has been a succession of reports over the last decade, culminating in the report by Professor Sir Steve Smith published in July this year, which point the way to merger to create a single post-1992 institution in south-east Wales. These reports form part of the evidence that has informed the development of the strategic outline case, which I published as part of the consultation, in line with the Treasury's five-case model for developing a business case.

Cafwyd cyfres o adroddiadau dros y degawd diwethaf, yn arwain at adroddiad yr Athro Syr Steve Smith a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf eleni, ac sy'n awgrymu mai'r ffordd ymlaen yw uno i greu un sefydliad ôl-1992 yn ne-ddwyrain Cymru. Mae'r adroddiadau hyn yn ffurfio rhan o'r dystiolaeth sydd wedi llywio datblygiad yr achos amlinellol strategol, a gyhoeddais fel rhan o'r ymgynghoriad, yn unol â model pum-achos y Trysorlys ar gyfer datblygu achos busnes.

Importantly, the strategic outline case draws on a body of evidence that has long been available publicly, as well as the discussions that I had between March and May this year with the chairs and vice-chancellors of Cardiff Metropolitan, Glamorgan and Newport, together with the principal and interim chair of the Royal Welsh College of Music and Drama, on the options for creating a single metropolitan university in south-east Wales. Importantly, discussions also took place with staff and student representatives, and not just with the senior management of those institutions.

Yn bwysig, mae'r achos amlinellol strategol yn defnyddio corff o dystiolaeth sydd wedi bod ar gael i'r cyhoedd ers cryn amser, yn ogystal â'r trafodaethau a gefais rhwng mis Mawrth a mis Mai eleni gyda chadeiryddion ac is-gangellorion Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Casnewydd, ynghyd â phennaeth a chadeirydd dros dro Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, ar yr opsiynau ar gyfer creu un brifysgol fetropolitan yn ne-ddwyrain Cymru. Yn bwysig, cynhaliwyd trafodaethau hefyd gyda chynrychiolwyr staff a myfyrwyr, ac nid yn unig gydag uwch reolwyr y sefydliadau hynny.

I have welcomed the discussions that the University of Wales, Newport and the University of Glamorgan have already begun, with a view to creating an institution with an enhanced applied research capacity, a focus on business engagement and employability, and improved access opportunities for local learners. I am conscious that these discussions between the University of Glamorgan and the University of Wales, Newport appear to be developing well.

Rwyf wedi croesawu'r trafodaethau y mae Prifysgol Cymru, Casnewydd a Phrifysgol Morgannwg eisoes wedi eu dechrau, gyda'r nod o greu sefydliad â gwell gallu ym maes ymchwil gymhwysol, pwyslais ar ymgysylltu â busnesau a chyflogadwyedd, a gwell cyfleoedd mynediad ar gyfer dysgwyr lleol. Rwyf yn ymwybodol bod y trafodaethau hyn rhwng Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd i'w gweld yn datblygu'n dda.

If, at the end of the present consultation, my decision is to proceed with option B, which is the merger of the University of Glamorgan and the University of Wales, Newport, it is almost inevitable that the sustainability of Cardiff Metropolitan University as part of a reconfigured HE sector in Wales would have to be reconsidered in the near future. I stress that I have taken no decisions at this stage.

Os mai fy mhenderfyniad, ar ddiwedd yr ymgynghoriad presennol, yw bwrw ymlaen ag opsiwn B, sef uno Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd, mae bron yn anochel y byddai'n rhaid, yn y dyfodol agos, ailystyried cynaliadwyedd Prifysgol Fetropolitan Caerdydd fel rhan o sector AU wedi'i ad-drefnu yng Nghymru. Pwysleisiaf nad wyf wedi gwneud unrhyw benderfyniadau ar hyn o bryd.

I continue to believe that HEFCW's recommendations for south-east Wales, leading to a single strong post-1992 university alongside a leading research-intensive institution, are the way forward.

Rwyf yn parhau i gredu bod argymhellion CCAUC ar gyfer de-ddwyrain Cymru, gan arwain at un brifysgol ôl-1992 gref ochr yn ochr â sefydliad blaenllaw sy'n canolbwyntio ar ymchwil, yn dangos y ffordd ymlaen.

**Angela Burns:** Minister, I read your statement with a great deal of interest and it has made me, personally, very sad. I think that it is terribly unbecoming of a Minister, and the fact that you, who are so deft at handling extremely difficult situations, have engaged in a public spat and used this place and this statement to publicly tell off officials from Cardiff Metropolitan for words they did say, but in meetings in which neither you nor I were present—or any other Assembly Member here, to my knowledge—is entirely inappropriate.

**Angela Burns:** Weinidog, darllenais eich datganiad â llawer iawn o ddiddordeb ac mae wedi fy ngwneud i, yn bersonol, yn drist iawn. Credaf nad yw'n gweddu o gwbl i Weinidog, ac mae'n gwbl amhriodol eich bod chi, sydd mor fedrus wrth drafod sefyllfaoedd eithriadol o anodd, wedi cymryd rhan mewn ffrae gyhoeddus ac wedi defnyddio'r lle hwn a'r datganiad hwn i ddweud y drefn wrth swyddogion o Brifysgol Fetropolitan Caerdydd yn gyhoeddus am eiriau a ddywedwyd ganddynt, ond mewn cyfarfodydd lle nad oeddech chi na minnau yn bresennol—nac unrhyw Aelod arall o'r Cynulliad yma, hyd y gwn i.

I do not really have much more to say because this is tit-for-tat, and I do not wish to get involved in it. I am well aware that Cardiff Metropolitan hold a very different view of the course of events. What has really ruined this awful situation is how the whole episode has been handled. You talk, Minister, of a business case or a succession of reports that have culminated in a report by Sir Steve Smith. We have debated those reports in the Chamber before, and they are not so very clear cut. Trust has been lost as a result of the HEFCW documentation in October of last year, in which there were e-mails from your department asking HEFCW to enhance and sex up its report.

Nid oes gennyf lawer mwy i'w ddweud gan mai talu'r pwyth yn ôl yw hyn, ac nid wyf yn dymuno bod yn rhan ohono. Rwyf yn llwyr ymwybodol bod barn Prifysgol Fetropolitan Caerdydd Metropolitan am yr hyn a ddigwyddodd yn wahanol iawn. Yr hyn sydd wedi difetha'r sefyllfa ofnadwy hon mewn gwirionedd yw'r modd yr ymdriniwyd â'r cyfan. Rydych yn siarad, Weinidog, am achos busnes neu gyfres o adroddiadau sydd wedi arwain at adroddiad gan Syr Steve Smith. Rydym wedi trafod yr adroddiadau hynny yn y Siambr o'r blaen, ac nid yw eu casgliadau mor gwbl eglur â hynny. Collwyd ymddiriedaeth o ganlyniad i ddogfennau CCAUC ym mis Hydref y llynedd a oedd yn cynnwys e-bost gan eich adran yn gofyn i CCAUC wella a gorliwio ei adroddiad.

Trust has been lost because of the revolving-doors policy of people and positions within the higher education sector in Wales. The way to earn that trust back would be to publish a clear business case, Minister, showing exactly how the dissolution of a prime university here in Wales will enhance the case for a three-university merger. You know very well that our position has always been to favour a programme of voluntary collaboration. We believe that education provision should be based on demand and academic excellence and that it should not necessarily be centralised, with the power

Collwyd ymddiriedaeth oherwydd y polisi o gael pobl yn newid rhwng swyddi lobïo a swyddi gwleidyddol o fewn y sector addysg uwch yng Nghymru. Y ffordd i adennill yr ymddiriedaeth honno fyddai cyhoeddi achos busnes clir, Weinidog, yn dangos yn union sut y bydd diddymu prifysgol bwysig yma yng Nghymru yn gwella'r achos dros uno tair prifysgol. Rydych yn gwybod yn iawn ein bod ni o'r cychwyn wedi ffafrio rhaglen o gydweithio gwirfoddol. Rydym yn credu y dylai darpariaeth addysg fod yn seiliedig ar alw a rhagoriaeth academaidd ac na ddylid o reidrwydd ei chanoli, gyda'r pŵer yn nwylo'r

wielded by Government itself. This whole situation is deeply regrettable. We need a business case that deals with what is going to happen to the staff, the buildings, all the courses, the debt in these organisations and the pensions of these various organisations. There are all these unanswered questions, and we need those answers and a very clear strategic direction set out for what will happen in south-east Wales. That would be a very good step forward.

Llywodraeth ei hun. Mae'r holl sefyllfa yn anffodus dros ben. Mae angen achos busnes arnom sy'n ymdrin â'r hyn sy'n mynd i ddigwydd i'r staff, yr adeiladau, y cyrsiau i gyd, y ddyled yn y sefydliadau hyn a phensiynau'r sefydliadau amrywiol. Ni chafwyd atebion i'r un o'r cwestiynau hyn, ac mae angen yr atebion hynny arnom yn ogystal â chyfeiriad strategol clir iawn ar gyfer yr hyn a fydd yn digwydd yn ne-ddwyrain Cymru. Byddai hynny'n gam da iawn ymlaen.

However, you are the Minister, and you should be well above the debate that has gone on in the newspapers recently, the comments by Sir Steve Smith, the letters, the involvement of the Wales Audit Office and anything that the governors and the staff of UWIC have said. All the people involved there are big enough to fight their own battles. You are supposed to be and must be totally impartial in this. You keep saying—and you have said several times in this statement—that you have yet to make up your mind. Engaging in this sort of statement absolutely does not help the situation with regard to transparency and trust.

Fodd bynnag, chi yw'r Gweinidog, a dylech fod uwchlaw'r ddadl sydd wedi bod yn y papurau newydd yn ddiweddar, y sylwadau gan Syr Steve Smith, y llythyrau, cyfranogiad Swyddfa Archwilio Cymru ac unrhyw beth y mae llywodraethwyr a staff UWIC wedi ei ddweud. Mae'r holl bobl hynny yn ddigon mawr i ymladd eu brwydrau eu hunain. Rydych chi i fod, a rhaid ichi fod, yn hollol ddiduedd yn hyn oll. Rydych yn dweud dro ar ôl tro—ac rydych wedi dweud sawl gwaith yn y datganiad hwn—nad ydych wedi penderfynu eto. Nid yw'r math hwn o ddatganiad yn helpu'r sefyllfa mewn unrhyw ffordd, o ran tryloywder ac ymddiriedaeth.

**Leighton Andrews:** I am afraid that I thought that that contribution by the opposition spokesperson was ridiculous. Yesterday, I published the letter to me from Professor Sir Steve Smith, commenting on the meeting that he had had with Cardiff Metropolitan University. He is a distinguished figure in higher education and it is not acceptable that either he or the director of my department responsible for higher education policy should be traduced on the BBC in the way they were by representatives of Cardiff Metropolitan University. I want to repeat the sentence from Professor Sir Steve Smith's letter to me:

**Leighton Andrews:** Rwyf yn ofni bod y cyfraniad hwnnw gan lefarydd yr wrthblaid, yn fy marn i, yn chwerthinllyd. Ddoe, cyhoeddais y llythyr a dderbyniais gan yr Athro Syr Steve Smith, a oedd yn rhoi ei sylwadau ar y cyfarfod a gafodd gyda Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd. Mae'n ffigwr nodedig ym myd addysg uwch ac nid yw'n dderbyniol iddo ef nac i gyfarwyddwr fy adran sy'n gyfrifol am bolisi addysg uwch gael ei bardduo ar y BBC yn y ffordd a gawsant gan gynrychiolwyr Prifysgol Fetropolitan Caerdydd. Rwyf am ailadrodd y frawddeg yn llythyr yr Athro Syr Steve Smith llythyr ataf:

'I am afraid that the Chair's comments are simply wrong.'

Rwy'n ofni bod sylwadau'r Cadeirydd yn syml, yn anghywir.

I make no apology for standing up for people who have given good independent advice to this Government or for standing up for my officials. In response to the issues that the Member raised, I have to say to her that we are following the Treasury five-case model

Nid wyf yn ymddiheuro am sefyll o blaid pobl sydd wedi rhoi cyngor annibynnol da i'r Llywodraeth hon nac am sefyll o blaid fy swyddogion. Mewn ymateb i'r materion a godwyd gan yr Aelod, mae'n rhaid i mi ddweud wrthi ein bod yn dilyn model pum

for developing a business case. We have published a strategic outline case, which explains the arguments for the merged institution. The approach that we are taking is entirely appropriate. I wish to say to her that I am very pleased to say that we have recently seen a merger concluded in the south-west of Wales without campus closures and without compulsory redundancies. That demonstrates the capability in Wales to move forward on this agenda—and the agenda, of course, is not my agenda. It is one that goes back to the earliest days of the Assembly, to the days before I even entered the Assembly, when reports of Assembly committees called for the further consolidation and reconfiguration of the higher education sector.

achos y Trysorlys ar gyfer datblygu achos busnes. Rydym wedi cyhoeddi achos amlinellol strategol, sy'n esbonio'r dadleuon o blaid y sefydliad unedig. Mae'r dull gwaith yr ydym yn ei ddilyn yn gwbl briodol. Hoffwn ddweud wrthi fy mod yn falch iawn o ddweud ein bod wedi gweld proses uno'n cael ei chwblhau'n ddiweddar yn ne-orllewin Cymru heb gau campws a heb ddiswyddiadau gorfodol. Mae hynny'n dangos y gallu yng Nghymru i symud ymlaen ar yr agenda hon—ac nid fy agenda i mohoni, wrth gwrs. Mae'n un sy'n mynd yn ôl i ddyddiau cynharaf y Cynulliad, i'r dyddiau cyn i mi hyd yn oed ymuno â'r Cynulliad, pan gafwyd adroddiadau gan bwyllgorau'r Cynulliad yn galw am gyfuno ac ad-drefnu pellach yn y sector addysg uwch.

The One Wales Government agreed as a Cabinet to a statement in support of HEFCW's higher education strategy, which said that no university in Wales should be below the median for higher education institutions in the UK by 2013. That was a very important statement. It was a manifesto commitment of the incoming Government that we wanted to see the higher education sector in Wales based on a smaller number of stronger universities. We are implementing the manifesto on which we were elected, and we have made it clear that we will follow the appropriate consultative mechanisms and develop the business case in the appropriate way.

Cytunodd Llywodraeth Cymru'n Un, fel Cabinet, i ddatganiad yn cefnogi strategaeth addysg uwch CCAUC, a oedd yn dweud na ddylai unrhyw brifysgol yng Nghymru fod yn is na'r canolrif ar gyfer sefydliadau addysg uwch yn y DU erbyn 2013. Roedd hwnnw'n ddatganiad pwysig iawn. Roedd yn ymrwymiad ym maniffesto'r Llywodraeth newydd ein bod am weld y sector addysg uwch yng Nghymru yn cael ei seilio ar nifer llai o brifysgolion cryfach. Rydym yn gweithredu'r maniffesto y cawsom ein hethol ar ei sail, ac rydym wedi nodi'n glir y byddwn yn dilyn y mecanweithiau ymgynghori priodol a datblygu achos busnes yn y ffordd briodol.

4.15 p.m.

**David Rees:** Thank you for your statement, Minister. It is important that we get clarity on some of the points that were raised in public around this issue. You have correctly stated in your statement that there have been several reports over recent years—in response to independent inquiries or reviews in 2002, 2005 and 2011—that have outlined the need for a single post-1992 institution in south-east Wales, to avoid a spiral of decline in that sector. Professor Steve Smith concludes in his report to the Welsh Government that the spiral would become a reality unless that single university is created in south-east Wales.

**David Rees:** Diolch i chi am eich datganiad, Weinidog. Mae'n bwysig ein bod yn cael eglurder ynglŷn â rhai o'r pwyntiau a godwyd yn gyhoeddus ynghylch y mater hwn. Rydych wedi datgan yn gywir yn eich datganiad y cafwyd nifer o adroddiadau dros y blynyddoedd diwethaf—mewn ymateb i adolygiadau neu ymchwiliadau annibynnol yn 2002, 2005 a 2011—sydd wedi amlinellu'r angen am un sefydliad ôl-1992 yn ne-ddwyrain Cymru, er mwyn osgoi dirywiad graddol yn y sector hwnnw. Daw'r Athro Steve Smith i'r casgliad yn ei adroddiad i Lywodraeth Cymru y byddai'r dirywiad yn dod yn realiti oni bai bod un brifysgol yn cael ei chreu yn ne-ddwyrain Cymru.

In south-west Wales, we have seen the successful merger of my previous institution, Swansea Metropolitan University, and the University of Wales Trinity Saint David. There was a focus, at the time, on the mission statements of those two institutions. Can you confirm that the three institutions that we are talking about—they are all post-1992 institutions, so I would assume they would have had the same mission statements—will have similar mission statements, so that any collaboration or merger would ensure that those mission statements are not diluted in any way? We also questioned the concept of creeping marginalisation, which, for those who are not aware, is a possible closure of programmes that have become least cost-effective in the view of institutions, usually the most expensive and usually science and engineering-based programmes. Can you clarify, in relation Cardiff Metropolitan University—the one that is staying outside of these talks at the moment—how many programmes have closed over the last five years as a consequence of this creeping marginalisation? What impact has this had on the student experience and student outcomes within that institution? I assume that Newport and Glamorgan universities will be looking carefully at such issues in their discussions.

Yn ne-orllewin Cymru, rydym wedi gweld fy sefydliad blaenorol, Prifysgol Fetropolitan Abertawe, yn uno'n llwyddiannus â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Rhoddwyd pwyslais, ar y pryd, ar ddatganiadau cenhadaeth y ddau sefydliad. A allwch chi gadarnhau y bydd gan y tri sefydliad yr ydym yn sôn amdanynt—maent i gyd yn sefydliadau ôl-1992, felly byddwn yn cymryd yn ganiataol y byddai ganddynt yr un datganiad cenhadaeth—ddatganiadau cenhadaeth tebyg, fel na fyddai'r datganiadau hynny, yn sgil unrhyw broses o gydweithredu neu uno, yn cael eu gwanhau mewn unrhyw ffordd? Rydym hefyd wedi cwestiynu'r cysyniad o ymyleiddio graddol, sef, i'r rhai nad ydynt yn ymwybodol, y posibilrwydd o gau rhaglenni sydd wedi datblygu i fod y rhai lleiaf cost-effeithiol ym marn sefydliadau. Y rhaglenni drutaf yw'r rhain fel arfer, a rhai seiliedig ar wyddoniaeth a pheirianneg fel arfer. A allwch egluro, o ran Prifysgol Fetropolitan Caerdydd—yr un nad yw'n cymryd rhan yn y sgyrsiau hyn ar hyn o bryd—faint o raglenni sydd wedi cau dros y pum mlynedd diwethaf o ganlyniad i'r ymyleiddio graddol hwn? Pa effaith y mae hyn wedi'i chael ar brofiad myfyrwyr a chanlyniadau myfyrwyr o fewn y sefydliad hwnnw? Tybiaf y bydd prifysgolion Casnewydd a Morgannwg yn edrych yn ofalus ar faterion o'r fath yn ystod eu trafodaethau.

You mentioned in your statement that you would look at option B. If option B is the end result, will you be ensuring that discussions that take place between Newport and Glamorgan universities are flexible enough to allow the expansion of that partnership to include a future partner, such as Cardiff Metropolitan University, if it then moves into that situation? I take the view that the long-term viability of an institution that will become the size of Cardiff Metropolitan University, if it stays alone, will be difficult. I want to see a strong university producing high-quality education, applied research and professional development for both staff and students, and contributing to the wider social, economic and cultural agendas.

Crybwyllwyd gennych yn eich datganiad y byddech yn edrych ar opsiwn B. Os mai opsiwn B yw'r canlyniad yn y pen draw, a fyddwch yn sicrhau bod trafodaethau a gynhelir rhwng prifysgolion Casnewydd a Morgannwg yn ddigon hyblyg i ganiatáu ar gyfer ehangu'r bartneriaeth honno i gynnwys partner arall yn y dyfodol, megis Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, os bydd y sefyllfa honno'n datblygu'n ddiweddarach? Rwyf o'r farn y bydd yn anodd sicrhau hyfywedd hir-dymor sefydliad a fydd yn datblygu i faint Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, os bydd yn aros ar ei phen ei hun. Rwyf am weld prifysgol gref sy'n darparu addysg o ansawdd uchel, ymchwil gymhwysol a datblygiad proffesiynol ar gyfer staff a myfyrwyr, ac sy'n cyfrannu at yr agendâu cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ehangach.

**Leighton Andrews:** I thank my colleague the Member for Aberavon for his comments. He brings considerable experience of this sector to his contribution. I think that it is too early for me to be able to make any comment on mission statements for the new institution. However, as we develop the strategic outline case, we will be working through a whole series of issues that will allow us to identify the complementarity of the different institutions and the challenges that the new institution would face. So, we will work through those.

**Leighton Andrews:** Diolch i'm cydweithiwr, yr Aelod dros Aberafan, am ei sylwadau. Mae ganddo brofiad sylweddol yn y sector hwn fel sail i'w gyfraniad. Rwy'n meddwl ei bod yn rhy gynnar i mi allu gwneud unrhyw sylwadau ynglŷn â datganiadau cenhadaeth ar gyfer y sefydliad newydd. Fodd bynnag, wrth i ni ddatblygu'r achos amlinellol strategol, byddwn yn gweithio trwy cyfres gyfan o faterion a fydd yn ein galluogi i adnabod ym mha feysydd y mae'r gwahanol sefydliadau yn ategu ei gilydd, a pha heriau y byddai'r sefydliad newydd yn eu hwynebu. Felly, byddwn yn gweithio drwy'r rheiny.

He asked specific questions on forced closures. Certainly, during the course of the discussions that I have had with student and staff representatives, staff representatives at Cardiff Metropolitan University have told me that, in recent years, the university has lost over 170 jobs, including 70 academic posts, and that some of the decisions that have been made have resulted in closure of specific departments, such as engineering. Students from other departments in that institution have been lobbying me and others about the fact that they have lost lecturers during the lifetime of their courses. So, these are issues that Cardiff Metropolitan University has already been dealing with.

Gofynnodd gwestiynau penodol ynglŷn â gorfodi sefydliadau i gau. Yn sicr, yn ystod y trafodaethau yr wyf wedi'u cael gyda chynrychiolwyr myfyrwyr a staff, mae cynrychiolwyr staff Prifysgol Fetropolitan Caerdydd wedi dweud wrthyf bod y brifysgol, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi colli dros 170 o swyddi, gan gynnwys 70 o swyddi academaidd, a bod rhai o'r penderfyniadau a wnaed wedi arwain at gau adrannau penodol, megis peirianneg. Mae myfyrwyr o adrannau eraill yn y sefydliad hwnnw wedi bod yn fy lobïo fi ac eraill ynglŷn â'r ffaith eu bod wedi colli darlithwyr yn ystod cyfnod eu cyrsiau. Felly, mae'r rhain yn faterion y mae Prifysgol Fetropolitan Caerdydd eisoes wedi bod yn delio â hwy.

In respect of the future and should the decision ultimately be for option B and a merger between the University of Wales, Newport and the University of Glamorgan initially, as I said in my statement, it seems to me that it is almost inevitable that there will be questions asked about the future of Cardiff Metropolitan University in that context. In a previous statement in the Assembly in July, I said that I thought that the Government would expect HEFCW to plan ahead for funding a research-intensive institution in south-east Wales and, ultimately, a single post-1992 institution. So, I think that there are very difficult issues for the institutions to consider. As I say, I have not made a final decision on these matters.

O ran y dyfodol, pe byddid yn penderfynu yn y pen draw ar opsiwn B sef uno Prifysgol Cymru, Casnewydd a Phrifysgol Morgannwg i ddechrau, fel y dywedais yn fy natganiad, mae'n ymddangos bron yn anochel i mi y bydd cwestiynau'n codi ynglŷn â dyfodol Prifysgol Fetropolitan Caerdydd yn y cyd-destun hwnnw. Mewn datganiad blaenorol yn y Cynulliad ym mis Gorffennaf, dywedais fy mod yn meddwl y byddai'r Llywodraeth yn disgwyl i CCAUC gynllunio ymlaen llaw ar gyfer ariannu sefydliad a fyddai'n canolbwyntio ar ymchwil yn ne-ddwyrain Cymru ac, yn y pen draw, ar gyfer un sefydliad ôl-1992. Felly, credaf fod yna faterion anodd iawn i'r sefydliadau eu hystyried. Fel y dywedais, nid wyf wedi gwneud penderfyniad terfynol ar y materion hyn.

**Simon Thomas:** I thank the Minister for his statement today, although I sense that he

**Simon Thomas:** Diolchaf i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw, er fy mod yn synhwyro

really wanted to make it in a television studio rather than the Chamber. I am not particularly interested in raking over old coals or in tit-for-tat allegations between a Minister and a former senior police officer; I think that that is a road that is paved with poor examples, and recent ones at that.

y byddai'n well ganddo fod wedi ei wneud mewn stiwdio deledu mewn gwirionedd, yn hytrach na'r Siambr. Nid oes gennyf ddiddordeb arbennig mewn codi hen grachod neu mewn honiadau dant am ddant rhwng Gweinidog a chyn-uwch swyddog yr heddlu; credaf fod mwy na digon o enghreifftiau o'r fath i'w cael, a rhai diweddar ar hynny.

Let me start, however, with where I agree with the Minister. I very much support, and the Party of Wales very much supports, the Glamorgan-Newport talks that are ongoing, and we want to see reconfiguration within the higher education sector in Wales, but we want to see that achieved through reorganising universities in principle so that we can concentrate on front-line teaching and research, get rid of bureaucratic duplication and concentrate on voluntary mergers. I very much agree with the Minister when he says that HE policy in Wales should not be determined by personal rivalries and animosities; I think that that applies to Ministers as much as it does to the sector. I accept what the Minister says, namely that the merger of Newport and Glamorgan will leave Cardiff Metropolitan University in a more exposed position. Ultimately, that is a decision for Cardiff Metropolitan University, but it is undoubtedly true. It is why we in Plaid Cymru want to see a south-east Wales merger achieved if at all possible by voluntary means.

Gadewch i mi ddechrau, fodd bynnag, trwy nodi lle'r wyf yn cytuno â'r Gweinidog. Rwyf yn cefnogi'n fawr, ac mae Plaid Cymru yn cefnogi'n fawr, y sgyrsiau sydd ar y gweill rhwng Morgannwg a Chasnewydd, ac rydym am weld ad-drefnu o fewn y sector addysg uwch yng Nghymru, ond rydym yn awyddus i weld hynny'n cael ei gyflawni trwy ad-drefnu prifysgolion mewn egwyddor fel y gallwn ganolbwyntio ar addysgu ac ymchwil rheng flaen, cael gwared ar ddyblygu biwrocrataidd a chanolbwyntio ar uno gwirfoddol. Rwyf yn cytuno'n llwyr â'r Gweinidog pan ddywed na ddylai polisi AU yng Nghymru gael ei benderfynu gan gystadleuaeth bersonol a gelyniaeth; credaf fod hynny'r un mor berthnasol i Weinidogion ag i'r sector. Derbyniaf yr hyn a ddywed y Gweinidog, sef y byddai Prifysgol Fetropolitan Caerdydd mewn sefyllfa fwy bregus pe byddai Casnewydd a Morgannwg yn uno. Yn y pen draw, penderfyniad i Brifysgol Fetropolitan Caerdydd yw hynny, ond mae'n sicr yn wir. Dyma pam yr ydym ni ym Mhlaid Cymru am weld uno sefydliadau yn y de-ddwyrain drwy ddulliau gwirfoddol os yn bosibl.

It is worth pointing out, however, that that does not leave Cardiff Metropolitan University in a more exposed position than Glyndŵr University in the north-east, because, as a well-timed interview with the outgoing HEFCW chief, Phil Gummett, in the *Western Mail* today points out, the situation in north-east Wales is also unresolved as regards reconfiguration. We have heard nothing from the Minister or the Labour Party on north-east Wales reconfiguration for quite some time.

Mae'n werth nodi, fodd bynnag, nad yw hynny'n gadael Prifysgol Fetropolitan Caerdydd mewn sefyllfa ddim mwy bregus na Phrifysgol Glyndŵr yn y gogledd-ddwyrain, oherwydd, fel y nodwyd yn y *Western Mail* heddiw mewn cyfweliad amserol iawn gyda Phil Gummett, sydd ar fin gadael ei swydd fel pennaeth CCAUC, nid yw'r sefyllfa wedi ei datrys yn y gogledd-ddwyrain ychwaith, o ran ad-drefnu. Nid ydym wedi clywed dim gan y Gweinidog na'r Blaid Lafur ynglŷn ag ad-drefnu yn y gogledd-ddwyrain ers peth amser.

The Minister says that he has not yet made a decision, yet he told us on 17 July that he only expected HEFCW to support two higher education institutions in south-east Wales by

Mae'r Gweinidog yn dweud nad yw wedi gwneud penderfyniad eto, ond dywedodd wrthym ar 17 Gorffennaf nad oedd ond yn disgwyl i CCAUC gefnogi dau sefydliad

2015-16: Cardiff and a new merged metropolitan university. He has just re-emphasised that in his response to David Rees. Some would argue that that means that his mind is made up, and I would say that the tone of his statement today also showed that his mind is made up. I want to ask the Minister whether he has not fettered his discretion in this regard and whether he has had advice from his officials regarding the exercise of his discretion on any future decisions that will need to be taken.

addysg uwch yn ne-ddwyrain Cymru erbyn 2015-16: Caerdydd a phrifysgol fetropolitan unedig newydd. Mae newydd ail-bwysleisio hynny yn ei ymateb i David Rees. Byddai rhai'n dadlau bod hynny yn golygu ei fod wedi gwneud ei benderfyniad, a byddwn yn dweud bod y naws ei ddatganiad heddiw hefyd yn dangos ei fod wedi gwneud ei benderfyniad. Hoffwn ofyn i'r Gweinidog a yw wedi llyffetheirio ei ddisgresiwn yn hyn o beth, ac a yw wedi cael cyngor gan ei swyddogion ynghylch arfer ei ddisgresiwn ar unrhyw benderfyniadau y bydd angen eu gwneud yn y dyfodol.

Plaid Cymru feels strongly that any mergers should be directed by strategic considerations of the shape of the Welsh higher education system and should be done on a national basis. On that basis, I was a little disappointed by Phil Gummett's interview in the *Western Mail* today; I thought that he had a parochial, narrow view of Wales and a paucity of ideas regarding Welsh institutions. However, he said one thing that I think is relevant and important to re-emphasise now and this was specifically with regard to reconfiguration:

Mae Plaid Cymru'n teimlo'n gryf y dylai unrhyw broses uno gael ei chyfeirio gan ystyriaethau strategol ynglŷn â ffurf y gyfundrefn addysg uwch yng Nghymru ac y dylid ei chynnal ar sail genedlaethol. Ar y sail honno, roeddwn braidd yn siomedig yng nghyfweliad Phil Gummett yn y *Western Mail* heddiw; roeddwn i'n meddwl fod ei farn am Gymru yn gul a phlwyfol, a'i fod yn brin o syniadau ynghylch sefydliadau Cymreig. Fodd bynnag, dywedodd un peth yr wyf yn meddwl ei bod yn berthnasol ac yn bwysig ei ail-bwysleisio yn awr, a hynny'n benodol yn ymwneud ag ad-drefnu:

'there's always more than one solution...we want the universities to come forward themselves.'

Mae bob amser fwy nag un ateb ... rydym am i'r prifysgolion ddod ymlaen eu hunain.

That is Plaid Cymru—The Party of Wales's position, by the way. Therefore, I ask the Minister today whether he will allow another solution to develop, and, in particular, whether he will allow the Glamorgan-Newport reconfiguration to take place, for Cardiff Metropolitan University to re-evaluate its situation following that reconfiguration and, if necessary, use methods of arbitration to try to achieve a much more satisfactory outcome to which all parties can agree. I believe strongly, and the Party of Wales believes strongly, that taking legal steps that force university mergers to take place would give Wales and the Welsh higher education sector a poor international image, after some recent unfortunate international stories in that sector. I also believe that it would threaten the independence of the HE sector in Wales, and I am unhappy with that.

Dyna yw safbwynt Plaid Cymru, gyda llaw. Felly, gofynnaf i'r Gweinidog heddiw a fydd yn caniatáu i ateb arall ddatblygu, ac, yn benodol, a fydd yn caniatáu i'r broses o ad-drefnu Morgannwg-Casnewydd ddigwydd, i Brifysgol Fetropolitan Caerdydd ail-werthuso ei sefyllfa yn dilyn yr ad-drefnu ac, os bydd angen, defnyddio dulliau cyflafareddu i geisio sicrhau canlyniad llawer mwy boddhaol y gall pob parti gytuno iddo. Credaf yn gryf, ac mae Plaid Cymru yn credu'n gryf, y byddid yn rhoi delwedd ryngwladol wael i Gymru a'r sector addysg uwch yng Nghymru, ar ôl rhai straeon rhyngwladol anffodus diweddar yn y sector honno, trwy gymryd camau cyfreithiol sy'n gorfodi prifysgolion i uno. Rwyf hefyd yn credu y byddai'n bygwth annibyniaeth y sector AU yng Nghymru, ac rwyf yn anhapus ynglŷn â hynny.

I will conclude by saying that there is a series of popular Nintendo games, if I may draw the attention of the Minister to it, featuring Professor Layton, where the player cannot go any further with the game until a puzzle is solved. We are in such a maze now. We need to solve the puzzle of why the Minister, based on a judgment call by HEFCW, thinks that we must legislate to abolish a successful university. The Minister must provide us with the tools to solve the puzzle—please do, Minister—that is to say a proper published business case. Otherwise, he will be in danger of exercising his powers in the dark, but, more importantly, asking this Parliament to exercise and legislate in the dark.

Rwyf am orffen trwy ddweud bod cyfres o gemau Nintendo poblogaidd ar gael, os caf dynnu sylw'r Gweinidog atynt, sy'n cynnwys yr Athro Layton, lle na all y chwaraewr fynd ymhellach gyda'r gêm hyd nes iddo ddatrys pos. Rydym mewn drysfa o'r fath yn awr. Mae angen i ni ddatrys pam y mae'r Gweinidog, yn seiliedig ar farn CCAUC, yn credu bod yn rhaid i ni ddeddfu i ddiddymu prifysgol lwyddiannus. Rhaid i'r Gweinidog roi inni'r arfau i ddatrys y pos—os gwelwch yn dda, Weinidog—hynny yw achos busnes priodol wedi'i gyhoeddi. Fel arall, bydd mewn perygl o arfer ei bwerau yn y tywyllwch, ond, yn bwysicach, o ofyn i'r Senedd hon arfer ei phwerau hithau a deddfu yn y tywyllwch.

**Leighton Andrews:** I have never played a Nintendo game, so I cannot comment on the aside by the Member.

**Leighton Andrews:** Nid wyf erioed wedi chwarae gêm Nintendo, felly ni allaf roi fy marn ar sylw'r Aelod.

However, I welcome his commitment to ensuring that the priorities in this whole debate are front-line teaching and research. Those are our priorities as well, and I welcome his remarks in that regard. I confirm that we have not made a decision on either of the options that are before us at present—option A and option B. We will continue the consultation, having drawn together the relevant information that has been requested by lawyers acting for Cardiff Metropolitan University. We are going through the appropriate process, which is the development of the business case in the way that the Treasury demands. We have begun that with the strategic outline case. Clearly, before any final merger was to take place, there would need to be a fully finished business plan, and we will bring that forward.

Fodd bynnag, rwyf yn croesawu ei ymrwymiad i sicrhau mai addysg ac ymchwil rheng flaen yw'r blaenoriaethau yn y ddadl hon. Dyna ein blaenoriaethau ninnau hefyd, ac rwyf yn croesawu ei sylwadau yn hynny o beth. Rwyf yn cadarnhau nad ydym wedi gwneud penderfyniad ar yr un o'r opsiynau sydd ger ein bron ar hyn o bryd—opsiwn A ac opsiwn B. Byddwn yn parhau â'r ymgynghoriad, ar ôl dwyn ynghyd y wybodaeth berthnasol y gofynnwyd amdani gan gyfreithwyr sy'n gweithredu ar ran Prifysgol Fetropolitan Caerdydd. Rydym yn mynd drwy'r broses briodol, sef datblygu'r achos busnes yn y ffordd y mae'r Trysorlys yn mynnu. Rydym wedi dechrau hynny trwy lunio'r achos amlinellol strategol. Yn amlwg, byddai angen cael cynllun busnes gorffenedig cyn unrhyw uno terfynol, a byddwn yn cyflwyno hynny.

In respect of what I have said with regard to HEFCW supporting only two institutions, that does not necessarily mean that there would not be another institution. It would just be our expectation that HEFCW would not support it. Therefore, I think that we have some clarity here, in terms of how we are moving these issues forward, but we retain an open mind on the choices. Our broad preference, as we have previously expressed,

O ran yr hyn a ddywedais mewn cysylltiad â CCAUC ond yn cefnogi dau sefydliad, nid yw hynny o reidrwydd yn golygu na fyddai sefydliad arall, dim ond na fyddem yn disgwyl i CCAUC ei gefnogi. Felly, rwyf yn meddwl bod y sefyllfa'n eglur yma, o ran sut yr ydym yn symud ymlaen â'r materion hyn, ond rydym yn cadw meddwl agored ynglŷn â'r dewisiadau. Ein barn gyffredinol, fel yr ydym wedi nodi'n flaenorol, yw y byddai

is that we think that Wales would benefit from a single, post-1992 institution, alongside a strong research-intensive institution, of the kind that we have in Cardiff University.

Cymru’n elwa o gael un sefydliad ôl-1992, ochr yn ochr â sefydliad cryf sy’n canolbwyntio ar ymchwil, o’r math sydd gennym ym Mhrifysgol Caerdydd.

The Member also asked about north-east Wales. The reason that we have not said anything on this recently is because we have established a review group, chaired by Professor Sir Adrian Webb, which is looking at the options for north-east Wales and its needs as a region. When that reports to us, as it will next year, we will come back to this Chamber.

Gofynnod yr Aelod hefyd am ogledd-ddwyrain Cymru. Y rheswm nad ydym wedi dweud dim am hyn yn ddiweddar yw ein bod wedi sefydlu grŵp adolygu, dan gadeiryddiaeth yr Athro Syr Adrian Webb, sy’n edrych ar yr opsiynau ar gyfer gogledd-ddwyrain Cymru a’i anghenion fel rhanbarth. Pan fydd y grŵp yn cyflwyno ei adroddiad i ni, y flwyddyn nesaf, byddwn yn dod yn ôl i’r Siambr hon.

**Aled Roberts:** Minister, as someone who has given evidence to the north-east Wales panel, I very much welcome the approach taken in north-east Wales, which is to seek to engage with stakeholders and, more importantly, with Glyndŵr University itself in respect of what everyone in the region perceives as the best way forward. The difficulty that we have in this case is that, while the Government may have followed the Treasury model, from day one, engagement on reconfiguration in south-east Wales has not been good. As Simon Thomas outlined, we started off with a situation where there was a clear statement of intent given on 17 July that gave an idea as to the Government’s preferred approach to reconfiguration—that is, the creation of one post-1992 institution in south-east Wales. Since then, too much of the debate has been going on through the media than through proper engagement with the stakeholders themselves.

**Aled Roberts:** Weinidog, fel rhywun sydd wedi rhoi tystiolaeth i banel y gogledd-ddwyrain, rwyf yn croesawu’n fawr yr ymdriniaeth yng ngogledd-ddwyrain Cymru, sef ceisio ymgysylltu â rhanddeiliaid ac, yn bwysicach, â Phrifysgol Glyndŵr ei hun i ddarganfod barn pawb yn y rhanbarth ynglŷn â’r ffordd orau i symud ymlaen. Er efallai bod y Llywodraeth wedi dilyn model y Trysorlys, yr anhawster sydd gennym yn yr achos hwn yw na lwyddwyd i ymgysylltu’n effeithiol ynglŷn ag ad-drefnu yn y de-ddwyrain o’r diwrnod cyntaf. Fel yr amlinellodd Simon Thomas, dechreuwyd gyda sefyllfa lle y gwnaed datganiad clir o fwriad ar 17 Gorffennaf a roddodd syniad ynglŷn â’r agwedd at ad-drefnu yr oedd y Llywodraeth yn ei ffafrio—hynny yw, creu un sefydliad ôl-1992 yn ne-ddwyrain Cymru. Ers hynny, mae gormod o’r ddadl wedi cael ei chynnal trwy’r cyfryngau yn hytrach na thrwy ymgysylltu’n briodol â’r rhanddeiliaid eu hunain.

In response to questions, you mentioned that you are currently developing the business case, as the Treasury model suggests. The difficulty here is that people are clearly not convinced. I do not think that it is just a case of the Cardiff Metropolitan University executives not being convinced. You will be aware that a student survey at the Cardiff Metropolitan University indicated that 89% of the students there have concerns or are directly opposed to the merger. Although it may be the Welsh Government’s manifesto commitment to create one post-1992 institution and to move towards

Mewn ymateb i gwestiynau, crybwyllwyd gennych eich bod ar hyn o bryd yn datblygu achos busnes, yn unol â model y Trysorlys. Yr anhawster yma yw nad yw pobl wedi eu hargyhoeddi, yn amlwg. Nid wyf yn meddwl mai swyddogion gweithredol Prifysgol Fetropolitan Caerdydd yn unig sydd heb eu hargyhoeddi. Byddwch yn ymwybodol bod arolwg ymhlith myfyrwyr Prifysgol Fetropolitan Caerdydd yn dangos bod gan 89% o’r myfyrwyr yno bryderon neu eu bod yn gwrthwynebu’r uno yn uniongyrchol. Er ei bod yn ymrwymiad ym maniffesto Llywodraeth Cymru i greu un sefydliad ôl-

reconfiguration of higher education generally in Wales, the reality is—and I recognise that I speak for a party that has five Assembly Members—that the Government does not have a majority in this Chamber. Therefore, the Government needs to convince the other parties in the Chamber that what is being offered is a proper way forward for higher education in south-east Wales.

1992 a symud tuag at ad-drefnu addysg uwch yn gyffredinol yng Nghymru, y gwirionedd yw—ac rwy'n cydnabod fy mod yn siarad ar ran plaid sydd â phum Aelod yn y Cynulliad—nad oes gan y Llywodraeth fwyafrif yn y Siambr hon. Felly, mae angen i'r Llywodraeth argyhoeddi'r pleidiau eraill yn y Siambr mai'r hyn sy'n cael ei gynnig yw'r ffordd briodol ymlaen ar gyfer addysg uwch yn ne-ddwyrain Cymru.

Much of your policy appears to have been based on previous committee papers here, including those prepared by HEFCW. In today's *Western Mail*, Phil Gummett outlines the case comparing Wales with Manchester. Of course, Manchester covers 47 square miles. Wales is slightly bigger, at 8,000 square miles. We also have to ask about the direction of travel in England, because it does not, as HEFCW would have us believe, lead to a situation in which there is one traditional and one post-1992 university in most city regions. In fact, the majority of city regions in England have more than the two institutions that we are referring to today.

Mae'n ymddangos bod llawer o'ch polisi wedi ei seilio ar bapurau pwyllgor blaenorol yma, gan gynnwys y rhai a baratowyd gan CCAUC. Yn y *Western Mail* heddiw, mae Phil Gummett yn amlinellu'r achos gan gymharu Cymru â Manceinion. Wrth gwrs, mae Manceinion yn cwmpasu 47 milltir sgwâr. Mae Cymru ychydig yn fwy—8,000 milltir sgwâr. Mae rhaid i ni hefyd holi sut mae'r broses yn datblygu yn Lloegr, oherwydd nad yw pethau'n arwain, fel y byddai CCAUC yn dymuno i ni gredu, at sefyllfa lle ceir un brifysgol draddodiadol ac un ôl-1992 ym mwyafrif y dinas-ranbarthau. Mewn gwirionedd, mae gan y rhan fwyaf o'r dinas-ranbarthau yn Lloegr fwy na'r ddau sefydliad yr ydym yn cyfeirio atynt heddiw.

4.30 p.m.

There needs to be more direct engagement with stakeholders than with television channels and newspaper editors. I have information before me that HEFCW was not willing to discuss reconfiguration in a meeting with Cardiff Metropolitan University on 9 October, yet we have a two-page newspaper article in today's *Western Mail* in which Professor Gummett explains the basis of his views for reconfiguration. That is clearly not the best way forward. I understand the Government's predicament, but the reality is that we need to be convinced as opposition parties about the case being put forward. More importantly, however, the governing body, staff and students of Cardiff Metropolitan University need to hear that evidence, and that is clearly not the case currently.

Mae angen ymgysylltu'n fwy uniongyrchol â rhanddeiliaid na chyda sianelau teledu a golygyddion papurau newydd. Mae gennyf wybodaeth o'm blaen nad oedd CCAUC yn barod i drafod ad-drefnu mewn cyfarfod gyda Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd ar 9 Hydref, ac eto mae gennym erthygl dwy dudalen ym mhapur newydd y *Western Mail* heddiw lle mae'r Athro Gummett yn esbonio sail ei farn ar ad-drefnu. Yn amlwg, nid dyna'r ffordd orau o symud ymlaen. Rwyf yn deall sefyllfa anodd y Llywodraeth, ond y gwir amdani yw bod angen i ni fel gwrthbleidiau fod yn argyhoeddedig ynglŷn â'r achos sy'n cael ei gyflwyno. Yn bwysicach, fodd bynnag, mae angen i gorff llywodraethu, staff a myfyrwyr Prifysgol Fetropolitan Caerdydd glywed y dystiolaeth honno, ac mae'n amlwg nad yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd.

**Leighton Andrews:** I have to disagree with the Member on so many different points. In

**Leighton Andrews:** Rhaid i mi anghytuno â'r Aelod ar gymaint o wahanol bwyntiau.

meetings, staff representatives from Cardiff Metropolitan University have been very clear about the stance that we are taking, and I think that it is fair to say that the UCU has supported the approach that we have been taking.

Mewn cyfarfodydd, mae cynrychiolwyr staff o Brifysgol Fetropolitan Caerdydd wedi bod yn eglur iawn ynghylch ein safbwynt ni, ac rwyf yn meddwl ei bod yn deg dweud bod yr Undeb Prifysgol a Choleg wedi cefnogi ein hagwedd.

I think that the Member needs to reflect on the fact that we have been discussing the reconfiguration of higher education in south-east Wales for a decade. Proposals for a merger between UWIC and the University of Glamorgan were brought forward by UWIC and the University of Glamorgan back in 2003. This debate has taken a number of forms over a decade. It is not that we are relying on reports by others; there have been many participants in this debate, including the institutions themselves at different stages.

Credaf fod angen i'r Aelod fyfyrio ar y ffaith ein bod wedi bod yn trafod ad-drefnu addysg uwch yn ne-ddwyrain Cymru ers degawd. Cafodd cynigion ar gyfer uno UWIC a Phrifysgol Morgannwg eu cyflwyno gan UWIC a Phrifysgol Morgannwg yn ôl yn 2003. Bu sawl ffurf i'r ddadl hon dros y degawd. Nid yw'n fater o ddibynnu ar adroddiadau gan bobl eraill; bu llawer o gyfranogwyr yn y ddadl hon, gan gynnwys y sefydliadau eu hunain ar wahanol adegau.

I would agree with him; I am happy to be involved in direct engagement with stakeholders. It was not I who cancelled the most recent meeting planned with Cardiff Metropolitan University, nor have I been on the airwaves making comments about the merger process. I am doing what is right as a Minister: using the proper channels of accountability to the Assembly and making statements in the Assembly so that Members can question me on them. That is the appropriate way for us to take this forward. However, we have been engaged with the institutions over the last 12 months—not since July of this year—in discussing these issues, so I think that we go back some time.

Byddwn yn cytuno ag ef; rwyf yn hapus i fod yn rhan o ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid. Nid fi oedd yr un i ganslo'r cyfarfod diweddaraf gyda Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd, ac nid fi sydd wedi bod ar yr awyr yn gwneud sylwadau am y broses uno. Rwyf yn gwneud yr hyn sy'n iawn fel Gweinidog: defnyddio'r sianelau atebolrwydd priodol i'r Cynulliad a gwneud datganiadau yn y Cynulliad er mwyn i'r Aelodau fy holi arnynt. Dyna'r ffordd briodol i ni symud y mater hwn yn ei flaen. Fodd bynnag, rydym wedi bod yn ymgysylltu â'r sefydliadau dros y 12 mis diwethaf—nid ers mis Gorffennaf eleni—er mwyn trafod y materion hyn, felly rwyf yn meddwl ein bod yn mynd yn ôl beth amser.

I will, however, stand up for my officials and for our independent adviser when they are unfairly attacked in media interviews. It would be entirely wrong for a Minister to run away from protecting officials or advisers when they were being unfairly attacked in media interviews. In respect of the interview with Professor Gummett, it was, as I understand it, essentially his exit interview. As people know, he is leaving HEFCW for retirement after a distinguished career there, and I wish him well in his retirement.

Fe wnaf, fodd bynnag, gadw cefn fy swyddogion a'n hymgynghorydd annibynnol pan fyddant yn dioddef ymosodiadau annheg mewn cyfweliadau yn y cyfryngau. Byddai'n gwbl anghywir i Weinidog beidio ag amddiffyn swyddogion neu ymgynghorwyr rhag ymosodiadau annheg mewn cyfweliadau yn y cyfryngau. O ran y cyfweliad gyda'r Athro Gummett, hwnnw, fel y deallaf, oedd ei gyfweliad ymadael yn y bôn. Fel y gŵyr pobl, mae'n gadael CCAUC i ymddeol ar ôl gyrfa ddisglair yno, a dymunaf yn dda iddo yn ei ymddeoliad.

In respect of the meeting held between HEFCW and Cardiff Metropolitan University

Byddai wedi bod yn gwbl amhriodol iddynt drafod ad-drefnu yn y cyfarfod a gynhaliwyd

on 9 October, it would have been entirely inappropriate for them to have discussed reconfiguration, and the governing body of Cardiff Metropolitan University is well aware of that, as is the vice-chancellor. That was part of HEFCW's institutional review, as I understand it. It would have been entirely inappropriate for them to have engaged in discussions on the dissolution order. Such discussions are appropriately to be held between the institutions involved and us as the Government.

rhwng CCAUC a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd ar 9 Hydref, ac mae corff llywodraethu Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, yn ogystal â'r is-ganghellor, yn ymwybodol iawn o hynny. Roedd y cyfarfod hwnnw'n rhan o adolygiad sefydliadol CCAUC, fel y deallaf. Byddai wedi bod yn gwbl amhriodol iddynt gynnal trafodaethau ynghylch y gorchymyn diddymu. Y man priodol i gynnal trafodaethau o'r fath yw rhwng y sefydliadau dan sylw a ninnau fel Llywodraeth.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Rydym eisoes wedi mynd dros yr amser a ddynodwyd ar gyfer y datganiad hwn, ond rwy'n derbyn ei fod yn ddatganiad o ddiddordeb neilltuol i lawer o Aelodau. Mae chwe Aelod arall wedi gofyn am gyfle i godi cwestiwn—rwy'n pwysleisio'r gair 'cwestiwn'—ar y pwnc hwn. Yr argraff rwyf wedi ei chael hyd yn hyn yw bod atebion y Gweinidog yn fwy cryno na chwestiynau'r llefaryddion. Rwy'n gofyn i'r Gweinidog fod hyd yn oed yn fwy cryno gyda'r atebion i'r cwestiynau sy'n dod ac yn gofyn i'r sawl sy'n gofyn cwestiwn fod yn gwbl benodol.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** We are already out of time for this statement, but I do accept that it is a statement of exceptional interest to many Members. Six other Members have asked for an opportunity to raise a question—and I emphasise, 'a question'—on this issue. The impression that I get so far is that the Minister's responses are more succinct than the questions from spokespersons. I ask the Minister to be even more succinct with the questions to come, and ask those who are asking the questions to be entirely specific.

**Mark Drakeford:** Minister, do you share my concern that there is a real danger now for students and staff at Cardiff Metropolitan University that merger talks between the University of Wales, Newport and the University of Glamorgan will gather momentum to such an extent that the interests of Cardiff Metropolitan University will be excluded, and that by the time the authorities there arrive at the negotiating table, they will be in a far weaker position to promote and defend the very real achievements of that institution and to have its proper concerns addressed?

**Mark Drakeford:** Weinidog, a ydych yn rhannu fy mhryder bod perygl gwirioneddol yn awr ar gyfer myfyrwyr a staff Prifysgol Fetropolitan Caerdydd y bydd trafodaethau uno rhwng Prifysgol Cymru, Casnewydd a Phrifysgol Morgannwg yn magu momentwm i'r fath raddau fel na fydd buddiannau Prifysgol Fetropolitan Caerdydd yn cael eu cynnwys, ac erbyn i'r awdurdodau yno gyrraedd y bwrdd trafod, y byddant mewn sefyllfa lawer gwannach i hyrwyddo ac amddiffyn llwyddiannau gwirioneddol y sefydliad hwnnw ac i sicrhau yr eir i'r afael yn briodol â'i bryderon?

**Leighton Andrews:** My colleague the Member for Cardiff West is right to note the progress in the discussions between the University of Glamorgan and the University of Wales, Newport, as I understand from what I have heard informally. There is, however, from our point of view as a Government, a process that we have to follow, and that process involves consultation on the two options that are before us. The issue is that we need to continue to take evidence and to develop that strategic outline

**Leighton Andrews:** Mae fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Orllewin Caerdydd, yn iawn i nodi datblygiad y trafodaethau rhwng Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd, fel y deallaf o'r hyn yr wyf wedi ei glywed yn anffurfiol. O'n safbwynt ni fel Llywodraeth, fodd bynnag, mae yna broses y mae'n rhaid eu dilyn, ac mae'r broses honno'n cynnwys ymgynghori ar y ddau opsiwn sydd ger ein bron. Y broblem yw bod angen i ni barhau i gymryd tystiolaeth ac i ddatblygu'r achos amlinellol strategol hwnnw

case towards a full business case, and then ultimately to make a judgment between the two options. However, I imagine that what he has said here in the Chamber today will have been heard by those outside, including by those in Cardiff Metropolitan University.

i greu achos busnes llawn, ac yna yn y pen draw i lunio barn rhwng y ddau opsiwn. Fodd bynnag, rwyf yn dychmygu y bydd yr hyn a ddywedodd yma yn y Siambr heddiw wedi cael eu clywed gan y rhai y tu allan, gan gynnwys ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Rwy'n datgan diddordeb fel canghellor Prifysgol Bangor. A fyddai'r Gweinidog yn cytuno ein bod mewn sefyllfa resynus nad yw corff rheoli prifysgol yn fodlon canolbwyntio ar ei ddyletswydd gofal dros wariant cyhoeddus priodol a dros addysg ac ymchwil yn y sefydliad, gan ganolbwyntio yn hytrach ar ddadl gyhoeddus drwy'r cyfryngau ynglŷn â'i safle a'i statws ei hunan, ac nad yw ymyrraeth wleidyddol gan unrhyw blaid yn y lle hwn yn helpu'r sefyllfa chwaith?

**Lord Elis-Thomas:** I declare an interest as the chancellor of Bangor University. Would the Minister agree that we are in a deplorable situation where the governing body of a university is not willing to concentrate on its duty of care for appropriate public expenditure and for education and research within the institution, and is concentrating instead on a public debate conducted through the media on its own position and status, and that political intervention by any party in this place does not help the situation in any way?

**Leighton Andrews:** I say to the Member that I certainly agree that we should avoid this debate being conducted on a political basis. What we need to do is to try to ensure that this debate is conducted on the basis of the evidence and the wider interests of higher education in Wales and those students, both current and future, who will be participants in it. I certainly do not think that the interviews conducted recently in the media have been helpful to the process. I would not in any way wish to prevent any institution making its case through the media. All that I would ask is that they do not distort the facts.

**Leighton Andrews:** Rwyf yn dweud wrth yr Aelod fy mod yn sicr yn cytuno y dylem osgoi caniatáu i'r ddadl hon gael ei chynnal ar sail wleidyddol. Yr hyn y mae angen i ni ei wneud yw ceisio sicrhau y cynhelir y ddadl hon ar sail y dystiolaeth a buddiannau ehangach addysg uwch yng Nghymru a'r myfyrwyr hynny, yn awr ac yn y dyfodol, a fydd yn cymryd rhan ynddi. Yn sicr nid wyf yn credu bod y cyfweliadau a gynhaliwyd yn ddiweddar yn y cyfryngau wedi bod o gymorth i'r broses. Ni fyddwn mewn unrhyw ffordd yn dymuno atal unrhyw sefydliad rhag cyflwyno'i achos drwy'r cyfryngau. Yr oll y byddwn yn ei ofyn yw iddynt beidio ag ystumio'r ffeithiau.

**Mick Antoniw:** Minister, I declare an interest, first, because the University of Glamorgan is based in my constituency, and secondly, as a visiting fellow of the University of Wales, Newport. The way in which these two institutions have so far worked together has been honourable, which is why it was of considerable concern to me that, in the public debate that has emerged, the suggestion was made that Glamorgan was responsible for strangling progress. From what I can see, there is no foundation for that whatsoever. I heard the debates, and I was taken by surprise by some of the things that were being said. What is being suggested raises serious issues of the quality and judgment of governance of Cardiff

**Mick Antoniw:** Weinidog, rwyf yn datgan buddiant, yn gyntaf, oherwydd bod Prifysgol Morgannwg wedi ei lleoli yn fy etholaeth i, ac yn ail, fel cymrawd gwadd ym Mhrifysgol Cymru, Casnewydd. Mae'r modd y mae'r ddau sefydliad hyn wedi gweithio gyda'i gilydd hyd yma wedi bod yn anrhydeddus, a dyna pam yr oedd yn peri cryn bryder i mi yr awgrymwyd, yn y ddadl gyhoeddus sydd wedi dod i'r amlwg, bod Morgannwg yn gyfrifol am lesteirio'r broses. O'r hyn y gallaf ei weld, nid oes sail o gwbl i hynny. Clywais y dadleuon, a chefais fy synnu gan rai o'r pethau a oedd yn cael eu dweud. Mae'r hyn sy'n cael ei awgrymu yn codi cwestiynau difrifol ynghylch ansawdd a doethineb llywodraethu ym Mhrifysgol Fetropolitan

Metropolitan University. I now have serious concerns, while the progress takes place with regard to negotiations between Newport and Glamorgan, about the potential isolation of Cardiff Metropolitan University. How do you envisage that that impasse is going to be overcome?

Caerdydd. Mae gennyf bryderon difrifol bellach ynghylch y posibilrwydd y gallai Prifysgol Fetropolitan Caerdydd gael ei hynysu, tra bod y trafodaethau'n parhau rhwng Casnewydd a Morgannwg. Sut rydych chi'n rhagweld y gellid goresgyn y cyfyngder hwnnw?

**Leighton Andrews:** Again, I am not going to make any judgment between the two options that are before us, but clearly a merger of the University of Glamorgan and the University of Wales, Newport would produce a powerful institution that had its base in two of the cities of south Wales, and that would be an important development in itself. It is clear that the University of Glamorgan group has a strong presence, not only in in the Member's constituency, but through its association with the further education college in Merthyr Tydfil and in the centre of Cardiff with the Atrium building and the Royal Welsh College of Music and Drama. So, one understands the strength of the footprint that the new institution would have. However, we have not made a decision, as a Government, on the options. We will continue to explore the issues with the stakeholders and to develop a full business case.

**Leighton Andrews:** Eto, nid wyf yn mynd i wneud unrhyw ddyfarniad ynghylch y ddau ddewis sydd ger ein bron, ond yn amlwg trwy uno Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd byddai sefydliad pwerus yn dod i fodolaeth â'i sylfaen mewn dwy o ddinasoedd de Cymru, a byddai hynny'n ddatblygiad pwysig ynddo'i hun. Mae'n amlwg bod gan grŵp Prifysgol Morgannwg bresenoldeb cryf, nid yn unig yn etholaeth yr Aelod, ond trwy ei chysylltiad â'r coleg addysg bellach ym Merthyr Tudful ac yng nghanol Caerdydd, gydag adeilad Atrium a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Felly, rydym yn deall cryfder y dylanwad a fyddai gan y sefydliad newydd hwnnw. Fodd bynnag, nid ydym wedi gwneud penderfyniad, fel Llywodraeth, ynglŷn â'r opsiynau. Byddwn yn parhau i archwilio'r materion dan sylw gyda'r rhanddeiliaid a datblygu achos busnes llawn.

**Eluned Parrott:** Minister, you say that you cannot allow higher education policy to be determined by personal rivalries and animosities; you are quite right. I would expect it to be based on a credible business case, which ought to contain an assessment of the costs, benefits and threats of the different options presented. I assume that this information must have been developed in advance of the strategic outline case for reconfiguration, so that we have evidence-based policy rather than policy-based evidence. What assessments have your officials made of the costs and cost-savings of reconfiguration? What assessments did you make of the likely number of job losses as a result? If this credible business case exists, on what date will you publish it?

**Eluned Parrott:** Weinidog, rydych yn dweud na allwch ganiatáu i bolisi addysg uwch gael ei benderfynu gan gystadleuaeth bersonol a gelyniaeth; rydych yn hollol gywir. Byddwn yn disgwyl iddo fod yn seiliedig ar achos busnes cadarn, a ddylai gynnwys asesiad o gostau, manteision a bygythiadau'r gwahanol opsiynau a gyflwynwyd. Rwyf yn cymryd yn ganiataol bod y wybodaeth hon, o reidrwydd, wedi cael ei datblygu cyn yr achos amlinellol strategol ar gyfer ad-drefnu, fel bod gennym bolisi ar sail tystiolaeth yn hytrach na thystiolaeth sy'n seiliedig ar bolisi. Pa asesiadau y mae eich swyddogion wedi'u gwneud o gostau ac arbedion ad-drefnu? Pa asesiadau yr ydych chi wedi eu cynnal o nifer tebygol y swyddi a fyddai'n cael eu colli o ganlyniad? Os yw'r achos busnes cadarn hwn yn bodoli, ar ba ddyddiad yr ydych yn bwriadu ei gyhoeddi?

**Leighton Andrews:** I think that that is very silly. We have just seen a very successful merger take place in south-west Wales without compulsory redundancies and

**Leighton Andrews:** Credaf fod hynny'n wirion iawn. Rydym newydd weld proses uno lwyddiannus iawn yn digwydd yn ne-orllewin Cymru heb diswyddiadau gorfodol a

campus closures. Members might have heard the vice-chancellor of Swansea Metropolitan University talking about that in some detail last week. The reality is that we are following the Treasury model for development of a business case and we are at the stage of a strategic outline case. If we were to progress to a recommendation on either of the mergers, we would develop the next stage of those arguments in more detail. The appropriate way to take this forward is in line with the Treasury model. I have seen some extraordinary figures quoted in the media as to the cost of any of these mergers. I suggest that people look at the experience of the merger that has recently taken place in south-west Wales.

heb gau yr un campws. Mae'n bosibl bod Aelodau wedi clywed is-ganghellor Prifysgol Fetropolitan Abertawe yn siarad am hynny mewn peth manylder yr wythnos ddiwethaf. Y gwirionedd yw ein bod yn dilyn model y Trysorlys ar gyfer datblygu achos busnes, ac rydym wedi cyrraedd cam yr achos amlinellol strategol. Pe baem yn symud ymlaen i gyflwyno argymhelliad ar un o'r dewisiadau o ran uno, byddem yn datblygu cam nesaf y dadleuon hynny'n fwy manwl. Y ffordd briodol i symud hyn ymlaen yw yn unol â model y Trysorlys. Rwyf wedi gweld rhai ffigurau anhygoel yn cael eu dyfynnu yn y cyfryngau o ran cost unrhyw un o'r dewisiadau hyn o ran uno. Rwyf yn awgrymu y dylai pobl edrych ar brofiad yr uno sydd wedi digwydd yn ddiweddar yn ne-orllewin Cymru.

**Jenny Rathbone:** I welcome the Minister's decision to publish the information requested by Cardiff Metropolitan University, so that we can all read it, because I agree that some of the debate has not been very helpful. However, it is difficult to see how any forced merger would serve the interests of existing or future students of any of these universities, because of the likely impact that a public row would have on the future recruitment of students to Welsh universities. Therefore, I would welcome a toning down of the discussions and an attempt to reach conciliation on this matter.

**Jenny Rathbone:** Croesawaf benderfyniad y Gweinidog i gyhoeddi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gan Brifysgol Fetropolitan Caerdydd, fel y gallwn i gyd ei darllen, oherwydd fy mod yn cytuno bod peth o'r ddadl heb fod yn ddefnyddiol iawn. Fodd bynnag, mae'n anodd gweld sut y byddai er lles myfyrwyr presennol neu ddarpar fyfyrwyr unrhyw un o'r prifysgolion hyn i'w gorfodi i uno, oherwydd yr effaith debygol y byddai ffrae gyhoeddus yn ei chael ar eu gallu i recriwtio myfyrwyr i brifysgolion Cymru yn y dyfodol. Felly, byddwn yn croesawu trafodaethau llai cythryblus ac ymgais i gymodi ar y mater hwn.

The fact that we have been endeavouring to get a single post-1992 institution in south-east Wales since 2003 is not, in itself, an argument for it being the right decision. Flogging a dead horse is not always a good idea, although I am not saying that that is necessarily the case here. I look forward to seeing the information that the Minister will publish. However, I am concerned that we have a dialogue of the death going on in south-east Wales at the moment. I am interested in the model that has been developed at the Royal Welsh College of Music and Drama, which has amalgamated with the University of Glamorgan without losing its name, its chair of governors or, indeed, its sense of identity. That is one possible way forward if there really is a strong business case for a single post-1992

Nid yw'r ffaith ein bod wedi bod yn ymdrechu i gael un sefydliad ôl-1992 yn ne-ddwyrain Cymru ers 2003, ynddo'i hun, yn profi mai dyma'r penderfyniad cywir. Nid yw bob amser yn syniad da cicio tin caseg farw, er nad wyf yn dweud mai dyna sy'n digwydd yn yr achos hwn o reidrwydd. Edrychaf ymlaen at weld y wybodaeth y bydd y Gweinidog yn ei chyhoeddi. Fodd bynnag, rwyf yn pryderu bod gennym ddeialog hyd farwolaeth yn digwydd yn ne-ddwyrain Cymru ar hyn o bryd. Mae gennyf ddiddordeb yn y model sydd wedi ei ddatblygu yn y Coleg Brenhinol Cerdd a Drama, sydd wedi cyfuno â Phrifysgol Morgannwg heb golli ei enw, cadeirydd ei lywodraethwyr nac, yn wir, ei hunaniaeth. Dyna un ffordd bosibl ymlaen os oes achos busnes cryf mewn gwirionedd dros gael un

institution in south-east Wales. I wonder if there is any possibility of developing that out of the not-very-fruitful negotiations and discussions so far.

sefydliad ôl-1992 yn ne-ddwyrain Cymru. Tybed a oes unrhyw bosibilrwydd o ddatblygu hynny o'r trafodaethau a'r trafodaethau aflwyddiannus braidd a gafwyd hyd yn hyn.

4.45 p.m.

**Leighton Andrews:** I do not think that we are at the stage of negotiations: we are carrying out a consultation exercise. The example of the Royal Welsh College of Music and Drama is a very specific one. There is no question that the relationship between the Royal Welsh College of Music and Drama and the University of Glamorgan has contributed to the royal Welsh college being able to develop an iconic, splendid new building in the centre of Cardiff, which is the envy of many institutions around the UK. There have been changes to its chair of governors during the period that it has been within the University of Glamorgan group. We have said all along that in any move to a new post-1992 institution in south-east Wales, it is important that we seek to do what we can to protect, for example, the civic identity of Newport—I pick that example because it is an obvious and clear example. There may be other ways in which we can develop other issues, and if the Member has any ideas, then we would of course be willing to hear them.

**Leighton Andrews:** Nid wyf yn credu ein bod wedi cyrraedd cam y trafodaethau: rydym yn cynnal ymarfer ymgynghori. Mae enghraifft y Coleg Brenhinol Cerdd a Drama yn un penodol iawn. Nid oes amheuaeth bod y berthynas rhwng Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Phrifysgol Morgannwg wedi cyfrannu at alluogi coleg brenhinol Cymru i ddatblygu adeilad eiconig, ysblennydd newydd yng nghanol Caerdydd, sydd yn destun eiddigedd llawer o sefydliadau ledled y DU. Mae cadeirydd ei lywodraethwyr wedi newid yn ystod y cyfnod y mae wedi bod o fewn grŵp Prifysgol Morgannwg. Rydym wedi dweud o'r dechrau ei bod yn bwysig i ni geisio gwneud yr hyn a allwn, wrth symud at unrhyw sefydliad ôl-1992 newydd yn ne-ddwyrain Cymru, i amddiffyn hunaniaeth ddinesig Casnewydd er enghraifft—dewisaf yr enghraifft honno oherwydd ei bod yn enghraifft amlwg a chlir. Efallai y bydd ffyrdd eraill y gallwn ddatblygu materion eraill, ac os oes gan yr Aelod unrhyw syniadau, yna byddem wrth gwrs yn barod i wrando arnynt.

My preference is very much for a voluntary merger to take place, but, at the end of the day, we have to make real judgments in this place, as a Government, as to where we put public support, through the Higher Education Funding Council for Wales. We must also make real judgments as a Government as to how the higher education sector in Wales develops. I repeat that it was the Audit Committee of this Assembly—the predecessor of the current Public Accounts Committee—that said that the Welsh Government and HEFCW should be more robust in this process.

Byddai'n llawer gwell gennyf i weld sefydliadau'n uno'n wirfoddol, ond, ar ddiwedd y dydd, mae'n rhaid i ni wneud dyfarniadau go iawn yn y lle hwn, fel Llywodraeth, o ran ble rydym yn rhoi cefnogaeth gyhoeddus, drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Rhaid i ni hefyd wneud dyfarniadau go iawn fel Llywodraeth ynghylch sut mae'r sector addysg uwch yng Nghymru yn datblygu. Dywedaf eto mai Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad hwn—rhagflaenydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus presennol—a ddywedodd y dylai Llywodraeth Cymru a CCAUC fod yn fwy cadarn yn y broses hon.

**Mark Isherwood:** The Minister's dismissal of my colleague, the shadow education minister, Angela Burns, and of my Liberal Democrat colleague over there, as

**Mark Isherwood:** Mae'r ffaith i'r Gweinidog ddiystyru fy nghydweithiwr, gweinidog yr wrthblaid dros addysg, Angela Burns, a'm cydweithiwr acw yn y

‘ridiculous’ or ‘silly’ is perhaps more indicative of his whole approach to this issue, and perhaps others outside will hear how you respond to those who raise considered matters regarding a serious issue.

Democratiaid Rhyddfrydol, fel bod yn ‘chwerthinllyd’ neu’n ‘wirion’ efallai yn dangos ei agwedd gyffredinol at y mater hwn, ac efallai y bydd pobl eraill y tu allan yn clywed sut rydych yn ymateb i bobl sy’n codi materion ystyriol ar bwnc difrifol.

How do you continue to argue that smaller will automatically deliver stronger universities and independent bodies? The report by Sir Deian Hopkin, a distinguished academic, four years ago advised Ministers against merging Cardiff Metropolitan University, the University of Glamorgan and the University of Wales, Newport,

Sut rydych chi’n parhau i ddadlau y bydd prifysgolion a chyrff annibynnol llai o reidrwydd yn rhai cryfach? Roedd adroddiad Syr Deian Hopkin, academydd o fri, bedair blynedd yn ôl yn cynghori Gweinidogion yn erbyn uno Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd,

‘in light of the lessons learnt from mergers and the lack of agreement on the strength of the business case’,

yng ngoleuni gwersi a ddysgwyd o achosion o uno a diffyg cytundeb ar gryfder yr achos busnes,

and in light of evidence, which I now have, compiled by the Assembly research service, which shows that comparing the size of each university against the three different league table rankings does not show any clear relationship that universities with a small number of students have higher rankings in university league tables. I will give two short examples—

ac yng ngoleuni tystiolaeth, sydd gennyf yn awr, a luniwyd gan wasanaeth ymchwil y Cynulliad. Mae’r dystiolaeth hon yn dangos na welir, wrth gymharu maint pob prifysgol â’u safleoedd yn y tabl cynghrair, unrhyw berthynas glir i ddangos bod prifysgolion sydd â nifer fach o fyfyrwyr mewn safleoedd uwch yn nhablau cynghrair prifysgolion. Dyma ddwy enghraifft fer—

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** Order. You are well out of time, Mark.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Trefn. Rydych wedi cymryd llawer gormod o amser, Mark.

**Mark Isherwood:** Okay. My final question is this: how would you respond to research regarding the north-east Wales consultation, which I have also taken part in, which demonstrates that HEFCW is currently investing 3.84 times more cash per person in south-east Wales, and 3.46 times in south-west Wales than in mid and north-east Wales? That obviously generates a significant economic multiplier effect in those parts that they are missing out on in the north-east.

**Mark Isherwood:** Iawn. Dyma fy nghwestiwn olaf: sut byddech chi’n ymateb i waith ymchwil ynghylch yr ymgynghoriad yn y gogledd-ddwyrain, yr wyf hefyd wedi cymryd rhan ynddo, sy’n dangos bod CCAUC ar hyn o bryd yn buddsoddi 3.84 gwaith yn fwy o arian y pen yn ne-ddwyrain Cymru, a 3.46 gwaith yn fwy yn ne-orllewin Cymru nag yng nghanolbarth a gogledd-ddwyrain Cymru? Mae hynny’n amlwg yn cynhyrchu effaith lluosydd economaidd sylweddol nad ydynt yn eu mwynhau yn y gogledd-ddwyrain.

**Leighton Andrews:** The Member needs to follow the logic through of what he has just said in respect of north-east Wales. We have established a review for north-east Wales, but if he wishes to give evidence to that review, I would welcome that; other Members have given evidence on that subject as well. The

**Leighton Andrews:** Mae angen i’r Aelod ddilyn rhesymeg yr hyn y mae newydd ei ddweud yng nghyswllt gogledd-ddwyrain Cymru. Rydym wedi sefydlu adolygiad ar gyfer gogledd-ddwyrain Cymru, ond os bydd yn dymuno rhoi tystiolaeth i’r adolygiad hwnnw, byddwn yn croesawu hynny; mae

purpose of the review is to look at how we strengthen the delivery of higher education in north-east Wales, including research, which is an important issue. The Member quotes from previous reports and I would say to him that the most recent report from Professor Sir Steve Smith has clearly made the case, yet again, for a merger in south-east Wales. I suspect that if people look at these issues with a cool head, they will draw similar conclusions.

Aelodau eraill wedi rhoi tystiolaeth ar y pwnc yn ogystal. Diben yr adolygiad yw ystyried sut y gallwn gryfhau'r ddarpariaeth addysg uwch yng ngogledd-ddwyrain Cymru, gan gynnwys ymchwil, sy'n fater pwysig. Mae'r Aelod yn dyfynnu o adroddiadau blaenorol a byddwn yn dweud wrtho bod yr adroddiad mwyaf diweddar gan yr Athro Syr Steve Smith wedi cyflwyno'r achos yn eglur, unwaith eto, o blaid uno yn ne-ddwyrain Cymru. Rwyf yn amau y byddai pobl yn dod i gasgliadau tebyg pe byddent yn edrych ar y materion hyn yn ddiemosiwn.

## Penderfyniad Ariannol ynghylch Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)
## Financial Resolution in relation to the Food Hygiene Rating (Wales) Bill

*Cynnig NNDM5065 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o Fil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69(ii) sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.*

*Motion NNDM5065 Jane Hutt*

*To propose that the National Assembly for Wales, for the purposes of any provisions resulting from the Food Hygiene Rating (Wales) Bill, agrees to any increase in expenditure of a kind referred to in Standing Order 26.69(ii), arising in consequence of the Bill.*

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** I move the motion.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Cynigiaf y cynnig.

**Rhodri Glyn Thomas:** Nid oes unrhyw un wedi mynegi diddordeb i siarad, felly nid oes dadl i ymateb iddi. Y cynnig felly yw ein bod yn cytuno ar y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

**Rhodri Glyn Thomas:** Nobody has indicated an interest to speak, therefore there is no debate to reply to. The proposal therefore is to agree the motion. Does any Member object? I see that there is no objection. Therefore, the proposal is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

## Cynnig i Gymeradwyo Egwyddorion Cyffredinol Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)
## Motion to Approve the General Principles of the School Standards and Organisation (Wales) Bill

*Cynnig NDM5070 Leighton Andrews*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:*

*Motion NDM5070 Leighton Andrews*

*To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.11:*

*Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru).*
*Gosodwyd Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 23 Ebrill 2012.*

*Agrees to the general principles of the School Standards and Organisation (Wales) Bill.*
*The School Standards and Organisation (Wales) Bill and Explanatory Memorandum were laid before the Assembly on 23 April 2012.*

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** I move the motion.

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Cynigiaf y cynnig.

I am pleased to have the opportunity to open the debate on the general principles of the School Standards and Organisation (Wales) Bill, which I introduced in April of this year. As Members will be aware, education is at the heart of this Welsh Government's programme for government, and the proposals within this first education Bill are aimed at strengthening school standards, improving the way that schools are organised and reducing complexity in the system.

Rwyf yn falch o gael y cyfle i agor y ddadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru), a gyflwynais ym mis Ebrill eleni. Fel y bydd Aelodau'n ymwybodol, mae addysg wrth wraidd rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraethu, ac mae'r cynigion yn y Bil addysg cyntaf yn cael eu hanelu at gryfhau safonau ysgolion, gwella'r ffordd y mae ysgolion yn cael eu trefnu a lleihau cymhlethdod yn y system.

I am grateful to Christine Chapman and members of the Children and Young People Committee, and to David Melding and members of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, for their careful and thorough scrutiny. I am also grateful for evidence provided by witnesses during the Stage 1 committee sessions. I also welcome, and am encouraged by, the general consensus in favour of the Bill.

Rwyf yn ddiolchgar i Christine Chapman ac aelodau'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, ac i David Melding ac aelodau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, am eu gwaith craffu gofalus a thrylwyr. Rwyf hefyd yn ddiolchgar am y dystiolaeth a ddarparwyd gan dystion yn ystod y sesiynau pwyllgor Cam 1. Rwyf hefyd yn croesawu, ac wedi fy nghalonogi gan, y consensws cyffredinol o blaid y Bil.

I would like to address some of the points raised by the committees. A number of the issues raised in the reports are very valid and I aim to respond positively to the majority of them, to give Members undertakings in relation to these where I can at this stage, and to explain where recommendations, as a matter of policy or practicality, could not be delivered.

Hoffwn i fynd i'r afael â rhai o'r pwyntiau a godwyd gan y pwyllgorau. Mae nifer o'r materion a godwyd yn yr adroddiadau yn ddilys iawn, ac rwy'n bwriadu ymateb yn gadarnhaol i'r mwyafrif ohonynt, er mwyn rhoi ymgymeriadau i Aelodau mewn perthynas â'r rhain lle y gallaf ar hyn o bryd, ac i esbonio ble na ellid cyflawni argymhellion, fel mater o bolisi neu ymarferoldeb.

I am pleased to see that there was broad support for the move to consolidate and clarify existing legislation in respect of intervention in schools. In response to the Children and Young People Committee's recommendations, I can confirm that I will be issuing statutory guidance to local authorities setting out the key sources of information that might indicate that grounds for intervention exist. The guidance will make clear that local authorities and Welsh

Rwy'n falch o weld bod cefnogaeth gyffredinol i'r symudiad i atgyfnerthu ac egluro deddfwriaeth bresennol yn ymwneud ag ymyrryd mewn ysgolion. Mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, gallaf gadarnhau y byddaf yn cyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau lleol yn nodi'r ffynonellau allweddol o wybodaeth a allai fod yn arwydd bod sail ar gyfer ymyriad yn bodoli. Bydd y canllawiau'n ei gwneud yn glir bod disgwyl i awdurdodau lleol a

Ministers are expected to consider the full range of quantitative and qualitative evidence available in determining whether a warning notice is justified. However, I do not intend to prescribe the weight that should be attached to any particular form of evidence, as that is best done on the facts of each case.

Gweinidogion Cymru ystyried yr ystod lawn o dystiolaeth feintiol ac ansoddol sydd ar gael wrth benderfynu a oes cyfiawnhad dros hysbysiad rhybuddio. Fodd bynnag, nid wyf yn bwriadu pennu'r pwysau y dylid ei gysylltu i unrhyw fath penodol o dystiolaeth, gan fod hynny'n cael ei wneud orau ynghylch ffeithiau pob achos.

In respect of intervention in local authorities, I agree that the explanatory memorandum would benefit from a comprehensive explanation of the powers of direction and when they might appropriately be exercised. This, I will provide. The question of my providing guidance as to the meaning of the term 'adequate' has come up. A court would apply the plain and ordinary meaning of the word, which is 'satisfactory and acceptable'. What would constitute 'satisfactory and acceptable' would depend on all of the circumstances of a case. As such, I consider that providing guidance on this would be neither helpful nor appropriate.

O ran ymyriad mewn awdurdodau lleol, rwyf yn cytuno y byddai'r memorandwm esboniadol yn elwa o eglurhad cynhwysfawr ar y pwerau cyfarwyddo a phryd y gellid eu hymarfer yn briodol. Fe wnaf i ddarparu hyn. Mae'r cwestiwn wedi codi o gael canllawiau gennyf i ynghylch ystyr y term 'digonol'. Byddai llys yn defnyddio ystyr plaen a chyffredin y gair, sef 'boddhaol a derbyniol'. Mae'r hyn fyddai'n golygu 'boddhaol a derbyniol' yn dibynnu ar holl amgylchiadau'r achos. Fel y cyfryw, rwyf o'r farn na fyddai darparu arweiniad ar hyn yn ddefnyddiol nac yn briodol.

There must be a consistent and reasonable approach to intervention, and so the Welsh Government, in conjunction with the Welsh Local Government Association and the main regulators, is developing a protocol on intervention in local authorities. I will have due regard to that protocol and so do not propose to issue guidance on how Ministers should exercise these functions.

Rhaid cael ymagwedd gyson a rhesymol i ymyriad, ac felly mae Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r prif rheoleiddwyr, yn datblygu protocol ar ymyriad mewn awdurdodau lleol. Byddaf yn rhoi sylw dyledus i'r protocol ac felly nid wyf yn bwriadu cyhoeddi canllawiau ar sut y dylai Gweinidogion ymarfer y swyddogaethau hyn.

Moving on to school improvement guidance, again I welcome the general consensus of committee members in favour of this provision in the Bill. I also agree that the issues raised in the report in terms of these provisions have some merit, particularly the references to the consultation requirements in the Bill. I propose, therefore, to bring forward a Government amendment at a later stage to require Welsh Ministers to consult with Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales on any draft school improvement guidance.

Gan symud ymlaen at ganllawiau gwella ysgolion, eto rwy'n croesawu'r consensws cyffredinol o aelodau'r pwyllgor o blaid y ddarpariaeth hon yn y Bil. Rwyf hefyd yn cytuno bod rhywfaint o werth i'r materion a godwyd yn yr adroddiad o ran y darpariaethau hyn, yn enwedig y cyfeiriadau at y gofynion ymgynghori yn y Bil. Cynigiaf, felly, i gyflwyno gwelliant y Llywodraeth yn nes ymlaen i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar unrhyw ganllawiau gwella ysgolion drafft.

At the same time, I would also like to reassure Members that I am fully committed to consulting widely on the statutory school improvement guidance. An example of this is

Ar yr un pryd, byddwn hefyd yn hoffi sicrhau Aelodau fy mod wedi ymrwymo'n llwyr i ymgynghori'n eang ar y canllawiau gwella ysgolion statudol. Un enghraifft o hyn

our close working with a practitioner-led quality assurance group and Estyn to develop the high-quality teaching resources website, successfully launched last month.

yw ein cydweithio agos gyda grŵp sicrhau ansawdd dan arweiniad ymarferwyr ac Estyn i ddatblygu'r wefan adnoddau addysgu o ansawdd uchel, a lansiwyd yn llwyddiannus y mis diwethaf.

I am also pleased to see that the fundamental principles of the school organisation proposals in the Bill have been widely supported. It is perhaps inevitable that there is some disagreement around the operation of the local determination panels. I have considered carefully the committee's recommendations on this matter. On the subject of independent decision making, I am satisfied that the principle is already embedded in the Bill, but will consider in what way this can be further enhanced.

Rwyf hefyd yn falch o weld bod egwyddorion sylfaenol y cynigion trefniadaeth ysgolion yn y Bil wedi cael cefnogaeth eang. Efallai ei bod yn anochel bod rhywfaint o anghytundeb ynghylch gweithrediad y paneli dyfarnu lleol. Rwyf wedi ystyried argymhellion y pwyllgor ar y mater hwn yn ofalus. Ar y pwnc o wneud penderfyniadau annibynnol, rwyf yn fodlon bod yr egwyddor yn cael ei hymgorffori eisoes yn y Bil, ond byddaf yn ystyried ym mha ffordd y gellir gwella hyn ymhellach.

I agree with the recommendation to review the operation and cost of local determination panels and I would want to rectify any operational problems identified as soon as possible. Putting more detail in the Bill on the operation of LDPs would slow this process, in the same way as changing how LPDs work would require time-consuming amendment to primary legislation. While I will be publishing more of the sort of detail requested by the committee, I will be doing so in the statutory code, as I think that this is a more appropriate place for it.

Rwy'n cytuno â'r argymhelliad i adolygu gweithrediad a chost paneli dyfarnu lleol a hoffwn gywiro unrhyw broblemau gweithredol a nodwyd cyn gynted ag y bo modd. Byddai rhoi mwy o fanylion yn y Bil ar weithrediad PDLl yn arafu'r broses hon, yn yr un ffordd ag y byddai newid sut y mae PDLl yn gweithio yn gofyn am ddiwygiad sy'n mynd ag amser i ddeddfwriaeth sylfaenol. Er y byddaf yn cyhoeddi mwy o'r math o fanylion y gofynnodd y pwyllgor, amdanynt byddaf yn gwneud hynny yn y cod statudol, gan fy mod yn credu bod hwn yn lle mwy addas ar eu cyfer.

One of the things specifically mentioned in the code is the possibility of local authorities collaborating regionally to deliver local determination panels. I recognise that there are advantages to such a model, including greater scope for the development of experience and expertise among LDP members and clerks, and a larger group of individuals from which to choose, who would have no connection to a proposal. The code, which will be issued for consultation tomorrow, should provide some reassurance in relation to these matters.

Un o'r pethau a grybwyllir yn benodol yn y cod yw'r posibilrwydd o awdurdodau lleol yn cydweithio'n rhanbarthol i ddarparu paneli dyfarnu lleol. Rwy'n cydnabod bod manteision i fodel o'r fath, gan gynnwys mwy o gyfle ar gyfer datblygu profiad ac arbenigedd ymhlith aelodau a chlercod y PDLl, a grŵp mwy o unigolion i ddewis ohonynt, na fyddai ganddynt unrhyw gysylltiad â chynnig. Dylai'r cod, fydd yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad yfory, roi rhywfaint o sicrwydd mewn perthynas â'r materion hyn.

I cannot accept the recommendations from the Constitutional and Legislative Affairs Committee that Welsh Ministers' powers to make directions by Order should be subject to Assembly procedures. These powers are executive in nature, allowing Welsh Ministers to act swiftly where there are

Ni allaf dderbyn yr argymhellion gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylai pwerau Gweinidogion Cymru i wneud cyfarwyddiadau trwy Orchymyn fod yn ddarostyngedig i weithdrefnau'r Cynulliad. Mae'r pwerau hyn yn weithredol o ran natur,

specific gaps in provision or wasteful over-provision. They do not change the law and should not need to be subject to legislative scrutiny. Making Members aware of the exercise of these powers is a different matter, and I have already discussed before committee how I might do so. To remove any confusion in relation to that matter, I am considering a Government amendment to remove the need to make these directions by way of an Order.

sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru weithredu'n gyflym lle mae bylchau penodol yn y ddarpariaeth neu orddarpariaeth wastraffus. Nid ydynt yn newid y gyfraith ac ni ddylent fod yn ddarostyngedig i graffu deddfwriaethol. Mae gwneud Aelodau yn ymwybodol o arfer y pwerau hyn yn fater gwahanol, ac rwyf eisoes wedi trafod gerbron y pwyllgor sut y gallwn wneud hynny. Er mwyn cael gwared ar unrhyw ddryswch mewn perthynas â'r mater, rwyf yn ystyried gwelliant gan y Llywodraeth i ddileu'r angen i wneud y cyfarwyddiadau drwy gyfrwng Gorchymyn.

In relation to Welsh in education strategic plans, I welcome the support of the Children and Young People Committee for making these plans statutory. This is the first time the Welsh Government has proposed legislation that relates specifically to Welsh-medium education. We are therefore determined to get this right and to ensure that these plans are effective. With that in mind, I accept both of the committee recommendations in principle. I do this because local authorities, in preparing their Welsh in education strategic plans, will use information obtained through parental surveys of demand for Welsh-medium education. Where such demand has been identified, the WESP will set out how the local authority will ensure that sufficient Welsh-medium school places will be provided to meet this demand. To support this, the Bill will then require local authorities to take all reasonable steps to implement the actions set out in their Welsh in education strategic plans.

Mewn perthynas â'r Gymraeg mewn cynlluniau strategol addysg, rwy'n croesawu cefnogaeth y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar gyfer gwneud y cynlluniau hyn yn statudol. Dyma'r tro cyntaf y mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig deddfwriaeth sy'n ymwneud yn benodol ag addysg cyfrwng Cymraeg. Rydym yn benderfynol felly i gael hyn yn iawn ac i sicrhau fod y cynlluniau hyn yn effeithiol. Gyda hynny mewn golwg, rwyf yn derbyn dau argymhelliad y pwyllgor mewn egwyddor. Rwy'n gwneud hyn oherwydd bod awdurdodau lleol, wrth baratoi eu cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg, yn defnyddio gwybodaeth a gafwyd drwy arolygon rhieni o'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Lle mae galw o'r fath wedi cael ei nodi, bydd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn pennu sut y bydd yr awdurdod lleol yn sicrhau y bydd digon o leoedd ysgol cyfrwng Cymraeg yn cael eu darparu i ateb y galw hwn. I gefnogi hyn, bydd y Bil wedyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd pob cam rhesymol i weithredu'r camau a nodir yn eu cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg.

With regard to their financing, any costs likely to arise from any new demand identified for Welsh-medium education would, of necessity, be explored and determined in the process of drawing up the plan. As a matter of prudence, local authorities would ensure that plans for future expansion would correspond with applications for twenty-first century schools funding, as well as the use of the local authority's own unhypothecated funding. Therefore, while I believe that the Bill fundamentally delivers the spirit of the

O ran eu cyllido, byddai unrhyw gostau sy'n debygol o godi o unrhyw alw newydd a nodwyd ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, o reidrwydd, yn cael eu harchwilio a'u penderfynu yn y broses o lunio'r cynllun. Fel mater o ddarbodaeth, byddai awdurdodau lleol yn sicrhau y byddai cynlluniau ar gyfer ehangu yn y dyfodol yn cyfateb â cheisiadau am gyllid ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, yn ogystal â'r defnydd o gyllid heb ei neilltuo yr awdurdod lleol ei hun. Felly, er fy mod yn credu bod y Bil yn y bôn yn darparu ysbryd argymhellion y pwyllgor, o ystyried y

committee’s recommendations, given the dependencies in relation to capital funding and statutory and planning approvals, it would not be prudent to go further than this and to place an absolute duty on local authorities.

dibyniaethau mewn perthynas â chyllid cyfalaf a chymeradwyaeth statudol a chynllunio, ni fyddai’n ddoeth i fynd ymhellach na hyn ac i osod dyletswydd absoliwt ar awdurdodau lleol .

In respect of parents meetings, I understand why the committee has recommended that the number of parents of registered pupils required to trigger a parents meeting should be expressed by way of a sliding scale and, on reflection, I agree that the current system is not quite right. I have considered further, as recommended, and feel that a sliding scale is also not right and would prove both confusing and difficult to administer, especially given the fluctuation in school rolls. Therefore, I have instructed my officials to explore alternate proposals, with a view to bringing forward a Government amendment to reshape the trigger points.

O ran cyfarfodydd rhieni, rwy’n deall pam y mae’r pwyllgor wedi argymell y dylai’r nifer o rieni disgyblion cofrestredig sydd eu hangen i sbarduno cyfarfod rhieni gael eu mynegi trwy gyfrwng graddfa symudol ac, ar ôl ystyried, rwy’n cytuno nad yw’r system bresennol yn hollol iawn. Rwyf wedi ystyried ymhellach, fel yr argymhellir, ac rwy’n teimlo nad yw graddfa symudol yn hollol iawn chwaith a byddai’n profi’n ddryslyd ac yn anodd ei gweinyddu, yn enwedig o ystyried yr amrywiad mewn cofrestrau ysgol. Felly, rwyf wedi cyfarwyddo fy swyddogion i archwilio cynigion eraill, gyda golwg ar gyflwyno gwelliant gan y Llywodraeth i ail-lunio’r pwyntiau sbarduno.

Turning to the free breakfast initiative, I am pleased that the Children and Young People Committee recognises the importance of this initiative and that it welcomes the legislative proposals in this area. Taking into account the committee’s views, I will ensure that the guidance to support the operation of the initiative sets out a range of factors, including level of demand, facilities, staffing and pupil and parental need that should be considered by a local authority when determining—on a case by case basis, reflecting on specific local issues— whether the provision of a free school breakfast service is unreasonable.

Gan droi at y fenter brecwast am ddim, rwyf yn falch bod y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn cydnabod pwysigrwydd y fenter a’i fod yn croesawu’r cynigion deddfwriaethol yn y maes hwn. Gan ystyried barn y pwyllgor, byddaf yn sicrhau bod yr arweiniad i gefnogi gweithrediad y fenter yn manylu ystod o ffactorau, gan gynnwys lefel y galw, cyfleusterau, staffio a disgyblion ac angen disgyblion a rhieni y dylai awdurdod lleol eu hystyried wrth benderfynu—fesul achos, gan adlewyrchu ar faterion lleol penodol—a yw’r ddarpariaeth o wasanaeth brecwast ysgol am ddim yn afresymol.

In opening, I have picked up on some of the main recommendations of the report and have discussed them. However, I confirm that all of the recommendations made have been carefully considered and will be acted on as appropriate.

Wrth agor, rwyf wedi codi rhai o brif argymhellion yr adroddiad ac wedi eu trafod. Sut bynnag, rwyf yn cadarnhau bod yr holl argymhellion a wnaed wedi cael eu hystyried yn ofalus a gweithredir arnynt fel y bo’n briodol.

In conclusion, I thank the committees for their constructive engagement and ideas for improving the Bill, and I am greatly encouraged by the support shown for the Bill by stakeholders during the Stage 1 committee sessions. I urge Members to take the same view and to support the Bill today.

I gloi, hoffwn ddiolch i’r pwyllgorau am eu cyfraniad adeiladol a syniadau ar gyfer gwella’r Bil, ac rwyf wedi fy nghalonogi’n fawr gan y gefnogaeth a ddangoswyd ar gyfer y Bil gan randdeiliaid yn ystod y sesiynau pwyllgor Cam 1. Anogaf yr Aelodau i gymryd yr un safbwynt a chefnogi’r Bil heddiw.

**Christine Chapman:** I am pleased to be able to contribute to today's debate on behalf of the Children and Young People Committee. The committee's role was to consider and report on the general principles of the Bill, and our report was laid before the Assembly on 12 October. I would like to thank all those who contributed to our work by submitting evidence.

**Christine Chapman:** Rwyf yn falch o allu cyfrannu at y ddadl heddiw ar ran y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. Rôl y pwyllgor oedd ystyried a chyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil, ac roedd ein hadroddiad gerbron y Cynulliad ar 12 Hydref. Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd at ein gwaith drwy gyflwyno tystiolaeth.

Turning to the committee's consideration of the general principles, there was broad support for the main aims of the Bill in the evidence that we received. That said, we recognise and, in some cases, share the concerns raised in evidence about some of the provisions in the Bill. I will deal with these in turn, and I am aware of the Minister's comments on these.

Gan droi at ystyriaeth y pwyllgor o'r egwyddorion cyffredinol, roedd cefnogaeth eang i brif amcanion y Bil yn y dystiolaeth a gawsom. Wedi dweud hynny, rydym yn cydnabod ac, mewn rhai achosion, yn rhannu'r pryderon a godwyd yn y dystiolaeth am rai o'r darpariaethau yn y Bil. Byddaf yn delio â'r rhain yn eu tro, ac rwyf yn ymwybodol o sylwadau'r Gweinidog ar y rhain.

5.00 p.m.

First, on an overarching point, we recognise the existing statutory duty on Welsh Ministers to have regard to the United Nations Convention on the Rights of the Child when legislating. However, in view of the strong evidence received, and in order to actively demonstrate the Government's commitment to the agenda on the rights of children and young persons, we recommend that the Bill include an explicit reference to the UNCRC.

Yn gyntaf, ar bwynt cyffredinol, rydym yn cydnabod y ddyletswydd statudol bresennol ar Weinidogion Cymru i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth ddeddfu. Fodd bynnag, yn wyneb y dystiolaeth gref a dderbyniwyd, ac er mwyn dangos ymrwymiad y Llywodraeth i'r agenda ar hawliau plant a phobl ifanc, rydym yn argymell bod y Bil yn cynnwys cyfeiriad penodol at y CCUHP.

On standards, regarding the provisions on intervention, the committee recognises the benefits of bringing together the law in this area. This will ensure clarity and consistency across local authorities and the wider school community. However, that said, it is clear from the evidence received that confusion remains regarding the grounds for intervention set out in the Bill and, although I have heard the Minister's comments on this, we seek to address this by recommending that the Minister include specific detail in guidance on the grounds.

Ar safonau, ynghylch y darpariaethau ar ymyriad, mae'r pwyllgor yn cydnabod y manteision o ddwyn ynghyd y gyfraith yn y maes hwn. Bydd hyn yn sicrhau eglurder a chysondeb ar draws yr awdurdodau lleol a'r gymuned ysgol ehangach. Fodd bynnag, wedi dweud hynny, mae'n amlwg o'r dystiolaeth a dderbyniwyd bod dryswch yn parhau ynghylch y sail ar gyfer ymyriad a nodir yn y Bil, ac, er fy mod wedi clywed sylwadau'r Gweinidog am hyn, rydym yn ceisio mynd i'r afael â hyn drwy argymell bod y Gweinidog yn cynnwys manylion penodol yn y canllawiau ar y sail.

On the powers of intervention, we accept the need to ensure that local authorities and Welsh Ministers have the necessary range of powers to enable them to intervene effectively when required. Again, in response

Ar y pwerau ymyrryd, rydym yn derbyn yr angen i sicrhau bod awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru yn cael yr ystod angenrheidiol o bwerau er mwyn eu galluogi i ymyrryd yn effeithiol pan fydd angen.

to the concerns raised in evidence about the extent of these powers, we recommend that the Minister provide additional information and advice on how and when certain powers can be exercised.

Unwaith eto, mewn ymateb i'r pryderon a godwyd yn y dystiolaeth am gwmpas y pwerau hyn, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn darparu gwybodaeth ychwanegol a chyngor ar sut a phryd y gellir ymarfer rhai pwerau.

On the school improvement guidance, the majority of those giving evidence supported the introduction of statutory guidance on school improvement, at least in principle. We welcome the aim of the guidance. Where best practice exists in schools, it is right that it is utilised for the wider benefit of pupils, where appropriate. We share the views of respondents that the involvement of the teaching profession and other education experts in drawing up the guidance will be key to ensuring its success. While the Bill requires Welsh Ministers to consult relevant school authorities on the draft guidance, given Estyn's wider role of promoting the spread of good practice, we recommend that it be named as a statutory consultee.

Ar y canllawiau gwella ysgolion, mae'r mwyafrif o'r rhai a roddodd dystiolaeth yn cefnogi cyflwyno'r canllawiau statudol ar wella ysgolion, o leiaf mewn egwyddor. Rydym yn croesawu nod y canllawiau. Lle mae arfer gorau yn bodoli mewn ysgolion, mae'n briodol iddo gael ei ddefnyddio er budd ehangach y disgyblion, lle bo hynny'n briodol. Rydym yn rhannu barn yr ymatebwyr y bydd cynnwys y proffesiwn addysgu ac arbenigwyr addysg eraill wrth lunio'r canllawiau yn allweddol i sicrhau ei lwyddiant. Er bod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag awdurdodau ysgol perthnasol ar y canllawiau drafft, o gofio rôl ehangach Estyn o hyrwyddo lledaenu arfer da, rydym yn argymell ei fod yn cael ei enwi fel ymgynghorai statudol.

In relation to Part 3 of the Bill on school organisation, there was broad support in evidence for a statutory code on school organisation, which will, we hope, ensure clarity and consistency for all involved in such proposals. While the Bill includes a general requirement for the Minister to consult on the draft code, we share the views of respondents about the importance of full and meaningful consultation on what will inevitably be a key document.

Mewn perthynas â Rhan 3 o'r Bil ar drefniadaeth ysgolion, roedd cefnogaeth eang yn y dystiolaeth am god statudol ar drefniadaeth ysgolion, a fydd, gobeithio, yn sicrhau eglurder a chysondeb i bawb sy'n ymwneud â chynigion o'r fath. Er bod y Bil yn cynnwys gofyniad cyffredinol ar gyfer y Gweinidog i ymgynghori ar y cod drafft, rydym yn rhannu barn ymatebwyr am bwysigrwydd ymgynghori llawn ac ystyrlon ar beth fydd yn anochel yn ddogfen allweddol.

Moving on to the reform of existing arrangements for determining school organisation proposals, this is the area that raised particular concern among respondents. Like most of those giving evidence, we accept the need to reform the current arrangements. The categorisation of objectors provided for in the Bill seems to present a viable alternative to the existing single objector system. While we are content with the principle of categorisation, in view of the evidence, we recommend that the Minister give further consideration to the weighting given to specific groups of objectors, as outlined in our report.

Gan symud ymlaen at ddiwygio trefniadau presennol ar gyfer penderfynu ar gynigion trefniadaeth ysgolion, dyma'r maes a gododd bryder arbennig ymhlith ymatebwyr. Fel y rhan fwyaf o'r rhai oedd yn rhoi tystiolaeth, rydym yn derbyn yr angen i ddiwygio'r trefniadau presennol. Mae'r categoreiddio gwrthwynebwyr y darperir ar eu cyfer yn y Bil yn ymddangos i gyflwyno dewis arall ymarferol i'r system gwrthwynebydd sengl bresennol. Er ein bod yn fodlon â'r egwyddor o gategoreiddio, o ystyried y dystiolaeth, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi ystyriaeth bellach i'r pwysoliad a roddir i grwpiau penodol o wrthwynebwyr, fel yr

amlinellir yn ein hadroddiad.

We agree with the Minister that, where possible, decisions on school organisation proposals are best taken at a local level. However, it was clear from the evidence presented that most respondents had reservations, and, in some cases, serious reservations, about the use of local determination panels as a means of delivering this policy. In order for a system of local decision making to work, it must be, and be seen to be, fair, independent and to make impartial decisions that hold up to public scrutiny. The evidence we received suggested that, as currently drafted, the provisions in relation to LDPs do not provide adequately for these.

Rydym yn cytuno â'r Gweinidog ei bod yn well cymryd y penderfyniadau ar gynigion trefniadaeth ysgolion ar lefel leol, lle bo hynny'n bosibl,. Fodd bynnag, roedd yn amlwg o'r dystiolaeth a gyflwynwyd bod gan y rhan fwyaf o ymatebwyr amheuon, ac, mewn rhai achosion, amheuon difrifol, am y defnydd o baneli dyfarnu lleol fel modd o ddarparu'r polisi hwn. Er mwyn i system wneud penderfyniadau lleol weithio, rhaid iddi fod, a chael ei gweld yn bod, yn deg, yn annibynnol ac i wneud penderfyniadau diduedd sy'n dal dan bwysau craffu gan y cyhoedd. Mae'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu nad yw'r darpariaethau, fel y'u drafftiwyd ar hyn o bryd, mewn perthynas â PDLl, yn darparu'n ddigonol ar gyfer y rhain.

Given that we did not receive evidence of a viable alternative, and in the event that the Minister decides to pursue the LDP model, we recommend that the Bill be amended to ensure that the principle of independence is enshrined within the legislation, and that further provision be made in the Bill for the operation of LDPs. In view of our concerns, we recommend in our report that the Minister undertake to review of the operation of LDPs at the earliest opportunity, but, again, I note his comments.

O gofio nad ydym wedi derbyn tystiolaeth o ddewis amgen ymarferol, ac os bydd y Gweinidog yn penderfynu mynd ar drywydd y model PDLl, rydym yn argymell fod y Bil yn cael ei ddiwygio i sicrhau bod yr egwyddor o annibyniaeth yn cael ei ymgorffori o fewn y ddeddfwriaeth, a bod darpariaeth bellach cael eu gwneud yn y Bil ar gyfer gweithredu Paneli Dyfarnu Lleol. O ystyried ein pryderon, rydym yn argymell yn ein hadroddiad fod y Gweinidog yn ymrwymo i adolygu gweithrediad Paneli Darparu Lleol ar y cyfle cynharaf, ond, unwaith eto, nodaf ei sylwadau.

Moving on to the Welsh-in-education strategic plans, we share the support provided in evidence for the introduction of statutory plans to improve the planning for Welsh-medium education. Although the Bill provides for the improved planning and standards of Welsh-medium education, it does not explicitly provide for improved access to Welsh-medium education. Neither does it ensure that any increased demand for Welsh-medium provision that may arise as a result of improved assessment of demand is met. Again, we recommend that the Minister give consideration to addressing this issue ahead of Stage 2.

Gan symud ymlaen at y cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg, rydym yn rhannu'r gefnogaeth a ddarparwyd fel tystiolaeth ar gyfer cyflwyno cynlluniau statudol i wella'r cynllunio ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Er bod y Bil yn darparu ar gyfer gwell cynllunio a safonau addysg cyfrwng Cymraeg, nid yw'n benodol yn darparu ar gyfer gwell mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Nid yw chwaith yn sicrhau bod unrhyw alw cynyddol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a all godi o ganlyniad i asesiad gwell o'r galw yn cael ei fodloni. Unwaith eto, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi ystyriaeth i fynd i'r afael â'r mater hwn o flaen Cam 2.

On the miscellaneous school functions, as outlined by the Minister, Part 5 of the Bill makes provision for free school breakfasts

Ar swyddogaethau amrywiol yr ysgol, fel yr amlinellir gan y Gweinidog, mae Rhan 5 o'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer brecwast

and school-based counselling, with the aim of ensuring that these services continue following the transfer of funding from specific ring-fenced grants to the revenue support grant. While we welcome the move to legislate in these areas with a view to safeguarding these services, like many respondents, we are concerned about the effect of the transfer of funding on the level and quality of free school breakfast provision and school-based counselling provision. In order to help avoid this, in the case of free school breakfasts, we recommend that the Minister consider including in guidance the circumstances in which a local authority can determine that it would be unreasonable to make such provision.

ysgol am ddim a chwnsela yn seiliedig yn yr ysgol, gyda'r nod o sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn parhau yn dilyn trosglwyddo cyllid o grantiau penodol wedi'u neilltuo i'r grant cynnal refeniw. Er ein bod yn croesawu'r symudiad i ddeddfu yn y meysydd hyn gyda golwg ar ddiogelu'r gwasanaethau hyn, fel llawer o ymatebwyr, rydym yn pryderu am effaith y trosglwyddo cyllid ar lefel ac ansawdd y ddarpariaeth brecwast ysgol am ddim a darpariaeth cwnsela seiliedig yn yr ysgol. Er mwyn helpu i osgoi hyn, yn achos brecwastau ysgol am ddim, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried cynnwys yn y canllawiau dan ba amgylchiadau y gall awdurdod lleol benderfynu y byddai'n afresymol gwneud darpariaeth o'r fath.

Finally, on the financial implications of the Bill, in relation to local determination panels, we heard compelling evidence to suggest that the Minister has underestimated the costs associated with LDPs. Given the nature of the decisions to be made by these panels, and the potential complexity of cases and level of objections, the committee believes that the time and resources implications associated with their operation will be greater than has been anticipated. In his evidence to us, the Minister estimated the total cost of the Bill as £20 million, of which £0.8 million is available to meet the implementation cost of provisions other than those relating to free school breakfasts and school-based counselling. This figure includes the implementation cost—

Yn olaf, ar oblygiadau ariannol y Bil, mewn perthynas â phaneli dyfarnu lleol, clywsom dystiolaeth gref i awgrymu bod y Gweinidog wedi tanamcangyfrif y costau sy'n gysylltiedig â PDLlau. O ystyried natur y penderfyniadau sydd i'w gwneud gan y paneli hyn, a chymhlethdod posibl yr achosion a lefel y gwrthwynebiadau, mae'r pwyllgor yn credu y bydd y goblygiadau amser ac adnoddau sy'n gysylltiedig â'u gweithredu yn fwy nag a ragwelwyd. Yn ei dystiolaeth i ni, roedd y Gweinidog yn amcangyfrif bod cyfanswm cost y Bil yn £20 miliwn, ac mae £0.8 miliwn o hwn ar gael i dalu costau gweithredu darpariaethau ar wahân i'r rhai sy'n ymwneud â brecwast ysgol am ddim a chwnsela mewn ysgolion. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys cost gweithredu—

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** Order. Can you draw your contribution to a close?

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Trefn. Allwch chi ddod â'ch cyfraniad i ben?

**Christine Chapman:** This figure includes the implementation cost of the school improvement guidance, estimated at £1.7 million for one priority policy area.

**Christine Chapman:** Mae'r ffigur hwn yn cynnwys cost gweithredu'r canllawiau gwella ysgolion, a amcangyfrifir yn £1.7 miliwn ar gyfer un maes polisi â blaenoriaeth.

In conclusion, we agree with the principles of the Bill, and we hope that the Minister will accept the conclusions and recommendations contained in our report and, where necessary, bring forward amendments at Stage 2.

I gloi, rydym yn cytuno ag egwyddorion y Bil, ac rydym yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn derbyn y casgliadau a'r argymhellion a geir yn ein hadroddiad a, lle bo angen, yn cyflwyno gwelliannau yng Ngham 2.

**Simon Thomas:** Siaradaf yn y ddadl ar ran aelodau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a'r Cadeirydd, David Melding, nad yw'n gallu bod yn bresennol heddiw. Fel y gwyddoch, mae cylch gwaith y pwyllgor yn cynnwys adrodd ar ddarpariaethau ym Miliau'r Cynulliad sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaethau. Hynny yw, nid ydym yn adrodd ar y polisiau ond ar y pwerau sydd yn y Bil. Dyna sylwedd ein cyfraniad fel pwyllgor i'r ddadl heddiw.

Hoffwn ddweud ar y cychwyn nad yw'r pwyllgor yn gweld unrhyw reswm pam na ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil, ond roedd gennym rai argymhellion ynglŷn â phwerau'r Gweinidog yn y Bil.

Mae'r Bil yn cynnwys nifer o ddarpariaethau is-ddeddfu, ond roedd y pwyllgor yn fodlon nad yw'n cynnwys darpariaethau anarferol nac anfoddhaol mewn perthynas â'r pwerau hyn. Mae nifer o'r pwerau yn cael eu trosglwyddo o Ddeddfau eraill.

Roedd y pwyllgor hefyd yn fodlon yn gyffredinol bod cydbwysedd priodol rhwng lefel y manylder ar wyneb y Bil a'r pwerau is-ddeddfu y mae'n eu rhoi i Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, hoffwn dynnu sylw'r Cynulliad at rai agweddau ar y Bil, y cyntaf ynglŷn â threfniadaeth ysgolion sef y cod ar drefniadaeth ysgolion yn adrannau 38 a 39 y Bil. Er bod y pwyllgor yn credu bod y defnydd o'r weithdrefn negyddol ddyrchafedig yn adran 39, sy'n ymwneud â chyhoeddi cod statudol ar drefniadaeth ysgol, yn briodol, teimlai'r Aelodau fod y trefniadau ymgynghori a nodwyd yn y Bil yn annigonol. Hynny yw, roedd anghysonderau rhwng y gofynion ymgynghori a nodir yn adran 39 a'r rhai a nodir yn adran 34. Felly, byddem yn pwyso ar y Llywodraeth a'r Cynulliad ystyried cysoni y trefniadau ymghori yn y ddwy adran honno o'r Bil. Mae hynny'n adlewychu argymhelliad gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

Gan droi at bwerau dirprwyedig na fyddant yn cael eu harfer drwy offeryn statudol, a'r pwerau i wneud Gorchmynion yn y Bil, yn

**Simon Thomas:** I speak in this debate on behalf of the members of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, and the Chair, David Melding, who is unable to be present today. As you will know, the remit of the committee includes reporting on provisions in Assembly Bills that give powers to Welsh Ministers to make subordinate legislation. That is, we do not report on the policies but on the powers in the Bill. That is the substance of our contribution as a committee to the debate today.

I would like to say at the outset that the committee does not see any reason why the National Assembly should not agree the general principles of the Bill, but we had some recommendations relating to the Minister's powers in the Bill.

The Bill includes a number of subordinate legislation provisions, but the committee was satisfied that it does not contain any unusual or unsatisfactory provisions in relation to these powers. A number of the powers are transferred from other Acts.

The committee was also generally content that there is an appropriate balance between the level of detail on the face of the Bill and the subordinate legislation powers that it gives to Welsh Ministers. However, I would like to draw the Assembly's attention to some aspects of the Bill, the first being in relation to school organisation, namely the code on school organisation in sections 38 and 39 of the Bill. Although the committee believes that the use of the enhanced negative procedure in section 39, which relates to the issuing of a statutory code on school organisation, is appropriate, Members feel that the consultation arrangements set out in the Bill are insufficient. That is, there were inconsistencies between the consultation requirements set out in section 39 and those set out in section 34. Therefore, we would urge the Government and the Assembly to consider making the consultation arrangements in the two sections of the Bill consistent. That reflects a recommendation of the Children and Young People Committee.

Turning to the issue of delegated powers that are not to be exercised by statutory instrument, and the powers to make Orders in

enwedig yn adran 58(2) ac adran 67(2), roedd y pwyllgor yn pryderu bod modd i'r Gweinidog arfer y pwerau hyn yn uniongyrchol yn hytrach na drwy offeryn statudol. Rwy'n sylwi bod y Gweinidog wedi cyfeirio at ein pryder wrth agor y drafodaeth heddiw ac yn dweud ei fod yn ystyried yn dileu'r hyn o'r Bil. Mae hynny'n anffodus gan ein bod ni fel pwyllgor am graffu yn ehangach ar y pwerau sydd yn cael eu harfer gan y Gweinidog, ond mae'n ymddangos bod ymateb y Gweinidog yw dileu o'r Bil unrhyw gyfeiriad at y pwerau hyn. Rwyf yn gobeithio nad dyna'r sefyllfa, a bod modd i'r Gweindog ailystyried hyn yn rhinwedd adroddiad y pwyllgor.

the Bill, particularly in sections 58(2) and 67(2), the committee was concerned that the Minister could exercise these powers directly rather than through statutory instrument. I note that, in opening today's debate, the Minister referred to our concern and said that he is considering removing this from the Bill. That is unfortunate because we, as a committee, were looking to undertake wider scrutiny of the powers exercised by the Minister, but it now seems that the Minister's response is to remove from the Bill any reference to these powers. I hope that that is not the position and that the Minister will reconsider this by virtue of the committee's report.

Roedd y pwyllgor yn cydnabod bod gan y Gweinidog y pwerau hyn ar hyn o bryd o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Fodd bynnag, mae'n bwysig i nodi hefyd bod o leiaf un o'r pwerau—sef y pŵer yn adran 58(2)—yn ymwneud â chyfarwyddo awrdurdodau i newid ysgolion. Credaf fod hynny'n bŵer eithaf grymus, ac mae'n rhywbeth hoffem wedi gweld y Cynulliad yn cael craffu arno, yn hytrach na'i fod yn bŵer i'r Gweinidog arfer yn uniongyrchol.

The committee recognises that the Minister has these powers at present under the School Standards and Framework Act 1998. However, it is also important to note that at least one of these powers—that in section 58(2)—relates to directing authorities to alter schools. I believe that that is a quite substantial power, and it is something that we would have liked to see the Assembly able to scrutinise, rather than it being a power to be exercised directly by the Minister.

Roedd y pwyllgor hefyd yn cyfeirio at y diffyg yn y memorandwm esboniadol o ran gwybodaeth ynghylch y pwerau yn baragraff 34 o Atodlen 5 yn ymwneud â throsglywddo tir ysgol. Rydym yn gobeithio bydd y Llywodraeth yn paratoi fersiwn ddiwygiedig o'r memorandwm, felly, cyn ein bod yn cwblhau ein trafodion pellach. Roedd y pwyllgor hefyd am osod cyswllt ar wyneb y Bil rhwng penderfyniad Gweinidogion Cymru i newid y dyddiad pan fydd ysgol yn cael ei chategoreiddio'n ysgol fach a'r manylion sy'n deilio o gyfrifiad ysgolion yn uniongyrchol. Dylai fod rhywbeth ar wyneb y Bil ynghylch hynny.

The committee also referred to the deficit in the explanatory memorandum in relation to information on the powers contained in paragraph 34 of Schedule 5 relating to the transfer of school land. We hope that the Government will prepare a revised version of the memorandum, therefore, before we conclude our further discussions. The committee also wanted to set out a link on the face of the Bill between the decision of Welsh Ministers to change the date at which a school is categorised as a small school and the details that emerge directly from the school census. There should be something on the face of the Bill about that.

Roedd y pwyllgor yn croesawu'r tabl o darddiadau a ddarparwyd gan y Gweinidog i'r pwyllgor yn uniongyrchol, sydd yn nodi o ba le yn y gwahanol Deddfau mae'r pwerau sydd gan y Gweindiog yn y Bil yn deillio. Rydym yn croesawu hynny. Mae'n rhywbeth ein bod, fel pwyllgor, wedi eisiau bod yn gweld mewn sawl darpariaeth ddeddfwriaethol. Byddem hefyd o'r farn byddai'n briodol darparu tabl o'r fath ar gyfer

The committee welcomed the table of derivations provided by the Minister to the committee directly, noting from where in the various Acts the powers the Minister has in the Bill derive. We welcome that. It is something that we, as a committee, have wanted to see in a number of legislative provisions. We are also of the opinion that it would be appropriate to provide such a table for all Bills that come before this Assembly.

pob Bil fydd yn dod gerbron y Cynulliad.

Gyda hynny, a chyda'r casgliad nad ydym yn gweld rheswm gwrthwynebu derbyn egwyddorion cyffredinol y Bil, mae'r pwyllgor wedi adrodd.

With that, and with the conclusion that we do not see any reason to reject the general principles of the Bill, the committee has reported.

**Angela Burns:** The Welsh Conservatives support the general principles of the School Standards and Organisation (Wales) Bill and look forward to contributing to the further drafting of the proposed legislation. This Bill attempts to cover a rather eclectic range of provisions, from giving the Minister the tools he requires in order to force through improvements in failing schools to giving local authorities the ability to flex the pricing of school meals. Given that the Bill is so wide-ranging, it is impossible to deal with every concern here, so I will simply touch on some key areas.

**Angela Burns:** Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) ac yn edrych ymlaen at gyfrannu at ddrafftio pellach ar y ddeddfwriaeth arfaethedig. Mae'r Bil hwn yn ceisio ymdrin ag ystod braidd yn eclectig o ddarpariaethau, o roi'r offer sydd ei angen arno i'r Gweinidog er mwyn gorfodi gwelliannau mewn ysgolion sy'n methu i roi'r gallu i awdurdodau lleol i ystwytho prisio prydau ysgol. O gofio bod y Bil mor eang, mae'n amhosibl delio â phob pryder yma, felly, y cyfan a wnaf yw cyffwrdd â rhai meysydd allweddol.

Let me start by clarifying whether we really need new law. I do not believe that it is the Government's role to overburden the citizen with law in order to drive through policy. Although I believe that education has suffered grievously because of a decade of poor policy initiatives from the Welsh Government, poor planning and delivery from the Welsh Government and, ultimately, a decade of poor performance from the Welsh Government, it is not the only poor performer. I find it regrettable but understandable that the Minister has to repeal, refine and add to the current legislation in order to be able to force through school improvements because some local authorities do not choose to use their current powers to ensure that all the children of Wales receive a consistently high standard of education. Our failing schools are a scandal, and education in Wales has become patchy and, in places, incoherent. The sacred duty of ensuring that every child has the absolute best chances of an education that will help to set them up for their life ahead falls not only to the Government, but to local authorities, as well as individual schools.

Gadewch i mi ddechrau drwy egluro a oes gwir angen cyfraith newydd. Nid wyf yn credu mai rôl y Llywodraeth yw gorlwytho'r dinesydd â chyfraith er mwyn gweithredu polisi. Er fy mod yn credu bod addysg wedi dioddef yn ddifrifol oherwydd degawd o fentrau polisi gwael gan Lywodraeth Cymru, cynllunio a darparu gwael gan Lywodraeth Cymru ac, yn y pen draw, degawd o berfformiad gwael gan Lywodraeth Cymru, nid hi yw'r unig berfformiwr gwael . Rwy'n ei chael yn destun gofid ond yn ddealladwy bod y Gweinidog yn gorfod diddymu, mireinio ac ychwanegu at y ddeddfwriaeth bresennol er mwyn gallu gorfodi gwelliannau ysgol oherwydd nad yw rhai awdurdodau lleol yn dewis defnyddio eu pwerau cyfredol i sicrhau bod holl blant Cymru'n derbyn safon gyson uchel o addysg. Mae ein hysgolion sy'n methu yn sgandal, ac mae addysg yng Nghymru wedi dod yn anghyson ac, mewn mannau, yn ddigyswllt. Mae'r ddyletswydd sanctaidd o sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfleoedd gorau posibl o addysg a fydd yn helpu i'w sefydlu ar gyfer eu bywyd yn y dyfodol yn gyfrifoldeb nid yn unig i'r Llywodraeth, ond i awdurdodau lleol, yn ogystal ag ysgolion unigol.

5.15 p.m.

In the explanatory memorandum, there is an acceptance of systemic failure, with some

Yn y memorandwm esboniadol, mae derbyniad o fethiant systemig, gyda rhai

schools and local authority education services in need of significant improvement. It was crystal clear from almost all the witnesses that the Children and Young People Committee listened to that some local authorities are not dealing with performance issues in a number of schools.

ysgolion a gwasanaethau addysg awdurdodau lleol angen eu gwella'n sylweddol. Roedd yn gwbl amlwg yn ôl bron yr holl dystion y gwrandawodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc arnynt nad yw rhai awdurdodau lleol yn ymdrin â materion perfformiad mewn nifer o ysgolion.

The Welsh Conservatives do have some reservations, which we will seek to address with the Government during the next stages of this Bill. An overall concern that we have is that, while the intent of this Bill is laudable, it does best in Ministers' substantial powers. For example, section 58 of the Bill allows Ministers to direct local authorities, by Order, to establish, alter or discontinue primary and secondary schools. 'By Order' means that the Minister has the power to act without accounting to anyone for that action. This potentially places school organisation at the whim of the Government and the opinion of civil servants, rather than in the hands of local people. I am pleased, therefore, that both the Children and Young People Committee and the Constitutional and Legislative Affairs Committee have expressed their anxiety about this type of power.

Mae gan y Ceidwadwyr Cymreig rywfaint o amheuon, y byddwn yn ceisio mynd i'r afael â nhw gyda'r Llywodraeth yn ystod camau nesaf y Bil hwn. Pryder cyffredinol sydd gennym ni yw, er bod bwriad y Bil hwn yn ganmoladwy, mae'n gwneud orau mewn pwerau sylweddol Gweinidogion. Er enghraifft, mae adran 58 y Bil yn caniatáu i Weinidogion gyfarwyddo awdurdodau lleol, drwy Orchymyn, i sefydlu, newid neu gau ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae 'Yn ôl Gorchymyn' yn golygu bod gan y Gweinidog y pŵer i weithredu heb roi cyfrif i unrhyw un am y camau hynny. Mae hyn yn rhoi trefniadaeth ysgolion ar fympwy'r Llywodraeth a barn gweision sifil, yn hytrach nag yn nwylo pobl leol. Rwyf yn falch, felly, bod y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi mynegi eu pryder am y math hwn o bŵer.

I will briefly touch on a few specific areas of concern, given the time that we have. With regard to Part 2, Chapter 1, on intervention in the conduct of maintained schools, we would like further clarity on the grounds for intervention. I know, Minister, that you touched on that in your statement, but we remain concerned as to the effectiveness of, for example, the secondary school banding system. We have further concerns that the Minister is proposing to use the banding system as a means of assessing whether there are grounds for intervention. We wonder how this will affect primary schools, especially as the banding proposals being formulated for primary schools appear to exclude significant numbers of schools. How will the Minister be able to judge on comparators? Minister, we surveyed every single primary school in Wales this year about the banding proposals. Over a third of schools responded—a high return by any standards—and only 1.2% believed that banding primary schools would be a beneficial measure of school performance.

Soniaf yn fyr am ychydig o feysydd penodol sy'n peri pryder, o ystyried yr amser sydd gennym. O ran Rhan 2, Pennod 1, ar ymyriad yn ymddygiad ysgolion a gynhelir, byddem yn hoffi eglurhad pellach ar y sail ar gyfer ymyriad. Gwn, Weinidog, eich bod wedi crybwyll hynny yn eich datganiad, ond rydym yn parhau i bryderu ynghylch effeithiolrwydd, er enghraifft, y system fandio ysgolion uwchradd. Mae gennym bryderon pellach bod y Gweinidog yn bwriadu defnyddio'r system fandio fel dull o asesu a oes sail ar gyfer ymyriad. Rydym yn meddwl tybed sut y bydd hyn yn effeithio ar ysgolion cynradd, yn enwedig gan fod y cynigion bandio sy'n cael eu llunio ar gyfer ysgolion cynradd yn ymddangos i eithrio nifer sylweddol o ysgolion. Sut fydd y Gweinidog yn gallu barnu ar gymaryddion? Weinidog, cynhaliwyd arolwg gennym o bob ysgol gynradd yng Nghymru eleni am y cynigion bandio. Ymatebodd dros draean o ysgolion—canlyniad uchel yn ôl unrhyw safonau—a dim ond 1.2% oedd yn credu y byddai bandio ysgolion cynradd yn fesur

buddiol o berfformiad yr ysgol.

**Leighton Andrews:** Would she like to explain to the Chamber what banding system she told primary schools they were going to have?

**Leighton Andrews:** A hoffai hi i egluro i'r Siambr pa system fandio ddywedodd hi wrth ysgolion cynradd eu bod yn mynd i gael?

**Angela Burns:** Minister, I would be very happy to send you a copy of our survey and then you can see for yourself the exact questions that we asked. In fact, I would be happy to publish it to the entire Chamber.

**Angela Burns:** Weinidog, byddwn yn hapus iawn i anfon copi o'n arolwg ac yna gallwch weld drosoch eich hun yr union gwestiynau a ofynnwyd gennym. Yn wir, byddwn yn hapus i'w gyhoeddi i'r Siambr gyfan.

We note Estyn's preference for using the all-Wales core data set as a consistent measure for analysis and the identification of a poorly performing school, and the Welsh Conservatives will be assessing this suggestion further.

Rydym yn nodi dewis Estyn ar gyfer defnyddio'r data craidd Cymru gyfan a osodwyd fel mesur cyson ar gyfer dadansoddi ac adnabod ysgol sy'n perfformio'n wael, a bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn asesu'r awgrym hwn ymhellach.

We would like further clarification of how the new Bill will affect the workings of regional school improvement consortia, as well as local authorities. We are concerned, in relation to school improvement guidance, that this Bill should not be used to centralise educational methodology, and that pedagogy should not be driven by civil servants but by the latest thinking and by the evidence of educationalists. We are concerned about the Government's capability to issue and revise school guidance in a timely manner. We do not want our children left further behind, and even the best initiatives become bogged down. Minister, I noted your comment that you were talking about liaising with Estyn on this. That is very welcome, but again, we have to look at the timescales.

Byddem yn dymuno cael eglurhad pellach o sut y bydd y Bil newydd yn effeithio ar y gwaith consortia gwella ysgolion rhanbarthol, yn ogystal ag awdurdodau lleol. Rydym yn pryderu, mewn perthynas â chanllawiau gwella ysgolion, na ddylai'r Bil hwn gael ei ddefnyddio i ganoli methodoleg addysgol, ac na ddylai addysgeg gael ei llywio gan weision sifil ond gan y syniadau diweddaraf a chan dystiolaeth addysgwyr. Rydym yn pryderu am allu'r Llywodraeth i gyhoeddi ac adolygu'r canllawiau ysgol mewn modd amserol. Nid ydym am weld ein plant yn cael eu gadael ymhellach ar ôl, a hyd yn oed y cynlluniau gorau yn cael eu llethu. Weinidog, nodais eich sylw eich bod yn siarad am gysylltu ag Estyn ar hyn. Mae hynny'n galonogol iawn, ond eto, mae'n rhaid i ni edrych ar yr amserlenni.

I am conscious, temporary Deputy Presiding Officer, that I am probably beginning to run out of time, so I will go to my final point. With regard to the whole school organisation proposal, we would like to make it very clear that the Welsh Conservatives will resist any agenda that might seek to use the School Standards and Organisation (Wales) Bill to restructure sixth-form education out of schools. This Bill gives Ministers powers far in excess of those provided for in the Learning and Skills Act 2000 and, while I fully acknowledge the current Minister's stated intention that that is not his intent, there will be other Ministers, and a power,

Rwyf yn ymwybodol, Ddirprwy Lywydd dros dro, fy mod yn ôl pob tebyg yn dechrau rhedeg allan o amser, felly byddaf yn mynd at fy mhwynt olaf. O ran y cynnig trefniadaeth ysgolion cyfan, byddem yn hoffi ei gwneud yn glir iawn y bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn gwrthsefyll unrhyw agenda a allai geisio defnyddio'r Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) i ailstrwythuro addysg chweched dosbarth allan o ysgolion. Mae'r Bil yn rhoi llawer mwy o bwerau i Weinidogion na'r rhai a ddarperir yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000, ac, er fy mod yn cydnabod yn llawn fwriad penodol y Gweinidog presennol nad dyna yw

once given, will be difficult to retract.

ei fwriad, bydd Gweinidogion eraill, a bydd yn anodd tynnu pŵer yn ôl unwaith y mae wedi ei roi.

**Jocelyn Davies:** As you know, Minister, when the Bill was announced, the Party of Wales voiced support for it, as we readily recognised the need to raise standards and to reduce bureaucracy in schools. However, we do have some areas of concern, and that expressed by Chris Chapman on the rights of the child is one, with the use of banding to determine school intervention is another. Many stakeholders also expressed concern about the use of banding in the determination of the need for intervention, especially about embedding banding in legislation. Therefore, perhaps the Minister will take this opportunity to explain the range of factors that will be taken into consideration before a decision to intervene is made, namely the criteria and the information. I am disappointed that the Minister will not set out how those factors should be weighted by local authorities.

**Jocelyn Davies:** Fel y gwyddoch, Weinidog, pan gyhoeddwyd y Bil, roedd Plaid Cymru - the Party of Wales yn mynegi cefnogaeth iddo, gan ein bod yn barod i gydnabod yr angen i godi safonau ac i leihau biwrocratiaeth mewn ysgolion. Fodd bynnag, mae gennym rai meysydd o bryder, ac mae'r un a fynegwyd gan Chris Chapman ar hawliau'r plentyn yn un, gyda'r defnydd o fandio er mwyn penderfynu ymyriad ysgol yn un arall. Mae llawer o randdeiliaid hefyd yn mynegi pryder ynghylch y defnydd o fandio wrth benderfynu ar yr angen am ymyriad, yn enwedig am ymgorffori bandiau mewn deddfwriaeth. Felly, efallai y bydd y Gweinidog yn manteisio ar y cyfle hwn i egluro yr ystod o ffactorau a fydd yn cael eu hystyried cyn y gwneir penderfyniad i ymyrryd, sef y meini prawf a'r wybodaeth. Rwyf yn siomedig na fydd y Gweinidog yn nodi sut y dylai'r ffactorau gael eu pwysoli gan awdurdodau lleol.

Another concern is the statutory guidance on school improvement. We feel that a balance must be struck between the necessity of raising standards and the autonomy of schools. No Minister wants to be in the position of micromanaging individual schools. That must be guarded against. However, the message that poor performance will not be tolerated must be loud and clear, because this has gone on for far too long.

Pryder arall yw'r canllawiau statudol ar wella ysgolion. Rydym yn teimlo bod yn rhaid cael cydbwysedd rhwng yr angen i godi safonau ac annibyniaeth ysgolion. Does yr un Gweinidog eisiau bod yn y sefyllfa o ficroreoli ysgolion unigol. Rhaid gwarchod yn erbyn hynny. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r neges na fydd perfformiad gwael yn cael ei oddef fod yn uchel ac yn glir, gan fod hyn wedi mynd ymlaen yn llawer rhy hir.

We also want to be satisfied that the Welsh in education strategic plans are sufficiently robust. It is a fact that the Welsh Government's target of getting 25% of seven-year-olds receiving Welsh-medium education by 2015 will not be met without more Welsh-medium schools opening, and it appears that demand far outstrips the supply. This legislation is an opportunity to assist with that, so perhaps the Minister will explain what he will do if the target is not met.

Rydym am gael ein bodloni hefyd bod y cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg yn ddigon cadarn. Mae'n ffaith na fydd targed Llywodraeth Cymru o gael 25% o blant saith oed yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2015 yn cael ei ddiwallu heb agor rhagor o ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac mae'n ymddangos bod y galw llawer yn fwy na'r cyflenwad. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gyfle i gynorthwyo gyda hynny, felly efallai y bydd y Gweinidog yn egluro beth fydd yn ei wneud os nad yw'r targed yn cael ei fodloni.

It will come as no surprise for you to hear, Minister, that another area of concern is the local determination panels. You already

Ni fydd yn syndod i chi glywed, Weinidog, mai maes arall sy'n peri pryder yw'r paneli dyfarnu lleol. Rydych eisoes yn gwybod bod

know that an expert in the field of educational law has described the proposals as 'hugely flawed', likely to be 'expensive' and not to meet the aims, a 'kangaroo court' of local worthies constantly facing judicial review—in his words—and 'an absolute shocker'. Why are you making no changes now that you have reflected on his evidence? I am disappointed that you do not intend to modify your proposals in light of that. I warn the Minister that even if he is minded to ignore the evidence, I do not think that we will follow his lead. Again, I am disappointed that he feels that it would be time consuming to table amendments, but I will study the draft code that he mentioned earlier today.

arbenigwr ym maes cyfraith addysgol wedi disgrifio'r cynigion fel *'hugely flawed'*, yn debygol o fod yn *'expensive'* a methu â chyrraedd y nodau, '*kangaroo court'* o bobl glodwiw lleol yn gyson yn wynebu adolygiad barnwrol—yn ei eiriau ef—ac *'an absolute shocker'*. Pam nad ydych chi'n gwneud unrhyw newidiadau nawr eich bod wedi myfyrio ar ei dystiolaeth? Rwyf yn siomedig nad ydych yn bwriadu addasu eich cynigion yng ngoleuni hynny. Rhybuddiaf y Gweinidog hyd yn oed os yw ef yn bwriadu anwybyddu'r dystiolaeth, nid wyf yn meddwl y byddwn yn dilyn ei arweiniad. Unwaith eto, rwyf yn siomedig ei fod yn teimlo y byddai'n cymryd llawer o amser i gyflwyno gwelliannau, ond byddaf yn astudio'r cod drafft a grybwyllodd yn gynharach heddiw.

When the Minister later attended the committee, he was at great pains to stress that his role in school closures is not quasi-judicial, despite considerable pressure by the committee to get him to admit that it is. In his response today, I would be grateful if he will set out his reasons for that stance and explain how it is fundamentally different from the role of, say, the Minister for health in hospital reconfiguration, which the whole Government argued just a few weeks ago was of a quasi-judicial nature, which prevented it from voting. Therefore, perhaps he could put on the record today the difference between those two decision-making processes, as it would be interesting to know.

Pan fynychodd y Gweinidog y pwyllgor yn ddiweddarach, roedd yn awyddus iawn i bwysleisio nad yw ei rôl mewn cau ysgolion yn lled-farnwrol, er gwaethaf pwysau sylweddol gan y pwyllgor i'w gael i gyfaddef bod hynny'n wir. Yn ei ymateb heddiw, byddwn yn ddiolchgar os bydd yn nodi ei resymau dros y safiad hwnnw ac yn esbonio sut y mae'n sylfaenol wahanol i rôl, dyweder, y Gweinidog iechyd mewn ad-drefnu ysbytai, yr oedd y Llywodraeth gyfan yn dadlau dim ond ychydig wythnosau yn ôl oedd o natur led-farnwrol, a oedd yn ei hatal rhag pleidleisio. Felly, efallai y gallai roi ar y record heddiw y gwahaniaeth rhwng y ddwy broses o wneud penderfyniadau, gan y byddai'n ddiddorol gwybod.

In closing, we are generally supportive of the aims and principles of this legislation, but we have significant concerns about specific parts of it.

Wrth gloi, rydym yn gefnogol yn gyffredinol i amcanion ac egwyddorion y ddeddfwriaeth hon, ond mae gennym bryderon sylweddol am rannau penodol ohoni.

**Aled Roberts:** This is a very different debate to the previous discussion regarding the statement on higher education. I think that there is cross-party support for the efforts of the Minister in seeking to raise school standards and, more importantly, broad support for this measure. I agree with many of the comments that Angela Burns made, that this can be seen as a consolidating measure to a large degree, but the evidence that we received as a committee made it clear that consolidation and clarification were being used as an excuse, in some quarters, to

**Aled Roberts:** Mae hon yn ddadl wahanol iawn i'r drafodaeth flaenorol ynghylch y datganiad ar addysg uwch. Credaf fod cefnogaeth drawsbleidiol i ymdrechion y Gweinidog wrth geisio codi safonau mewn ysgolion ac, yn bwysicach, cefnogaeth eang i'r mesur hwn. Rwy'n cytuno â llawer o'r sylwadau a wnaeth Angela Burns, y gall hyn gael ei weld fel mesur cyfnerthu i raddau helaeth, ond mae'r dystiolaeth a gawsom fel pwyllgor yn ei gwneud yn glir fod cyfuno ac eglurhad yn cael eu defnyddio fel esgus, mewn rhai mannau, i egluro pam nad oedd

explain away why intervention had not previously taken place.

ymyriad wedi digwydd yn flaenorol.

That being said, we, as committee members, need to welcome the Minister's response today. Our 19 recommendations were based on evidence that we took from 23 witnesses in person and on the written evidence of another 27 witnesses. The committee was happy that we had reached those recommendations on the basis of the evidence that we had heard.

Wedi dweud hynny, mae angen i ni, fel aelodau pwyllgor, groesawu ymateb y Gweinidog heddiw. Mae ein 19 o argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth a gawsom gan 23 o dystion yn bersonol ac ar y dystiolaeth ysgrifenedig gan 27 o dystion eraill. Roedd y pwyllgor yn hapus ein bod wedi cyrraedd yr argymhellion hynny ar sail y dystiolaeth yr oeddem wedi'i chlywed.

Given that committee members attended a training session last week on the UN Convention on the Rights of the Child, I should also underline the fact that some mention was made in that session of the Government perhaps adopting the same tactic as local authorities have often adopted in equality assessments, namely of one line stating that the assessment has had regard to all the measures concerned being enough to satisfy the test. It would have sent a very strong message if the Government had made it explicit that it had had regard to the UN Convention on the Rights of the Child and had stated that on the face of the Bill, given that it certainly affects the rights of children and young people.

O ystyried bod aelodau'r pwyllgor yn bresennol mewn sesiwn hyfforddi yr wythnos diwethaf ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, dylwn hefyd danlinellu'r ffaith bod rhywfaint o sôn yn y sesiwn am y Llywodraeth, efallai'n mabwysiadu'r un dacteg ag y mae awdurdodau lleol wedi'i mabwysiadu yn aml mewn asesiadau cydraddoldeb, sef bod un llinell yn datgan bod yr asesiad wedi ystyried yr holl fesurau dan sylw yn ddigon i fodloni'r prawf. Byddai wedi anfon neges gref iawn pe bai'r Llywodraeth wedi ei gwneud yn glir ei bod wedi ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac wedi nodi hynny ar wyneb y Bil, gan ei fod yn sicr yn effeithio ar hawliau plant a phobl ifanc.

Minister, you have addressed many of the specific concerns that I had about the committee recommendations and, to give you credit, you have accepted many of those recommendations. You said at the time that you would have regard to the evidence that was placed before the committee and, to be fair, that has occurred today, as I see it. However, there will be instances in which we may need to have regard to the detail in the code et cetera, when the committee sees that.

Weinidog, rydych wedi rhoi sylw i lawer o'r pryderon penodol oedd gennyf am argymhellion y pwyllgor, ac, er clod i chi, rydych wedi derbyn llawer o'r argymhellion hynny. Roeddech yn dweud ar y pryd y byddech yn ystyried y dystiolaeth a roddwyd gerbron y pwyllgor ac, i fod yn deg, mae hynny wedi digwydd heddiw, fel y gwelaf i. Fodd bynnag, bydd achosion lle gallai fod angen i ni roi sylw i'r manylion yn y cod ac yn y blaen, pan fydd y pwyllgor yn gweld hynny.

My main concerns are in two areas. The first relates to the point that Christine Chapman made about the actual costs. From the evidence that the committee heard, it is fair to say that we are not convinced as to how detailed or specific an assessment has been made of the costs. You will be aware that, out of the relevant £20 million, £19.2 million is accounted for by the free school breakfasts initiative and school-based counselling. We

Mae fy mhrif bryderon mewn dau faes. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r pwynt a wnaeth Christine Chapman ynghylch y costau gwirioneddol. O'r dystiolaeth a glywodd y pwyllgor, mae'n deg dweud nad ydym yn argyhoeddedig ynghylch pa mor fanwl neu benodol oedd asesiad sydd wedi'i wneud o'r costau. Byddwch yn ymwybodol, o'r £20 miliwn perthnasol, cyfrifir am £19.2 gan y fenter brecwast am ddim mewn ysgolion a

were not convinced about the remainder, the £800,000 or so. During the committee stage, you estimated that £1.7 million would be required for the school improvement guidance, and you anticipated that some of the savings achieved by local authorities through related processes could be redirected. However, I have to say that we remain to be convinced of that particular situation. I wonder whether, in the forthcoming months, you could release evidence of the costs that you have, so that we can be reassured.

chwnsela mewn ysgolion. Nid ydym yn argyhoeddedig am y gweddill, yr £800,000 neu lai. Yn ystod y cam pwyllgor, roeddech yn amcangyfrif y byddai £1.7 yn ofynnol ar gyfer y canllawiau gwella ysgolion, ac roeddech yn rhagweld y gallai rhai o'r arbedion a gyflawnwyd gan awdurdodau lleol drwy brosesau cysylltiedig gael eu hailgyfeirio. Fodd bynnag, rhaid i mi ddweud ein bod yn dal heb ein hargyhoeddi o'r sefyllfa benodol honno. Tybed, yn ystod y misoedd sydd i ddod, a allech chi ryddhau tystiolaeth o'r costau sydd gennych, fel y gallwn fod yn sicr.

I also welcome your comments on the Welsh in education strategic plans. We had very clear evidence from Parents for Welsh Medium Education, or RhAG, and from Cymdeithas yr Iaith Gymraeg of the fact that there were instances in which authorities were planning but not providing once those plans were in place. My own experience this month is that there have been instances in which the county that I live in assesses demand but then does not respond to it. We still have a situation in which children are being refused entry to Welsh-medium schools, mainly in anglicised areas, because of the failure of local authorities to answer that demand. I also have a letter from the same authority indicating that, because there is no capital funding available until 2020, it will not be in a position to do so, and I am sure that that is not a position that you would accept yourself, Minister. However, it is certainly the case that that still appears to be the mentality within local government.

Rwyf hefyd yn croesawu eich sylwadau ar y cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg. Cawsom dystiolaeth glir iawn gan Rieni dros Addysg Gymraeg, neu RhAG, a gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg o'r ffaith bod achosion lle mae awdurdodau yn cynllunio ond nad ydynt yn darparu unwaith y bydd y cynlluniau wedi'u sefydlu. Fy mhrofiad fy hun y mis hwn yw y bu achosion lle mae'r sir lle'r ydwyf yn byw yn asesu galw, ond yna nid yw'n ymateb iddo. Mae gennym sefyllfa lle mae plant yn cael gwrthod mynediad i ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn bennaf mewn ardaloedd Seisnig, oherwydd methiant awdurdodau lleol i ateb y galw hwnnw. Mae gennyf lythyr hefyd gan yr un awdurdod yn nodi, gan nad oes cyllid cyfalaf ar gael tan 2020, na fydd mewn sefyllfa i wneud hynny, ac rwyf yn siŵr nad yw hon yn sefyllfa y byddech yn ei derbyn eich hun, Weinidog Fodd bynnag, mae'n sicr yn wir ei bod yn ymddangos mai dyna'r meddylfryd o hyd o fewn llywodraeth leol.

In brief, I believe that you have listened to the evidence and, more importantly, to the committee's recommendations, and I give you credit for that.

Yn gryno, rwyf yn credu eich bod wedi gwrando ar y dystiolaeth ac, yn bwysicach, ar argymhellion y pwyllgor, ac rwyf yn rhoi clod i chi am hynny.

**Suzy Davies:** Members will be aware that the Minister for education has been very busy this year. We are looking forward to another consultation tomorrow, by the sounds of it. If Government departments were to be subject to banding, I am sure that his would score very highly on any criteria that require him to spend so much Government time in the Chamber. Perhaps that is one of the reasons why we hear comparatively little from other Ministers.

**Suzy Davies:** Bydd Aelodau'n ymwybodol bod y Gweinidog dros addysg wedi bod yn brysur iawn eleni. Rydym yn edrych ymlaen at ymgynghoriad arall yfory, mae'n swnio felly. Pe byddai adrannau'r Llywodraeth yn agored i fandio, rwy'n sicr y byddai ei adran ef yn sgorio'n uchel iawn ar unrhyw feini prawf sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo dreulio cymaint o amser y Llywodraeth yn y Siambr. Efallai mai dyna un o'r rhesymau pam yr ydym yn clywed cymharol ychydig

gan Weinidogion eraill.

He is responsible for policy that affects the personal future of individuals, as well as their collective contribution to families, communities and the prosperity of Wales. Strengthening school standards is, justifiably, a priority for us all. As that is the central aim of the Minister's Bill, the Welsh Conservatives can agree with him on the general principles. I also look forward to hearing when he might be revisiting the school curriculum. Surely, that is a complementary ingredient in fulfilling that aim. If schools do not constantly evaluate their performance and seek improvement, the local authority should intervene benevolently to assist them. If local education authorities fail to act, the Minister is quite right to ask why and to prompt them. However, there is a difference between a Minister insisting on a local education authority fulfilling its obligations to improve, and telling it how that should be done to the extent that he can direct it to close schools or sixth forms. It is inconsistent that this Bill can embrace the idea of local determination of a school's future in Chapter 3, while at the same time retaining the Minister's power to order a local authority to publish closure proposals in section 58. Therefore, I reject the Minister's earlier comments regarding the observations of the Constitutional and Legislative Affairs Committee and refer Members to the points made by Angela Burns and Simon Thomas on that section.

Mae'n gyfrifol am bolisi sy'n effeithio ar ddyfodol personol unigolion, yn ogystal â'u cyfraniad cyfunol i deuluoedd, cymunedau a ffyniant Cymru. Mae cryfhau safonau ysgol, yn hollol deg, yn flaenoriaeth i ni i gyd. Gan mai dyna yw nod canolog Bil y Gweinidog, gall y Ceidwadwyr Cymreig gytuno ag ef ar yr egwyddorion cyffredinol. Rwyf hefyd yn edrych ymlaen at glywed pryd y gallai fod yn ail edrych ar y cwricwlwm ysgol. Siawns bod hynny'n elfen ategol mewn cyflawni'r nod hwnnw. Os nad yw ysgolion yn gyson yn gwerthuso eu perfformiad a cheisio gwella, dylai'r awdurdod lleol ymyrryd yn rhadlon i'w cynorthwyo. Os yw awdurdodau addysg lleol yn methu â gweithredu, mae'r Gweinidog yn hollol iawn i ofyn pam ac i'w hysgogi nhw. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth rhwng Gweinidog yn mynnu bod awdurdod addysg lleol yn cyflawni ei rwymedigaethau i wella, a dweud wrtho sut y dylid gwneud hynny i'r graddau y gall ei gyfarwyddo i gau ysgolion neu ddosbarthiadau chwech. Mae'n anghyson y gall y Bil hwn gofleidio'r syniad o benderfynu'n lleol ar ddyfodol yr ysgol ym Mhennod 3, tra'n cadw pŵer y Gweinidog ar yr un pryd i orchymyn awdurdod lleol i gyhoeddi cynigion i gau yn adran 58. Felly, gwrthodaf sylwadau cynharach y Gweinidog ynglŷn â sylwadau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac rwy'n cyfeirio Aelodau at y pwyntiau a wnaed gan Angela Burns a Simon Thomas ar yr adran honno.

5.30 p.m.

I also ask Members and the Minister to consider Angela Burns's comments on chapter 5 and the proposals for restructuring sixth forms. I understand that post-16 education is funded differently from under-16 education. In fact, the direct funding of schools is something that we in the Welsh Conservatives rather approve of, but we believe in direct funding backed by improved local autonomy.

Gofynnaf hefyd i'r Aelodau a'r Gweinidog i ystyried sylwadau Angela Burns ar bennod 5 a'r cynigion ar gyfer ailstrwythuro chweched dosbarthiadau. Rwyf yn deall bod addysg ôl-16 yn cael ei ariannu yn wahanol i addysg dan-16. Yn wir, mae ariannu ysgolion yn uniongyrchol yn rhywbeth yr ydym yn y Ceidwadwyr Cymreig yn sicr yn ei gymeradwyo, ond rydym yn credu mewn cyllid uniongyrchol a gefnogir gan ymreolaeth leol well.

Chapter 5's proposals for restructuring sixth-form education are not primarily about consolidation. Sections 72, 73, 74 and 78 give the Minister new powers with regard to

Nid yw cynigion Pennod 5 ar gyfer ailstrwythuro addysg chweched dosbarth yn ymwneud yn bennaf â chyfnerthu. Mae adrannau 72, 73, 74 a 78 yn rhoi pwerau i'r

sixth-form education. I therefore ask Members to consider again the aim of this legislation. Any reorganisation must be about improving standards, so you may wish to ask whether the creation of these new powers helps to fulfil that aim, or whether it is just evidence that the Minister believes that direct funding should mean direct control. So much for decisions made at a local level.

Gweinidog newydd o ran addysg chweched dosbarth. Felly, gofynnaf i Aelodau ystyried unwaith eto nod y ddeddfwriaeth hon. Rhaid i unrhyw ad-drefnu fod yn ymwneud â gwella safonau, felly efallai yr hoffech ofyn a yw creu'r pwerau newydd hyn yn helpu i gyflawni'r nod hwnnw, neu a yw'n ddim ond tystiolaeth bod y Gweinidog yn credu y dylai cyllid uniongyrchol olygu rheolaeth uniongyrchol. Felly dyna werth penderfyniadau a wneir ar lefel leol.

From a political point of view, the Minister is of course entitled to argue that the foundation schools will not improve standards in schools and to make policy on that basis. Section 40 repeats the Minister's ban on new foundation schools, but there is no reference in the explanatory memorandum as to why. One of my criticisms of this Bill generally is that the opportunity to consolidate existing legislation has not been used as an opportunity to look again at the need for that legislation. Chapter 3 may be a restating of existing powers, including section 58, but that makes it no less controversial and ripe for review.

O safbwynt gwleidyddol, mae gan y Gweinidog, wrth gwrs, hawl i ddadlau na fydd yr ysgolion sefydledig yn gwella safonau mewn ysgolion ac i wneud polisi ar y sail honno. Mae Adran 40 yn ailadrodd gwaharddiad y Gweinidog ar ysgolion sefydledig newydd, ond nid oes unrhyw gyfeiriad yn y memorandwm esboniadol ynghylch pam. Un feirniadaeth sydd gennyf o'r Bil hwn yn gyffredinol yw nad yw'r cyfle i atgyfnerthu deddfwriaeth bresennol wedi cael ei ddefnyddio fel cyfle i edrych eto ar yr angen am y ddeddfwriaeth honno. Efallai bod Pennod 3 yn ailddatgan pwerau presennol, gan gynnwys adran 58, ond nid yw hynny'n ei gwneud yn ddim llai dadleuol ac yn barod ar gyfer adolygiad.

Perhaps I picked a bad example with foundation schools; perhaps the Minister has reviewed the existing legislation and remains determined to set his face against new foundation schools, in which case, why has he not removed the inconsistency in section 44, which commits local authorities to establish new foundation special schools. Needless to say, I would much prefer him to remove the inconsistency in section 40.

Efallai fy mod wedi dewis enghraifft wael gydag ysgolion sefydledig; efallai bod y Gweinidog wedi adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol ac yn dal i fod yn benderfynol o osod ei fryd yn erbyn ysgolion sefydledig newydd, ac os felly, pam nad yw wedi symud yr anghysondeb yn adran 44, sy'n ymrwymo awdurdodau lleol i sefydlu ysgolion sefydledig newydd arbennig. Afraid dweud, byddai'n llawer gwell gennyf iddo gael gwared ar yr anghysondeb yn adran 40.

It is now perhaps my turn to admit to what might be seen as an inconsistency of my own, namely my support for the principle of placing Welsh in education strategic plans on a statutory footing, because I do not favour unnecessary legislation. However, it is a source of disappointment to me that LEAs, in the absence of freer schools, have not taken the opportunity to take control of this agenda, thereby leaving it open to the Minister to fill the vacuum. I would have preferred it if he had not had to do so.

Efallai mai fy nhro yw hi bellach i gyfaddef i rywbeth y gellid ei weld fel anghysondeb gennyf i fy hun, sef fy nghefnogaeth i'r egwyddor o osod cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg ar sail statudol, gan nad wyf yn ffafrio deddfwriaeth ddiangen. Fodd bynnag, mae'n destun siom i mi bod AALlau, yn absenoldeb ysgolion mwy rhydd, wedi cymryd y cyfle i gymryd rheolaeth dros yr agenda hon, gan ei gadael yn agored i'r Gweinidog i lenwi'r gwagle. Byddai wedi bod yn well gennyf pe na fyddai raid iddo wneud hynny.

Perhaps one reason the LEAs have been reluctant to take the lead in this matter is the issue of money. I remain unconvinced that we have complete clarity about how much these Welsh in education plans will cost and how much of that cost will need to be borne by local education authorities. Demand for good-quality Welsh-medium education is rising, and I am not sure that the financial information that we have has taken that into account.

Efallai mai un rheswm pam y mae'r AALlau wedi bod yn amharod i gymryd yr awenau yn y mater hwn yw arian. Nid wyf yn argyhoeddedig bod gennym eglurder hollol ynghylch faint fydd y cynlluniau Cymraeg mewn addysg yn costio a faint o'r gost honno fydd angen i'r awdurdodau addysg lleol ei hysgwyddo. Mae'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg ansawdd da yn cynyddu, ac nid wyf yn siŵr bod y wybodaeth ariannol sydd gennym wedi ystyried hynny.

Finally, I fully support the concerns raised about the local determination panels by Christine Chapman and Jocelyn Davies, along with their cost implications. Because of those concerns, my concerns about the Welsh in education plans and my suspicion that money available for school counselling has been woefully underestimated, I will not support the financial resolution in relation to this Bill that follows this debate.

Yn olaf, rwy'n llwyr gefnogi'r pryderon a godwyd ynghylch y paneli dyfarnu lleol gan Christine Chapman a Jocelyn Davies, ynghyd â'u goblygiadau cost. Oherwydd y pryderon hynny, fy mhryderon am y cynlluniau addysg Gymraeg a fy amheuaeth bod arian sydd ar gael ar gyfer cwnsela yn yr ysgol wedi cael ei danamcangyfrif yn druenus, ni fyddaf yn cefnogi'r penderfyniad terfynol mewn perthynas â'r Bil sy'n dilyn y ddadl hon.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl. Mae ganddo chwe munud i wneud hynny.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** I call on the Minister to reply to the debate. He has six minutes in which to do so.

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** As I have six minutes to respond to all of the points, I will not be able to get into the full detail of what everybody has contributed. However, I will start by welcoming the support that has been given to the general principles of the Bill. Clearly, there will be points of detail that, as we progress through these procedures, we shall argue about, but I think that I have today conveyed the Government's desire to take on board many of the recommendations made by the different committees.

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Gan fod gennyf chwe munud i ymateb i bob un o'r pwyntiau, ni fyddaf yn gallu mynd i mewn i fanylion llawn yr hyn y mae pawb wedi'i gyfrannu. Fodd bynnag, rwyf am ddechrau drwy groesawu'r gefnogaeth a roddwyd i egwyddorion cyffredinol y Bil. Yn amlwg, bydd manylion, wrth inni symud drwy'r gweithdrefnau hyn, y byddwn yn dadlau amdanynt, ond rwyf yn meddwl fy mod wedi cyfleu heddiw awydd y Llywodraeth i dderbyn llawer o'r argymhellion a wnaed gan y pwyllgorau gwahanol.

Turning to the question on the United Nations Convention on the Rights of the Child, there is now a duty as a result of the Measure that was passed in the last Assembly—I was the Minister for Children, Education and Lifelong Learning, as it was, when the Measure finally went through. So, I am very clear that there are responsibilities on all Ministers and that this legislation simply acts within the context of the Measure that we have drawn up. However, I will agree to put specific reference to the requirements

Gan droi at y cwestiwn ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, mae yna bellach ddyletswydd o ganlyniad i'r Bil a basiwyd yn y Cynulliad diwethaf—fi oedd y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, fel yr oedd, pan basiwyd y Mesur o'r diwedd. Felly, rwyf yn glir bod cyfrifoldebau ar yr holl Weinidogion a bod y ddeddfwriaeth hon yn anad dim yn gweithredu o fewn cyd-destun y Bil yr ydym wedi ei lunio. Fodd bynnag, byddaf yn cytuno i roi cyfeiriad penodol at ofynion y

of the UNCRC in the explanatory memorandum to the Bill.

CCUHP yn y memorandwm esboniadol i'r Bil.

A number of Members raised the question of the guidance on school intervention. The difficulty that I think we have is that there have been powers on school intervention that local authorities have not, on the whole, implemented. There is a tension here between wanting things to be done at a local level and then requiring local authorities to fulfil the obligations and responsibilities that they have. I am afraid that is what we are seeking to do here. We are seeking to give real clarity to the nature of the intervention, and the statutory guidance on intervention in schools will make it clear that local authorities will be expected to consider the full range of qualitative and quantitative information, not just banding information, to form a complete picture of a school's performance.

Mae nifer o Aelodau wedi codi cwestiwn y canllawiau ar ymyriad mewn ysgolion. Yr anhawster rwy'n credu sydd gennym yw y bu pwerau ar ymyriad mewn ysgolion nad yw awdurdodau lleol, ar y cyfan, wedi eu gweithredu. Mae tensiwn yma rhwng eisiau i bethau gael eu gwneud ar lefel leol ac yna gofyn i awdurdodau lleol i gyflawni'r rhwymedigaethau a'r cyfrifoldebau sydd ganddynt. Mae arnaf ofn mai dyma'r ydym yn ceisio ei wneud yma. Rydym yn ceisio rhoi eglurder gwirioneddol i natur yr ymyriad, a bydd y canllawiau statudol ar ymyriad mewn ysgolion yn ei gwneud yn glir y bydd disgwyl i awdurdodau lleol ystyried yr ystod lawn o wybodaeth ansoddol a meintiol, nid dim ond bandio gwybodaeth, i lunio darlun cyflawn o berfformiad ysgol.

In respect of the guidance, it will also set out the overriding purpose of all the powers of intervention, including direction powers and the circumstances where those powers are best used. So, I think that we have understood the concerns of the committee, but we are trying to approach some of those issues in a different way. In respect of the types of persons to be consulted on the draft revised school organisation code—one of the number of issues raised by my colleague the Member for Cynon Valley—in response to the committee report I am likely to bring forward an amendment that specifies some of those with whom consultation must be conducted, but I do not expect that to be absolutely exhaustive, and there will be further consultation on the code. It may be that I will also bring forward minor changes in respect of the category of objectors.

O ran y canllawiau, bydd hefyd yn nodi diben pennaf yr holl bwerau ymyrryd, gan gynnwys pwerau cyfarwyddyd a'r amgylchiadau lle y defnyddir y pwerau hynny orau. Felly, credaf ein bod wedi deall pryderon y pwyllgor, ond rydym yn ceisio mynd at rai o'r materion hynny mewn ffordd wahanol. O ran y mathau o bobl i ymgynghori â nhw ar y cod trefniadaeth ysgolion diwygiedig drafft—un o nifer o faterion a godwyd gan fy nghydweithiwr yr Aelod dros Gwm Cynon—mewn ymateb i adroddiad y pwyllgor rwyf yn debygol o gyflwyno gwelliant sy'n nodi rhai o'r rheiny y mae'n rhaid cynnal ymgynghoriad â nhw, ond nid wyf yn disgwyl i hynny fod yn hollol gynhwysfawr, a bydd ymgynghori pellach ar y cod. Efallai y byddaf hefyd yn cyflwyno mân newidiadau o ran y categori gwrthwynebwyr.

Jocelyn Davies on behalf of Plaid Cymru raised questions in relation to the local development plans. She referred to the evidence by a legal expert to the committee, and I did, when I attended the committee, respond, in more detail than I will have time now to do, as to why I did not agree with many of his observations. It was not because I do not respect his experience in some of these issues; I just think that he has misinterpreted the nature of the final decision that will be required to be made by LDPs,

Cododd Jocelyn Davies ar ran Plaid Cymru gwestiynau mewn perthynas â'r cynlluniau datblygu lleol. Cyfeiriodd at y dystiolaeth gan arbenigwr cyfreithiol i'r pwyllgor, ac fe wnes i, pan oeddwn yn bresennol yn y pwyllgor, ymateb, yn fwy manwl nag y bydd gennyf amser i wneud yn awr, o ran pam nad oeddwn yn cytuno â llawer o'i sylwadau. Nid oherwydd nad wyf yn parchu ei brofiad gyda rhai o'r materion hyn; ond rwy'n meddwl ei fod wedi camddehongli natur y penderfyniad terfynol y bydd yn ofynnol i PDLlau eu

which is very much of the kind of decision that a Minister has to take. I am not a lawyer, and I will not get into a discussion as to the meaning of 'quasi-judicial' while I am on my feet in this Chamber at this present time, but I am sure that the Member will return to it when we get back to committee. There are plenty of lawyers in the Chamber who, I am sure, can follow through on that debate.

gwneud, sydd yn sicr y math o benderfyniad y mae'n rhaid i Weinidog ei gymryd. Nid wyf yn gyfreithiwr, ac ni fyddaf yn mynd i drafodaeth ynghylch ystyr 'lled-farnwrol' tra byddaf ar fy nhraed yn y Siambr hon ar hyn o bryd, ond rwyf yn sicr y bydd yr Aelod yn dychwelyd ato pan awn yn ôl i'r pwyllgor. Mae digon o gyfreithwyr yn y Siambr sy'n gallu, rwy'n sicr, gyflawni ar y drafodaeth honno.

In respect of the proposals on Welsh in education strategic plans, I will start by saying that I think these are the most radical proposals on Welsh-medium education that have ever been made in Wales. I believe that they will make a fundamental difference to the availability of Welsh-medium education, and particularly the insistence that we place in this Bill on the measurement of demand. That will make serious development possible. These proposals have received significant support from Rhieni dros Addysg Gymraeg and other pressure groups that have worked long and hard in the field of Welsh-medium education. What is important is to get the principle established within the legislation about the requirement on local authorities to measure demand. We can, as we move forward in our progress on the Bill, look at the detail of what happens if they fail to implement this, as the Liberal Democrat spokesperson referred to in respect of some authorities. Again, there is a tension between wanting things to be done locally but having to hold local authorities' feet to the fire sometimes to make sure that these things actually happen. That is a tension.

O ran y cynigion ar y cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg, rwyf am ddechrau drwy ddweud fy mod yn meddwl mai'r rhain yw'r cynigion mwyaf radical ar addysg cyfrwng Cymraeg sydd erioed wedi'u gwneud yng Nghymru. Rwy'n credu y byddant yn gwneud gwahaniaeth sylfaenol i argaeledd addysg cyfrwng Cymraeg, ac yn enwedig y pwyslais yr ydym yn ei osod yn y Bil hwn ar fesur y galw. Bydd hynny'n gwneud datblygiad difrifol yn bosibl. Mae'r cynigion hyn wedi derbyn cefnogaeth sylweddol gan Rieni dros Addysg Gymraeg a grwpiau pwyso eraill sydd wedi cydweithio am amser hir ac yn galed ym maes addysg cyfrwng Cymraeg. Yr hyn sy'n bwysig yw sefydlu'r egwyddor o fewn y ddeddfwriaeth ynghylch y gofyniad ar awdurdodau lleol i fesur y galw. Gallwn, wrth inni symud ymlaen i ddatblygu'r Bil, edrych ar fanylion yr hyn fydd yn digwydd os byddant yn methu â rhoi hyn ar waith, fel y cyfeiriodd llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol mewn perthynas â rhai awdurdodau. Unwaith eto, mae tensiwn rhwng eisiau i bethau gael eu gwneud yn lleol ond gorfod rhoi pwysau ar awdurdodau lleol weithiau i wneud yn siŵr bod y pethau hyn yn digwydd mewn gwirionedd. Tensiwn yw hynny.

A number of colleagues raised questions about the Order-making powers. There is a very clear distinction between the role of a Minister and what is appropriate for full debate in the context of the Assembly. Would it be right, for example, for every school closure proposal under our present arrangements to come before this Assembly for a vote? I do not believe that it would. The process is too long as it is. That would just introduce a new element of uncertainty. We have to be clear: there are certain functions that are rightly executive functions that should be carried out by Ministers, and we

Mae nifer o gydweithwyr wedi codi cwestiynau am y pwerau gwneud Gorchymyn. Mae gwahaniaeth clir iawn rhwng rôl y Gweinidog a'r hyn sy'n addas ar gyfer trafodaeth lawn yng nghyd-destun y Cynulliad. A fyddai'n iawn, er enghraifft, i bob cynnig i gau ysgol o dan ein trefniadau presennol ddod gerbron y Cynulliad am bleidlais? Nid wyf yn credu y byddai. Mae'r broses yn rhy hir fel y mae. Byddai hynny'n gwneud dim ond cyflwyno elfen newydd o ansicrwydd. Mae'n rhaid i ni fod yn glir: mae rhai swyddogaethau sydd yn briodol yn swyddogaethau gweithredol y dylid eu

are accountable under law to operate on the basis of due process and to act in a reasonable way.

gwneud gan Weinidogion, ac rydym yn atebol o dan y gyfraith i weithredu ar sail trefn briodol ac i weithredu mewn ffordd resymol.

In respect of the finance, we will have a financial resolution coming forward, and I am confident about the costings, but we can revisit those in the course of the discussion on the Bill.

O ran y cyllid, bydd gennym benderfyniad ariannol, ac rwy'n hyderus am y costau, ond gallwn edrych eto ar y rhain yn ystod y drafodaeth ar y Bil.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes, felly derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlof Rhif 12.36.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** The question is that the motion be agreed. Is there any objection? I see not, and therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

## Penderfyniad Ariannol ynghylch Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru)
## Financial Resolution in relation to the School Standards and Organisation (Wales) Bill

*Cynnig NDM5071 Jane Hutt*

*Motion NDM5071 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o Fil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69(ii) sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.*

*To propose that the National Assembly for Wales, for the purposes of any provisions resulting from the School Standards and Organisation (Wales) Bill, agrees to any increase in expenditure of a kind referred to in Standing Order 26.69(ii), arising in consequence of the Bill.*

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Cynigiaf y cynnig.

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** I move the motion.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Nid oes neb wedi mynegi diddordeb i siarad, felly nid oes angen ymateb. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod gwrthwynebiad, felly gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** Nobody has indicated a desire to speak, therefore there is no need to reply. The proposal therefore is to agree the motion. Is there any objection? I see that there is objection, therefore I will defer all voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Y Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol
## The Historic Environment Strategy

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Rwyf wedi dethol gwelliannau 1, 3 a 4 yn enw Aled Roberts a gwelliannau 5, 6 a 7 yn enw

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1, 3 and 4 in the name of Aled Roberts and amendments 5, 6

William Graham. Tynnwyd gwelliant 2 yn ôl.

and 7 in the name of William Graham. Amendment 2 has been withdrawn.

*Cynnig NDM5069 Jane Hutt*

*Motion NDM5069 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Nodi Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol Cymru, sy’n gwireddu ymrwymiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2012 ac sy’n nodi dyheadau Llywodraeth Cymru o dan y Rhaglen Lywodraethu i ddarparu amgylchedd hanesyddol yng Nghymru sydd ar gael i’w fwynhau yn awr a chan genedlaethau’r dyfodol ac sy’n cael ei ddiogelu’n dda.*

*Notes the Historic Environment Strategy for Wales, which honours a commitment made by the Welsh Government in January 2012 and sets out Welsh Government aspirations under the Programme for Government to provide an accessible, enjoyable and well protected historic environment now and for future generations in Wales.*

**The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis):** I move the motion.

**Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis):** Cynigiaf y cynnig.

In January this year, I set out my initial priorities for the historic environment in Wales. That statement kick-started an extensive consultation with people and organisations interested or involved in the Welsh historic environment. Through seven workshops and a major public conference, we have been able to get a good picture of the concerns and aspirations of people engaged with this agenda and what they need from the historic environment to make their lives and the place where they live and work better for them.

Ym mis Ionawr eleni, rhoddais fanylion fy mlaenoriaethau cychwynnol ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Rhoddodd y datganiad hwnnw gychwyn ar ymgynghoriad helaeth â phobl a sefydliadau sydd â diddordeb neu sy’n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru. Drwy saith gweithdy a chynhadledd gyhoeddus bwysig, rydym wedi gallu cael darlun da o bryderon a dyheadau pobl sy’n ymwneud â’r agenda a beth sydd angen arnynt o’r amgylchedd hanesyddol i wneud eu bywydau a’r fan lle maent yn byw ac yn gweithio yn well ar eu cyfer.

The historic environment in Wales, as we all know, is rich and varied. It is a unique resource, which makes our landscapes and towns distinctive and special. It helps us to understand and care about our place in history, and, crucially, it delivers real and tangible benefits for our people and our communities. Our heritage has been forged and crafted by the people of Wales and my priorities and vision for that legacy are aimed at delivering policies and practical action, focused on people’s wellbeing, enhancing their life chances and increasing the environment for economic growth.

Mae’r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, fel y gwyddom oll, yn gyfoethog ac yn amrywiol. Mae’n adnodd unigryw, sy’n gwneud ein tirweddau a threfi yn neilltuol ac yn arbennig. Mae’n ein helpu i ddeall a gofalu am ein lle mewn hanes, ac, yn hanfodol, mae’n darparu manteision gwirioneddol a sylweddol ar gyfer ein pobl a’n cymunedau. Mae ein treftadaeth wedi cael ei meithrin a’i saernïo gan bobl Cymru ac mae fy mlaenoriaethau a’m gweledigaeth ar gyfer yr etifeddiaeth honno wedi’u hanelu at gyflwyno polisïau a gweithredu ymarferol, yn canolbwyntio ar les pobl, gan wella eu cyfleoedd mewn bywyd a chynyddu'r amgylchedd ar gyfer twf economaidd.

Significantly, this is, of course, the first Welsh Government to have powers to

Yn arwyddocaol, hon, wrth gwrs, yw’r Llywodraeth Cymru gyntaf i gael pwerau i

develop primary legislation and we have stated our intention to introduce a heritage Bill for Wales in 2014-15. Our programme of consultations will help to shape the content of that heritage Bill, but there are many issues that do not require legislation, and these can be developed more quickly.

ddatblygu deddfwriaeth sylfaenol ac rydym wedi datgan ein bwriad i gyflwyno Bil treftadaeth ar gyfer Cymru yn 2014-15. Bydd ein rhaglen o ymgynghoriadau yn helpu i lunio cynnwys y Bil treftadaeth, ond mae llawer o faterion nad oes angen deddfwriaeth, a gall y rhain gael eu datblygu yn fwy cyflym.

This strategy outlines my overall priorities for the historic environment and the actions I propose to take to realise its potential for our people and communities. In some cases, the work has already begun; in others, we will need to research the options before taking further action. In all cases, I am looking for key players in the sector to pull together, to maximise impact and to make best use of valuable resources and expertise.

Mae’r strategaeth hon yn amlinellu fy mlaenoriaethau cyffredinol ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol a’r camau yr wyf yn bwriadu eu cymryd i wireddu ei botensial ar gyfer ein pobl a’n cymunedau. Mewn rhai achosion, mae’r gwaith wedi dechrau yn barod; mewn eraill, bydd angen i ni ymchwilio i’r opsiynau cyn cymryd camau pellach. Ym mhob achos, rwyf yn chwilio am chwaraewyr allweddol yn y sector i dynnu gyda’i gilydd, i gael yr effaith fwyaf ac i wneud y defnydd gorau o adnoddau ac arbenigedd gwerthfawr.

My strategic priorities are marshalled under four headlines. The first is heritage protection and sustainable development. The current systems governing all of this have been in place for over 40 years and are considered by many to be complex, lacking in transparency and inconsistently applied in practice. The heritage Bill will provide a long-overdue opportunity to provide Wales with a simpler, more coherent framework for heritage protection. However, we will not wait for legislation to take important new steps to move with the times, producing new policy guidance and proactively promoting good practice through specimen projects.

Mae fy mlaenoriaethau strategol yn cael eu trefnu dan bedwar pennawd. Y cyntaf yw amddiffyn treftadaeth a datblygiad cynaliadwy. Mae’r systemau cyfredol sy’n llywodraethu hyn i gyd wedi bod ar waith ers dros 40 mlynedd ac yn cael eu hystyried gan lawer i fod yn gymhleth, yn ddiffygiol o ran tryloywder ac yn cael eu defnyddio’n anghyson yn ymarferol. Bydd y Bil treftadaeth yn rhoi cyfle hir-ddisgwyliedig i ddarparu fframwaith symlach, mwy cydlynol i Gymru ar gyfer diogelu treftadaeth. Fodd bynnag, ni fyddwn yn aros am ddeddfwriaeth cyn cymryd camau newydd pwysig i symud gyda’r oes, llunio canllawiau polisi newydd a mynd ati’n rhagweithiol i hyrwyddo arfer da drwy brosiectau enghreifftiol.

One area in which I am especially eager to see progress is on the conversion of listed religious buildings for other uses. My officials in Cadw are already scoping out an exercise to promote good practice examples of sensitive conversion and to produce guidance for local authorities in considering applications for listed building consent for listed chapels and churches. Connections are being made across my portfolio and some exciting heritage-led regeneration projects are being developed to exemplify this approach.

Un maes yr wyf yn arbennig o awyddus i weld yn datblygu yw ar addasu adeiladau crefyddol rhestredig at ddefnydd arall. Mae fy swyddogion yn Cadw eisoes yn cwmpasu ymarferiad i hyrwyddo enghreifftiau o arfer da o drosi sensitif ac i gynhyrchu canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol wrth ystyried ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig ar gyfer capeli ac eglwysi rhestredig. Mae cysylltiadau yn cael eu gwneud ar draws fy mhortffolio ac mae rhai prosiectau adfywio cyffrous a arweinir gan dreftadaeth yn cael eu datblygu i roi enghreifftiau o’r ymagwedd hon.

Historic character and fabric is becoming increasingly appreciated, certainly by me, for its contribution to the distinctiveness and liveability of places. This approach can be played out on a large scale in a townscape, but I am also pleased to be overseeing this approach on a more human scale. Heritage cottage, a small terraced house in Cwmdare, now sits alongside Caerphilly and Caernarfon castles in the Cadw portfolio of monuments in state care. Unlike those castles, we have the opportunity to renovate this little house to make it fit for contemporary living while retaining its essential character.

Mae cymeriad a ffabrig hanesyddol yn dod i gael ei werthfawrogi fwyfwy, yn sicr gennyf fi, am ei gyfraniad at wneud lleodd yn hynod ac yn lleoedd da i fyw ynddynt. Gellir defnyddio’r dull hwn ar raddfa fawr mewn treflun, ond rwyf hefyd yn falch o fod yn goruchwylio’r dull hwn ar raddfa fwy dynol. Mae bwthyn treftadaeth, tŷ teras bach yng Nghwmdâr, yn awr i’w weld ochr yn ochr â chestyll Caerffili a Chaernarfon ym mhortffolio Cadw o henebion yng ngofal y wladwriaeth. Yn wahanol i’r cestyll hynny, mae gennym y cyfle i adnewyddu'r tŷ bach hwn i’w wneud yn addas ar gyfer byw cyfoes tra’n cadw ei gymeriad hanfodol.

5.45 p.m.

My second headline priority is skills and learning opportunities, which will enhance the employability and confidence of people, especially young people, through apprenticeships, training placements and support for informal and family learning, as well as formal education from the foundation phase to postgraduate study. Heritage has the potential to provide people of all ages with opportunities to learn and build their confidence in stimulating and informal environments. There are many encouraging examples to build on, such as Cadw’s recent cauldrons and furnaces project over the summer, which saw over 26,000 young people developing creative performance and organisational skills. I hope that some Members will have had the opportunity to see the film that outlines the achievements of this project and hear the stories of the young people themselves.

Fy ail brif flaenoriaeth yw sgiliau a chyfleoedd dysgu, a fydd yn gwella cyflogadwyedd a hyder pobl, yn enwedig pobl ifanc, drwy brentisiaethau, lleoliadau hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer dysgu anffurfiol a theulu, yn ogystal ag addysg ffurfiol o’r cyfnod sylfaen i astudiaethau ôl-raddedig. Mae gan dreftadaeth y potensial i ddarparu cyfleoedd i bobl o bob oed i ddysgu a meithrin eu hyder mewn amgylcheddau ysgogol ac anffurfiol. Mae llawer o enghreifftiau calonogol i adeiladu arnynt, megis prosiect crochanau a ffwrneisi diweddar Cadw dros yr haf, a welodd dros 26,000 o bobl ifanc yn datblygu sgiliau perfformio creadigol a threfnu. Rwyf yn gobeithio y bydd rhai Aelodau wedi cael y cyfle i weld y ffilm sy’n amlinellu cyflawniadau’r prosiect hwn a chlywed straeon y bobl ifanc eu hunain.

Thirdly, I want to encourage people to understand and enjoy their heritage and the sights that still resonate with the stories of those who have been here before us. Developing new and broader audiences is a priority, and we will develop new approaches to engaging people and build on proven successes, such as black history month, the festival of archaeology and heritage open doors. While archaeology seems to appeal to people of all ages, some aspects of heritage tend to attract what is, let us say, an older audience. This is good news, as the sector benefits from the knowledge and experience

Yn drydydd, rwyf am annog pobl i ddeall a mwynhau eu treftadaeth a’r golygfeydd sy’n dal i atseinio â straeon y rhai sydd wedi bod yma o’n blaenau ni. Mae datblygu cynulleidfaoedd newydd ac ehangach yn flaenoriaeth, a byddwn yn datblygu dulliau newydd o ymgysylltu â phobl ac adeiladu ar y llwyddiannau blaenorol, fel mis hanes du, yr ŵyl o ddrysau agored archaeoleg a threftadaeth. Er bod archeoleg yn ymddangos i apelio at bobl o bob oed, mae rhai agweddau ar dreftadaeth sy’n tueddu i ddenu beth yw, gadewch i ni ddweud, yn gynulleidfa hŷn. Mae hyn yn newyddion da,

of thousands of older volunteers. However, the fresh perspectives and imagination of young people would also add value to the sector. In 2013, I intend to start a process to encourage Welsh young people to work with us to produce their own historic environment strategy and to give us their ideas on how to protect and present our heritage sites.

gan fod y sector yn manteisio o wybodaeth a phrofiad miloedd o wirfoddolwyr hŷn. Fodd bynnag, byddai safbwyntiau a dychymyg ffres y bobl ifanc hefyd yn ychwanegu gwerth at y sector. Yn 2013, rwyf yn bwriadu dechrau proses i annog pobl ifanc Cymru i weithio gyda ni i lunio eu strategaeth amgylchedd hanesyddol eu hunain ac i roi eu syniadau ar sut i ddiogelu a chyflwyno ein safleoedd treftadaeth.

My fourth and final headline priority is the economy and economic benefit. Heritage and the historic environment already support around 30,000 jobs across Wales, which include craftspeople, professionals and technical specialists. Heritage is also a major factor in our tourism economy. Heritage is everywhere in Wales, so the economic benefit from tourism is spread across the whole country. However, the whole country will also benefit if we ensure that our major assets—our heritage icons, if you like—have the product and the profile to attract an international audience. Our EU-funded heritage tourism project is making a difference, but we are still a long way from fully exploiting the incredible tapestry of heritage assets up and down the country. I am proposing a festival of Welsh history as just one way that we can work together to maximise impact.

Fy mhedwaredd prif flaenoriaeth a'r olaf yw'r economi a budd economaidd. Mae treftadaeth a'r amgylchedd hanesyddol eisoes yn cefnogi tua 30,000 o swyddi ledled Cymru, sy'n cynnwys crefftwyr, arbenigwyr proffesiynol a thechnegol. Mae treftadaeth hefyd yn ffactor bwysig yn ein heconomi dwristiaeth. Mae treftadaeth ym mhobman yng Nghymru, felly mae'r budd economaidd o dwristiaeth yn cael ei ledaenu ar draws y wlad gyfan. Fodd bynnag, bydd y wlad gyfan hefyd yn elwa os byddwn yn sicrhau bod ein hasedau—ein prif eiconau treftadaeth, os mynnwch—yn cael y cynnyrch a'r proffil i ddenu cynulleidfa ryngwladol. Mae ein prosiect twristiaeth treftadaeth a ariennir gan yr UE yn gwneud gwahaniaeth, ond rydym yn dal yn bell o fanteisio'n llawn ar y tapestri anhygoel o asedau treftadaeth ar hyd a lled y wlad. Rwy'n cynnig gŵyl o hanes Cymru fel dim ond un ffordd y gallwn weithio gyda'n gilydd i gael yr effaith orau.

I also want to increase the number of building professionals and craftspeople who really know how traditional buildings work in Wales. I want Cadw and other heritage bodies to work together to develop training opportunities to open up careers in heritage conservation and higher-level building and construction skills to more Welsh young people. The Deputy Minister for Skills and I held a joint summit in the spring to explore these issues and we are developing an action plan to stimulate both supply and demand for higher-skilled craftspeople.

Rwyf hefyd yn awyddus i gynyddu'r nifer o weithwyr proffesiynol adeiladu a chrefftwyr sydd wir yn gwybod sut mae adeiladau traddodiadol yn gweithio yng Nghymru. Mae arnaf eisiau i Cadw a chyrff treftadaeth eraill weithio gyda'i gilydd i ddatblygu cyfleoedd hyfforddi i agor gyrfaoedd mewn cadwraeth treftadaeth a sgiliau adeiladu a saernïo uwch-lefel i fwy o bobl ifanc Cymru. Cynhaliodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a minnau uwchgynhadledd ar y cyd yn y gwanwyn i ystyried y materion hyn ac rydym yn datblygu cynllun gweithredu i ysgogi'r cyflenwad a'r galw am grefftwyr sgiliau uwch.

So, what now? In launching my strategy today, I am setting out my headline priorities and some specific and practical actions to be pursued both by my officials and the bodies that we, as a Government, fund. We are

Felly, beth nawr? Wrth lansio fy strategaeth heddiw, rwyf yn manylu fy mhrif flaenoriaethau a rhai camau penodol ac ymarferol i'w dilyn gan fy swyddogion a'r cyrff yr ydym ni, fel Llywodraeth, yn eu

entering an important new phase of heritage management, when resources are under pressure and traditional delivery systems and structures may prove to be ill equipped to face the future. Our plan of action must be realistic as to what can be delivered, but also resourceful in its pursuit of partners and new ways of achieving our goals. We will ensure that there is close working between portfolios in Government. There are synergies between the strategic objectives that I have outlined here and every other portfolio in the Government.

hariannu. Rydym yn mynd i mewn i gyfnod newydd pwysig o reoli treftadaeth, pan fydd adnoddau dan bwysau ac efallai na fydd systemau darparu traddodiadol a strwythurau wedi'u paratoi i wynebu'r dyfodol. Rhaid i'n cynllun gweithredu fod yn realistig ynghylch yr hyn y gellir ei gyflawni, ond hefyd yn ddyfeisgar wrth ganlyn partneriaid a ffyrdd newydd o gyflawni ein nodau. Byddwn yn sicrhau bod cydweithio agos rhwng portffolios y Llywodraeth. Mae synergeddau rhwng yr amcanion strategol yr wyf wedi'u hamlinellu yma a phob portffolio arall yn y Llywodraeth.

The heritage of Wales is unique and precious; we all know that. We still have the resources and the ideas to be a lot more ambitious for that Welsh heritage. Through new legislation, imaginative strategic plans and partnerships that deliver on the ground, the Welsh Government and its partners have the potential, and the will, to pursue this agenda, which does justice to that special heritage.

Mae treftadaeth Cymru yn unigryw a gwerthfawr, rydym i gyd yn gwybod hynny. Mae gennym yr adnoddau a'r syniadau i fod yn llawer mwy uchelgeisiol ar gyfer y dreftadaeth Gymreig honno. Drwy ddeddfwriaeth newydd, cynlluniau strategol dychmygus a phartneriaethau sy'n cyflawni ar lawr gwlad, mae gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid y potensial, a'r ewyllys, i fynd ar drywydd yr agenda hon, sy'n gwneud cyfiawnder â'r dreftadaeth arbennig honno.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Mewnosod fel pwynt 1 newydd:*

*Insert as new point 1:*

*Nodi y gall hyrwyddo a rheoli ein hamgylchedd hanesyddol yn ofalus roi hwb pwysig i economi Cymru.*

*Notes that the careful management and promotion of our historic environment can provide an important stimulus for the Welsh economy.*

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Amendment 3—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi Cynlluniau Gweithredu unigol yn cynnwys y mesurau o lwyddiant cyn gynted â phosibl.*

*Calls on the Welsh Government to publish each constituent Action Plan with success measures at the earliest opportunity.*

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu diweddariad blynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Prif Gynllun Gweithredu.*

*Calls on the Welsh Government to provide the National Assembly for Wales with an annual update on the Headline Action Plan.*

**Peter Black:** I move amendments 1, 3 and 4 in the name of Aled Roberts.

**Peter Black:** Cynigiaf welliannau 1, 3 a 4 yn enw Aled Roberts.

We have withdrawn amendment 2, simply, because the headline action plan, which was not available at the time of tabling, was published this morning. Therefore, there is no point in asking for the Minister to publish that in the future. I am pleased that that action plan has now been published.

Rydym wedi tynnu'n ôl gwelliant 2, yn syml, oherwydd bod y prif gynllun gweithredu, nad oedd ar gael ar adeg amserlennu, wedi'i gyhoeddi'r bore yma. Felly, nid oes unrhyw bwynt gofyn i'r Gweinidog gyhoeddi hynny yn y dyfodol. Rwyf yn falch bod y cynllun gweithredu wedi cael ei gyhoeddi bellach.

The strategy that we are debating today is distinguished by its very attractive photographs.

Mae'r strategaeth yr ydym yn tei hrafod heddiw yn nodedig oherwydd ei lluniau deniadol iawn.

**Simon Thomas:** Not of the Minister, surely? [*Laughter.*]

**Simon Thomas:** Nid o'r Gweinidog, 'does bosib? [Chwerthin.]

**Peter Black:** No, not of the Minister.

**Peter Black:** Na, dim o'r Gweinidog.

The photographs show the richness of Wales's heritage and, particularly, of our historic environment. Fortunately, the headline action plan does deal with some of the detail and the work that needed to be done that was not, I do not think, present in the strategy. I very much welcome the fact that that is now available and I welcome the direction of travel that the Minister has indicated through the headline action plan.

Mae'r ffotograffau yn dangos y cyfoeth treftadaeth Cymru ac, yn arbennig, ein hamgylchedd hanesyddol. Yn ffodus, mae'r prif gynllun gweithredu yn ymdrin â rhai o'r manylion a'r gwaith yr oedd angen ei wneud nad oedd, nid wyf yn credu, yn bresennol yn y strategaeth. Rwy'n croesawu'n fawr y ffaith ei fod bellach ar gael, ac rwy'n croesawu'r cyfeiriad y mae'r Gweinidog wedi'i nodi drwy gamau gweithredu'r prif gynllun.

I particularly welcome the issue on records, information and archives. The Minister says that he wants to generate options for improving public access to records and information relating to the historic environment, including the assessment of the potential for unified and shared records and access to unpublished archaeological reports. The way that people access the historical environment and their appreciation and understanding of it very much depends on that sort of access, and I think that that should be an important part of the strategy that the Minister is taking forward.

Croesawaf yn arbennig y mater ar gofnodion, gwybodaeth ac archifau. Mae'r Gweinidog yn dweud ei fod eisiau creu dewisiadau ar gyfer gwella mynediad cyhoeddus at gofnodion a gwybodaeth sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys asesiad o'r potensial ar gyfer cofnodion unedig ac ar y cyd a mynediad at adroddiadau archeolegol heb eu cyhoeddi. Mae'r ffordd y mae pobl yn cael mynediad i'r amgylchedd hanesyddol a'u gwerthfawrogiad a'u dealltwriaeth ohono'n dibynnu llawer ar y math o fynediad, ac rwy'n credu y dylai hynny fod yn rhan bwysig o'r strategaeth y mae'r Gweinidog yn ei datblygu.

However, apart from that, we get the general impression—this is not the Minister's fault; this is an issue of resources more than anything else—that we are managing decline. There is a general retrenchment in terms of the approach to the historic environment in Wales, in the sense that we have a number of

Fodd bynnag, ar wahân i hynny, rydym yn cael yr argraff gyffredinol—nid bai'r Gweinidog yw hyn, mae hyn yn fater o adnoddau yn hytrach nac unrhyw beth arall—ein bod yn rheoli dirywiad. Mae cwtogi cyffredinol o ran yr ymagwedd

very important historic monuments that we are doing our best to preserve with the resources that we have. There is a huge reservoir, if you like, of historic monuments around Wales—chapels, for example, and other historic buildings, many of which are grade I listed—that are being allowed to fall into decay and decline simply because the resources are not there to maintain them, because there is no use for them or because, in many instances, local councils are far too timid in how they approach their conservation and preservation.

tuag at yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, yn yr ystyr bod gennym nifer o henebion hanesyddol pwysig iawn yr ydym yn gwneud ein gorau i'w cadw gyda'r adnoddau sydd gennym. Mae cronfa enfawr, os mynnwch chi, o henebion hanesyddol o amgylch Cymru—capeli, er enghraifft, ac adeiladau hanesyddol eraill, llawer ohonynt yn rhestredig gradd I—sy'n cael eu gadael i ddadfeilio a dirywio yn syml oherwydd nad yw'r adnoddau yno i'w cynnal, gan nad oes defnydd iddynt neu oherwydd, mewn llawer o achosion, bod cynghorau lleol yn rhy llywaeth o lawer o ran sut y maent yn ymdrin â'u cadwraeth a'u gwarchod.

**David Rees:** Do you agree, therefore, that part of the resources that we need to look at is the creation of skills in heritage development, so that we can redevelop those buildings to their original standard?

**David Rees:** A ydych yn cytuno, felly, mai'r rhan o'r adnoddau sydd angen i ni edrych arni yw creu sgiliau mewn datblygu treftadaeth, fel y gallwn ail-ddatblygu'r adeiladau hynny i'w safon wreiddiol?

**Peter Black:** Absolutely. I am all in favour of developing skills. I know that preservation and conservation is a particular skill set that needs to be developed. The issue, of course, is that, with the resources that are available, the people who develop those skills will not necessarily find employment, unless you also invest substantially in using those skills to preserve these buildings. However, certainly, the skill set is an important part of this strategy.

**Peter Black:** Yn hollol. Rwyf o blaid datblygu sgiliau. Gwn fod gwarchod a chadwraeth yn set sgiliau penodol y mae angen ei datblygu. Y broblem, wrth gwrs, yw, gyda'r adnoddau sydd ar gael, na fydd y bobl sy'n datblygu'r sgiliau hynny o reidrwydd yn dod o hyd i gyflogaeth, oni bai eich bod hefyd yn buddsoddi'n sylweddol mewn defnyddio'r sgiliau hynny i warchod yr adeiladau hyn. Fodd bynnag, yn sicr, mae'r set sgiliau yn rhan bwysig o'r strategaeth hon.

My view is that we need to change the law. We need to find a way of protecting buildings that have social and cultural significance, rather than just architectural significance. Also, we need to find a way of protecting important community assets that are very much falling into disrepair. There are two examples in my city of Swansea. When the Minister made his statement, I referred to Libanus Chapel on the Cwmbwrla roundabout, which was burnt down and which is now, effectively, a shell—only half the building is still there, but it is still listed as grade I. Another very famous example in Swansea is the Palace Theatre, which is currently sitting at the top of High Street with

Fy marn i yw bod angen i ni newid y gyfraith. Mae angen i ni ddod o hyd i ffordd o warchod adeiladau sydd ag arwyddocâd cymdeithasol a diwylliannol, yn hytrach na dim ond arwyddocâd pensaernïol. Hefyd, mae angen i ni ddod o hyd i ffordd o ddiogelu asedau cymunedol pwysig sy'n mynd yn adfail. Ceir dwy enghraifft yn fy ninas, Abertawe. Pan wnaeth y Gweinidog ei ddatganiad, cyfeiriais at Gapel Libanus ar gylchfan Cwmbwrla, a losgwyd i lawr ac sydd yn awr, i bob pwrpas, yn gragen—dim ond hanner yr adeilad sy'n dal i fod yno, ond mae'n cael ei restru o hyd fel gradd I. Enghraifft arall enwog iawn yn Abertawe yw Theatr y Palace, sydd ar hyn o bryd yn sefyll

what looks like a small jungle growing out of its roof and windows. It is a building that is very much falling into disrepair. When I raised this issue with the Minister I was told, quite correctly, that it is a matter for the local council to pursue. However, the local council is not doing that, because it feels that if it takes enforcement action it will end up with a bill to bring that building back into a proper state of repair. Therefore, there is clearly an issue there that needs to be addressed.

ar ben y Stryd Fawr a rhywbeth sy'n edrych fel jyngl bach yn tyfu allan o'i tho a'i ffenestri. Mae'n adeilad sydd yn prysur fynd â'i ben iddo. Pan godais y mater hwn gyda'r Gweinidog dywedwyd wrthyf, yn eithaf cywir, ei fod yn fater i'r cyngor lleol i'w ganlyn. Fodd bynnag, nid yw'r cyngor lleol yn gwneud hynny, oherwydd ei fod yn teimlo os bydd yn cymryd camau gorfodi bydd yn cael bil am ddod â'r adeilad i gyflwr priodol. Felly, mae'n amlwg bod mater yno y mae angen mynd i'r afael ag o.

Before I end my contribution, I would like to refer to the amendments, particularly those tabled by the Conservatives in relation to Cadw and the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales. It is my view that the royal commission needs to remain independent of Government and I agree that there are advantages to Cadw becoming more independent of Government. They both have a role to play. I am concerned about talks regarding merging those two bodies, particularly if they are merged into Government, because I think that doing that will mean losing some major benefits, not least the charitable status of the ancient monuments body. That archive needs to be preserved, but it needs to be preserved outside Government, and I would certainly be very uneasy about a merger, at this stage, on those terms.

Cyn i mi orffen fy nghyfraniad, hoffwn gyfeirio at y gwelliannau, yn enwedig y rhai a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr mewn perthynas â Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Yn fy marn i mae angen i'r comisiwn brenhinol aros yn annibynnol ar y Llywodraeth, ac rwy'n cytuno bod manteision i Cadw ddod yn fwy annibynnol ar y Llywodraeth. Mae gan y ddau ran i'w chwarae. Rwyf yn pryderu am sgyrsiau ynghylch uno'r ddau gorff hynny, yn enwedig os ydynt yn cael eu cyfuno i'r Lywodraeth, oherwydd credaf y bydd gwneud hynny yn golygu colli rhai manteision mawr, yn enwedig statws elusennol y corff henebion. Mae angen cadw'r archif honno, ond mae angen ei chadw tu allan i'r Llywodraeth, a byddwn yn sicr yn anesmwyth iawn ynghylch uno, ar hyn o bryd, ar y telerau hynny.

*Gwelliant 5—William Graham*

*Amendment 5—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Cydnabod rôl werthfawr y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector wrth warchod a hyrwyddo ein hamgylchedd hanesyddol.*

*Recognises the valuable role played by the public, private and third sector in protecting and promoting our historic environment.*

*Gwelliant 6—William Graham*

*Amendment 6—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Galw ar y Gweinidog i gydnabod mai'r ffordd orau y gall Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru gynorthwyo Llywodraeth Cymru gyda'i strategaeth yw drwy aros yn annibynnol.*

*Calls on the Minister to recognise that the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales can best assist the Welsh Government with its strategy by remaining independent.*

*Gwelliant 7—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Galw ar y Gweinidog i ystyried y manteision a'r anfanteision sy'n gysylltiedig â CADW yn mynd yn fwy annibynnol ar Lywodraeth Cymru.*

*Amendment 7—William Graham*

*Add as new point at end of motion:*

*Calls on the Minister to consider the advantages and disadvantages of CADW becoming more independent of the Welsh Government.*

**Suzy Davies:** I move amendments 5, 6 and 7 in the name of William Graham.

**Suzy Davies:** Cynigiaf welliannau 5, 6 a 7 yn enw William Graham.

I thank the Minister for the update on his original strategy. While we may have a considerable number of common aims for our historic environment, the detailed mechanism for delivery is an area where, regrettably, we may disagree. Accordingly, it is not a simple matter to note that you are honouring a commitment, which are the words that you use in the motion, so we cannot support it. Your assertion a year or so ago that rural heritage is safe and well under Glastir gives me no comfort that the commitment is that clear.

Diolch i'r Gweinidog am y wybodaeth ddiweddaraf am ei strategaeth wreiddiol. Er y gall fod gennym nifer sylweddol o nodau cyffredin ar gyfer ein hamgylchedd hanesyddol, mae'r mecanwaith manwl ar gyfer cyflawni yn faes lle, yn anffodus, efallai y byddwn yn anghytuno. Yn unol â hynny, nid yw'n fater syml i nodi eich bod yn anrhydeddu ymrwymiad, sef y geiriau yr ydych yn eu defnyddio yn y cynnig, felly ni allwn ei gefnogi. Nid yw'ch haeriad flwyddyn neu ddwy yn ôl fod y dreftadaeth wledig yn ddiogel ac yn iach o dan Glastir yn rhoi unrhyw gysur i mi bod yr ymrwymiad mor glir â hynny.

I am not going to argue about the potential of our heritage assets and skills for regeneration—and I include the regeneration of our high streets in that comment—and I am not going to argue about how welcome it is to breathe life purposefully into heritage sites with arts, community action and planning changes. I look forward to seeing exactly how you expect the heritage Bill—following on from Peter Black's comments regarding the Palace Theatre—to prioritise the use of locally important buildings and exactly how you expect the stop-the-rot campaign to support and compel the private owners of such buildings to fulfil those responsibilities, because I suspect that how you intend to meet those expectations may be an area on which we do not agree.

Nid wyf yn mynd i ddadlau am botensial ein hasedau treftadaeth a'n sgiliau ar gyfer adfywio ac rwyf yn cynnwys y gwaith o adfywio ein strydoedd mawr yn y sylw hwn—ac nid wyf yn mynd i ddadlau ynghylch pa mor braf yw hi i adfywio safleoedd treftadaeth gyda chelfyddyd, gweithredu cymunedol a newidiadau cynllunio. Edrychaf ymlaen at weld yn union sut yr ydych yn disgwyl i'r Bil treftadaeth—yn dilyn ymlaen o sylwadau Peter Black ynghylch Theatr y Palace—i flaenoriaethu'r defnydd o adeiladau sy'n bwysig yn lleol ac yn union sut yr ydych yn disgwyl i'r ymgyrch atal y dirywiad gefnogi a chymell perchnogion preifat adeiladau o'r fath i gyflawni'r cyfrifoldebau hynny, oherwydd rwy'n amau y gallai'r ffordd yr ydych yn bwriadu bodloni'r disgwyliadau hynny fod yn faes lle nad ydym yn cytuno.

I will also not argue about the educational and economic importance of heritage tourism, but I do hope that you can help me to understand how I can identify what is left of the £19 million convergence investment in

Ni fyddaf yn dadlau chwaith am bwysigrwydd addysgol ac economaidd twristiaeth treftadaeth, ond rwy'n gobeithio y gallwch chi fy helpu i ddeall sut y gallaf nodi beth sydd ar ôl o'r buddsoddiad cydgyfeirio

the heritage tourism project in the Welsh Government's draft budget. I am very happy for you to write to me with details of that, if you would prefer to do so, Minister. As the heritage tourism project is coming to an end in 2014, I would be grateful if you could tell us whether we can expect an interim evaluation report on the effect of the project in convergence areas and how you are supporting progress in areas where convergence funding cannot be used.

£19 miliwn yn y prosiect twristiaeth treftadaeth yng nghyllideb drafft Llywodraeth Cymru. Rwy'n hapus i chi ysgrifennu ataf gyda manylion hynny, os byddai'n well gennych wneud hynny, Weinidog. Gan fod y prosiect twristiaeth treftadaeth yn dod i ben yn 2014, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddweud wrthym a allwn ddisgwyl adroddiad gwerthuso interim ar effaith y prosiect mewn ardaloedd cydgyfeirio, a sut yr ydych yn cefnogi cynnydd mewn ardaloedd lle na ellir defnyddio cyllid cydgyfeirio.

I also will not argue that the approach and delivery mechanisms for the historic environment have been largely static for many years. That is what brings me to Cadw. The current system of heritage protection dates back to the 1970s—although, of course, Cadw was not involved in that initially—and it is considered by many to be complex and lacking transparency, as you have said. Therefore, there is good reason for the Welsh Government to provide strategic direction on this. However, there is a difference between the Government setting the strategic direction and hogging all of the delivery as well. For all of the warm words in the strategy about the third sector and partnerships, it is clear from the new arts and heritage framework that you expect Cadw to be the lead player.

Nid fyddaf yn dadlau chwaith bod y dulliau gweithredu a'r mecanweithiau darparu ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol wedi bod yn sefydlog i raddau helaeth am flynyddoedd lawer. Dyna beth sy'n dod â mi at Cadw. Mae'r system bresennol o ddiogelu treftadaeth yn dyddio'n ôl i'r 1970au—er, wrth gwrs, nid oedd Cadw yn ymwneud â hynny yn y lle cyntaf—ac hi ystyrir gan lawer i fod gymhleth a heb dryloywder, fel y dywedasoch. Felly, mae rheswm da i Lywodraeth Cymru ddarparu cyfeiriad strategol ar hyn. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth rhwng y Llywodraeth yn gosod y cyfeiriad strategol a meddiannu'r holl ddarparu yn ogystal. Er gwaetha'r holl eiriau cynnes yn y strategaeth am y trydydd sector a phartneriaethau, mae'n amlwg o'r fframwaith celfyddydau a threftadaeth newydd eich bod yn disgwyl i Cadw fod yn chwaraewr arweiniol.

While it is true that Cadw is the custodian of a number of sites, what makes it the best organisation to commission arts activities on those sites? If the Arts Council of Wales, for example, was given that responsibility and the money to do so, it would be free to expand this idea to non-Cadw sites to fulfil your requirement that it improves access to the arts. Alternatively, why not accelerate your work on a third sector alliance? I agree with you about volunteer power, Minister. If properly constituted, this alliance could be a serious partner, or even a lead partner, and not just for delivering your policy, but for working in other partnerships, taking responsibility and leveraging—I know that you like that word, Minister—finance for high-quality work outside the Government programme. Would that not be a little more twenty-first century than a desire to increase

Er ei bod yn wir mai Cadw yw gwarcheidwad nifer o safleoedd, beth sy'n ei wneud y sefydliad gorau i gomisiynu gweithgareddau celfyddydol ar y safleoedd hynny? Pe rhoddid y cyfrifoldeb a'r arian i wneud hynny i Gyngor Celfyddydau Cymru, er enghraifft, byddai'n rhydd i ehangu'r syniad hwn i safleoedd nad ydynt yn safleoedd Cadw i gyflawni eich gofynion ei fod yn gwella mynediad i'r celfyddydau. Fel arall, beth am gyflymu eich gwaith ar gynghrair y trydydd sector? Cytunaf â chi ynghylch pŵer gwirfoddol, Weinidog. Pe câi ei chyfansoddi'n briodol, gallai'r gynghrair hon fod yn bartner difrifol, neu hyd yn oed yn bartner arweiniol, ac nid dim ond ar gyfer cyflawni eich polisi, ond ar gyfer gweithio mewn partneriaethau eraill, gan gymryd cyfrifoldeb ac ysgogi—gwn eich bod yn hoffi'r gair hwnnw, Weinidog—cyllid ar

Cadw capacity through additional posts, building the internal capacity of the organisation, reflecting the business development needs of the organisation? Cadw is a part of the Government, and the Government has plenty on its plate without empire building.

gyfer gwaith o safon uchel y tu allan i raglen y Llywodraeth. Oni fyddai hynny'n gweddu ychydig yn fwy i'r unfed ganrif ar hugain nag awydd i gynyddu gallu Cadw drwy swyddi ychwanegol, adeiladu gallu mewnol y sefydliad, gan adlewyrchu anghenion datblygu busnes y sefydliad? Mae Cadw yn rhan o'r Llywodraeth, ac mae gan y Llywodraeth ddigon ar ei phlât heb greu ymerodraeth.

A few weeks ago, I spoke in a debate regarding whether the Welsh Government should consider an independent exam regulator, and I gave examples of the growing global recognition of the importance of independence in holding organisations and governments to account.

Ychydig wythnosau yn ôl, siaradais mewn dadl ynghylch a ddylai Llywodraeth Cymru ystyried rheoleiddiwr arholiad annibynnol, a rhoddais enghreifftiau o'r gydnabyddiaeth gynyddol fyd-eang o bwysigrwydd annibyniaeth wrth ddal sefydliadau a llywodraethau i gyfrif.

6.00 p.m.

As the Communities, Equality and Local Government Committee consultation showed, there are serious concerns about the possibility of a merger between Cadw and the royal commission on this very issue of independence. The royal commission's independence does not jeopardise its ability to assist Government with the delivery of policy. I ask the Minister to acknowledge that today. Merger would also leave Cadw with the sole allocation of the Government budget on the historic environment.

Fel y dangosodd ymgynghoriad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, mae pryderon difrifol am y posibilrwydd o uno rhwng Cadw a'r comisiwn brenhinol ar y mater penodol hwn o annibyniaeth. Nid yw annibyniaeth y comisiwn brenhinol yn peryglu ei allu i gynorthwyo Llywodraeth gyda chyflwyno polisi. Gofynnaf i'r Gweinidog gydnabod hynny heddiw. Byddai uno hefyd yn gadael Cadw gyda'r unig ddyraniad o gyllideb Llywodraeth ar yr amgylchedd hanesyddol.

Finally, Minister, I ask you to respond to the suggestion that some of the functions of Cadw would be better safeguarded by taking them outside Government into an arm's-length body, perhaps with the royal commission and other partners, and I thank Peter Black for his comments. If we value the arm's-length principle for the arts council, to avoid any suggestion of political interference in the arts, do we not need not to apply that principle to the body or bodies responsible for the recording and interpreting of our history?

Yn olaf, Weinidog, rwyf yn gofyn i chi ymateb i'r awgrym y byddai rhai o swyddogaethau Cadw'n cael eu diogelu'n well drwy fynd â nhw tu allan i'r Llywodraeth i mewn i gorff hyd braich, efallai gyda'r comisiwn brenhinol a phartneriaid eraill, a diolchaf i Peter Black am ei sylwadau. Os ydym yn gwerthfawrogi'r egwyddor hyd braich ar gyfer cyngor y celfyddydau, er mwyn osgoi unrhyw awgrym o ymyriad gwleidyddol yn y celfyddydau, onid oes angen defnyddio'r egwyddor honno ar gyfer y corff neu'r cyrff sy'n gyfrifol am gofnodi a dehongli ein hanes?

**Mick Antoniw:** I very much welcome the Minister's paper outlining a vision for the protection, development and integration of our historic buildings and institutions into a national economic, social and educational

**Mick Antoniw:** Rwy'n croesawu'n fawr iawn bapur y Gweinidog yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer amddiffyn, datblygu ac integreiddio ein hadeiladau hanesyddol a sefydliadau yn strategaeth economaidd,

strategy—a sort of integrated historic monuments spatial plan. I certainly look forward to seeing the legislation.

gymdeithasol ac addysgol cenedlaethol—rhyw fath o gynllun gofodol henebion hanesyddol integredig. Rwyf yn sicr yn edrych ymlaen at weld y ddeddfwriaeth.

We have such an incredible historic legacy in Wales that it is a shame that we do not shout out more often and louder to our communities and internationally about what we have to offer. Within 100m of my constituency office in Pontypridd, there is the world-famous Pontypridd bridge of 1756, an arched single-span footbridge spanning the river Taff, which has statutory protection as a scheduled ancient monument.

Mae gennym y fath etifeddiaeth hanesyddol ryfeddol yng Nghymru fel ei bod yn drueni nad ydym yn gweiddi allan yn amlach ac yn uwch i'n cymunedau ac yn rhyngwladol am yr hyn sydd gennym i'w gynnig. O fewn 100m o fy swyddfa etholaeth ym Mhontypridd, ceir pont fyd-enwog Pontypridd o 1756, pompren fwa un lled ar draws yr Afon Taf, sydd wedi'i diogelu'n statudol fel heneb gofrestredig.

Just down the road is a monument to social history, the birthplace of Evan James who composed the Welsh national anthem, and a few hundred yards further down is Capel Rhondda in Hopkinstown where the internationally renowned *Cwm Rhondda* was composed and first sung. Just a few more yards down the road from there is the Hetty winding gear, which I visited a few weeks ago. The Hetty pit closed in 1983, but it houses an 1875 winding engine built by Barker and Cope of Kidsgrove, Staffordshire. It is the oldest surviving steam engine of its type in the UK, lovingly restored by volunteers and run on compressed air. Efforts are now under way to seek funding to restore the Hetty engine house to make it accessible to tourists and schoolchildren.

Ychydig i lawr y ffordd mae cofeb i hanes cymdeithasol, man geni Evan James a gyfansoddodd anthem genedlaethol Cymru, ac ychydig gannoedd o lathenni ymhellach i lawr mae Capel Rhondda yn Nhrehopcyn lle cyfansoddwyd y byd-enwog *Cwm Rhondda* a lle y'i canwyd am y tro cyntaf. Dim ond ychydig o lathenni eto i lawr y ffordd oddi yno ceir offer weindio Hetty, yr ymwelais ag ef ychydig wythnosau yn ôl. Caeodd pwll Hetty ym 1983, ond mae'n gartref i injan weindio 1875 a adeiladwyd gan Barker a Cope o Kidsgrove, Swydd Stafford. Dyma'r injan stêm hynaf o'i bath sydd wedi goroesi yn y DU, wedi ei hadfer gyda chariad gan wirfoddolwyr ac yn rhedeg ar aer cywasgedig. Mae ymdrechion ar y gweill i geisio cyllid i adfer ystafell injan Hetty i'w gwneud yn hygyrch i dwristiaid a phlant ysgol.

Further down is the Rhondda Heritage Park. At the other end of my constituency, there is Taff's Well thermal spring, the only thermal spring in Wales drawing water from 400m below at a temperature of 21 degrees Celsius. Over in Tonyrefail, there is the Tonyrefail corn mill, which started at the same time that James Cook and the crew of HMS Endeavour were setting foot in Australia, and at the same time that Marie Antoinette was marrying the prince who later became Louis XVI of France. I have not even mentioned Llantrisant and Dr William Price.

Ymhellach i lawr mae Parc Treftadaeth y Rhondda. Ar ben arall fy etholaeth, ceir ffynnon thermol Ffynnon Taf, yr unig ffynnon thermol yng Nghymru sy'n tynnu dŵr o ddyfnder o 400m ar dymheredd o 21 gradd Celsius. Draw yn Nhonyrefail, ceir melin ŷd Tonyrefail, a ddechreuodd ar yr un pryd a phan oedd James Cook a chriw HMS Endeavour yn rhoi eu troed yn Awstralia, ac ar yr un pryd yr oedd Marie Antoinette priodi'r tywysog a ddaeth wedyn yn Louis XVI o Ffrainc. Nid wyf wedi crybwyll Llantrisant hyd yn oed a Dr William Price.

I hope that a heritage spatial plan will emerge from this strategy, which will form part of a broader strategy to promote the economic, tourism and educational benefits of the

Gobeithiaf y bydd cynllun gofodol treftadaeth yn deillio o'r strategaeth hon, a fydd yn ffurfio rhan o strategaeth ehangach i hyrwyddo manteision economaidd,

incredible legacy that we have. I also hope that a greater focus will emerge in our schools, educational system and communities on our real history, not the history of kings and queens, but the people's history—the history of survival and of the way in which people struggled to create the society that we currently live in.

twristiaeth ac addysgol yr etifeddiaeth anhygoel sydd gennym. Rwyf hefyd yn gobeithio y bydd mwy o ffocws yn dod i'r amlwg yn ein hysgolion, ein system addysgol a'n cymunedau ar ein hanes go iawn, nid hanes brenhinoedd a breninesau, ond hanes y bobl—hanes o oroesi ac o'r ffordd y mae pobl wedi ymdrechu i greu'r gymdeithas yr ydym yn byw ynddi ar hyn o bryd

**Alun Ffred Jones:** Diolch yn fawr am y cyfle i ddweud gair neu ddau yn y ddadl hon. Nid wyf yn anghytuno â fawr ddim a ddywedodd y Gweinidog. Roeddwn yn gwrando ar gyfraniad Mick Antoniw pan ddywedodd ei fod yn gobeithio y bydd y strategaeth hon yn troi mewn i ryw fath o '*historic spatial plan*'. Rwy'n gobeithio y bydd y *spatial plan* hwn yn cael gwell lwc na'r *spatial plan* diwethaf a gafodd ei gyhoeddi gan y Llywodraeth.

**Alun Ffred Jones:** Thank you very much for the opportunity to say a few words in this debate. I do not disagree with virtually anything that the Minister said. I listened to Mick Antoniw's contribution and he said that he hoped that this strategy would become some sort of 'historic spatial plan'. Let us hope that this spatial plan will have a little more luck than the previous spatial plan that was published by the Government.

I droi at yr hyn sydd wedi cael ei ddweud yn y ddadl, nid oes angen pwysleisio fod gennym yng Nghymru dirlun hanesyddol cwbl arbennig a diddorol, ac mae pob math o ffeithiau, fel y ffaith bod gennym 600 o gestyll— mwy o gestyll y filltir sgwâr nag unrhyw wlad arall yn Ewrop, yn ôl y sôn. Mae'n dreftadaeth werthfawr iawn inni yn economaidd, heb sôn am ddim byd arall. Ym mis Medi 2010, cyhoeddwyd dogfen 'Gwerthfawrogi Amgylchedd Hanesyddol Cymru'. Mae ffigurau yn y ddogfen, a dyfynnwyd un ohonynt gan y Gweinidog heddiw: mae 30,000 o swyddi llawn amser yn gysylltiedig â'n tirlun hanesyddol a'n treftadaeth hanesyddol. Mae'n gyfrifol am drosiant o tua £1.8 biliwn ac yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at ein GVA ni. Mae symiau sylweddol o arian yn cael eu gwario ar gynnal a chadw ac adfer yr adeiladau hyn a'r tirlun hwn. Roeddwn yn falch iawn o glywed y Gweinidog yn sôn am yr angen a phwysigrwydd datblygu sgiliau yn y maes hwn. Yn anffodus, ychydig iawn o gwmnïau sydd gennym sy'n arbenigo yn y maes; felly mae llawer o'r budd ariannol sy'n dod o'r prosesau hyn yn mynd allan o Gymru oherwydd y diffyg arbenigedd hwnnw. Mae hwnnw'n un peth y buaswn yn hoffi clywed sylwadau'r Gweinidog arno'r prynhawn yma.

To turn to what has been said in the debate, there is no need to emphasise the fact that we in Wales have a unique and interesting historic environment, and there are all sorts of facts such as that we have 600 castles—more castles per square mile than any other country in Europe, apparently. Our heritage is very valuable to us economically, never mind anything else. In September 2010, 'Valuing the Welsh Historic Environment' was published. The document contains figures, one of which was quoted by the Minister today: 30,000 full-time jobs are related to our historic environment and heritage. It accounts for a turnover of about £1.8 billion and makes a significant contribution to our GVA. Significant sums of money are spent on the maintenance and restoration of these buildings and this landscape. I was very pleased to hear the Minister mention the need for, and importance of, developing skills in this area. Unfortunately, we have very few companies that specialise in this area; therefore a great deal of the financial benefit emerging from these processes leaves Wales because of that lack of expertise. That is one thing that I would like to hear the Minister's comments on this afternoon.

Mae'r diwydiant twristiaeth yn elwa'n fawr hefyd o'n treftadaeth ni. Mae naw o bob 10 o

The tourism industry benefits greatly from our heritage. Nine in 10 of those who come

bobl sy'n dod yma ar eu gwyliau yn ymweld â rhyw safle hanesyddol neu'i gilydd. Mae 2.5 miliwn o ymwelwyr a phobl o Gymru yn ymweld â'n safleoedd hanesyddol bob blwyddyn, felly maent yn rhan eithriadol o bwysig o'n bywydau ni a'n heconomi.

here on holiday visit some historic site or other. There are 2.5 million visitors and people from Wales who visit our historic sites every year, therefore, they are an exceptionally important part of our lives and economy.

Perhaps our problem is not getting people to visit the sites when they come to Wales, but getting them to come here in the first place. That is why Plaid Cymru—The Party of Wales launched the idea of a homecoming festival that would link all of Wales's tourist events together under one banner to highlight what we have to offer. The purpose of a homecoming festival, or call it what you will, just like the Scottish event in 2009, is that it would be part of a wider overall economic strategy, encompassing not just tourism, but inward investment. A targeted campaign to bring people home to Wales as part of a tourism drive would provide major social and economic benefits. I buy entirely into the Minister's vision of using heritage as part of regeneration and the tourism offer. Therefore, there is no real difference of opinion on that.

Efallai nad cael pobl i ymweld â'r safleoedd pan fyddant yn dod i Gymru yw ein problem, ond eu cael i ddod yma yn y lle cyntaf. Dyna pam mae Plaid Cymru-The Party of Wales wedi lansio'r syniad o ŵyl croeso'n ôl a fyddai'n cysylltu holl ddigwyddiadau twristiaeth Cymru ynghyd o dan un faner i dynnu sylw at yr hyn sydd gennym i'w gynnig. Pwrpas gŵyl croeso'n ôl, neu galwch hi beth fynnoch chi, yn union fel y digwyddiad yr Alban yn 2009, yw y byddai yn rhan o strategaeth ehangach economaidd cyffredinol, yn cwmpasu nid yn unig dwristiaeth, ond mewnfuddsoddiad. Byddai ymgyrch wedi'i thargedu i ddod â phobl i Gymru fel rhan o ymgyrch twristiaeth yn darparu buddion cymdeithasol ac economaidd mawr. Rwyf yn derbyn gweledigaeth y Gweinidog yn gyfan gwbl o ddefnyddio treftadaeth fel rhan o adfywio a'r cynnig twristiaeth. Felly, nid oes unrhyw wahaniaeth barn gwirioneddol ar hynny.

There is certainly huge potential for attracting this Welsh diaspora to come back to Wales on holiday, to settle and to bring their businesses and their skills with them. Our people are our greatest resource and we have lost too many of them. Therefore, I think that a festival of some sort along these lines could certainly bring huge benefits to Wales. We must sell Wales to the world as a great place to live and work, and our heritage sector with its multiple attractions is an excellent sector to lead this. Therefore, the historic environment strategy for Wales is very important because the maintenance of these sites and the promotion of the Welsh history they represent feed directly not just into tourism, but people's perceptions of Wales worldwide. I warmly welcome the Minister's remarks this afternoon.

Yn sicr, mae potensial enfawr i ddenu'r Cymry alltud i ddod yn ôl i Gymru ar wyliau, i setlo ac i ddod â'u busnesau a'u sgiliau gyda nhw. Ein pobl yw ein hadnodd mwyaf ac rydym wedi colli gormod ohonynt. Felly, rwyf yn meddwl y gallai gŵyl o ryw fath ar hyd y llinellau hyn yn sicr ddod â manteision enfawr i Gymru. Mae'n rhaid i ni werthu Cymru i'r byd fel lle gwych i fyw a gweithio, ac mae ein sector treftadaeth gyda'i atyniadau lluosog yn sector ardderchog i arwain hyn. Felly, mae'r strategaeth amgylcheddol hanesyddol i Gymru yn bwysig iawn oherwydd mae cynnal y safleoedd hyn a hybu'r hanes Cymru y maent yn eu cynrychioli nid yn unig yn bwydo yn uniongyrchol i mewn i dwristiaeth, ond i ganfyddiadau pobl o Gymru ledled y byd. Rwyf yn croesawu'n gynnes sylwadau'r Gweinidog y prynhawn yma.

**Christine Chapman:** I would like to start by welcoming the Minister's ambitious vision for the Welsh historic environment outlined in the strategy. I want to make a number of

**Christine Chapman:** Hoffwn ddechrau drwy groesawu gweledigaeth uchelgeisiol y Gweinidog ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru a amlinellir yn y strategaeth. Rwyf am

points. As the Minister notes, our historic environment allows us to explore and appreciate the wonders of the ordinary in our past to help us reclaim the heroes and heroines from 'below the hooves of history' to use Raphael Samuel's memorable phrase. Therefore, I also welcome the references contained in the strategy to the heritage cottage in Cwmdare in my constituency. I am delighted that the Minister was able to visit the cottage some months ago. Having been involved in the discussions to help maintain this property, I was delighted when Cadw made the decision to take it on, as the interior structure is basically unaltered since it was built in 1854.

wneud nifer o bwyntiau. Fel y noda'r Gweinidog, mae ein hamgylchedd hanesyddol yn ein galluogi i archwilio a gwerthfawrogi rhyfeddodau y cyffredin yn ein gorffennol i'n helpu i adennill yr arwyr a'r arwresau *'[from] under the hooves of history'* i ddefnyddio ymadrodd cofiadwy Raphael Samuel. Felly, rwyf hefyd yn croesawu'r cyfeiriadau a geir yn y strategaeth at y bwthyn treftadaeth yng Nghwmdâr yn fy etholaeth. Rwy'n falch iawn bod y Gweinidog wedi gallu ymweld â'r bwthyn rai misoedd yn ôl. Ar ôl bod yn rhan o'r trafodaethau i helpu i gynnal yr eiddo hwn, roeddwn wrth fy modd pan benderfynodd Cadw ymgymryd â'r gwaith gan fod strwythur mewnol yn y bôn heb ei newid ers ei adeiladu ym 1854.

Exploring the heritage of this time capsule cottage will give us a greater understanding of the industrial history of the south Wales Valleys at a time when king coal allowed Valleys communities to play a key role in the world economy. I hope that the heritage cottage will also allow us to develop a deeper appreciation of the domestic sphere of working class communities and the role of women in particular. Angela John suggests that the history of Welsh women has been rendered inconspicuous among more dominant themes that focus on paid work, political and religious nonconformity, rugby and male-voice choirs, despite, as Dot Jones points out, the fact that mortality rates of women in the home were greater than those of men in the pit at the turn of the twentieth century in places like the Rhondda valleys. Hopefully, Minister, we can work to rectify this omission.

Bydd Archwilio treftadaeth y bwthyn capsiwl amser hwn yn rhoi mwy o ddealltwriaeth i ni o hanes diwydiannol Cymoedd de Cymru ar adeg pan oedd y brenin glo yn caniatáu i gymunedau'r Cymoedd chwarae rôl allweddol yn economi'r byd. Rwy'n gobeithio y bydd y bwthyn treftadaeth hefyd yn ein galluogi i ddatblygu gwerthfawrogiad dyfnach o gylch domestig cymunedau dosbarth gweithiol a rôl menywod yn arbennig. Mae Angela John yn awgrymu bod hanes merched Cymru wedi cael ei wneud yn ddisylw ymhlith themâu mwy amlwg sy'n canolbwyntio ar waith cyflogedig, anghydffurfiaeth wleidyddol a chrefyddol, rygbi a chorau meibion, er gwaethaf, fel y Dot Jones yn nodi, y ffaith bod cyfraddau marwolaethau menywod yn y cartref yn fwy na rhai dynion yn y pwll ar droad yr ugeinfed ganrif mewn llefydd fel cymoedd y Rhondda. Gobeithio, Weinidog, y gallwn weithio i gywiro diffyg hwn.

My other point is that focusing on our heritage offers us a number of economic opportunities. I am thinking in particular of the potential of heritage-related skills and apprenticeships and the role of heritage tourism. I welcome the recent statement from the Minister for business on faith tourism. Of course, the strategy refers to working collaboratively with a range of partners, but I would be keen, Minister, for more information on how you will work with our partners in the academic sector who have established global reputations, which can be

Fy mhwynt arall yw bod canolbwyntio ar ein treftadaeth yn cynnig nifer o gyfleoedd economaidd i ni. Rwyf yn meddwl yn arbennig am botensial sgiliau sy'n gysylltiedig â threftadaeth a phrentisiaethau a rôl twristiaeth treftadaeth. Croesawaf y datganiad diweddar gan y Gweinidog ar gyfer busnes ar dwristiaeth ffydd. Wrth gwrs, mae'r strategaeth yn cyfeirio at weithio ar y cyd gydag amrywiaeth o bartneriaid, ond byddwn yn awyddus, Weinidog, am fwy o wybodaeth am sut y byddwch yn gweithio gyda'n partneriaid yn y sector academaidd

used to further raise the profile of Wales. I note Alun Ffred Jones's comments about raising the profile of Wales internationally. For this point, I am thinking of Swansea University's Professor Chris Williams who is, I understand, currently promoting Wales in the US through his work on Richard Burton's diaries. I think that this development will enhance the campaign to get a star for Richard Burton on the Hollywood walk of fame. I think that all this will help to raise the profile of Wales abroad.

sydd wedi sefydlu enw da byd-eang, y gellir ei ddefnyddio i hyrwyddo codi proffil Cymru. Nodaf sylwadau Alun Ffred Jones am godi proffil Cymru yn rhyngwladol. Ynghylch y pwynt hwn, rwyf yn meddwl am Yr Athro Chris Williams o Brifysgol Abertawe sydd, rwy'n deall, ar hyn o bryd yn hyrwyddo Cymru yn yr Unol Daleithiau drwy ei waith ar ddyddiaduron Richard Burton. Credaf y bydd y datblygiad hwn yn gwella'r ymgyrch i gael seren ar gyfer Richard Burton ar lwybr enwogrwydd Hollywood. Credaf y bydd yr hyn i gyd yn helpu i godi proffil Cymru dramor.

Finally, I also welcome the recognition of the role of other organisations. Yesterday, it was really good for the Minister for health to open the new hospital in the Cynon valley, Ysbyty Cwm Cynon. I know that the new, state-of-the-art hospital has incorporated aspects of the heritage of the health services that have served the Cynon valley so well over the years and now we are bringing that forward into this new facility. I would also like to praise the holistic approach taken by Rhondda Cynon Taf County Borough Council. For example, reflecting the heritage of Aberdare is a key theme in town centre regeneration. I also want to mention the new community primary school in Abercynon, which will be open next September. I visited the site last week and I have been assured that the new building will reflect the well-loved history of the old school and the locality. I think that this will ensure that future generations of local schoolchildren will be able to appreciate and understand their past and it will allow them to use their historic environment to better define their future.

Yn olaf, rwyf hefyd yn croesawu'r gydnabyddiaeth o rôl sefydliadau eraill. Ddoe, roedd yn dda iawn gweld y Gweinidog iechyd yn agor yr ysbyty newydd yng Nghwm Cynon, Ysbyty Cwm Cynon. Gwn fod yr ysbyty newydd, o'r radd flaenaf wedi cynnwys agweddau o dreftadaeth y gwasanaethau iechyd sydd wedi gwasanaethu cwm Cynon mor dda dros y blynyddoedd ac yn awr rydym yn dod â hynny ymlaen i'r cyfleuster newydd. Hoffwn hefyd ganmol y dull cyfannol a gymerwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Er enghraifft, mae adlewyrchu treftadaeth Aberdâr yn thema allweddol wrth adfywio canol y dref. Rwyf hefyd yn awyddus i sôn am yr ysgol gynradd gymunedol newydd yn Abercynon, a fydd ar agor fis Medi nesaf. Ymwelais â'r safle yr wythnos diwethaf ac rwyf wedi cael sicrwydd y bydd yr adeilad newydd yn adlewyrchu hanes poblogaidd yr hen ysgol a'r ardal leol. Credaf y bydd hyn yn sicrhau y bydd cenedlaethau'r dyfodol o blant ysgolion lleol yn gallu gwerthfawrogi a deall eu gorffennol a bydd yn eu galluogi i ddefnyddio eu hamgylchedd hanesyddol i ddiffinio eu dyfodol yn well.

**Janet Finch-Saunders:** I very much welcome this strategy. The historic environment in Wales should be a great source of pride and potential for us all. I agree with many of the contributions, but in particular with Mick Antoniw AM and the reference that he made to how proud we should be of our historic environment and our ancient monuments and buildings. I also agreed with Alun Ffred Jones when he mentioned our amazing historical castles and the emphasis that he placed on historical

**Janet Finch-Saunders:** Rwy'n croesawu'r strategaeth hon. Dylai'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru fod yn ffynhonnell wych o falchder a photensial i ni i gyd. Rwy'n cytuno â llawer o'r cyfraniadau, ond yn arbennig gyda Mick Antoniw AC a'r cyfeiriad a wnaeth at ba mor falch y dylem fod o'n hamgylchedd hanesyddol a'n henebion a'n hadeiladau hynafol. Rwyf hefyd yn cytuno ag Alun Ffred Jones pan soniodd am ein cestyll hanesyddol rhyfeddol a'r pwyslais a roddir ar dwristiaeth hanesyddol.

tourism. At present, the historic environment sector supports over 30,000 jobs, contributes around £1 billion in output and accounts for £840 million of Wales's national gross value added. The figures suggest that there are just under 30,000 listed buildings in Wales—I do have some concerns regarding the conservation areas and listing—with 528 conservation areas. For those of you who are not aware, there have been some recent controversies in my own constituency in the media regarding conservation areas, which have thrown into light some problems with regard to the listing regime and conservation in more general terms. I would be grateful if the Minister could outline whether he will be addressing the points that he made earlier around an acknowledgement of the inconsistency and lack of transparency when it comes to issues such as hearings and concerns regarding these issues.

Ar hyn o bryd, mae'r sector amgylchedd hanesyddol yn cefnogi dros 30,000 o swyddi, yn cyfrannu tua £1 biliwn mewn allbwn ac mae'n cyfrif am £840 miliwn o werth ychwanegol crynswth cenedlaethol Cymru. Mae'r ffigurau'n awgrymu bod ychydig o dan 30,000 o adeiladau rhestredig yng Nghymru—mae gennyf rai pryderon ynghylch y meysydd cadwraeth a rhestru—gyda 528 o ardaloedd cadwraeth. I'r rhai ohonoch nad ydynt yn ymwybodol, cafwyd rhai dadleuon diweddar yn fy etholaeth fy hun yn y cyfryngau o ran ardaloedd cadwraeth, sydd wedi amlygu rhai problemau o ran y gyfundrefn restru a chadwraeth mewn termau mwy cyffredinol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog amlinellu a fydd yn mynd i'r afael â'r pwyntiau a wnaeth yn gynharach ynghylch cydnabyddiaeth o anghysondeb a diffyg tryloywder pan ddaw i faterion megis gwrandawiadau a phryderon ynghylch y materion hyn.

6.15 p.m.

Amendment 5 recognises the valuable role played by the public, private and third sectors in protecting and promoting our historic environment and, again, I have some minor concerns about whether the strategy fully recognises the invaluable role played by the private and third sectors in promoting the historic environment in Wales. There are over 500 societies and voluntary organisations in Wales with a keen interest in the history and heritage aspects of our country. A good example is the National Trust under the direction of Justin Albert, who is breathing new life into Europe's largest conservation body, while placing a new emphasis on the uniquely Welsh dimensions of many activities. I was recently privileged to see, along with Antoinette Sandbach AM, the excellent work of the National Trust and CAIS in relation to the intermediate labour market initiative at first hand. That was a really good example of true partnership working at its best. If the Welsh Government strategy is to work in an age of declining public resources, it must embrace the work of all sectors in the most comprehensive and innovative manner.

Mae gwelliant 5 yn cydnabod y rôl werthfawr a chwaraeir gan y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector wrth ddiogelu a hyrwyddo ein hamgylchedd hanesyddol ac, unwaith eto, mae gennyf rai pryderon bach ynghylch a yw'r strategaeth yn cydnabod yn llawn y rôl amhrisiadwy a chwaraeir gan y sector preifat a'r trydydd sector o ran hyrwyddo amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Mae dros 500 o gymdeithasau a mudiadau gwirfoddol yng Nghymru sydd â diddordeb brwd mewn agweddau hanes a threftadaeth ein gwlad. Enghraifft dda yw'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol dan gyfarwyddyd Justin Albert, sydd yn adfywio corff cadwraeth mwyaf Ewrop, tra'n rhoi pwyslais newydd ar ddimensiynau unigryw Gymreig llawer o weithgareddau. Cefais y fraint yn ddiweddar o weld, ynghyd ag Antoinette Sandbach AC, gwaith ardderchog yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a CAIS mewn perthynas â'r fenter farchnad lafur ganolradd â'm llygaid fy hun. Roedd hynny'n enghraifft dda iawn o weithio mewn partneriaeth gwirioneddol ar ei orau. Os yw strategaeth Llywodraeth Cymru i weithio mewn oes o adnoddau cyhoeddus yn dirywio, rhaid iddo gynnwys gwaith yr holl sectorau yn y modd mwyaf cynhwysfawr ac arloesol.

Amendment 6

'Calls on the Minister to recognise that the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales can best assist the Welsh Government with its strategy by remaining independent.'

I and my Welsh Conservative colleagues have grave concerns regarding the Minister's suggestion of overhauling the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales in a way that potentially threatens its independent status. Concerns have been raised as to the lack of a business case or of any real risk assessment on this. It is much too important an issue to look at on an ad-hoc basis. The royal commission provides an archiving and academic service and has been in existence for some 104 years. It is really important to the people of Wales, and it is not clear that steps to save money on overheads through its incorporation with a larger body would provide true value for money for the taxpayer. It is clear that the royal commission's arm's-length status enables it to operate freely, in a more structured manner and to the highest professional standards.

Gwelliant 6

Yn galw ar y Gweinidog i gydnabod y gall y Comisiwn Brenhinol ar Henebion Cymru gynorthwyo Llywodraeth Cymru orau yn ei strategaeth drwy aros yn annibynnol.'

Mae gennyf i a fy nghydweithwyr yng Ngheidwadwyr Cymru bryderon difrifol ynghylch awgrym y Gweinidog i atgyweirio Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru mewn ffordd a allai fygwth ei statws annibynnol. Mynegwyd pryderon ynghylch y diffyg achos busnes neu unrhyw asesiad risg go iawn ar hyn. Mae'n fater llawer rhy bwysig i edrych arno ar sail ad-hoc. Mae'r comisiwn brenhinol yn darparu gwasanaeth archifo ac academaidd ac mae wedi bod mewn bodolaeth am tua 104 mlynedd. Mae'n bwysig iawn i bobl Cymru, ac nid yw'n glir bod camau i arbed arian ar orbenion trwy ei ymgorffori gyda chorff mwy o faint yn darparu gwir werth am arian i'r trethdalwr. Mae'n amlwg bod statws hyd braich y comisiwn brenhinol yn ei alluogi i weithredu yn rhydd, mewn ffordd fwy strwythuredig ac i'r safonau proffesiynol uchaf.

Amendment 7

'Calls on the Minister to consider the advantages and disadvantages of CADW becoming more independent of the Welsh Government.'

Cadw is undoubtedly an asset to the historic environment in Wales that performs a vital public function, and we are not taking anything away from that, but concerns need to be raised about the prioritisation of Cadw above all other bodies and all other custodians of the historic environment in Wales. Our vision and our ambitions for the historic environment in Wales cannot begin and end with Cadw. I know that I am not alone in that view. There is no substitute for a plural historic environment sector that encompasses amateur enthusiasts, expert academics, volunteers and entrepreneurs. I urge the Welsh Government to give full consideration to the advantages and disadvantages of Cadw before it becomes independent of the Government.

Gwelliant 7

Yn galw ar y Gweinidog i ystyried manteision ac anfanteision CADW yn dod yn fwy annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Mae Cadw yn ddi-os yn ased i'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus hanfodol, ac nid ydym yn tynnu dim oddi wrth hynny, ond mae angen codi pryderon am flaenoriaethu Cadw yn anad pob corff arall a phob ceidwad arall ar yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Ni all ein gweledigaeth a'n huchelgeisiau ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru ddechrau a gorffen gyda Cadw. Rwy'n gwybod nad fi yw'r unig un sy'n credu hynny. Nid oes dim all gymryd lle sector amgylchedd hanesyddol lluosog sy'n cwmpasu selogion amatur, academyddion arbenigol, gwirfoddolwyr ac entrepreneuriaid. Rwyf yn annog Llywodraeth Cymru i roi ystyriaeth lawn i fanteision ac anfanteision Cadw cyn iddo

ddod yn annibynnol ar y Llywodraeth.

I am pleased to have contributed to this debate. In Wales, we have the opportunity to take the resources of the past while making them deliver for our future. Our castles, ancient monuments and historic buildings are our true national treasures and have an immense potential to be of great benefit to our communities, even today, in the twenty-first century—

Rwy’n falch o fod wedi cyfrannu at y ddadl hon. Yng Nghymru, mae gennym y cyfle i gymryd adnoddau’r gorffennol wrth wneud iddynt gyflawni ar gyfer ein dyfodol. Ein cestyll, ein henebion a’n hadeiladau hanesyddol yw ein trysorau cenedlaethol yn wir ac mae ganddynt botensial enfawr i fod o fudd mawr i’n cymunedau, hyd yn oed heddiw, yn y unfed ganrif ar hugain—

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** Order. I have to stop you there, Janet.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Trefn. Rhaid i mi eich stopio chi yn awr, Janet.

**The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis):** I thank Assembly Members for their comments and suggestions on how to develop this agenda. It is useful to have those thoughts on record in Plenary today to help inform the development of the action plan and the implementation of this strategy. Peter Black, rather pessimistically, I think, referred to this sector as being one that manages decline; I hope that I am not quoting him out of context too much. He is, perhaps, right to say that there is an atmosphere that needs to be_corrected around this agenda. For instance, there is the nervousness of local authorities around built heritage, in particular. Replacing the idea that the built heritage of Wales can be more of a liability than an asset with the confidence to take on challenges is a key part of this agenda.

**Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis):** Diolch i Aelodau’r Cynulliad am eu sylwadau ac awgrymiadau ar sut i ddatblygu’r agenda hon. Mae’n ddefnyddiol cael y syniadau hynny ar gofnod yn y Cyfarfod Llawn heddiw i helpu i lywio datblygiad y cynllun gweithredu a gweithrediad y strategaeth. Roedd Peter Black, braidd yn besimistaidd, rwy’n meddwl, yn cyfeirio at y sector fel un sy’n rheoli dirywiad; gobeithio nad wyf yn ei ddyfynnu ef ormod allan o’r cyd-destun. Mae ef, efallai, yn iawn i ddweud bod awyrgylch y mae angen ei chywiro ynghylch yr agenda hon. Er enghraifft, ceir nerfusrwydd yr awdurdodau lleol ynghylch treftadaeth adeiledig, yn arbennig. Mae disodli’r syniad y gall treftadaeth adeiledig Cymru fod yn fwy o fwrn nag o ased gyda’r hyder i ymgymryd â heriau yn rhan allweddol o’r agenda hon.

I will address two items. There is specific mention in the strategy of the needs and opportunities that we must face up to, in terms of Wales’s chapels. We will have more announcements to make along those lines later in this Assembly. I also draw Peter’s attention to the suggestion that we set up an all-Wales buildings preservation trust, so that there is a robust third-sector arm in every Welsh community that is ready—resources allowing—to step in and make the case, both in terms of the argument and the financial packages that such built heritage needs.

Byddaf yn rhoi sylw i ddwy eitem. Mae sôn yn benodol yn y strategaeth am anghenion a chyfleoedd y mae’n rhaid inni ei hwynebu, o ran capeli Cymru. Bydd gennym fwy o gyhoeddiadau i wneud i’r cyfeiriad hwnnw yn nes ymlaen yn y Cynulliad hwn. Rwyf hefyd yn tynnu sylw Peter at yr awgrym y dylem sefydlu ymddiriedolaeth cadw adeiladau Cymru gyfan, fel bod braich trydydd sector gadarn ym mhob cymuned yng Nghymru sy’n barod—os yw adnoddau’n caniatáu—i gamu i mewn a datgan yr achos, o ran y ddadl a’r pecynnau ariannol sydd eu hangen ar dreftadaeth adeiledig o’r fath.

Several Welsh Conservative Members, as well as Peter Black, have raised the issue of the Royal Commission on the Ancient and

Mae nifer o Aelodau'r Ceidwadwyr Cymreig, yn ogystal â Peter Black, wedi codi mater Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, a

Historical Monuments of Wales, and the status of Cadw alongside it. Regarding Cadw, we have already had experience of it as an executive agency. Therefore, a more independent structure, as it has been termed here this afternoon, has already been tried. In 2003, a review of the historic environment in Wales called for a champion for the sector and a strategy for the historic environment. Since Cadw became a division of the Welsh Government, I believe that it has had an enviable and exemplary record. In terms of the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales, no decision has been made, and I certainly do not want to pre-empt the advice that I will receive from my working group, which is looking into the future of the royal commission. This is not the time for a full-scale debate on this issue, although it is worth reminding Members that the royal commission is a Welsh Government sponsored body. Therefore, in that sense, it is not an independent organisation, as such. For those reasons, I urge Members to reject amendments 6 and 7.

statws Cadw ochr yn ochr ag o. O ran Cadw, rydym eisoes wedi cael profiad ohono fel asiantaeth weithredol. Felly, rydym eisoes wedi rhoi cynnig ar strwythur mwy annibynnol, fel y galwyd ef yma y prynhawn yma. Yn 2003, cynhaliwyd adolygiad o'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru yn galw am hyrwyddwr ar gyfer y sector a strategaeth ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Ers i Cadw ddod yn is-adran o Lywodraeth Cymru, rwyf yn credu ei fod wedi cael enw da rhagorol a chanmoladwy. O ran Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, nid oes penderfyniad wedi ei wneud, ac yn sicr nid wyf yn dymuno achub y blaen ar y cyngor y byddaf yn ei gael gan fy ngweithgor, sy'n edrych ar ddyfodol y comisiwn brenhinol. Nid dyma'r amser ar gyfer dadl lawn ar y mater hwn, er ei fod yn werth atgoffa'r Aelodau bod y comisiwn brenhinol yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Felly, yn hynny o beth, nid yw'n sefydliad annibynnol, fel y cyfryw. Am y rhesymau hynny, anogaf yr Aelodau i wrthod gwelliannau 6 a 7.

Mick Antoniw was quite correct to point to the underlying spirit beneath the document that is being published today. He has put his finger right on it. This is about the integration of this agenda with the needs and potential of the communities within which such precious pieces of heritage are embedded. These needs and potential are both economic and educational. Alun Ffred Jones was quite right to value the skills and economic aspects of this agenda. If time allowed, I would love to expand upon that. However, this will be an emerging agenda that I hope Members will take great interest in, and one that will ensure that Wales's communities can do well by the heritage with which they are blessed.

Roedd Mick Antoniw yn eithaf cywir i dynnu sylw at yr ysbryd sylfaenol o dan y ddogfen sy'n cael ei chyhoeddi heddiw. Mae wedi rhoi ei fys arno. Mae hyn yn ymwneud ag integreiddio'r agenda hon ag anghenion a photensial y cymunedau lle mae darnau gwerthfawr o'r fath o dreftadaeth wedi eu sefydlu. Mae'r anghenion a'r potensial yn economaidd ac yn addysgol. Roedd Alun Ffred Jones yn iawn i werthfawrogi sgiliau ac agweddau economaidd yr agenda hon. Pe byddai amser yn caniatáu, byddwn wrth fy modd yn ymhelaethu ar hynny. Fodd bynnag, bydd hon yn agenda sy'n datblygu yr wyf yn gobeithio y bydd Aelodau yn cymryd diddordeb mawr ynddi, ac yn un a fydd yn sicrhau y gall cymunedau Cymru drin yn dda y dreftadaeth y bendithiwyd nhw â hi.

Chris Chapman is also right to recognise that there is a shift in emphasis here towards a new recognition and valuing of people's heritage. Heritage cottage is just one small example of this. Beyond this strategy, I hope to recognise much more fully—in terms of my portfolio working—the social history of Wales's people: Wales's women, of course, the people's movements that were driven, often as an example to the world, by Welsh

Mae Chris Chapman yn iawn hefyd i gydnabod bod newid yn y pwyslais yma tuag at gydnabyddiaeth newydd a gwerthfawrogi treftadaeth pobl. Mae bwthyn treftadaeth yn un enghraifft fach o hyn. Y tu hwnt i'r strategaeth hon, rwy'n gobeithio cydnabod yn llawer llawnach—o ran fy ngwaith mhortffolio—hanes cymdeithasol pobl Cymru: merched Cymru, wrth gwrs, mudiadau pobl a gafodd eu sbarduno, yn aml

people, the trade unions, the chapels and non-conformism, the Chartist movements, and so on. Where, exactly, do we tell the story of the movements of the people of Wales and their struggles over time? It is difficult to put your finger on exactly where that story is showcased. That is an element of our working that needs correction. In summary, I strongly believe that this approach, as outlined here today, provides the best opportunity of preserving our heritage for the future. The days are gone whereby we might want to keep these sites for a privileged few or just for dedicated enthusiasts. Indeed, if they are to survive, we need to understand their value and care about their future, across all of our communities. If people are going to care about heritage, they need to have positive, relevant and contemporary experiences and, of course, the opportunity to be involved in charting the future for our past.

fel enghraifft i'r byd, gan bobl Cymru, yr undebau llafur, y capeli ac anghydffurfiaeth, mudiadau'r Siartwyr, ac yn y blaen. Lle, yn union, ydyn ni'n adrodd y stori o fudiadau pobl Cymru a'u brwydrau dros gyfnod o amser? Mae'n anodd rhoi eich bys ar ble yn union y mae'r stori honno'n cael ei harddangos. Mae hynny'n elfen o'n gwaith sydd angen ei chywiro. I grynhoi, credaf yn gryf fod y dull hwn, fel yr amlinellir yma heddiw, yn darparu'r cyfle gorau i warchod ein treftadaeth ar gyfer y dyfodol. Mae'r dyddiau hynny wedi mynd lle y byddem efallai am gadw'r safleoedd hyn ar gyfer ychydig breintiedig neu ar gyfer selogion ymroddedig yn unig. Yn wir, os ydynt i oroesi, mae angen i ni ddeall eu gwerth a gofalu am eu dyfodol, ar draws ein holl gymunedau. Os yw pobl yn mynd i ofalu am dreftadaeth, mae angen iddynt gael profiadau cadarnhaol, perthnasol a chyfoes ac, wrth gwrs, y cyfle i gymryd rhan mewn olrhain y dyfodol ar gyfer ein gorffennol.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36, felly, caiff gwelliant 1 ei dderbyn.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 1 be agreed. Is there any objection? I see that there is none. In accordance with Standing Order No. 12.36, therefore, amendment 1 is agreed.

*Derbyniwyd gwelliant 1.*
*Amendment 1 agreed.*

*Tynnwyd gwelliant 2 yn ôl.*
*Amendment 2 withdrawn.*

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 3. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36, felly, caiff gwelliant 3 ei dderbyn.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 3 be agreed. Is there any objection? I see that there is none. In accordance with Standing Order No. 12.36, therefore, amendment 3 is agreed.

*Derbyniwyd gwelliant 3.*
*Amendment 3 agreed.*

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 4. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36, felly, caiff gwelliant 4 ei dderbyn.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 4 be agreed. Is there any objection? I see that there is none. In accordance with Standing Order No. 12.36, therefore, amendment 4 is agreed.

*Derbyniwyd gwelliant 4.*
*Amendment 4 agreed.*

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Y cwestiwn

**The Temporary Deputy Presiding Officer:**

yw a ddylid derbyn gwelliant 5. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36, felly, caiff gwelliant 5 ei dderbyn.

The question is that amendment 5 be agreed. Is there any objection? I see that there is none. In accordance with Standing Order No. 12.36, therefore, amendment 5 is agreed.

*Derbyniwyd gwelliant 5.*
*Amendment 5 agreed.*

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 6. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, gohiriaf bob pleidlais arall ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio. Cytunwyd y dylid cynnal y cyfnod pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Oni bai bod tri Aelod yn dymuno imi ganu’r gloch, symudwn yn syth at y cyfnod pleidleisio.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 6 be agreed. Is there any objection? I see that there is. Therefore, I defer all other votes on this item until voting time. It has been agreed that voting time will take place after the last item of business. Unless three Members wish me to ring the bell, we will move straight to voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Cyfnod Pleidleisio
## Voting Time

*Cynnig NDM5071: O blaid 39, Ymatal 0, Yn erbyn 13.*
*Motion NDM5071: For 39, Abstain 0, Against 13.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

*Gwelliant 6 i NDM5069: O blaid 18, Ymatal 6, Yn erbyn 27.*
*Amendment to NDM5069: For 18, Abstain 6, Against 27.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Davies, Jocelyn
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Gruffydd, Llyr Huws
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Thomas, Simon

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 7 i NDM5069: O blaid 19, Ymatal 0, Yn erbyn 33.*
*Amendment 7 to NDM5069: For 19, Abstain 0, Against 33.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Jones, Elin
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

6.30 p.m.

Cynnig NDM5069 fel y'i diwygiwyd:

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:*

*1. Nodi y gall hyrwyddo a rheoli ein hamgylchedd hanesyddol yn ofalus roi hwb pwysig i economi Cymru.*

*2. Nodi Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol Cymru, sy'n gwireddu ymrwymiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2012 ac sy'n nodi dyheadau Llywodraeth Cymru o dan y Rhaglen Lywodraethu i ddarparu amgylchedd hanesyddol yng Nghymru sydd ar gael i'w fwynhau yn awr a chan genedlaethau'r dyfodol ac sy'n cael ei ddiogelu'n dda.*

*3. Galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi Cynlluniau Gweithredu unigol yn cynnwys y*

Motion NDM5069 as amended:

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Notes that the careful management and promotion of our historic environment can provide an important stimulus for the Welsh economy.*

*2. Notes the Historic Environment Strategy for Wales, which honours a commitment made by the Welsh Government in January 2012 and sets out Welsh Government aspirations under the Programme for Government to provide an accessible, enjoyable and well protected historic environment now and for future generations in Wales.*

*3. Calls on the Welsh Government to publish each constituent Action Plan with success*

*mesurau o lwyddiant cyn gynted â phosibl.*

*4. Galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu diweddariad blynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Prif Gynllun Gweithredu.*

*5. Cydnabod rôl werthfawr y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector wrth warchod a hyrwyddo ein hamgylchedd hanesyddol.*

*measures at the earliest opportunity.*

*4. Calls on the Welsh Government to provide the National Assembly for Wales with an annual update on the Headline Action Plan.*

*5. Recognises the valuable role played by the public, private and third sector in protecting and promoting our historic environment.*

*Cynnig NDM5069 fel y'i diwygiwyd: O blaid 39, Ymatal 0, Yn erbyn 13.*
*Motion NDM5069 as amended: For 39, Abstain 0, Against 13.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Gruffydd, Llyr Huws
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

*Derbyniwyd cynnig NDM5069 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM5069 as amended agreed.*

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Dyna

**The Temporary Deputy Presiding Officer:**

ddiwedd y trafodion am heddiw.

That is the end of today's proceedings.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.30 p.m.*
*The meeting ended at 6.30 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru Annibynnol – Independent Plaid Cymru)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)

Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)